

Agenda – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd Fay Bowen
Dyddiad: Dydd Llun, 6 Mawrth 2017 Clerc y Pwyllgor
Amser: 13.45 0300 200 6565
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(14.00)

2 Papur(au) i'w nodi

(14.00 – 14.05)

(Tudalennau 1 – 4)

Dull strategol cynghorau o gynhyrchu incwm greu incwm a chodi tâl: Gwybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (21 Chwefror 2017)

(Tudalennau 5 – 8)

Dull strategol cynghorau o gynhyrchu incwm greu incwm a chodi tâl: Gwybodaeth ychwanegol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (21 Chwefror 2017)

(Tudalennau 9 – 14)

Dull strategol cynghorau o gynhyrchu incwm greu incwm a chodi tâl: Gwybodaeth ychwanegol gan Gyngor Dinas Caerdydd (Chwefror 2017)

(Tudalennau 15 – 18)

3 Rheoli meddyginiaethau: Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth

Cymru

(14.05 – 15.15)

(Tudalennau 19 – 36)

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

PAC(5)–08–17 Papur 1 – Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Archwilydd

Cyffredinol Cymru ar reoli meddyginiaethau ym meysydd gofal sylfaenol ac eilaidd

Dr Andrew Goodall – Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Weithredwr GIG Cymru

Andrew Evans – Prif Swyddog Fferyllol, Llywodraeth Cymru

Jean White – Prif Swyddog Nyrsio, Llywodraeth Cymru

Alan Brace – Cyfarwyddwr Cyllid, Llywodraeth Cymru



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru National
Assembly for
Wales

- 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:**
(15.15)

Eitemau 5, 6, 7, 8, 9 a 10

(15.15 – 15.25 – Egwyl)

- 5 Rheoli meddyginiaethau: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law**
(15:25 – 15:35)
- 6 Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru: Trafod yr adroddiad drafft**
(15.35 – 16.00) (Tudalennau 37 – 62)

PAC(5)-08-17 Papur 2 – Adroddiad drafft

- 7 Cyfrifon Cyhoeddus Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2015–16: Y wybodaeth ddiweddaraf gan Archwilydd Cyffredinol Cymru**
(16.00 – 16.15)
- 8 Cyllid Awdurdodau Lleol ar gyfer Gwasanaethau Trydydd Sector: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru**
(16.15 – 16.30) (Tudalennau 63 – 152)

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

PAC(5)-08-17 Papur 3 – Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

PAC(5)-08-17 Papur 4 – Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

**9 Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol mewn Cyngorau Cymuned
2015–16: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru**

(16.30 – 16.45)

(Tudalennau 153 – 200)

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

PAC(5)–08–17 Papur 5 – Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

**10 Yr Heriau Llywodraethu sy'n cael eu Peri gan Wasanaethau a
Ddarperir yn Anuniongyrchol, ac a Ariennir gan y Cyhoedd yng
Nghymru: Papur Trafod Archwilydd Cyffredinol Cymru**

(16.45 – 17.00)

(Tudalennau 201 – 250)

PAC(5)–8–17 Papur 6 – Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru at Gadeirydd y
Pwyllgor (14 Chwefror 2017)

PAC(5)–8–17 Papur 7 – Papur Trafod Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd

<http://senedd.tv/cy/3912>

Dyddiad: Dydd Llun, 27 Chwefror 2017

Amser: 13.15 – 16.23

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Nick Ramsay AC (Cadeirydd) Mohammad Asghar (Oscar) AC Neil Hamilton AC Mike Hedges AC Neil McEvoy AC Rhianon Passmore AC Lee Waters AC
Tystion:	Nicola Evans, Cartrefi Cymoedd Merthyr Steve Jones, Tai Ceredigion Derek Lassetter, Tai Ceredigion Michael Owen, Cartrefi Cymoedd Merthyr Helen White, y Bwrdd Rheoleiddio ar gyfer Cymru Mike Wiseman, Panel Ymgynghorol Tenantiaid
Swyddfa Archwilio Cymru:	Huw Vaughan Thomas – Archwilydd Cyffredinol Cymru Nick Selwyn – Swyddfa Archwilio Cymru Gabrielle Smith – Swyddfa Archwilio Cymru
Staff y Pwyllgor:	



	Fay Bowen (Clerc) Meriel Singleton (Ail Clerc) Claire Griffiths (Dirprwy Clerc) Jonathan Baxter (Ymchwilydd) Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol)
--	---

Trawsgrifiad

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 999KB) Gweld fel HTML (999KB)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

- 1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor i'r cyfarfod.
- 1.2 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.
- 1.3 Gwnaeth y Cadeirydd ddatganiad i egluro pwynt ar gyfer y cofnod, o gwestiwn a gyfeiriwyd at bobl yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 13 Chwefror.

2 Papurau i'w nodi

- 2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.1 Ymchwiliad i drefn reoleiddio Cymdeithasau Tai: Cywiriad gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

3 Craffu ar Gyfrifon 2015–16: Ymatebion i Adroddiad y Pwyllgor

- 3.1 Nododd y Pwyllgor yr ymateb i'w adroddiad ar Graffu ar Gyfrifon 2015–16 a chytunwyd i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am weithredu gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2017.

4 Ymchwiliad i oruchwyliaeth reoleiddiol ar Gymdeithasau Tai: Sesiwn dystiolaeth 9

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Helen White, Cadeirydd, Bwrdd Rheoleiddiol Cymru a Mike Wiseman, Cyn Gadeirydd, y Panel Cyngori Tenantiaid ac aelod o'r Grŵp Cyngori ar Reoleiddio a'r Grŵp *Making it Happen*, fel rhan o'i ymchwiliad i drefn reoleiddio Cymdeithasau Tai Cymru.

5 Ymchwiliad i oruchwyliaeth reoleiddiol ar Gymdeithasau Tai: Sesiwn dystiolaeth 10

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Steve Jones, Prif Weithredwr a Derek Lassetter, Cadeirydd Tai Ceredigion, fel rhan o'i ymchwiliad i drefn reoleiddio Cymdeithasau Tai.

6 Ymchwiliad i oruchwyliaeth reoleiddiol ar Gymdeithasau Tai: Sesiwn dystiolaeth 11

6.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Michael Owen, Prif Weithredwr a Nicola Evans, Cadeirydd Cartrefi Cymoedd Merthyr, fel rhan o'i ymchwiliad i drefn reoleiddio Cymdeithasau Tai Cymru.

7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

7.1 Derbyniwyd y cynnig.

8 Ymchwiliad i oruchwyliaeth reoleiddiol ar Gymdeithasau Tai: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

8.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

9 Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai: Trafod yr adroddiad drafft

9.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod yr adroddiad drafft, a chytunodd arno yn amodol ar fân newidiadau.



Nick Ramsay AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

21 Chwefror 2017

Annwyl Mr Ramsay,

DULL STRATEGOL CYNGHORAU O GYNHYRCHU INCWM A CHODI TÂL

Roeddwn yn bresennol yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 6 Chwefror i roi tystiolaeth ar "ddull strategol cyngorau o gynhyrchu incwm a chodi tâl".

Cytunais i ddarparu enghreifftiau o sefyllfaoedd yn Lloegr lle mae awdurdodau lleol wedi mabwysiadu dull newydd o greu cwmnïau masnachu i gynhyrchu incwm.

Mae'r atodiad i'r llythyr hwn yn cynnwys rhai enghreifftiau.

Efallai y bydd aelodau'r Pwyllgor hefyd yn dymuno nodi'r adroddiadau gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol sy'n cynnwys enghreifftiau o'r ffyrdd y mae awdurdodau yn Lloegr yn defnyddio'r pŵer cymhwysedd cyffredinol i adeiladu ar yr arloesi sydd eisoes yn digwydd yn eu hardaloedd, a'i ymestyn. Mae'r adroddiadau ar gael yn:

http://www.local.gov.uk/c/document_library/get_file?uuid=83fe251c-d96e-44e0-ab41-224bb0cdcf0e&groupId=10180

http://www.local.gov.uk/c/document_library/get_file?uuid=f5a54dc8-6fb5-4790-9c40-b4cdbeee98e2&groupId=10180



BUDDSODDWYR | **INVESTORS**
MEWN POBL | **IN PEOPLE**

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ


Ffôn • Tel 029 2082 5913
reg.kilpatrick@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gobeithio bod yr wybodaeth hon o ddefnydd i'r Pwyllgor.

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'Reg Kilpatrick', written in a cursive style.

REG KILPATRICK

Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol /
Director for Local Government

Enghreifftiau o gwmnïau masnachu a sefydlwyd gan awdurdodau lleol yn Lloegr

Mae cwmni masnachu llywodraeth leol (LATC) yn gorff sy'n rhydd i weithredu fel cwmni masnachol ond mae'n parhau i fod yn eiddo'n gyfan-gwbl i'r awdurdod lleol.

Isod, ceir enghreifftiau o LATCs a sefydlwyd gan awdurdodau lleol yn Lloegr. Mae'r rhestr yn seiliedig ar wybodaeth a gyhoeddwyd ac ni fwriadwyd iddi fod yn rhestr gyflawn. Diben yr enghreifftiau yw rhoi syniad o'r meysydd lle darperir y gwasanaethau a'r modelau sydd ar waith yn Lloegr. Un o nodweddion mentrau o'r fath yw eu bod i adlewyrchu anghenion ac amcanion yr awdurdod dan sylw, a fydd yn amrywio o le i le. Mae'n bosibl na fyddai'r arferion da sydd ar waith mewn un ardal yn diwallu anghenion ac amgylchiadau ardal arall.

GOFAL CYMDEITHASOL

Mae **Tricuro** yn LATC gofal cymdeithasol trawsffiniol sy'n eiddo ar y cyd i **gyngorau Dorset, Bournemouth a Poole**. Mae ei wasanaethau'n cynnwys gofal preswyl, gwasanaethau dydd ac arlwy. Mae'n gweithredu ar gyllideb o fwy na £38m ac mae ganddo 1,200 o staff.

Cyngor sir Essex oedd yr awdurdod lleol cyntaf i sefydlu gwasanaeth masnachol yn canolbwyntio ar ofal cymdeithasol, a hynny yn 2009. Mae'r gwasanaeth bellach yn gwmni annibynnol, sef **ECL**. Deëllir ei fod wedi gwneud elw o £3-3.5 miliwn y llynedd, ac ail-fuddsoddwyd yr elw hwnnw yn y gwasanaeth.

Mae **NorseCare** yn ddarparwr cartrefi gofal. Mae'n debyg mai hwn yw'r LATC mwyaf yn Lloegr a bod ei drosiant blynyddol yn fwy na £250 miliwn. **Cyngor sir Norfolk** sy'n berchen arno ac mae'n rhan o Norse Group, sy'n dwyn ynghyd tri chwmni masnachu awdurdod lleol sy'n ymdrin â: rheoli cyfleusterau; gwasanaethau ymgynghori ar ddylunio a rheoli eiddo; a darparu cartrefi gofal preswyl a chynlluniau 'tai â gofal'.

TAI

Mae **Kingstown Works Limited (KWL)** yn LATC sy'n cyflenwi gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio adeiladau i **Gyngor Dinas Hull**. Mae hefyd yn masnachu â chynghorau lleol a chymdeithasau tai eraill. Cafodd ei greu yn 2006 ac mae'n cyflogi 390 o bobl leol.

Sefydlodd **Cyngor Thurrock** gwmni oedd yn eiddo'n gyfan-gwbl iddo, sef **Gloriana Thurrock Ltd**, i adeiladu tua 1,000 o gartrefi newydd dros y pum mlynedd nesaf.

Sefydlwyd **Ermine Street Housing** gan **Gyngor Dosbarth De Swydd Gaergrawnt** yn 2014. Mae'r cwmni bellach yn berchen ar 34 eiddo sy'n werth cyfanswm o £7 miliwn. Mae'n darparu cartrefi i bobl sy'n methu cael tenantiaeth tai fforddiadwy.

Mae **NABCEL** yn gwmni sy'n eiddo'n gyfan-gwbl i **Gyngor Bwrdeistref Nuneaton a Bedworth**. Mae'r cyngor yn prynu eiddo ac yna'n eu prydlesu i NABCEL, sy'n eu gosod ar rent ar gyfraddau'r farchnad.

PRIFFYRDD

Mae **CORMAC** yn gwmni masnachol sy'n eiddo'n gyfan-gwbl i **Gyngor Cernyw**. Mae'r rhan fwyaf o'i waith yn ymwneud â chynnal ac adeiladu priffyrdd. Mae hefyd yn rheoli cwmni cyd-fentro 10 mlynedd sy'n gyfrifol am wasanaethau rheoli priffyrdd a rheoli fflyd ar gyfer Cyngor Swydd Nottingham.

GWASANAETHAU ERAILL

Mae **Solutions Six** yn eiddo'n gyfan-gwbl i **Gyngor Stockport**. Mae'n darparu amrywiaeth eang o wasanaethau, o reoli cyfleusterau (gan gynnwys arlwyo) i reoli gwastraff a phriffyrdd. Fe'i ffurfiwyd yn 2006 ac mae ei drosiant presennol yn £40 miliwn.

Mae gan **Gyngor Swydd Caint** nifer o gwmnïau masnachu, gan gynnwys **KCC Commercial Services Kent Ltd**. Mae'r cwmnïau hyn yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau cyfreithiol, offer swyddfa, glanhau, cymorth swyddfa a chaffael ynni.

Mae **Cyngor Dosbarth Sevenoaks** yn berchen ar fuddsoddiadau sylweddol yn Swanley. Prynwyd yr eiddo, garej a siop hwylus ar y stryd fawr am £2.45 miliwn. Ar hyn o bryd, mae'r eiddo'n cael ei osod i'r Co-operative Group ar brydles 15 mlynedd.

**Public Accounts Committee
PAC(5)-08-17 PTN2 – 6 March 2017**

Additional information from Welsh Local Government Association following evidence session on 6 February 2017

Charging for Services and Generating Income

1. PAC Members asked for additional information on what is being done to generate income across authorities. The following note has been put together by our improvement officer working through professional networks and the good practice database.
2. The commercialisation of services and associated charges will continue to be increasingly important to local authorities as they seek to make services sustainable. This requires a balancing act between maximising income generated, public acceptability and meeting wider social aims.

Waste services: Charging for Garden Waste

Denbighshire

3. Since getting approval to introduce a charge in September 2014, Denbighshire had relatively short time period to introduce the service, key activities were:
 - Communicating with residents – introducing the new service available,
 - Setting up a suitable IT system including payment processing system,
 - Dealing with complaints and setting up suitable processes, and
 - Buy suitable barcode and scanners for the bins.
4. Achievements: 12,500 (30%) properties signed up to the new service initially, by the end of the year this went up to 17,000 (40%) properties. Customers could sign up online (with a discount) or face to face, over the

[Type here]

phone and at One Stop Shops. Denbighshire worked closely with their IT department to ensure a fit for purpose system was in place. A purpose built Database allowed them to capture, address details, collection day, assisted collection info, as well as other collection history. Every bin is issued with a barcode sticker and this is linked to the customer database. The database is also linked to a 'Trackyou' software system that has in-cab technology allowing the crew to monitor and record customer details in real-time. Helping Denbighshire offer their residents a top quality service.

5. Denbighshire's received £409,374 in income in 2015/16 which was just over their target saving of 400k. The net cost of the service is £265,080.

Monmouthshire

6. The authority had a well-established charged garden waste collection service from July 2013. Having an initial charge of £8 per collection of a 90litres hessian reusable sack, by 2016/17 the charge has increased to £14 per sack.
7. Achievements: Residents are issued with a free sack and must pay for the permit that is tagged on to the sack. Monmouthshire reinforced the importance of having an IT system that was fit for purpose. The number of residents signing up to the charged service has increased year on year in Monmouthshire, with households that tend to have larger gardens purchasing an increased number of bags.
8. In 2014/15 Monmouthshire were generating £229k in income.

Next steps

9. A range of legislation is in place, enabling LAs to charge, however there are certain restrictions on the level of acceptable charging. LAs are required to have a clear rationale behind the set charge. LAs must also consider whether charges can be used to generate a surplus to support

[Type here]

general revenue budgets or whether they can only recover incurred costs in delivering the service. LAs require clear advice and guidance on what can and cannot be done. The WLGA is commissioning bespoke guidance.

Energy

Wrexham – these projects are fairly unique in Wales.

Domestic Solar Photovoltaic (PV) Project

10. In late 2011 – early 2012 the council installed solar panels on 2675 of their domestic properties. All the properties have between 7 and 16 panels installed. Up until December 2016 they have received £6.9 million in Feed in Tariff payments.

Schools PV

11. In 2013 they installed solar panels on 15 of their schools and 2 in office buildings. All schools have between a 9–10 kw system installed. Between Oct 2013 and December 2016 the council received around £104,000 for these installations.

Solar Farm

12. The Legacy Solar Farm is a 2.64 MW system and has a total of 8,800 panels. It has been generating since May 2015. Up until October the council received £229,000 in Feed in Tariff payments and £172,000 in Export payments.

Redwither Biomass

13. In 2015 the council fitted Biomass boiler in one of our large office buildings. Up until 3rd November 2016 they have received £34,877 in Renewal Heat Incentive payments.

[Type here]

Culture, Leisure Services and other services:

14. The income generation debate can be seen as two-fold when it comes to the culture and leisure services portfolio.
15. Firstly, LAs have sought to save money through the external delivery of mostly leisure (and some culture) services, mainly leading to the establishment of new charitable trusts. The driving force behind these decisions has been the NNDR rate relief charitable trusts receive from the government, in turn allowing the authorities/providers to save money and reinvest in services.
16. Secondly, LAs have also sought to become more commercially focused in delivering leisure and cultural services; approaches have included the co-location of services (libraries and leisure under one roof), along with the introduction of other money-making ventures such as coffee and leisurewear shops in local leisure centres, the rental of rooms and facilities for meetings/conferences, etc. Leisure services also have the added benefit of charging entry for the use of some services, such as access to the pool and gym facilities.
17. Current state of play across 22 local authorities:
 - 11 Councils outsourced the running of leisure centres,
 - 5 councils are considering ADMs (Ceredigion, Gwynedd, Monmouthshire, Pembrokeshire Swansea) and
 - 6 councils have currently retained control of their leisure services: (Anglesey & Carmarthenshire, Caerphilly Conwy, Denbighshire, and RCT)

Flintshire leisure and library services

18. Flintshire's leisure and library employees voted 90% yes to the proposals to set up a Community Benefit Society to deliver leisure and library services from 1 July 2017. This is a first for Wales and one of only a

[Type here]

handful of organisations to run services such as these in the whole of the UK.

19. The business plan shows that in the first full year, over £500,000 of savings can be made to the service operation while Flintshire County Council is making a capital investment of almost £1m to improve leisure and library buildings, play areas and artificial pitches in the county.
20. The overall model aims to provide savings of 10% year on year while maintaining and improving existing service levels and protecting jobs. Staff will be represented on the Board of the organisation.

Cardiff Council

21. Cardiff Council handed over eight leisure centres to GLL, a not for profit company which runs 300 facilities across the UK. It is envisaged that this new arrangement would save £31.9m over 15 years, while providing greater future certainty over the leisure provision in Cardiff.

Swansea's Commercialisation Strategy

22. The authority is an example where a corporate strategy is being implemented for commercialism across the council.
 - To protect the public purse and achieve value for money for residents
 - To foster a business like, efficient and innovative approach to service delivery
 - To exploit every opportunity to increase income to offset the loss of grant
 - To protect service delivery
23. Examples of securing sponsorship/advertising income: Waterfront Winterland Ice Rink (sponsorship); 10K road race (sponsorship); roundabouts (advertising); Lamp posts / pillar raps (advertising); Swansea

[Type here]

Bus Station (advertising); Awards nights; (sponsorship); Christmas Parade (sponsorship); and, the Wales Air Show (sponsorship)

Public Accounts Committee

PAC(5)-08-17 PTN3 – 6 March 2017

Additional information from Councillor Graham Hinchey on Income Generation Initiatives at the City of Cardiff Council

1. Income generation within Local Government has historically focused on the setting of fees and charges, whether in line with statute or, where discretionary, at a level that ensures that costs are covered, or subsidisation is kept to an acceptable level. More recently, however, Local Authorities have begun to recognise potential areas of income generation that have previously seen significant under-utilisation.
2. Since 2012, in addition to fees and charges, The City of Cardiff Council has introduced a number of income generation schemes based on the extended use of statutory powers, marketing partnerships and income generated through sale of services to other organisations.

Extended Use of Statutory Powers

3. The Civil Enforcement of Road Traffic Contraventions (General Provisions) (Wales) Regulations 2013 was passed and came into force on 25 March 2013, allowing the Council to assume responsibility for enforcement of bus lanes and some moving traffic offences (MTOs). The areas of enforcement, which these powers particularly assist, include:
 - Enforcement of Bus Lanes – preventing the blocking of bus lanes
 - Enforcement of Yellow Box Junctions – reducing illegal queuing across the boxes, particularly during peak hours, preventing congestion and delay to all vehicles
 - Enforcement of turning movement bans – enhancing public safety, by preventing conflict with pedestrian crossing movements, and by reducing the use of weak bridges by lorries ignoring weight restrictions
4. In the first full year (2014/15) after assuming responsibility, £848,000 income was received and this grew to £2.840 million in 2015/16.

[Type here]

5. As Civil Enforcement is a ring fenced account, any such income generated is used to fund related operational cost of parking and enforcement. Any additional surplus or deficit generated by the account is transferred to the Parking Reserve and can only be used for specific purposes such as supporting public transport services, off-street parking and highway improvements in accordance with section 55 of the Road Traffic Regulations Act 1984.
6. To date the Parking Reserve has supported a number of improvements including:
 - Cardiff East Park & Ride
 - Surface Car Park Upgrades
 - City Centre Mobility Assistance
 - Street Works and the installation of additional Pay and Display facilities
 - Installation of Disabled Bays
 - Work required for the implementation of Moving Traffic Offences.

Marketing Partnerships

7. The City of Cardiff Council has many assets and prime highway locations that are attractive to advertisers. These assets have the potential to generate a significant annual income but have rarely achieved full market value in the past. In order to seek to address this, the Council have procured marketing partners to generate an increased and sustainable annual income stream going forward.
8. One such partnership generates income through digital advertising on bus shelters and at other sites. There are currently over 650 bus shelters installed throughout the City, serving the 11 million waiting passengers who use buses in Cardiff annually. The Council has entered into long term contractual arrangements that provide fixed annual rentals together with a profit share from the advertising. In 2015/16 this commercial arrangement generated £343,000 of income and in 2016/17 it is anticipated this will increase to in excess of £400k. The Council also continues to work through a number of opportunities to extend the network of sites to increase income.

[Type here]

9. Another marketing partnership is generating income streams for Cardiff from existing assets including:
 - Roundabouts
 - Lamppost Banners
 - Litter bins
 - Refuse Vehicles
10. Income generation for 2016/17 is anticipated to be in the region of £150,000 from advertising/sponsorship, with an additional £20,000 generated from associated income such as planning fees, licences and highway notices. These figures are projected to increase by 30% in 2017/18.
11. Taking a “one council” approach it is intended that this partnership will not only maximise income generation, but also reduce costs to the Council for its own outside advertising needs. For example, unsold space will be used (at cost only) to promote Council services and the potential to utilise our own assets further is being explored.

Local Authority Trading Company

12. As of 1 March 2017 Atebion Solutions, the Council’s Commissioning and Procurement Local Authority Trading Company will begin trading, with a conservative estimate of first year turnover of £216,000. The potential for future income generation is, however, significant as the commissioning and procurement sector is worth some £5 billion across Wales. As with other schemes mentioned here, there are secondary benefits to the income generation. A successful trading company will further enhance the Council’s attractiveness as an employer, allowing for the retention and recruitment of highly skilled, qualified and commercially-minded employees, who in turn are able to take the company forwards.

[Type here]

Other Schemes

13. Another area in which additional income is expected to be generated in 2017/18 is through the promotion and provision of courses at Cardiff Academy, principally to other public sector organisations. This will include the sale of accredited Institute of Leadership & Management and Service Improvement courses. Additional opportunities identified include provision of Health & Safety training to contractors working for the Council as well as hiring out the Academy's new and extended facilities for training and/or small conferences.
14. In addition to the above initiatives, renewable energy generation schemes have been brought online since 2012 at Radyr Weir and through the addition of thousands of solar panels to roofs of premises within the Council's estate. These schemes have the potential between them to generate sufficient sustainable electricity for over 1000 homes, with Radyr Weir averaging over £5,000 of electricity generation per week since October 2016 despite a relatively dry winter impacting on flow rates.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ein Cyf: AG/AE/SB

5 Ionawr 2017

Annwyl Huw

Ymateb i Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru yn dwyn y teitl rheoli meddyginiaethau ym meysydd gofal sylfaenol ac eilaidd

Diolch am eich adroddiad yn dwyn y teitl 'rheoli meddyginiaethau ym meysydd gofal sylfaenol ac eilaidd' a gyhoeddwyd yn gynharach yn y mis.

Rydym yn croesawu canfyddiadau'r adroddiad ac yn arbennig y gydnabyddiaeth bod llawer o agweddau ar feddyginiaethau yn cael eu rheoli'n dda yng Nghymru, a hefyd bod cyrff y GIG yn cydweithredu'n dda i wneud gwelliannau pellach.

Nodwn y deg argymhelliad sydd yn yr adroddiad a chyflwynir ein hymateb manwl yn yr atodiad i'r llythyr hwn. Mae sawl un o'r argymhellion sydd yn yr adroddiad wedi'u hanelu at fyrddau iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG. Yn achos yr argymhellion hyn rydym wedi nodi sut y bwriadwn gefnogi'r cyrff hynny i roi'r argymhellion ar waith.

Yn gywir

Dr Andrew Goodall

cc: Nick Ramsey AC, Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Andrew Evans, Prif Swyddog Fferyllol, Llywodraeth Cymru
Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol, Llywodraeth Cymru
Blwch negeseuon e-bost CGU
Blwch negeseuon e-bost y Cabinet



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
Tudalen y pecyn 31 CF10 3NQ

Ffôn • Tel 02920 801182/1144
Andrew.Goodall@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

Atodiad A

Ymateb i'r argymhellion sydd yn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n dwyn y teitl rheoli meddyginiaethau ym meysydd gofal sylfaenol ac eilaidd

Argymhelliad – Dylai Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a'r holl gyrrff iechyd gytuno ar gynllun manwl â chyfyngiad amser ar gyfer cyflwyno systemau rhagnodi electronig ym maes gofal eilaidd, ynghyd â phroses eglur ar gyfer monitro darpariaeth y cynllun.

Ymateb – Derbyniwyd.

Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wedi sefydlu'r prosiect Rhagnodi a Rhoi Meddyginiaethau yn Electronig mewn Ysbytai yng Nghymru er mwyn datblygu a gweithredu'r cynllun cenedlaethol ar gyfer rhagnodi electronig ym maes gofal eilaidd, a chynhaliwyd cyfarfod cyntaf bwrdd y prosiect ar 23 Tachwedd 2016.

Ar hyn o bryd mae tîm y prosiect yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddiffinio union gwmpas y prosiect a'r anghenion o ran y system. Ar ôl gwneud hyn bydd y Gwasanaeth Gwybodeg yn cwblhau'r achos busnes dros gaffael system fferylliaeth ysbytai newydd ac ateb i ragnodi a rhoi meddyginiaethau yn electronig, a bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried hyn. Yn ddibynnol ar gwblhau'r achos busnes, disgwylir y bydd y systemau hyn wedi'u caffael yn ystod 2018-19 ac y cychwynnir eu rhoi ar waith ar ddechrau 2019.

Argymhelliad – Dylai Prif Swyddog Fferyllol Cymru arwain adolygiadau cenedlaethol i asesu cydymffurfriad pob corff iechyd gyda'r polisi MARRS, i asesu effeithiolrwydd y rhaglen hyfforddiant gorfodol newydd ar reoli meddyginiaethau ac i asesu cynaliadwyedd hirdymor camau a gymerwyd ym mhob corff iechyd i roi sylw i'r holl ganfyddiadau sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau o Ymddiried mewn Gofal; a

Dylai pob corff iechyd ddatblygu cynllun â chyfyngiad amser ar gyfer gwella storio a diogelwch meddyginiaethau ar wardiau ysbyty, gan gynnwys ystyriaeth benodol o fanteision cyflwyno peiriannau gwerthu awtomatig.

Ymateb – Derbyniwyd.

Bydd Prif Swyddog Fferyllol Cymru yn ailgynnull y gweithgor Rhoi, Cofnodi, Adolygu a Storio Meddyginiaethau (MARRS), er mwyn cynnal adolygiad o gydymffurfriad pob corff iechyd â'r polisi MARRS. Oherwydd amgylchiadau annisgwyl, bu oedi wrth weithredu'r rhaglen e-ddysgu ar roi meddyginiaethau. Bydd y gweithgor felly yn ystyried ymhellach sut y gellir cyflwyno'r rhaglen e-ddysgu yn y modd mwyaf effeithiol. Rhagwelwn y bydd cyfarfod cyntaf y gweithgor MARRS, ar ôl ei ailgynnull, yn cael ei gynnal ym mis Ebrill 2017 ac y bydd yn cwblhau ei adolygiad erbyn mis Mawrth 2019.

Cyflwynodd yr [Hysbysiad Diogelwch Cleifion PSN 030](#), a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2016, y safonau disgwylidiedig ar gyfer storio meddyginiaethau yn ddiogel ar wardiau ysbytai. Rydym wedi nodi'r angen i adolygu'r gofynion sydd yn yr hysbysiad yng ngoleuni pryderon y byddai'r gost o ddisodli'r cyfleusterau storio ar bob ward ysbyty, waeth beth fo'u cyflwr presennol, yn anghymesur â'r budd a ragwelir yn sgil gwneud hynny; o ystyried y lefel isel o risg sydd i'r cyfleusterau storio ar y rhan fwyaf o wardiau. Bydd y gweithgor MARRS, fel rhan o'i waith, yn adolygu PSN 030 a chaiff canllawiau eu diweddarau a'u cyhoeddi cyn diwedd 2017.

Bydd y Prif Swyddog Fferyllol, ar y cyd â Phrif Fferyllwyr byrddau iechyd lleol a Chanolfan Ganser Felindre, yn cwblhau archwiliad o'r defnydd presennol o beiriannau gwerthu awtomatig ar wardiau yn ysbytai'r GIG yng Nghymru ac yn datblygu rhestr yn blaenoriaethu'r safleoedd ble y dylid defnyddio peiriannau gwerthu awtomatig ar wardiau. Caiff y gwaith hwn ei gwblhau erbyn mis Mehefin 2017.

Argymhelliad – Dylai cyrff iechyd sicrhau bod eu Prif Fferyllydd yn gyfarwyddwr gweithredol neu'n atebol i un yn uniongyrchol ac yn rheolaidd; a

Dylai fod gan gyrff iechyd eitem agenda flynyddol yn y Bwrdd i drafod adroddiad blynyddol sy'n trafod gwasanaethau fferylliaeth, rheoli meddyginiaethau, rhagnodi gofal sylfaenol, gwasanaethau meddyginiaethau gofal cartref a chynnydd o ran rhoi sylw i'r materion a nodwyd yn Ymddiried mewn Gofal.

Ymateb – Derbyniwyd yn rhannol.

Rydym yn cytuno'n llwyr y dylai Bwrdd pob corff iechyd yng Nghymru graffu'n rheolaidd ar bob agwedd ar reoli meddyginiaethau. I'r perwyl hwnnw, a chyn cyhoeddi eich adroddiad, yn 2016-17, cynhwyswyd chwe dangosydd rhagnodi cenedlaethol gennym, yn cwmpasu ystod o feysydd gan gynnwys rhagnodi gwrthficrobaidd, adrodd ar adweithiau niweidiol i gyffuriau, meddyginiaethau risg uchel a defnydd effeithlon o adnoddau, yn Fframwaith Canlyniadau'r GIG.

Er mwyn parhau i ganolbwyntio ar wella rheoli meddyginiaethau o fewn GIG Cymru, byddwn yn parhau i ddatblygu dangosyddion rheoli meddyginiaethau fel rhan o'r fframwaith canlyniadau. Byddwn hefyd yn codi materion yn ymwneud â rheoli meddyginiaethau drwy gyfrwng cyfarfodydd y Tîm Gweithredol ar y Cyd rhwng Llywodraeth Cymru a chyrff GIG Cymru.

Mae'r rhaglen ail-gydbwysio deddfwriaeth meddyginiaethau a rheoleiddio fferyllol ar draws y DU, a gefnogir gan yr Adran Iechyd yn Lloegr ar ran y pedair gweinyddiaeth yn y DU, yn ystyried nifer o newidiadau i ddeddfwriaeth meddyginiaethau sy'n debygol o gael effaith ar rôl Prif Fferyllwyr cyrff iechyd. Nid ydym yn ystyried y byddai'n briodol inni ymrwymo o ran y trefniadau adrodd ar gyfer Prif Fferyllwyr nes bydd canlyniad y rhaglen honno'n hysbys. Disgwylw'n y bydd y goblygiadau i Brif Fferyllwyr yn gliriach ar ddechrau 2018. I baratoi ar gyfer hyn byddwn yn cynnal archwiliad o'r trefniadau adrodd ar gyfer Prif Fferyllwyr y GIG yng Nghymru. Bydd hwn wedi'i gwblhau erbyn mis Medi 2017.

Argymhelliad – Dylai Prif Fferyllwyr geisio cefnogaeth Gwasanaethau Gweithlu, Addysg a Datblygiad Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i gryfhau dulliau mapio adnoddau cyfredol i hwyluso cymariaethau cadarn o lefelau staffio fferylliaeth ledled Cymru ac i lunio manyleb gwasanaeth gyffredinol. Dylai'r fanyleb nodi'r adnoddau nodweddiadol sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau fferylliaeth allweddol, fel mewnbwn fferylliaeth glinigol ac addysg cleifion ar y wardiau. Dylai'r fanyleb hefyd fod yn ddigon hyblyg i gydnabod y bydd gwahanol fathau o wardiau angen gwahanol lefelau o adnoddau.

Ymateb – Derbyniwyd yn rhannol.

Yn ystod 2017-18 byddwn yn gweithio gyda Gwasanaethau'r Gweithlu, Addysg a Datblygu Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a Phrif Fferyllwyr cyrff GIG Cymru i gynnal asesiad cadarn o'r anghenion ar gyfer y gweithlu fferyllol nawr ac yn y dyfodol. Caiff y gwaith hwn ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2018.

Argymhelliad – Er mwyn ysgogi gwelliannau pellach i ragnodi, dylai cyrff iechyd sicrhau bod ganddynt gynllun gweithredu wedi'i dargedu i sicrhau gwelliannau i gost ac ansawdd rhagnodi ym meysydd gofal sylfaenol a gofal eilaidd, yn unol ag egwyddorion gofal iechyd darbodus. Dylai'r cynllun gweithredu gael ei hysbysu gan ddadansoddiad rheolaidd o ddata rhagnodi i sicrhau bod sylw'n canolbwyntio ar y meysydd lle ceir y mwyaf o gyfle i sicrhau gwelliannau o ran cost ac ansawdd;

Yn unol â'r angen i gynyddu proffil rheoli meddyginiaethau ar lefel y Bwrdd, dylai cyrff iechyd sicrhau bod perfformiad yn erbyn Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol yn cael ei ystyried yn rheolaidd gan y Bwrdd, ynghyd â chynnydd o ran cyflawni gwelliannau ehangach o ran cost ac ansawdd rhagnodi gofal sylfaenol;

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gwaith y Grŵp Effeithlonrwydd, Gwerth Gofal Iechyd a Gwella yn mabwysiadu safbwynt Cymru gyfan ar welliannau cost ac ansawdd y dylai fod modd eu cyflawni trwy ragnodi a rheoli meddyginiaethau gwell, a'i fod yn defnyddio dulliau fel y cyfarfod Tîm Gweithredol ar y Cyd a gynhelir ddwywaith y flwyddyn rhwng swyddogion llywodraeth a phob corff iechyd unigol i sicrhau bod y cynnydd angenrheidiol yn cael ei wneud o ran cyflawni'r gwelliannau hyn.

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chyrff y GIG i ddatblygu a chyflwyno cynllun gweithredu cenedlaethol eglur sydd â'r nod o leihau gwastraff meddyginiaethau, gan adeiladu ar y canfyddiadau o'r gwerthusiad parhaus o ymgyrch Eich Moddion, Eich Iechyd. Mae lleihau gwastraff yn arwain at arbedion cost gan helpu cleifion i gymryd eu meddyginiaethau fel y'u rhagnodwyd ar yr un pryd, sy'n eu helpu i sicrhau'r budd mwyaf posibl o'r feddyginiaeth; ac

Yn gysylltiedig â'r pwyntiau uchod, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cynllun eglur â chyfyngiad amser ar waith i gyflwyno systemau gwell ar gyfer rhagnodi ailadroddus sy'n cael eu profi gan y Grŵp Gweithredu Rhagnodi Darbodus.

Ymateb – Derbyniwyd.

Mae'r Grŵp Effeithlonrwydd, Gwerth Gofal Iechyd a Gwella wedi cytuno y bydd dull Cymru gyfan tuag at wella cost ac ansawdd mewn rheoli meddyginiaethau ym meysydd gofal sylfaenol ac eilaidd yn faes allweddol ar gyfer 2017-18.

Yn 2017-18 byddwn yn cytuno gyda Phrif Fferyllwyr byrddau iechyd a rhanddeiliaid eraill ar flaenoriaethau allweddol yn y chwe maes canlynol: ysgogi effeithlonrwydd; lleihau niwed yn gysylltiedig â meddyginiaethau; gwella profiad a chanlyniadau i'r claf; moderneiddio'r gweithlu; cydweithredu, gwell defnydd o dechnoleg ac ystadau gwell; a meincnodi. Caiff y blaenoriaethau hyn eu datblygu dros Gymru gyfan a chaiff y cynnydd arnynt ei oruchwylio drwy gyfrwng cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Prif Swyddog Fferyllol a Phrif Fferyllwyr y byrddau iechyd, a chyfarfodydd y Tîm Gweithredol ar y Cyd.

Byddwn yn gweithio gyda chyrff y GIG i ddatblygu a gweithredu cynllun gweithredu cenedlaethol clir sydd â'r nod o leihau gwastraff meddyginiaethau. Yn anad dim, cyflawnir hyn drwy annog cyrff y GIG i fabwysiadu'r elfennau hynny o'r ymgyrch *Eich Moddion, Eich Iechyd* y bydd y gwerthusiad sy'n mynd rhagddo, ar ôl ei offen, yn dangos eu bod yn llwyddiannus. Byddwn hefyd yn annog y byrddau iechyd i roi ar waith dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer lleihau gwastraff meddyginiaethau. Bydd y rhain yn cynnwys rhoi gwell systemau ar gyfer rhagnodi ailadroddus ar waith, fel y rhai a brofwyd drwy gyfrwng y Grŵp Gweithredu Rhagnodi Darbodus neu a werthuswyd mewn rhannau eraill o'r DU. Rhagwelwn

y bydd y gwaith hwn yn cychwyn yn 2017-18 ac y cytunir ar gynllun â chyfyngiad amser erbyn mis Mawrth 2018.

Argymhelliad – Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynllun, mewn partneriaeth â'r Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan, cyrff iechyd a meddygon, i esblygu'r Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol fel eu bod yn dechrau ystyried mesurau o ba un a yw'r cleifion priodol yn derbyn y meddyginiaethau priodol a pha un a yw meddyginiaethau yn gwneud gwahaniaeth i ganlyniadau pobl.

Ymateb – Rydym yn cytuno bod y Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol ar hyn o bryd yn canolbwyntio'n ormodol ar faint o feddyginiaethau a ragnodir a'u cost, a bod yr ystyriaeth a roddir i briodoldeb clinigol a chanlyniadau yn annigonol. Mae argaeledd data i gefnogi dangosyddion mwy sensitif wedi bod yn rhwystr sylweddol.

Er bod gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud i leihau amrywiadau mewn rhagnodi, mae'r gwelliannau wedi arafu yn y blynyddoedd diwethaf yn rhannol o ganlyniad i'r dull hwn o weithio. Byddwn yn gweithio gydag Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru i sefydlu prosiect yn 2017-18 a fydd â'r diben o ddiffinio cyfres newydd o Ddangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol gan ddefnyddio ffynonellau data ychwanegol. Caiff y dangosyddion hyn eu datblygu yn 2017-18 gyda'r bwriad y cânt eu cymeradwyo gan Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru cyn dechrau eu defnyddio ym mis Ebrill 2018.

Argymhelliad – Dylai Pwyllgor Prif Fferyllwyr Cymru Gyfan arwain archwiliad cenedlaethol o gydymffurfiaid â'r mesurau a nodir yn llawlyfr Cymru gyfan ar ddiogelwch a darpariaeth effeithiol gwasanaethau gofal cartref.

Ymateb – Derbyniwyd.

Nodwn fod yr argymhelliad hwn wedi'i anelu at Bwyllgor Prif Fferyllwyr Cymru Gyfan. Byddwn yn sicrhau bod gwaith i wella darpariaeth ddiogel ac effeithiol gwasanaethau gofal cartref, gan gynnwys archwiliad o gydymffurfiaeth â'r mesurau a nodir yn llawlyfr Cymru gyfan, yn rhan o'r blaenoriaethau allweddol y cytunir arnynt gyda Phrif Fferyllwyr y byrddau iechyd a rhanddeiliaid eraill yn 2017-18.

Argymhelliad – Dylai Llywodraeth Cymru, gyda chymorth gan 1000 o Fywydau a Mwy, weithio gyda thimau fferyllol, staff codio clinigol a chlinigwyr ledled Cymru i ddatblygu rhaglen sydd â'r nod o nodi ac atal derbyniadau sy'n gysylltiedig â meddyginiaeth.

Ymateb – Derbyniwyd.

Bydd cwmpas y gwaith hwn yn cael ei bennu ar y cyd â 1000 o Fywydau - Gwasanaeth Gwella yn rhan gyntaf 2017-18 gyda'r bwriad o sefydlu rhaglen diogelwch meddyginiaeth yn 2018-19.

Argymhelliad – Dylai Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru barhau i weithio gyda chynrychiolwyr meddygon teulu i sicrhau y rhoddir sylw i'w pryderon am lywodraethu gwybodaeth;

Hwyluso mynediad ehangach at y Cofnod Meddygon Teulu fel y gall yr holl fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol sy'n darparu gwasanaethau clinigol ar y wardiau gael mynediad at y system ar gyfer cleifion a dderbynnir ar gyfer triniaeth ddewisol, yn ogystal â'r rhai a dderbynnir fel achosion brys; a

Hwyluso mynediad ehangach at y Cofnod Meddygon Teulu, a defnydd ehangach ohono, mewn fferyllfeydd cymunedol, fel y gellir rheoli meddyginiaethau cleifion yn y gymuned heb fod rhaid iddynt fynd at feddyg teulu neu wasanaethau GIG eraill, pan fo hynny'n glinigol briodol.

Ymateb – Derbyniwyd.

Rydym yn parhau i weithio gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i sicrhau mynediad ehangach i Gofnod Meddygon Teulu Cymru. Ar 21 Tachwedd 2016, cyhoeddodd y Gwasanaeth Gwybodeg y câi mynediad i'r Cofnod ei ehangu i fferyllwyr ysbytai a thechnegwyr fferyllol mewn lleoliadau gofal wedi'i gynllunio, gan gynnwys adrannau cleifion allanol. Mae hyn yn adeiladu ar y mynediad mewn lleoliadau gofal brys sydd ar gael ers peth amser.

Mae'r Prif Swyddog Fferyllol yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r Cyfarwyddwr Meddygol yn y Gwasanaeth Gwybodeg i roi trefniadau llywodraethu gwybodaeth priodol ar waith a fydd yn caniatáu i fferyllwyr cymunedol ddefnyddio'r Cofnod Meddygon Teulu mewn amgylchiadau penodol i gefnogi gofal i'r claf. Rhagwelwn y bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau ar ddechrau 2017.

Argymhelliad – Pan fydd Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniad i wneud meddyginiaeth newydd ar gael y tu allan i'r broses werthuso genedlaethol bresennol, dylai esbonio'n eglur y rhesymeg sy'n sail i'w phenderfyniad a sicrhau y rhoddir digon o amser i gyrrff iechyd gynllunio ar gyfer y goblygiadau ariannol a'r newidiadau i wasanaethau sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r meddyginiaethau newydd hynny.

Ymateb – Derbyniwyd.

Rydym yn falch bod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cydnabod y gallai fod yn angenrheidiol, o bryd i'w gilydd, i Lywodraeth Cymru sicrhau bod meddyginiaethau ar gael y tu allan i'r broses werthuso genedlaethol bresennol. Cydnabyddwn mai dan amgylchiadau eithriadol y dylai hyn ddigwydd a hynny'n unig pan fo'r sail resymegol dros wneud hynny yn glir.

Yn yr un modd â gyda chytundebau hyd yma, disgwyliwn y bydd cytundebau'n parhau i gael eu gwneud dim ond pan fo cefnogaeth gref gan glinigwyr a chleifion ledled Cymru y dylai'r feddyginiaeth/meddyginiaethau fod ar gael. Fodd bynnag byddwn, o hyn allan ac ar gyfer pob cytundeb yn y dyfodol, yn sicrhau bod cyrff y GIG yn ymwneud yn fwy â'r trefniadau cynllunio ac yn cael amser priodol i baratoi ar gyfer y goblygiadau i wasanaethau a'r goblygiadau ariannol.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Y Modd y mae Awdurdodau Lleol yn Ariannu Gwasanaethau'r Trydydd Sector



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Llun y clawr: Mynd am dro yn y parc, gyda Age Connects Caerdydd a'r Fro. Mae gwirfoddolwyr Age Connects yn daparu cymorth a chwmni y mae gwir angen arnynt i bobl hŷn yn yr ardal leol. Un o'r 15 llun uchaf yng Nghystadleuaeth Ffotograffiaeth Aelodau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 2014.

Tudalen y pecyn 70

Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol â
Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Rheolwyd tîm astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru gan Nick Selwyn
ac roedd yn cynnwys Gareth Jones, Kevin Sutch, Duncan Mackenzie
a Martin Gibson o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Darperir pob llun gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2017

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Cynnwys

	Adroddiad cryno	6
	Nid yw awdurdodau lleol bob amser yn gwneud y defnydd gorau o'r trydydd sector nac yn gwneud digon i sicrhau eu bod yn cael gwerth am arian	6
	Yr adroddiad hwn	7
	Argymhellion	10
1	Ar y cyfan, nid oes gan awdurdodau lleol ddull strategol effeithiol o weithio gyda'r trydydd sector	11
	Mae gwaith y trydydd sector gydag awdurdodau lleol yn cynyddu	12
	Ar y cyfan, nid oes gan awdurdodau lleol ddull cynhwysfawr na chynlluniedig o weithio gyda'r trydydd sector	15
	Mae awdurdodau lleol sy'n perfformio'n well yn deall eu gwaith gyda'r trydydd sector ac yn ei adolygu'n rheolaidd er mwyn symleiddio a gwella eu blaenoriaethau ariannu strategol	19
	Mae gan bob awdurdod lleol gytundebau â'r trydydd sector ond nid ydynt bob amser yn gyfredol nac yn effeithiol	22
	Nid yw gwaith partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a'r trydydd sector yn gyson effeithiol i ysgogi gwelliannau	23
	Mae cynghorau gwirfoddol sirol yn chwarae rôl allweddol o ran canolbwyntio a chydgylltu'r trydydd sector ond nid yw eu gwaith yn cael ei werthfawrogi na'i gydnabod bob amser ac mae gwendidau mewn trefniadau presennol yn tanseilio eu heffeithiolrwydd	27
2	Mae anghysondebau o ran trefniadau awdurdodau lleol ar gyfer ariannu'r trydydd sector yn golygu ei bod yn anodd dangos gwerth am arian	31
	Nid yw prosesau gwneud cais bob amser wedi'u symleiddio er mwyn helpu sefydliadau yn y trydydd sector i gyfranogi'n llawn	33
	Nid yw awdurdodau lleol bob amser yn defnyddio'r dull mwyaf priodol o ariannu gwasanaethau	38
	Bu cynnydd sylweddol yn nifer y contractau ar gyfer gwasanaethau ac mae'r gostyngiad yn y cymorth grant cyffredinol yn creu rhai anawsterau ar gyfer sefydliadau yn y trydydd sector	41

	Gallai'r duedd gynyddol ddiweddar i awdurdodau lleol fynnu bod sefydliadau yn y trydydd sector yn ffurfio consortia i gyflwyno ceisiadau am gontractau beri risg i bob parti yn ogystal â chynnig cyfleoedd iddynt	45
	Nid yw'r defnydd parhaus o ddyfarniadau ariannol blynyddol yn darparu ar gyfer ariannu'r trydydd sector mewn ffordd gynaliadwy	46
	Mae adennill costau llawn yn dal i fod yn broblem i lawer o gyrff yn y trydydd sector	48
3	Ni all awdurdodau lleol ddangos effaith eu gwaith gyda'r trydydd sector yn gyson	50
	Nid yw trefniadau awdurdodau lleol i fonitro ac adolygu perfformiad sefydliadau yn y trydydd sector bob amser yn gyson nac yn effeithiol	51
	Nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi pennu mesurau i'w galluogi i farnu effaith eu gwaith gyda'r trydydd sector yn gyson	56
	Nid yw trefniadau craffu a rheoli risg ar gyfer gwerthuso a goruchwyllo cyllid y trydydd sector bob amser yn addas nac yn effeithiol	58
4	Mae disgwyliadau newidiol o ran yr hyn y mae'n ofynnol i'r trydydd sector ei gyflawni yn cynnig cyfleoedd ac yn cyflwyno risgiau y mae angen eu rheoli'n ofalus er mwyn i'r buddiannau disgwylidig gael eu cyflawni	62
	Atodiadau	
	Atodiad 1 – Methodoleg yr astudiaeth	68
	Atodiad 2 – Astudiaethau achos arfer da	71
	Atodiad 3 – Rhestr wirio i sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymgysylltu â'r trydydd sector ac yn gweithio gydag ef yn effeithiol	73

Adroddiad cryno

Nid yw awdurdodau lleol bob amser yn gwneud y defnydd gorau o'r trydydd sector nac yn gwneud digon i sicrhau eu bod yn cael gwerth am arian

- 1 Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn darparu amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus pwysig sy'n hyrwyddo lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y genedl. Mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau hyn yn ofynnol yn statudol (h.y. mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu darparu), er bod rhai yn cael eu darparu o dan bwerau disgresiwn (mewn geiriau eraill, maent yn ddewisol). Yn ogystal â chymryd cyfrifoldeb uniongyrchol am ddarparu gwasanaethau, mae awdurdodau lleol hefyd yn rhoi arian i drydydd partïon ddarparu gwasanaethau ar eu rhan, fel arfer o dan delerau contract cyfreithiol.
- 2 Y **trydydd sector** yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio'r amrywiaeth o sefydliadau nad ydynt yn cael eu rhedeg gan y wladwriaeth ac nad ydynt yn rhan o'r sector preifat ac mae'n cynnwys mudiadau gwirfoddol a chymunedol (elusennau cofrestredig a sefydliadau eraill megis cymdeithasau, grwpiau hunangymorth a grwpiau cymunedol), mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydfuddiannol a mentrau cydweithredol. Mae sefydliadau trydydd sector yn amrywio o ran eu maint a'u cwrpas, o grwpiau cymunedol lleol i elusennau rhyngwladol mawr. Nid yw rhai yn cael unrhyw incwm o gwbl ac maent yn dibynnu ar ymdrechion gwirfoddolwyr tra bod eraill yn cael eu rhedeg gan staff proffesiynol cyflogedig. Mae gwaith ymchwil gan Lywodraeth Cymru¹ a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)² yn nodi bod y trydydd sector yng Nghymru yn cynnwys y canlynol: dros 32,500 o sefydliadau gwahanol; 230,000 o ymddiriedolwyr; 1.13 miliwn o wirfoddolwyr a phobl sy'n helpu yn eu cymuned; a 51,000 o yflogeion.
- 3 Mae Llywodraeth Cymru yn darparu'r fframwaith polisi strategol ar gyfer y trydydd sector yng Nghymru yn ogystal â rhoi arian grant penodol i gefnogi'r trydydd sector – £240 miliwn yn 2013-14 a £208 miliwn yn 2014-15³. Drwy **Gynllun y Trydydd Sector**⁴ a gwaith Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector⁵ mae Llywodraeth Cymru yn rhoi mwy o bwyslais, ac yn dibynnu'n fwy, ar gynyddu cyfranogiad sefydliadau yn y trydydd sector fel partneriaid allweddol yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.
- 4 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae awdurdodau lleol wedi lleihau eu rôl fel darparwyr gwasanaethau uniongyrchol, gan ddibynnu yn lle hynny ar ariannu darparwyr eraill, yn enwedig sefydliadau yn y trydydd sector. Mae'r achos dros gynyddu cyfranogiad sefydliadau yn y trydydd sector yn seiliedig ar fanteision amlwg. Gall sefydliadau yn trydydd sector fod yn sensitif i amgylchiadau lleol ac ymateb yn hyblyg i wahanol anghenion cymunedau. Gall cyrff yn y trydydd sector yn aml fod yn gystadleuol yn ariannol, gan fod eu costau sylfaenol yn gymharol isel a gan eu bod, fel elusennau, yn ailfuddsoddi gwaredion yn ôl yn y gwasanaethau a ddarperir. Er

1 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Written Evidence to the Committee for the Scrutiny of the First Minister: Welsh Government's Relationship with the Third Sector and Non-Governmental Bodies**, 20 Tachwedd 2013.

2 Mae CGGC yn cynrychioli ac yn cefnogi'r trydydd sector yng Nghymru gan ymgychu dros sefydliadau a rhoi cyngor a chymorth i aelodau. Caiff gwybodaeth am sefydliadau yn y trydydd sector ei diweddarau gan CGGC bob blwyddyn – **Dadansoddiad o Gronfa ddata o fudiadau gwirfoddol Cymru Gyfan**, 4 Ionawr 2016.

3 **Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar Grantiau 2015**.

4 Llywodraeth Cymru, **Cynllun y Trydydd Sector**, Ionawr 2014.


5 Sefydlwyd Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector yn 2007 ac mae'n hwyluso ymgynghori â sefydliadau perthnasol yn y trydydd sector a chyrrff yn y sector cyhoeddus ynghylch rhoi'r cynllun ar waith, ei redeg a'i adolygu; ac yn ystyried materion sy'n ymwneud â swyddogaethau a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru sy'n effeithio ar y trydydd sector neu sy'n berthnasol iddo.

mwyn sicrhau dull ariannu cyson a thryloyw, mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt y prosesau cywir ar waith, gan gynnwys cynllun strategol ar gyfer ariannu'r trydydd sector; systemau effeithlon ac effeithiol i gaffael gwasanaethau; a fframwaith monitro a gwerthuso i farnu perfformiad, effaith a chost.

Yr adroddiad hwn

- 5 Yn yr adroddiad hwn, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, rydym wedi ystyried effeithiolrwydd trefniadau awdurdodau lleol ar gyfer ariannu gwasanaethau'r trydydd sector. Nodir ein dulliau astudio yn **Atodiad 1**. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith maes archwilio mewn chwe awdurdod lleol, arolygon gyda staff awdurdodau lleol, sefydliadau yn y trydydd sector a chynghorau gwirfoddol sirol⁶ ar ddull awdurdodau o ariannu gwasanaethau'r trydydd sector. Gwnaethom hefyd gwblhau cais am dystiolaeth gydag asiantaethau cyngor arbenigol er mwyn olrhain arian a roddwyd i'r trydydd sector; cyfweld â staff o oedd yn gweithio i sefydliadau yn y trydydd sector; ac adolygu amrywiaeth o ddogfennau gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chyrrff yn y trydydd sector. Mae pedair prif elfen i ffocws ein hadolygiad fel y nodir yn **Ffigur 1**.

Ffigur 1 – Ffocws ein hadolygiad o'r modd y mae awdurdodau lleol yn ariannu gwasanaethau'r trydydd sector



⁶ Y cyngor gwirfoddol sirol yw'r sefydliad seilwaith ambarél ar gyfer y trydydd sector mewn ardal awdurdod lleol. Rôl y cyngor gwirfoddol sirol yw rhoi cyngor arbenigol, cymorth a gwybodaeth i sefydliadau lleol yn y trydydd sector mewn perthynas â materion sy'n effeithio arnynt, gan gynnwys arian a llywodraethu.

- 6 Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r archwiliad hwn, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad **nad yw awdurdodau lleol bob amser yn gwneud y defnydd gorau o'r trydydd sector nac yn gwneud digon i sicrhau eu bod yn cael gwerth am arian.**
- 7 Rhwng 2001-02 a 2013-14 mae cyfanswm yr arian a ddyfarnwyd gan awdurdodau lleol i sefydliadau yn y trydydd sector wedi cynyddu o £68.2 miliwn yn 2001-02 i £248.8 miliwn yn 2013-14, sy'n gynydd o 165.5% mewn termau real. Mae ariannu gwasanaethau gofal cymdeithasol wedi parhau i fod yn flaenoriaeth yn gyson ac mae'n cyfrif am y rhan fwyaf o'r arian a roddir gan awdurdodau lleol i gyrff yn y trydydd sector (er ei fod wedi gostwng, fel cyfran o'r gwariant cyffredinol, o 71.4% yn 2001-02 i 61.9% yn 2013-14).
- 8 Er gwaethaf y cynnydd yn yr arian a roddir gan awdurdodau lleol i ariannu gwasanaethau'r trydydd sector, mae i weithio strategol nifer o wendidau. Ychydig o awdurdodau lleol sydd â strategaethau neu fframweithiau corfforaethol, cynhwysfawr sy'n seiliedig ar ddata anghenion cywir o ansawdd da i lywio penderfyniadau, cynlluniau a gweithgarwch. Hyd yn oed lle mae bwriad strategol yn datblygu, mae cryn amrywiad o ran troi dyheadau yn gamau gweithredu. Mae'r awdurdodau lleol sy'n perfformio orau yn dechrau cynnal adolygiadau cynhwysfawr o'r modd y maent yn ariannu'r trydydd sector er mwyn nodi cyfanswm y gwariant ar y trydydd sector yn gywir a llywio penderfyniadau buddsoddi a sicrhau eu bod yn gyson.
- 9 Er bod gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol gytundebau ffurfiol â'r trydydd sector yn eu hardal, nid ydynt bob amser yn gyfredol nac ychwaith yn adlewyrchu'r trefniadau cydweithio presennol. Nid yw gweithgarwch partneriaeth yn gyson nac yn ddigon effeithiol i wella canlyniadau ac nid yw gwaith pwysig cynghorau gwirfoddol sirol bob amser yn cael ei werthfawrogi na'i gydnabod sy'n eu gwneud yn llai effeithiol.
- 10 Er mwyn cael y budd mwyaf o'r adnoddau a fuddsoddir yn y trydydd sector, mae angen i awdurdodau lleol gael prosesau gweinyddu da ar gyfer dyfarnu a rheoli'r gwaith a ariennir ganddynt. Os cânt eu cyflawni'n wael, gall y prosesau ariannu osod beichiau trwm ar y trydydd sector ac arwain at wastraffu adnoddau. Fodd bynnag, er bod awdurdodau lleol yn deall pwysigrwydd creu systemau effeithlon a syml i reoli'r modd y maent yn ariannu'r trydydd sector, ceir llawer o wendidau. Nid oes ffordd gywir nac anghywir o ddefnyddio grantiau ac mae angen i awdurdodau lleol sicrhau, wrth benderfynu pa wasanaeth sydd ei eisiau arnynt, eu bod yn defnyddio'r dull ariannu, y grantiau neu'r contractau gorau i gyflawni'r hyn a fwriedir gan neu drwy'r partner cyflawni mwyaf priodol a allai gynnwys y sector preifat a chynghorau cymuned yn ogystal â'r Trydydd Sector.
- 11 Mae ansawdd a hygyrchedd gwybodaeth awdurdodau lleol am y prosesau ar gyfer gwneud cais am gontractau a'r meini prawf a ddefnyddir i'w dyfarnu yn amrywiol ac nid ydynt bob amser wedi'u symleiddio er mwyn helpu sefydliadau yn y trydydd sector i gyfranogi'n llawn. Nid yw awdurdodau lleol yn glir ynghylch pa opsiwn i'w ddefnyddio - proses gaffael gaeedig neu agored - wrth gaffael gwasanaethau'r trydydd sector ac mae llawer o sefydliadau yn y trydydd sector yn ystyried bod y lleihad mewn cymorth grant yn cael effaith andwyol arnynt. Mae penderfyniadau

Tudalen y pecyn 76

awdurdodau lleol i barhau â dyfarniadau ariannol blynyddol a'r gostyngiad yn nifer yr awdurdodau sy'n gweithredu system adennill costau llawn ar gyfer prosiectau trydydd sector a ariennir yn parhau i gyflwyno heriau sylweddol i lawer o gyrff yn y trydydd sector. Yn gyffredinol, oherwydd y gwendidau hyn, nid yw'n glir a yw awdurdodau lleol yn sicrhau gwerth am arian yn gyson o'u buddsoddiad yn y trydydd sector.

- 12 Er mwyn cael y budd mwyaf o benderfyniadau ariannu, mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt y trefniadau a'r systemau cywir ar waith i reoli, gwerthuso a mesur perfformiad a chraffu arno. Nodwyd gennym fod trefniadau rheoli perfformiad yn rhy anghyson i roi lefel ddigonol o sicrwydd bod gwasanaethau yn gweithio'n dda a bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol. Nid yw llawer o sefydliadau yn y trydydd sector yn glir ynghylch yr hyn a ddisgwyllir ganddynt ac mae angen iddynt gael gwell cymorth gan awdurdodau lleol. Mae trefniadau rheoli perfformiad gwael hefyd yn gwanhau atebolrwydd ac yn cyfyngu ar allu aelodau etholedig i graffu ar weithgarwch a pherfformiad yn effeithiol. Nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi pennu mesurau i farnu effaith eu gwaith gyda'r trydydd sector yn gyson ac mae anghysondebau o ran trefniadau rheoli risg yn ei gwneud yn anodd i awdurdodau lleol ddangos pa mor dda y maent yn gweithio gyda'r trydydd sector.



Gwirfoddolwyr Stepping out Stroke Association Wales yn amlgu'r ffordd gyda balwnau ar adeg digwyddiad Step Out for Stroke ym Mhontypridd. Un o'r 14 llun uchaf yng Nghystadleuaeth Ffotograffiaeth Aelodau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 2014.

Ffynhonnell: WCVA

Tudalen y pecyn 77

- 13 Gan y disgwylir i gyllid y sector cyhoeddus barhau i ostwng yn y dyfodol agos, mae Llywodraeth Cymru, drwy ei newidiadau deddfwriaethol diweddar a'i diwygiadau arfaethedig, yn rhagweld y bydd y trydydd sector yn chwarae rôl fwy amlwg yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau ledled Cymru. Mae cyfle a risg yn gysylltiedig â'r disgwyliadau hyn sy'n newid. Mae heriau sylweddol sydd â goblygiadau i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a sefydliadau yn y trydydd sector, y mae angen ymdrin â hwy mewn modd cadarn a thrwy roi arweiniad clir. Ar yr adeg hon nid yw'n glir a ellir gwireddu'r dyheadau hyn.

Argymhellion

- 14 Mae'r prif argymhellion sy'n deillio o'n gwaith fel a ganlyn:

Argymhelliad	Pwy sy'n gyfrifol
<p>A1 Er mwyn cael y budd mwyaf o benderfyniadau ariannu, mae angen i awdurdodau lleol a chyrff yn y trydydd sector sicrhau bod ganddynt y trefniadau a'r systemau cywir ar waith i reoli, gwerthuso a mesur eu gwaith gyda'r trydydd sector. Er mwyn helpu awdurdodau lleol a chyrff yn y trydydd sector i ddatblygu eu harferion gwaith, rydym yn argymhell y dylai swyddogion awdurdodau lleol a'r trydydd sector ddefnyddio'r rhestr wirio yn Atodiad 3 i wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • hunanwerthuso cyfranogiad a threfniadau rheoli, perfformiad ac arfer presennol y trydydd sector; • nodi lle mae angen gwella trefniadau cydweithio; a • drafftio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r bylchau a'r gwendidau a nodwyd drwy'r ymarfer hunanwerthuso a'i roi ar waith. 	<p>Awdurdodau lleol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Chyrff yn y Trydydd Sector</p>
<p>A2 Mae trefniadau rheoli perfformiad gwael hefyd yn gwanhau atebolrwydd ac yn cyfyngu ar y gallu i graffu ar weithgarwch a pherfformiad y trydydd sector yn effeithiol. Er mwyn atgyfnerthu trefniadau goruchwylio ar gyfer y trydydd sector, rydym yn argymhell y dylai aelodau etholedig graffu ar y rhestr wirio adolygiadau a gwblheir gan swyddogion a herio perfformiad swyddogion a'r awdurdod lleol o ran mynd i'r afael â bylchau a gwendidau yn rheolaidd.</p>	<p>Awdurdodau lleol</p>
<p>A3 Er mwyn helpu awdurdodau lleol a'r trydydd sector i fodloni disgwyliadau newidiadau polisi a newidiadau deddfwriaethol diweddar megis y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu canllawiau a chymorth ar gyfer comisiynu a chydgysylltu gan egluro'r hyn y mae'n ei ddisgwyl gan awdurdodau lleol. Gallent gael eu darparu ar y cyd â Chanolfan Cydweithredol Cymru a/neu CGGC.</p>	<p>Llywodraeth Cymru</p>

Tudalen y pecyn 78

Rhan 1

Ar y cyfan, nid oes gan awdurdodau lleol ddull strategol effeithiol o weithio gyda'r trydydd sector

Bone Appétit, grŵp o gerddorwyr sydd wedi graddio o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ac sy'n gwirfoddoli'n rheolaidd ar gyfer Music in Hospitals. Yn y llun hwn maent yn codi ymwybyddiaeth am yr elusen yn y Senedd ym Mae Caerdydd, gan chwarae caneuon i blant ar Ddiwrnod Gŵyl Dewi. Un o'r 15 llun uchaf yng Nghystadleuaeth Ffotograffiaeth Aelodau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 2015.



- 1.1 Dylai awdurdodau lleol ddatblygu rhesymeg glir i esbonio pam maent yn gweithio gyda'r trydydd sector a dylent fod yn glir ynghylch sut mae'r gwaith partneriaeth hwn yn eu helpu i gyflawni eu blaenoriaethau corfforaethol. Bydd dull strategol o weithio gyda'r trydydd sector yn sicrhau bod yr awdurdod lleol cyfan yn deall beth y gall y trydydd sector ei gynnig ac yn nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn ymgysylltu â'r trydydd sector a'i ariannu a barnu ei effaith ar gymunedau a thrigolion.
- 1.2 Er mwyn i awdurdodau lleol weithio'n effeithiol gyda'r trydydd sector, mae angen y canlynol arnynt:
- gwybodaeth gynhwysfawr a chadarn am anghenion lleol i'w galluogi i lunio gweledigaeth briodol a phennu blaenoriaethau strategol ar gyfer y trydydd sector er mwyn iddynt allu barnu'r effaith a gwelliant dros amser;
 - prosesau ymgynghori da er mwyn manteisio ar wybodaeth arbenigol y trydydd sector a sicrhau ymrwymiad i gydweithio er mwyn gwireddu'r weledigaeth strategol y cytunwyd arni; a'r
 - seilwaith partneriaeth cywir wedi'i ategu gan gytundeb i sicrhau bod trefniadau cydweithio yn effeithiol, yn adeiladol ac yn cyflawni'r hyn sydd ei angen.
- 1.3 Yn y rhan hon o'r adroddiad, rydym yn dadansoddi'r cynnydd yn yr arian y mae awdurdodau lleol yn ei roi i wasanaethau'r trydydd sector. Rydym hefyd yn ystyried dull strategol awdurdodau lleol o weithio gyda'r trydydd sector, gan adolygu cadernid strategaethau awdurdodau lleol, yr amrywiaeth o wybodaeth a ddefnyddir i nodi a blaenoriaethu camau gweithredu ac effeithiolwyd prosesau ymgynghori. Rydym hefyd yn ystyried pa mor dda y mae partneriaid yn cydweithio, gan adolygu'r strwythurau sydd ar waith ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ac, yn arbennig, rôl bwysig cynghorau gwirfoddol sirol. Rydym hefyd yn defnyddio gwybodaeth o'n harolygon gydag awdurdodau lleol, cynghorau gwirfoddol sirol a sefydliadau yn y trydydd sector, sy'n rhoi syniad da i ni o effeithiolrwydd trefniadau gweithio strategol a gweithredol awdurdodau lleol â'r trydydd sector. Yn **Atodiad 1**, rydym yn crynhoi cwmpas a chyfyngiadau ein gwaith arolygu.

Mae gwaith y trydydd sector gydag awdurdodau lleol yn cynyddu

- 1.4 Dengys data a gyhoeddwyd gan Uned Ddata Llywodraeth Leol (LGDU) Cymru⁷ ar ran CGGC, fod yr arian y mae awdurdodau lleol yn ei roi i wasanaethau trydydd sector wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Nododd gwaith ymchwil yr LGDU, a nodir yn **Ffigur 2**, rhwng 2001-02 a 2013-14, fod cyfanswm yr arian a ddyfermir gan awdurdodau lleol i sefydliadau yn y trydydd sector wedi cynyddu o £68.2 miliwn yn 2001-02 i £248.8 miliwn yn 2013-14, sy'n gynydd o 165.5% mewn termau real⁸.

7 Mae LGDU Cymru yn rhan o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac mae'n helpu awdurdodau lleol i reoli, defnyddio a gwerthuso data. Mae'r wybodaeth a ddefnyddiwyd gennym ar gyfer ein hadolygiad yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd gan awdurdodau lleol yn 2001-02, 2003-04, 2009-10 a 2013-14. Y ffurflen ar gyfer 2013-14 yw'r wybodaeth fwyaf diweddar sydd ar gael yng Nghymru am yr arian a ddyfermir i wasanaethau'r trydydd sector gan awdurdodau lleol.

8 Lefel yr incwm gan ystyried effeithiau chwyddiant ar bŵer prynu. Mae incwm mewn termau real yn cyfeirio at y nwyddau a'r gwasanaethau y gallwch eu prynu heddiw o gymharu â phris yr un nwyddau a gwasanaethau y gallech fod wedi'u prynu mewn cyfnod cynharach.

Tudalen y pecyn 80

Ffigur 2 – Cyllid a ddyfarnwyd i wasanaethau'r trydydd sector gan awdurdodau lleol mewn termau arian parod a thermau real yn ôl maes gwasanaeth rhwng 2001-02 a 2013-14

Maes gwasanaeth	2001-02	2003-04	2009-10	2013-14	Newid mewn termau real
Gwasanaethau Canolog	£4,949,000	£4,475,000	£4,852,000	£6,108,000	-10.0%
Diwylliant a Gwasanaethau Cysylltiedig	£4,898,000	£5,558,000	£4,726,000	£4,351,000	-35.3%
Gwasanaethau Addysg	£3,493,000	£5,566,000	£9,441,000	£18,026,000	276.0%
Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoliadol	£315,000	£1,425,000	£2,449,000	£7,007,009	1,521.0%
Gwasanaethau Priffyrdd a Thrafnidiaeth	£274,000	£530,000	£860,000	£811,000	115.7%
Gwasanaethau Tai	£2,556,000	£21,283,000	£11,443,000	£45,181,000	1,187.9%
Gwasanaethau Cynllunio	£3,061,000	£8,110,000	£4,090,000	£13,203,000	214.3%
Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol	£48,677,000	£78,786,000	£118,514,000	£154,165,000	130.7%
Cyfanswm	£68,223,000	£125,733,000	£156,375,000	£248,852,000	165.5%

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o arian a roddwyd i'r trydydd sector a luniwyd gan LGDU ar gyfer CGGC (mae'r data wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf).

1.5 Nododd gwaith ymchwil yr LGDU, ar gyfer chwech o'r wyth ardal lle mae awdurdodau lleol yn ariannu gwasanaethau'r trydydd sector, fod y buddsoddiad yn y gwasanaethau hynny wedi cynyddu'n sylweddol mewn termau real. Mae ariannu gwasanaethau gofal cymdeithasol wedi parhau i fod yn flaenoriaeth yn gyson ac mae'n cyfrif am y rhan fwyaf o'r arian a roddir gan awdurdodau lleol i gyrff yn y trydydd sector (er ei fod wedi gostwng, fel cyfran o'r gwariant cyffredinol, o 71.4% yn 2001-02 i 61.9% yn 2013-14). Y tu allan i faes gofal cymdeithasol, yr unig faes arall lle mae awdurdodau lleol yn buddsoddi cryn dipyn o arian yw cyllid ar gyfer gwasanaethau tai, sydd wedi cynyddu o 3.8% o'r holl arian a ddyfarnwyd i'r trydydd sector gan awdurdodau lleol yn 2001-02 i 18.2% o'r gwariant yn 2013-14. Roedd y chwe ardal arall, gyda'i gilydd, yn cyfrif am tua 20% o'r holl fuddsoddiad gan awdurdodau lleol yn y trydydd sector yn 2013-14. Rhwng 2001-02 a 2013-14 dim ond cyllid ar gyfer gwasanaethau canolog a diwylliant a gwasanaethau cysylltiedig sydd wedi gostwng mewn termau real.

Tudalen y pecyn 81

1.6 Mae Ffigur 3 yn crynhoi'r newid yn y cyllid a ddyfarnwyd i'r trydydd sector gan awdurdodau lleol mewn termau arian parod a thermau real rhwng 2001-02 a 2013-14. Ac eithrio un awdurdod (a hyd yn oed yma mae'r cyllid wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf), mae awdurdodau lleol wedi cynyddu'r cyllid a ddyfarnwyd ganddynt i wasanaethau'r trydydd sector mewn termau arian parod a thermau real. O ystyried lefel y buddsoddiad gan awdurdodau lleol yng ngwasanaethau'r trydydd sector, mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn rhoi'r strategaethau, y systemau a'r prosesau cywir ar waith er mwyn cael y budd mwyaf o'u buddsoddiad. Ar gyfer awdurdodau lleol, mae hwn yn newid sylweddol, yn arbennig o ystyried y gostyngiadau parhaus mewn cyllid cyhoeddus, sy'n golygu bod angen datblygu dulliau newydd o weithio sy'n fwy cost-effeithiol ac effeithlon.

Ffigur 3 – Cyllid a ddyfarnwyd i wasanaethau'r trydydd sector gan awdurdodau lleol mewn termau arian parod a thermau real rhwng 2001-02 a 2013-14

Awdurdod Lleol	2001-02	2003-04	2009-10	2013-14	Newid mewn termau real
Blaenau Gwent	£1,438,000	£1,513,000	£709,000	£981, 000	-50.2%
Pen-y-bont ar Ogwr	£3,759,000	£5,979,000	£8,322,000	£7,127,000	38.1%
Caerffili	£2,083,000	£2,734,000	£6,367,000	£10,179,000	256.0%
Caerdydd	£4,660,000	£32,634,000	£38,101,000	£47,969,000	650.0%
Sir Gaerfyrddin	£2,356,000	£4,781,000	£10,730,000	£20,922, 000	547.0%
Ceredigion	£1,282,000	£5,424,000	£12,464,000	£11,805, 000	571.0%
Conwy	£2,567,000	£3,976,000	£4,921,000	£5,340,000	51.6%
Sir Ddinbych	£1,688,000	£2,268,000	£3,273,000	£5,986,000	158.0%
Sir y Fflint	£2,052,000	£2,087,000	£3,349,000	£4,074,000	44.7%
Gwynedd	£5,082,000	£5,523,000	£11,683,000	£16,044,000	130.0%
Ynys Môn	£1,002,000	£2,180,000	Nis cyflwynwyd	Nis cyflwynwyd	Dd/G
Merthyr Tudful	£1,081,000	£1,143,000	Nis cyflwynwyd	£4,387,000	195.7%
Sir Fynwy	£1,024,000	£981,000	£1,785,000	£3,708,000	163.8%
Castell-nedd Port Talbot	£4,396,000	£3,380,000	Nis cyflwynwyd	Nis cyflwynwyd	Dd/G

Awdurdod Lleol	2001-02	2003-04	2009-10	2013-14	Newid mewn termau real
Casnewydd	£1,560,000	£2,240,000	Nis cyflwynwyd	Nis cyflwynwyd	Dd/G
Sir Benfro	£2,145,000	£2,911,000	£5,491,000	£7,890,000	168.0%
Powys	£7,984,000	£12,546,000	£16,278,000	£21,466,000	95.9%
Rhondda Cynon Taf	£9,563,000	£17,207,000	Nis cyflwynwyd	£28,229,000	115.0%
Abertawe	£7,289,000	£6,465,000	£16,701,000	£25,086,000	150.7%
Torfaen	£929,000	£2,081,000	£7,315,000	£15,080,000	1,082.8%
Bro Morgannwg	£2,446,000	£4,263,000	£4,598,000	£5,602,000	66.9%
Wrecsam	£1,808,000	£3,419,000	£4,289,000	£6,975,000	181.1%
Cyfanswm	£68,223,000	£125,733,000	£156,375,000	£248,852,000	165.5%

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o arian a roddwyd i'r trydydd sector yn 2001-02, 2003-04, 2009-10 a 2013-14 a luniwyd gan LGDU ar gyfer CGGC (mae'r data wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf).

Ar y cyfan, nid oes gan awdurdodau lleol ddull cynhwysfawr na chynlluniedig o weithio gyda'r trydydd sector

- 1.7 Bydd strategaeth gynhwysfawr ar gyfer gweithio gyda'r trydydd sector yn nodi egwyddorion a gweledigaeth yr awdurdod lleol ar gyfer y trydydd sector. Dylai'r strategaeth hefyd nodi'r canlyniadau y mae'r awdurdod lleol yn ceisio eu cyflawni ar gyfer trigolion a chymunedau. Er mwyn bod yn gwbl effeithiol, dylai'r strategaeth gwmpasu holl wasanaethau'r awdurdod lleol a bod yn seiliedig ar waith ymgynghori, dadansoddiad trylwyr o anghenion, blaenoriaethau ar gyfer gwella, y camau y bwriedir eu cymryd a'r canlyniadau a geisir wrth ddarparu gwasanaethau drwy'r trydydd sector.
- 1.8 Ni nododd yr un o'r awdurdodau lleol a ymatebodd i'n harolwg⁹ fod ganddo un strategaeth ar gyfer gweithio gyda'r trydydd sector a'i ariannu; fodd bynnag, nododd saith o'r wyth fod ganddynt gyfres o strategaethau a chynlluniau ariannu gwasanaeth-benodol sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio fframwaith cyffredinol ar gyfer gweithio gyda'r trydydd sector a'i ariannu, yn eu barn hwy. Nododd yr awdurdod lleol arall a ymatebodd i'n harolwg nad oes ganddo strategaeth na fframwaith. Nid ymatebodd y 14 o awdurdodau eraill i'n harolwg.

⁹ Arolygwyd pob un o'r 22 o awdurdodau lleol, gan ofyn am wybodaeth am y mae modd y maent yn ariannu gwasanaethau'r trydydd sector. Cawsom wyth ymateb gan awdurdodau lleol (36%). Oherwydd y gyfradd ymateb isel nid ydym wedi gwneud defnydd helaeth o'r arolwg yn yr adroddiad.

- 1.9 Ar sail ein dadansoddiad o ddogfennaeth awdurdodau lleol, gwnaethom nodi bod gan chwe awdurdod lleol ddull strategol da o weithio gyda'r trydydd sector. Ar y cyfan, mae'r rhain yn awdurdodau lleol lle y ceir strategaeth gorfforaethol ar gyfer ariannu'r trydydd sector sy'n cwmpasu pob gwasanaeth a lle mae cyswllt clir rhwng y strategaeth ac egwyddorion corfforaethol cyffredinol. Mae gan y strategaethau gorau amcanion perthnasol, sy'n rhai CAMPUS¹⁰ ac sydd hefyd yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau, ac sy'n cael eu hadolygu a'u gwerthuso'n rheolaidd. Fel arfer mae'r strategaethau hyn wedi'u hategu gan ddadansoddiad a dealltwriaeth dda o anghenion, gan gynnwys cydraddoldebau a'r Gymraeg, ac mae tystiolaeth o ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid i ddatblygu'r strategaeth. Mae'r strategaethau gorau hefyd wedi'u herio'n effeithiol wrth iddynt gael eu datblygu. Cânt eu hadolygu a'u gwerthuso'n barhaus ac maent yn destun gweithdrefnau rheoli risg effeithiol. Dengys Ffigur 4 sut mae Cyngor Sir y Fflint wedi datblygu ei ddull gweithredu strategol mewn perthynas â'r trydydd sector ers 2011.
- 1.10 Aseswyd bod gan 13 o awdurdodau lleol eraill ddull gweithredu strategol o ansawdd amrywiol ond bod bylchau a bod angen atgyfnerthu trefniadau er mwyn i ddyheadau'r awdurdod lleol gael eu gwredu. Gwnaethom nodi hefyd fod gan dri awdurdod ddulliau gweithredu strategol gwael neu ddulliau gweithredu strategol nad oedd digon o dystiolaeth ar eu cyfer gyda bylchau sylweddol o ran cwmpas ac ansawdd cynlluniau, camau gweithredu, gwybodaeth am anghenion a'r trefniadau ar gyfer cefnogi cyflawni.
- 1.11 Drwy ein harolygon gyda chynghorau gwirfoddol sirol¹¹ ac asiantaethau cyngor yn y trydydd sector¹² profwyd ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth o drefniadau strategol presennol o fewn awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau'r trydydd sector. Ar y cyfan, nododd ein harolygon nad yw sefydliadau yn y trydydd sector yn credu bod gan awdurdodau lleol ddull strategol digonol o weithio gyda'r trydydd sector a chael y budd mwyaf ohono. Er enghraifft:
- nodar naw cyngor gwirfoddol sirol nad oes gan eu hawdurdodau lleol strategaethau na fframweithiau ac nid oedd un cyngor gwirfoddol sirol yn gwybod;
 - dim ond un cyngor gwirfoddol sirol a oedd o'r farn bod ei awdurdod lleol yn defnyddio data cywir a chynhwysfawr i nodi'r anghenion y mae'n ceisio eu diwallu a'r materion y mae'n ceisio mynd i'r afael â hwy drwy'r cyllid y mae'n ei roi i wasanaethau'r trydydd sector; a
 - dim ond un cyngor gwirfoddol sirol a nododd fod yr awdurdod lleol yn dilyn ei strategaeth yn gyson.

10 Mae CAMPUS yn broses ar gyfer pennu nodau ac amcanion prosiect sy'n helpu i bennu mesurau perthnasol y gellir eu holrhain sydd â digon o adnoddau i'w cyflawni o fewn terfyn amser penodol. Mae CAMPUS yn acronym ac mae'n sefyll dros Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol.

11 Arolygwyd pob cyngor gwirfoddol sirol yng Nghymru a chafwyd 20 o ymatebion. Mae Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO) yn cwmpasu pedwar awdurdod lleol, sef: Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd a Sir Fynwy. Cawsom dair ffurflen unigol gan GAVO a oedd yn cwmpasu dau o'r pedwar awdurdod lleol a gwmpesir gan GAVO. At hynny, ni chwblhaodd Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot yr arolwg ond cafodd ei gyfwrdd fel rhan o'n gwaith maes. Yr ardaloedd awdurdod lleol lle nad oes gennym unrhyw wybodaeth o'r arolygon yw Sir Ddinbych, Castell-nedd Port Talbot, Sir Fynwy a Chasnewydd.

12 Cawsom ymatebion gan 33 o sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyngor a gwybodaeth a ariennir gan awdurdodau lleol yng Nghymru, sy'n gymysgedd o gyrff cenedlaethol a lleol.

Tudalen y pecyn 84

Ffigur 4 – Cyngor Sir y Fflint – adolygiad o gyllid y trydydd sector

Er mwyn i awdurdodau lleol a'r trydydd sector gydweithio'n effeithiol, dylai fod gan awdurdodau lleol ddull gweithredu strategol sy'n cysylltu â blaenoriaethau'r awdurdod lleol. Mae hyn yn egluro i sefydliadau yn y trydydd sector sut y gallant gyfrannu at flaenoriaethau'r awdurdod lleol.

Roedd Cyngor Sir y Fflint wedi ystyried sut y gellid rhoi hyn ar waith. Roedd yr awdurdod, fel awdurdodau eraill, yn wynebu pwysau cyllidebol sylweddol ar gyllid ym mhob maes o'i wasanaethau. Roedd rhai o'r pwysau yn debygol o effeithio ar arian grant y cyngor i'r trydydd sector.

Ar y cyd â'r trydydd sector, roedd yr awdurdod eisoes wedi datblygu canllawiau ar reoli grantiau a oedd yn nodi'r glir sut mae'n rheoli grantiau i'r trydydd sector. Eglurodd yr awdurdod y caiff y trydydd sector ei drin yn yr un ffordd ag adrannau'r awdurdod o ran penderfyniadau cyllidebol. Er enghraifft, disgwylir i unrhyw gais am arian gan sefydliadau yn y trydydd sector gyd-fynd â blaenoriaethau allweddol yr awdurdod. Mae'r awdurdod wedi pwysleisio ei ymrwymiad i ddull gweithredu strategol drwy roi arian ar gyfer tair blynedd ond mae wedi nodi disgwyliadau'r awdurdod o ran sut y byddai'r arian yn lleihau yn ystod y tair blynedd yn glir.

Er mwyn pwysleisio'r ymrwymiad i'r trydydd sector weithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio'n fwy ar fusnes mae'r awdurdod wedi newid i gytundebau sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Roedd hyn yn golygu bod y sefydliadau llwyddiannus yn glir ynghylch yr hyn roedd yr awdurdod yn ei ddisgwyl gan yr arian grant a lefel y gwasanaeth y dylid ei ddarparu.

Ers 2000 mae'r awdurdod wedi rhoi arian craidd i rai sefydliadau yn y trydydd sector. Diben yr arian yw darparu sail ariannu fwy sefydlog i'r sefydliadau hynny fel y gallant gystadlu mewn ymarferion comisiynu. Mae'r awdurdod wedi cytuno ar arian craidd ar gyfer sefydliadau yn y trydydd sector ar gyfer cyfnod o dair blynedd o 2015-16 ymlaen. Mae'r awdurdod hefyd wedi mapio'r holl wariant a phwy yn y trydydd sector a oedd yn cael arian. Er bod adrannau unigol yn parhau i reoli eu prosesau eu hunain ar gyfer ariannu gwasanaethau'r trydydd sector, mae gan bolisi canolog yr awdurdod lleol rôl hirsefydlog o oruchwyllo'r holl weithgarwch ariannu er mwyn sicrhau goruchwyliaeth ganolog effeithiol ym mhob rhan o'r awdurdod lleol.

Mae'r ffaith bod ganddo fethodoleg glir mewn perthynas ag ariannu yn helpu'r awdurdod a'r sefydliadau cysylltiedig i gynllunio at y dyfodol a deall lle mae'r awdurdod lleol am fod ymhen cyfnod penodol o amser.



Hyd yn oed os ydych yn teimlo'n isel – mae gwirfoddoli yn rhoi gwen ar eich wyneb! Tafllwr paent gwirfoddol Mary Heath yn Ras Liwiau St David's Hospice, ras liwiau unigryw sy'n dathlu iechyd, hapusrwydd, unigoliaeth a chyfrannu at eich cymuned. Un o'r 15 llun uchaf yng Nghystadleuaeth Ffotograffiaeth Aelodau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 2016.

Ffynhonnell: WCVA

1.12 At hynny, hyd yn oed lle mae awdurdodau lleol wedi sefydlu fframweithiau i lywio eu gwaith gyda'r trydydd sector, roedd partneriaid yn teimlo nad yw'r rhain yn cael eu rhoi ar waith yn gyson fel arfer a bod ganddynt gyfyngiadau yn aml, yn enwedig o ran cadernid, ansawdd a natur gynhwysfawr asesiadau o anghenion a galw. Gwnaethom hefyd ganfod tystiolaeth bod adrannau unigol yn defnyddio data a gwybodaeth leol i lywio'r gwaith o gynlluniau gwasanaethau – er enghraifft, yn Nhorfaen, mae'r trydydd sector yn cyfrannu at y gronfa ddata mapio anghenion sy'n bwydo i mewn i strategaeth comisiynu tai pum mlynedd. Fodd bynnag, nododd cynghorau gwirfoddol sirol, os nad oes gan awdurdodau lleol strategaeth hirdymor glir, fod prosesau ariannu wedyn yn canolbwyntio ar bynciau llosg - sef blaenoriaethau uniongyrchol sy'n gofyn am ymyriad byrdymor ond nad ydynt bron byth yn gofyn am ymateb parhaol - yn hytrach na gwasanaethau ataliol tymor hwy a fydd yn sicrhau buddiannau gwell ac ehangach i'r gymuned a'r awdurdod lleol. Adlewyrchir y casgliadau hyn yng nghaflyddiau ein harolygon eraill sydd, gyda'i gilydd, yn dangos bod gan drefniadau strategol a threfniadau cynllunio awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau'r trydydd sector wendidau yn aml.

Tudalen y pecyn 86

Mae awdurdodau lleol sy'n perfformio'n well yn deall eu gwaith gyda'r trydydd sector ac yn ei adolygu'n rheolaidd er mwyn symleiddio a gwella eu blaenoriaethau ariannu strategol

- 1.13 Mae tri o'r chwe awdurdod lleol lle y gwnaethom ein gwaith maes wedi cynnal adolygiadau cynhwysfawr o'r modd y maent yn ariannu'r trydydd sector yn ystod y pedair blynedd diwethaf, gan ganolbwyntio'n bennaf ar nodi lefel gyffredinol y gwariant ar y trydydd sector yn gywir. O ganlyniad i'r adolygiadau hyn, canfu rhai awdurdodau lleol fod adrannau a gwasanaethau gwahanol yn yr awdurdod lleol yn ariannu'r un sefydliad yn y trydydd sector i ddarparu gwasanaethau gweddol debyg. Drwy gynnal yr adolygiadau hyn, mae'r tri awdurdod lleol o'r farn bod ganddynt ddealltwriaeth well o'r ystod o weithgarwch a ariennir ganddynt drwy'r trydydd sector a'u bod mewn gwell sefyllfa, felly, i ddatblygu dull gweithredu mwy strategol ar gyfer eu gwaith gyda'r trydydd sector yn y dyfodol. Er enghraifft, nododd Cyngor Sir Caerfyrddin yn ei adolygiad ehangach o'r trydydd sector fod mwy o sefydliadau yn nodi eu bod yn darparu gwasanaethau cyngor a gwybodaeth nag yr oedd yr awdurdod yn ymwybodol ohonynt – **Ffigur 5**.

Ffigur 5 – Cyngor Sir Caerfyrddin – cydgysylltu prosesau ariannu'r trydydd sector

Dechreuodd adolygiad Cyngor Sir Caerfyrddin yn 2013 mewn ymateb i gais i nodi gwariant yr awdurdod lleol ar y trydydd sector. Bryd hynny, roedd gan yr awdurdod lleol rywfaint o dystiolaeth anecdotaidd nad oedd ei wariant ar y trydydd sector yn gydgysylltiedig. Ceisiodd yr awdurdod lleol feithrin dealltwriaeth glir o'i wariant blyneddol ac asesu i ba raddau roedd y gwariant hwnnw yn cyd-fynd â blaenoriaethau cynllun integredig sengl yr awdurdod lleol. Nod yr awdurdod lleol oedd sicrhau y câi dulliau corfforaethol o ariannu'r trydydd sector yn y dyfodol eu cydgysylltu'n fwy effeithiol er mwyn sicrhau y byddai gostyngiadau mewn cyllid i'r trydydd sector yn cael cyn lleied o effaith â phosibl ar drigolion. Nododd yr adolygiad hefyd achos o gyllid dyblygedig o fewn yr awdurdod lleol a oedd wedi'i gytuno'n flaenorol heb unrhyw oruchwyliaeth ganolog.

Ceisiodd yr awdurdod lleol ymgysylltu â phob sefydliad yn y trydydd sector a oedd yn cael arian a chynhaliodd gynhadledd fawr er mwyn ystyried y mater. Chwaraeodd prif weithredwr ac arweinydd yr awdurdod lleol rôl bwysig yn arwain y broses. Gofynnodd yr awdurdod lleol am wybodaeth gan y sefydliadau yn y trydydd sector yr oedd yn eu hariannu a'i adrannau ei hun er mwyn deall cyfanswm cwantwm y gwariant.

Ar adeg ein gwaith maes, roedd yr awdurdod lleol newydd gwblhau ei adolygiad ac roedd yn datblygu'r iteriad nesaf o'i ddull o weithio gyda'r trydydd sector a'i ariannu. Cydnabu'r awdurdod lleol fod yr adolygiad wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl a bod canfyddiadau'r adolygiad wedi darparu sail wybodaeth gadarn iawn er mwyn iddo ddatblygu ei ddull gweithredu ymhellach. Gan fod cyllid i'r trydydd sector wedi'i ddatgrynhoi i adrannau yn flaenorol nid oedd gan yr awdurdod lleol ddealltwriaeth glir o'i wariant cyffredinol ar y trydydd sector.

- 1.14 Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae'r awdurdod lleol wedi gweithio'n agos gyda sector gwirfoddol a chymunedol Castell-nedd Port Talbot er mwyn adolygu ei drefniadau ar gyfer dyfarnu arian grant a nododd fod nifer o adrannau yn defnyddio eu trefniadau eu hunain ar gyfer rhoi arian grant ac nad oedd gan yr awdurdod lleol drosolwg corfforaethol o'r gweithgarwch hwnnw. Yn dilyn yr adolygiad, lluniodd y sector gwirfoddol a chymunedol **Gynllun Arian Grant** ar y cyd, a oedd yn cydfynd â **Chynllun y Trydydd Sector** Llywodraeth Cymru. Mae goruchwyliaeth y rheolwyr dros gyllid y trydydd sector bellach yn dod o fewn un adran gorfforaethol sydd erbyn hyn yn goruchwyllo'r holl arian grant drwy un broses gwneud cais sy'n cwmpasu'r awdurdod lleol cyfan. Mae'r broses honno yn golygu ei bod yn haws cysoni trefniadau ariannu er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r awdurdod lleol. Mae'r broses newydd ar gyfer rhoi arian grant i'r trydydd sector yn haws i'w gweinyddu ac yn galluogi'r awdurdod lleol i ganolbwyntio ac alinio gwaith sefydliadau yn y trydydd sector ar gyflawni blaenoriaethau strategol yr awdurdod. Mae Pwyllgor Cyswilt Sector Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot hefyd yn cyfrannu at yr adolygiadau rheolaidd amserlenedig o'r cynllun er mwyn cynnal y dull gweithredu ar y cyd.
- 1.15 Yn Sir y Fflint, adolygodd yr awdurdod lleol y ffordd roedd ei gymorth i ddiodefwyr cam-drin yn y cartref yn cael ei ddarparu. Ar ddechrau'r adolygiad, roedd yr awdurdod lleol yn ariannu dau ddarparwr yn y trydydd sector mewn dau leoliad ar wahân. Roedd yr awdurdod lleol yn gostwng y cyllid roedd yn ei roi i'r maes gwaith hwn a chynigiodd y dylai'r ddau sefydliad yn y trydydd sector gydweithio i ddarparu'r gwasanaeth yn y dyfodol, gan reoli'r gostyngiad ond gan gynnal y ddarpariaeth. Mae'r gwasanaeth bellach yn cael ei ddarparu ar y cyd gan y ddau sefydliad, er am lai o gost nag o'r blaen, ond gyda'r un lefel o wasanaeth i'r cyhoedd.
- 1.16 Fodd bynnag, nodwyd gennym nad yw'r tri awdurdod lleol arall lle y buom yn gwneud ein gwaith maes wedi mapio nac adolygu'r holl arian y maent yn ei roi i'r trydydd sector ar gyfer pob gwasanaeth eto, er eu bod yn tueddu i ddeall darpariaeth y trydydd sector ym maes gofal cymdeithasol yn well nag adrannau eraill yr awdurdod. Er nad yw awdurdodau wedi cael trosolwg strategol o waith a threfniadau ariannu yn y trydydd sector, yn aml gall rhyngweithio rhwng yr awdurdod lleol a'r trydydd sector fod yn dameidiog ac yn llai ffurfiol, gydag arferion gwaith yn cael eu llywio gan adrannau, gwasanaethau a swyddogion unigol. Oherwydd gwaith goruchwyllo a chydgyssylltu gwael, mae awdurdodau lleol yn colli cyfleoedd i nodi arbedion cost drwy resymoli gorbenion rheolwyr.
- 1.17 Gall diffyg goruchwyliaeth gorfforaethol hefyd arwain at drefniadau ariannu amrywiol a phenderfyniadau anghyson a all ddylanwadu ar ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau yn y trydydd sector. Mae adrannau unigol awdurdodau lleol yn aml yn gweithio'n annibynnol ar ei gilydd, yn pennu canlyniadau gwahanol ac yn defnyddio dulliau gwahanol o gaffael a rhoi arian grant i'r trydydd sector gyda threfniadau rheoli perfformiad gwahanol iawn. Er enghraifft, nodwyd gennym fod un awdurdod lleol wedi ariannu nifer o sefydliadau y mae eu cylchoedd gorchwyl yn gorgyffwrdd i ddarparu gwasanaethau cyngor a gwybodaeth gan adrannau gwahanol awdurdodau lleol. Roedd ffi reoli i'w thalu am sefydlu a

gweinyddu pob contract y gellid bod wedi'i lleihau neu ei hosgoi pe bai dull ariannu integredig wedi'i fabwysiadu. Gallai dull ariannu integredig fel y'i mabwysiadwyd gan awdurdodau lleol eraill leihau'r baich ar sefydliadau yn y trydydd sector drwy symleiddio'r gofynion o ran gweinyddu, talu, perfformiad a monitro.

- 1.18 Nododd cynghorau gwirfoddol sirol, lle nad oes gan awdurdod lleol strategaeth gyffredinol na fframwaith corfforaethol, y gall cyfathrebu â'r trydydd sector yn aml fod yn weithgarwch anghydgyssylltiedig ad hoc sydd wedi'i gynllunio yn erbyn safonau adrannol gwahanol iawn. Nododd un fod adrannau awdurdodau lleol yn gwneud '... things differently. A recent Communities First process.....was relatively simple, but with a quick turnaround for applicants to submit. Other examples such as Families First tenders, are often excessive and prohibitive.' Nododd eraill fod 'ad hoc arrangements across different departments leads to an inconsistent approach - ie differing financial thresholds for SLAs, contracts, Tendering' a dywedodd un arall '[since] there is no apparent coordinated approach this sometimes impacts on perception of equality and transparency'.
- 1.19 Yn ystod y cyfweiliadau a gynhaliwyd fel rhan o'n gwaith maes ac mewn ymatebion i'n cais am dystiolaeth, nododd sefydliadau yn y trydydd sector yn aml nad yw swyddogion nac aelodau etholedig yn deall yn iawn sut y gall y trydydd sector helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu hamcanion corfforaethol a gwella gwasanaethau i'r cyhoedd. Dywedodd nifer o sefydliadau yn y trydydd sector wrthym nad oes gan awdurdodau lleol wybodaeth fanwl yn aml i ddeall y cyfleoedd sydd ar gael i ychwanegu gwerth at eu buddsoddiad eu hunain drwy gysylltu eu prosesau neilltuo adnoddau â rhaglenni gwaith eraill a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hynny.
- 1.20 Er enghraifft, nododd sefydliadau yn y trydydd sector fod cyllid gan awdurdodau lleol weithiau yn rhagofyniad i sicrhau bod ceisiadau sefydliadau am arian a ddarperir gan eraill yn llwyddiannus; er enghraifft, cronfeydd strwythurol a chronfeydd buddsoddi Ewropeaidd¹³, arian a ddarperir gan gyrff eraill yn y sector cyhoeddus a rhaglenni cenedlaethol megis y Gronfa Loteri Fawr¹⁴. Mae'r rhain hefyd yn gronfeydd na all awdurdodau lleol fanteisio arnynt na'u defnyddio ac, felly, maent yn cynnig cyfleoedd i ychwanegu gwerth at fuddsoddiad yr awdurdodau lleol eu hunain yn y trydydd sector. Fel y nododd ymatebwyr i'n cais am dystiolaeth, 'the ripple effect of the third sector is massive (but) the local authorities don't understand this' ac un arall 'if the Local Authority does not have the faith in a project that is being delivered within the locality what hope do we have of convincing others to also come in'.

13 Arian a ddarperir gan Gomisiwn yr UE ac a weinyddir gan Lywodraeth Cymru y gellir ei ddefnyddio i helpu pobl i gael gwaith a hyfforddiant, hybu cyflogaeth ymhlith ieuencid, cefnogi ymchwil ac arloesedd, gwella cystadleurwydd busnesau a hyrwyddo ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni a chysylltedd a gweithgarwch datblygu trefol.

14 Gwefan Cronfa Loteri Fawr y DU, Ymddiriedolaeth Ymyrraeth Gynnar y Trydydd Sector.

Mae gan bob awdurdod lleol gytundebau â'r trydydd sector ond nid ydynt bob amser yn gyfredol nac yn effeithiol

- 1.21 Mae'r cytundeb lleol â'r trydydd sector yn elfen bwysig wrth hyrwyddo a datblygu gwaith y trydydd sector. Mae cytundebau yn darparu fframwaith clir ar gyfer gwaith partneriaeth lleol rhwng awdurdodau lleol a'r trydydd sector. Bydd cytundeb da yn nodi rolau a chyfrifoldebau'r partneriaid yn glir, wedi'i deilwra i anghenion yr ardal, yr arian sydd ar gael ac amrywiaeth darpariaeth y trydydd sector yn lleol. Bydd cytundeb effeithiol hefyd yn nodi'r egwyddorion sy'n sail i'r ffordd y bydd y partneriaid yn cydweithio ac mae gan lofnodwyr gyfrifoldeb i weithio yn unol â'i egwyddorion a'i ymrwymiadau.
- 1.22 Er mwyn cydnabod rôl bwysig y trydydd sector o ran helpu cyrff cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau a chyflawni amcanion sy'n flaenoriaeth genedlaethol, cyflwynodd Llywodraeth Cymru y **Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector** (y Cod)¹⁵. Mae'r Cod yn nodi'r egwyddorion allweddol sy'n sail i'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r trydydd sector ac yn ei ariannu. Mae'n rhaid i holl adrannau Llywodraeth Cymru gydymffurfio â'r Cod ac mae'n ofynnol i gyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru gydymffurfio â'u cytundebau ariannu. Mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus arall (gan gynnwys cyrff y GIG ac awdurdodau lleol) gydymffurfio â'r Cod mewn achosion lle mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu arian wedi'i neilltuo iddynt. At hynny, disgwylir i awdurdodau lleol ddilyn egwyddorion y Cod a'u hadlewyrchu yn eu cytundebau lleol â'r trydydd sector.
- 1.23 O ystyried yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl gan gyrff cyhoeddus fel y'i nodir yn y Cod, ac yn benodol awdurdodau lleol, o ran y ffordd y maent yn ariannu gwasanaethau'r trydydd sector, arolygwyd y cynghorau gwirfoddol sirol i weld sut mae'r Cod yn cael ei ddefnyddio a sut mae awdurdodau lleol yn trin arian wedi'i neilltuo. O'r naw cyngor gwirfoddol sirol a nododd fod gan eu hawdurdod lleol strategaeth ar gyfer gwasanaethau'r trydydd sector, roedd pump o'r farn bod y Cod yn ychwanegu gwerth at y broses o gaffael gwasanaethau'r trydydd sector gan awdurdodau lleol. Fodd bynnag, dim ond tri o'r naw a deimlai fod strategaeth eu hawdurdod lleol yn gyson â Chod Llywodraeth Cymru – h.y. mae'r strategaeth yn cwmpasu pob gwasanaeth ac yn dylanwadu ar bob penderfyniad gan yr awdurdod lleol yn ei waith gyda'r trydydd sector.
- 1.24 Hefyd, arolygwyd yr holl gytundebau o'r awdurdodau lleol lle y buom yn gwneud ein gwaith maes. Er bod rhai cytundebau yn adlewyrchu amgylchiadau a chydbertnasau lleol yn glir, ymddengys fod eraill yn eithaf cyffredinol a'u bod yn cyd-fynd yn agos â Chod Llywodraeth Cymru. Roedd ymdeimlad cryfach o berchenogaeth ymhlith sefydliadau yn y trydydd sector lle roedd cytundebau wedi cael eu hadolygu a'u haddasu er mwyn adlewyrchu amgylchiadau lleol a sefyllfaoedd ariannol a oedd yn newid. Ystyriwyd bod y newidiadau hynny yn annog gwelliannau o ran y gydbertnyas rhwng yr awdurdod lleol a'r trydydd sector lleol. Er enghraifft, yn ddiweddar adolygodd a diweddarodd Blaenau Gwent ei gytundeb (**Cynllun y Trydydd Sector**) ar ddechrau 2016 gan ei ymestyn i gynnwys cyrff eraill yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys y bwrdd iechyd lleol,

¹⁵ Mae'r Cod wedi'i ddiweddarau ar sawl achlysur, yn fwyaf diweddar ym mis Ionawr 2014.

Heddlu Gwent a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent. Cydnabu'r awdurdod lleol mai megis dechrau oedd y broses o roi'r cynllun diwygiedig ar waith ond roedd yn disgwyl iddo ddarparu fframwaith strategol cliriach ar gyfer y ffordd y mae cyrff cyhoeddus â chyllidebau gwahanol yn gweithio gyda'r trydydd sector yn ardal awdurdod lleol y fwrdeistref sirol ac yn ei ariannu.

- 1.25 Fodd bynnag, nodwyd gennym, er bod gan awdurdodau lleol gytundebau ffurfiol â'r trydydd sector yn eu hardal, nad ydynt bob amser yn gyfredol nac ychwaith yn adlewyrchu'r cytundebau partneriaeth presennol. Nodwyd gennym fod nifer o gytundebau wedi bodoli ers dros 10 mlynedd heb gael eu diwygio na'u diweddarau ac nad ydynt yn aml yn adlewyrchu blaenoriaethau strategol presennol na'r ffordd y caiff gwasanaethau eu cyflunio, eu darparu a'u hariannu gan awdurdodau lleol nac yn adlewyrchu'r amrywiaeth o bartneriaid sy'n darparu gwasanaethau ar ran yr awdurdod lleol yn gywir. Nododd un cyngor gwirfoddol sirol, 'there is no third sector compact, nor a Funding Code'.

Nid yw gwaith partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a'r trydydd sector yn gyson effeithiol i ysgogi gwelliannau

- 1.26 Er mwyn deall sut y gall y trydydd sector wneud y cyfraniad gorau a mwyaf costeffeithiol at fynd i'r afael â blaenoriaethau awdurdodau lleol, mae'n hanfodol bod gan awdurdodau lleol wybodaeth lawn a manwl am y gwasanaethau a ddarperir gan y trydydd sector ar hyn o bryd. Er mwyn gwneud hyn, mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod ymgysylltiad a deialog effeithiol a pharhaus â'r trydydd sector. Gall gwaith ymgysylltu ac ymgynghori gwael arwain at awdurdodau lleol yn cynllunio gwasanaethau nad ydynt yn adlewyrchu blaenoriaethau, anghenion na galw neu at fanylebau gwasanaethau wedi'u llunio'n wael nad ydynt yn ddarbodus, yn effeithlon nac yn effeithiol. Fodd bynnag, gan fod y trydydd sector yn amrywio o sefydliadau cymunedol, lleol bach i elusennau mawr sy'n cwmpasu'r DU gyfan, gall fod yn anodd i awdurdodau lleol ymgysylltu â phob rhanddeiliad yn gyson ac yn effeithiol.
- 1.27 Mae cyfarfodydd partneriaeth rheolaidd rhwng awdurdodau lleol a'r trydydd sector yn ffordd bwysig o oruchwylio gweithgarwch ac yn sicrhau bod yr awdurdod lleol a'r sefydliadau yn y trydydd sector yn gweithio'n effeithiol er mwyn sicrhau gwelliannau. Yn aml mae'r rhain ar ffurf cyfarfodydd cydbwyllgorau cyswllt sy'n cynnwys aelodau etholedig a swyddogion awdurdodau lleol. Canfuwyd mwy o dystiolaeth o ymgysylltu cadarnhaol rhwng awdurdodau lleol a'r trydydd sector lle mae gan yr awdurdod lleol ddull corfforaethol o ymgysylltu â'r trydydd sector a gweithio gydag ef (sydd wedi'i ategu fel arfer gan gytundeb cadarn a chyfredol). Er enghraifft, gwaith Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a grynhoir yn **Ffigur 6**.

Ffigur 6 – Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot – gweithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector

Yng Nghastell-nedd Port Talbot, bu Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol yn ystyried pa mor bwysig ydyw bod y trydydd sector yn hysbysu'r awdurdod lleol am y problemau y mae pobl leol yn eu hwynebu. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod ei fod yn wynebu setliadau cyllidebol sy'n lleihau gan Lywodraeth Cymru a bod angen ymateb i gymunedau a gweithio gyda hwy mewn ffyrdd mwy arloesol. Mae'n amlwg bod yr awdurdod lleol wedi cydnabod yr angen i ddeall y gwasanaethau a ddarperir ganddo a'r hyn y gall y trydydd sector ei ddarparu. Nododd y cyngor gwirfoddol sirol lleol y gallai hefyd chwarae rôl fwy effeithiol ei hun o ran gwella effeithiolrwydd Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol.

- 1.28 Yn yr un modd, mae'r gydberthynas rhwng Cyngor Sir y Fflint a sefydliadau yn y trydydd sector yn seiliedig ar ddeialog agored ac effeithiol. O 2015-16 mae Cyngor Sir y Fflint yn lleihau'r arian craidd y mae'n ei roi i sefydliadau yn y trydydd sector ond oherwydd ei weithgarwch ymgysylltu effeithiol â phartneriaid, nid yw'r gostyngiadau mewn arian wedi'u herio ryw lawer, yn bennaf am fod yr awdurdod lleol wedi rhoi gwybod y bydd y gostyngiadau ar yr un lefel â'r pwysau y mae angen mynd i'r afael â hwy yng ngwasanaethau'r awdurdod lleol ei hun. Roedd y cyngor gwirfoddol sirol lleol o'r farn bod natur agored a thryloyw ei ddeialog â Chyngor Sir y Fflint yn brawf cadarnhaol o'r trefniadau cydweithio ac ariannu effeithiol a ddatblygwyd gan bartneriaid yn Sir y Fflint.
- 1.29 Serch hynny, roedd nifer o ymatebwyr i'n cais am dystiolaeth o'r farn nad yw'r gydberthynas rhwng awdurdodau lleol a'r trydydd sector yn effeithiol, a gwnaethant gyfeirio'n aml at y gydberthynas fel un anghyfartal sy'n debycach i gydberthynas rhwng rhiant a phlentyn. Lleisiwyd pryderon bod gan yr awdurdod lleol, fel y corff ariannu, fwy o bŵer o fewn y gydberthynas a phe bai sefydliadau yn y trydydd sector yn herio'r awdurdod lleol y gallai hynny gael effaith andwyol ar benderfyniadau ariannu yn y dyfodol. Dim ond 14 o'r 56 o sefydliadau a ymatebodd i'n cais am dystiolaeth a nododd fod y trefniadau presennol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau yn y trydydd sector yn effeithiol neu'n effeithiol iawn o gymharu â 35 a oedd o'r farn nad oedd y trefniadau presennol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol iawn. Dywedodd un ymatebydd nad yw'r rhan fwyaf o gydberthnasau a elwir yn bartneriaethau yn bartneriaethau mewn gwirionedd. Roedd hefyd o'r farn nad oes unrhyw waith cynllunio strategol effeithiol yn cael ei wneud mewn perthynas ag ariannu'r trydydd sector.
- 1.30 Nid oedd llawer o'r sefydliadau yn y trydydd sector a ymatebodd i'n cais am dystiolaeth o'r farn bod gan awdurdodau lleol drefniadau partneriaeth effeithiol ar gyfer gweithio gyda'r trydydd sector. Nododd un darparwr y gellid gwneud mwy o ddefnydd o'r trydydd sector ac nad oedd digon o werth yn cael ei roi ar yr hyn y gall y trydydd sector ei wneud a nododd ymatebwr arall, er y sonnir am bartneriaeth yn

aml, fod y realiti yn wahanol iawn. Yn ôl ein profiad nid oes gan y trydydd sector fawr ddim dylanwad ar brosesau gwneud penderfyniadau ac mae sefydliadau yn y trydydd sector yn aml yn teimlo bod eu cyfranogiad yn symbolaidd. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod awdurdodau lleol yn rhoi mwy o bwyslais ar sefydliadau yn y trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau am gost is yn hytrach na gwerthfawrogi'r gwerth ychwanegol y gall y trydydd sector ei gynnig, tra bod eraill wedi lleisio pryderon y bydd awdurdodau lleol yn ceisio lleihau'r arian y maent yn ei roi i'r trydydd sector yn hytrach na gorfod wynebu torri gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol gan yr awdurdod lleol.

- 1.31 Lle nad yw awdurdodau lleol wedi mabwysiadu un strategaeth ar gyfer gweithio gyda'r trydydd sector eto, nodwyd gennym fod gwaith partneriaeth yn aml yn amrywio a'i fod yn dibynnu ar ymagwedd adrannau unigol gwasanaethau awdurdodau lleol. Mae gan lawer o wasanaethau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol gydberthnasau hirsefydlog a mwy ffurfiol â'r trydydd sector, sy'n tynnu sylw at y rôl y mae sefydliadau yn y trydydd sector yn ei chwarae o ran darparu gwasanaethau. Mae trefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a'r trydydd sector ym maes gofal cymdeithasol yn aml wedi'u llunio ar sail dogfennau strategol Llywodraeth Cymru – er enghraifft, **Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol**¹⁶ – ac wedi'u hategu gan ddatganiadau sefyllfa'r farchnad gwasanaethau cymdeithasol – **Ffigur 7**. Mae'r trefniadau hyn wedi helpu partneriaid – awdurdodau lleol a chyrrff yn y trydydd sector – i barhau i ddatblygu ac atgyfnerthu'r trefniadau ariannu strategol ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol y trydydd sector.
- 1.32 Er gwaethaf y rôl gynyddol y mae'r trydydd sector yn ei chwarae o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, mae'r gydberthynas rhwng llywodraeth leol a'r sector wedi wynebu nifer o broblemau. Nododd un ymatebydd i'n cais am dystiolaeth nad ymddengys fod trefniadau ariannu yn gydgysylltiedig. Yn aml gall un gwasanaeth gael ei ariannu o sawl cronfa wahanol. Nid yw awdurdodau lleol bob amser yn cynnwys y trydydd sector fel partner strategol ac mae'r cyfraniad y mae cyrrff gwirfoddol yn ei wneud at strategaethau, blaenoriaethau a threfniadau cydweithio i wella gwasanaethau yn amrywio.
- 1.33 Gan fod gwaith partneriaeth â'r sector cyhoeddus yn cynyddu drwy fyrddau gwasanaethau cyhoeddus¹⁷, mae'n bwysig bod pob partner yn cael ei gynrychioli'n effeithiol er mwyn sicrhau'r ddealltwriaeth ehangach o'r modd y caiff gwasanaethau'r trydydd sector eu hariannu. Fodd bynnag, mewn rhai ardaloedd, mae awdurdodau lleol yn nodi nad ydynt bob amser wedi llwyddo i gynnwys y bwrdd iechyd lleol mewn trefniadau cydgyllido a bod angen mynd i'r afael â hyn o gofio lefel y cyllid y mae byrddau iechyd hefyd yn ei roi i'r trydydd sector. Mae gwaith cydgysylltu gwael o ran dulliau ariannu rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn gosod mwy o faich ar yr awdurdod lleol a chyrrff yn y trydydd sector ac mae'n llai effeithlon na dull gweithredu lleol cydgysylltiedig sy'n cwmpasu holl gyrrff y sector cyhoeddus gan gynnwys awdurdodau lleol, y sector iechyd a'r heddlu er enghraifft.

¹⁶ **Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol** yw strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Er mater i awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am waith cynllunio strategol ydyw yn bennaf, cydnabyddir bod rôl a chyfraniad y trydydd sector yn hanfodol i ddiwallu anghenion o ran gofal cymdeithasol.

¹⁷ Mae **Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn sefydlu byrddau gwasanaethau cyhoeddus statudol ym mhob ardal awdurdod lleol. Diben byrddau gwasanaethau cyhoeddus yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardaloedd drwy atgyfnerthu trefniadau cydweithio ym mhob gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.

Ffigur 7 – Datganiadau gwasanaethau cymdeithasol o sefyllfa'r farchnad

Mae'r datganiad o sefyllfa'r farchnad yn rhan bwysig o broses ariannu strategol. Mae'n ddatganiad ynghylch pa fath o farchnad gofal a chymorth awdurdod lleol sydd angen ei chreu ar gyfer y dyfodol ac yn ffurfio rhan o'r ddeialog honno â phartneriaid, gan gynnwys darparwyr a phobl lleol fel y gallant gynllunio i ddarparu'r gorau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau. Dylai'r datganiad o sefyllfa'r farchnad nodi sut y bydd yr awdurdod lleol yn gweithio gyda'r sefydliadau sy'n cynnig gwasanaethau, gofal a chymorth i unigolion, teuluoedd a chymunedau.

Mae awdurdodau lleol yn cyhoeddi'r dogfennau hyn er mwyn galluogi pob darpar ddarparwr i ddeall pa wasanaethau y bydd yr awdurdod lleol yn ystyried eu darparu yn y dyfodol. Mae pob un o'r awdurdodau lleol yn nodi'n glir eu bod yn disgwyl i'r trydydd sector allu cystadlu i ddarparu'r gwasanaethau hynny. Mae'r datganiadau hyn o sefyllfa'r farchnad yn galluogi'r trydydd sector i ddeall dull gweithredu strategol yr awdurdodau lleol, er bod hynny ym maes gwasanaethau cymdeithasol yn unig, a sut y gall y sector gyfrannu at y gwaith o ddarparu gwasanaethau. Gwerthfawrogir yr eglurder hwn gan y trydydd sector gan y gall helpu i ddatblygu gwasanaethau sydd eu hangen ar yr awdurdod lleol ond dylai'r rhain fod wedi'u hategu gan ddull clir o ariannu'r gwasanaethau a nodwyd. Nodwyd gennym, ym maes gwasanaethau cymdeithasol, fod y canlynol yn cyfrannu at y gwaith partneriaeth llwyddiannus rhwng yr awdurdod lleol a sefydliadau yn y trydydd sector:

- proses ariannu glir;
- ffocws ar anghenion yr awdurdod lleol ar gyfer y gwasanaeth sy'n cael ei ariannu;
- amcanion clir ar gyfer y contract;
- systemau adrodd rheolaidd;
- staff a oedd yn meddu ar yr arbenigedd i gomisiynu a rheoli prosiectau;
- sefydliadau a oedd yn gallu llunio dogfennau gwneud cais a defnyddio'r broses gaffael; a
- strategaeth ymadael glir.

Roedd y rhai a gafodd eu cyfworld o'r farn y bydd datblygu asesiadau llesiant o dan **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014** yn helpu i feithrin dealltwriaeth awdurdodau lleol o anghenion eu poblogaethau lleol ymhellach.

Mae cynghorau gwirfoddol sirol yn chwarae rôl allweddol o ran canolbwyntio a chydgyssylltu'r trydydd sector ond nid yw eu gwaith yn cael ei werthfawrogi na'i gydnabod bob amser ac mae gwendidau mewn trefniadau presennol yn tanseilio eu heffeithiolrwydd

- 1.34 Ystyrir yn aml mai cynghorau gwirfoddol sirol yw 'llais y trydydd sector' mewn ardal awdurdod lleol, ac maent yn aml yn cynrychioli'r trydydd sector ar bartneriaethau strategol. Mae cynghorau gwirfoddol sirol yn gweithredu fel cyfrwng i wybodaeth am bolisi, gan gefnogi rhwydweithiau mewn perthynas â themâu a meysydd diddordeb allweddol, er mwyn sicrhau bod llunwyr polisi a gwneuthurwyr penderfyniadau yn deall anghenion sefydliadau yn y trydydd sector mewn maes penodol. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod cynghorau gwirfoddol sirol yn cynrychioli eu haelod-sefydliadau a'u gwirfoddolwr er mwyn cyflawni eu rhwymedigaethau o ran gwasanaethau craidd, ac mae Llywodraeth Cymru yn ariannu cynghorau gwirfoddol sirol i gyflawni'r rôl hon.
- 1.35 Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arian i gynghorau gwirfoddol sirol lleol gydgysylltu a chefnogi gweithgarwch y trydydd sector. Gall sefydliadau lleol yn y trydydd sector ymaelodi â'u cyngor gwirfoddol sirol lleol. Ar hyn o bryd, mae'r cynghorau gwirfoddol sirol yn adlewyrchu ffiniau awdurdodau lleol ac eithrio GAVO sy'n cwmpasu Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy a Chasnewydd.
- 1.36 Nodwyd gennym, lle mae cydberthnasau rhwng awdurdodau lleol a'u cyngor gwirfoddol sirol yn effeithiol, fod cynghorau gwirfoddol sirol yn gallu hyrwyddo a helpu sefydliadau yn y trydydd sector i gael arian a gwaith prosiect. Gwelsom enghreifftiau lle roedd awdurdodau lleol yn defnyddio eu cyngor gwirfoddol sirol i nodd sefydliadau addas yn y trydydd sector i gyflawni prosiectau penodol yn lleol. Yn y sefyllfaoedd hyn, roedd y cyngor gwirfoddol sirol yn gweithredu fel brocer ac yn rhoi cyngor a chymorth er mwyn helpu ei aelodau i gael arian yn ogystal â meithrin gallu a sgiliau sefydliadau yn y trydydd sector. Er enghraifft, mae GAVO a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi datblygu proses glir i feithrin gallu'r trydydd sector fel y dangosir yn **Ffigur 8**.
- 1.37 Mewn rhai ardaloedd, mae awdurdodau lleol yn ystyried mai cynghorau gwirfoddol sirol yw unig gynrychiolydd y trydydd sector ac, felly, fe'u gwahoddir i gynrychioli'r trydydd sector ar weithgorau a phwyllgorau strategol, heb ystyried eu harbenigedd na'u gwybodaeth am y pwnc. Fodd bynnag, nododd ymatebwyr i'n cais am dystiolaeth fod awdurdodau lleol yn canolbwyntio'n bennaf ar gynghorau gwirfoddol sirol lleol fel y prif gyfrwng i mewn i'r sector ond nad yw cynghorau gwirfoddol sirol bob amser yn cydgysylltu nac yn cyfathrebu â'u haelod-sefydliadau nac yn cynrychioli eu barn yn effeithiol.

Ffigur 8 – GAVO – meithrin gallu'r trydydd sector i gystadlu mewn ymarferion caffael

Mae Tîm Polisi Canolog Caerffili wedi gweithio gyda chydweithwyr yn y gwasanaeth caffael a'r cyngor gwirfoddol sirol lleol (GAVO) er mwyn meithrin gallu'r trydydd sector. Mae'r Gwasanaeth Caffael yn rhoi arweiniad a chymorth i sefydliadau yn y trydydd sector yn unol â Menter Drysau Agored Llywodraeth Cymru: Caffael a'r Trydydd Sector. Nod yr awdurdod lleol yw sicrhau bod mwy o sefydliadau lleol yn llwyddo i ennill contractau gyda'r awdurdod lleol.

Yn 2014-15 parhaodd y gwaith hwn gyda gwaith agos rhwng y gwasanaeth caffael a GAVO ar brosesau caffael yn y trydydd sector. Mae Tîm Caffael yr awdurdod lleol yn cynnal clinigau caffael bob pythefnos lle y gall sefydliadau yn y trydydd sector gael cyngor a chanllawiau ar y broses dendro a defnyddio system e-gaffael yr awdurdod lleol. Mae Swyddog Cydberthnasau â Chyflenwyr penodol o fewn y Tîm Caffael sy'n rhoi cymorth i sefydliadau. Mae'r awdurdod lleol hefyd wedi llunio cynlluniau caffael i gyfarwyddiaethau sydd ar gael ar wefan yr awdurdod.

Ochr yn ochr â'r gwaith rhagweithiol uchod gyda'r trydydd sector, ar y cyd â GAVO a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, cynhaliodd yr awdurdod lleol saith seminar cryno i sefydliadau yn y trydydd sector yn ystod hydref 2014, er mwyn eu helpu i ddatblygu a pharhau'n gynaliadwy, a'u paratoi ar gyfer cyfleoedd caffael ac ariannu yn y dyfodol. Roedd y sesiynau hynny yn cynnwys y meysydd canlynol:

- beth yw mentrau cymdeithasol?
- cynlluniau busnes
- rheoli risg
- strwythurau cyfreithiol
- materion TAW
- y gwahaniaeth rhwng grant/contract/cytundeb lefel gwasanaeth

Yn dilyn y sesiynau hynny, cynhaliodd yr awdurdod lleol, mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau gynhadledd a ddaeth â sefydliadau yn y trydydd sector a chomisiynwyr gwasanaethau at ei gilydd. Rhoddodd y digwyddiad gyfle i'r trydydd sector glywed am y prosesau caffael a chyfarfod â sefydliadau a fyddai'n cynnal ymarferion caffael. Ar y pryd, roedd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn ariannu Swyddog Cyswllt Datblygu i helpu'r trydydd sector i gael arian er mwyn darparu gwasanaethau drwy eu Bwrdd Comisiynu Strategol.

- 1.38 Er enghraifft, lleisiodd nifer o sefydliadau yn y trydydd sector bryderon nad yw eu cyngor gwirfoddol sirol lleol yn ymgynghori â hwy'n gyson ac, felly, roeddent yn amau a ellid ystyried mai'r cyngor gwirfoddol sirol yw llais dilys y trydydd sector. Gall y diffyg cyfathrebu hwn arwain at ddrwgdybiaeth o fewn y trydydd sector ac roedd rhai sefydliadau yn amau a ellid ystyried bod cynghorau gwirfoddol sirol yn gallu cynrychioli'r sector cyfan yn effeithiol os nad oes unrhyw ymgysylltu effeithiol a pharhaus. Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn ceisio sicrwydd, waeth pa fforymau a ddefnyddiant i ymgynghori â'r trydydd sector, fod y broses mor gynrychioliadol â phosibl o'r sector ac yn hwyluso ystod ehangach o gynrychiolwyr o'r trydydd sector ar gyfer gweithgorau a phwyllgorau.
- 1.39 At hynny, gwelsom dystiolaeth bod rhai cynghorau gwirfoddol sirol yn cystadlu â'u haelod-sefydliadau am arian prosiect a gwirfoddolwyr. Sefydlodd un cyngor gwirfoddol sirol yng Ngogledd Cymru wasanaeth cyfeillio a ariannwyd gan y Loteri Genedlaethol yr oedd y Groes Goch¹⁸ eisoes yn cael arian i'w ddarparu yn yr un ardal awdurdod lleol. Roedd hyn yn golygu bod y ddau sefydliad yn darparu'r un gwasanaeth ac yn 'cystadlu' am wirfoddolwyr i redeg y gwasanaeth yn ogystal â defnyddwyr gwasanaethau a fyddai'n cael budd o'r gwaith. Er mwyn gwneud y defnydd gorau o gyllid y trydydd sector, mae angen i awdurdodau lleol a chynghorau gwirfoddol sirol egluro eu disgwyliadau o ran y modd y caiff arian ei ddefnyddio i gefnogi'r trydydd sector yn lleol er mwyn osgoi gweithgarwch dyblygedig lle y bo'n bosibl a sicrhau bod buddsoddiad yn cael yr effaith fwyaf bosibl ac yn sicrhau'r manteision mwyaf bosibl.
- 1.40 Hefyd, cawsom wybodaeth bod rhai cynghorau gwirfoddol sirol yn rhan o baneli gwneud penderfyniadau o fewn awdurdodau lleol ar gyfer arian y maent hefyd wedi gwneud cais amdano. Gall hyn arwain at achos posibl o wrthdaro buddiannau ac mae hyn yn fater y dylid ei reoli. Er na all polisïau na gweithdrefnau ragweld pob sefyllfa, ac er y bydd difrifoldeb rhai achosion o wrthdaro buddiannau yn fater o raddau, mae'n rhaid i gynghorau gwirfoddol sirol nodi a datgelu achosion posibl o wrthdaro yn amserol ac yn effeithiol.
- 1.41 Y cwestiwn allweddol y mae'n rhaid ei ateb bob amser yw a allai rhyw fuddiant neu ddyletswydd arall sydd gan gyngor gwirfoddol sirol effeithio ar ei ddyletswyddau neu ei gyfrifoldebau i'r awdurdod lleol. Lleisiodd un ymatebydd i'n cais am dystiolaeth ei bryderon ynghylch y ffaith bod '... our local county voluntary council making decisions around allocation of funding in the same room as authorities and health board. They are effectively getting funding, they say it's because they are meeting an unmet need, but are not always working with third sector organisations to ready themselves to be able to bid and they do not always share things they have learned. Relationships have been pre-forged between LA and CVC which gives them the edge. This is clear conflict of interest.' Dylai cynghorau gwirfoddol sirol fod yn glir ynghylch eu rôl ar baneli o'r fath, ac mae angen i drefniadau awdurdodau lleol ar gyfer ariannu gwasanaethau drwy systemau o'r fath sicrhau y dilyni'r y broses briodol a bod penderfyniadau yn dryloyw.

¹⁸ Mae'r Groes Goch Brydeinig yn elusen sy'n helpu pobl mewn argyfwng drwy ei rhwydwaith gwirfoddol, sy'n helpu pobl sy'n agored i niwed yn y DU a thramor i baratoi ar gyfer argyfyngau yn eu cymunedau eu hunain, eu gwrthsefyll a dod drostynt.

- 1.42 At hynny, mae rhai awdurdodau lleol hefyd wedi ceisio cydgynhyrchu gwasanaethau ar y cyd â darparwr gwasanaethau presennol a darpar ddarparwyr gwasanaethau yn y trydydd sector, yn enwedig cynghorau gwirfoddol sirol. Drwy ddatblygu'r dulliau hyn o weithredu sy'n rhoi gwerth ar wybodaeth arbenigol darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau bydd modd cael gwybodaeth werthfawr er mwyn cynllunio gwasanaethau yn y dyfodol. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod y dulliau cydgynhyrchu hyn wedi'u cyfyngu gan y ffaith bod darparwyr gwasanaethau presennol yn amharod i rannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd â darparwyr eraill. Mae tensiwn y mae angen i awdurdodau lleol ei reoli er mwyn iddynt sicrhau eu bod yn cael y budd mwyaf posibl o'u hadnoddau. Mae'n glir bod angen datblygu gweithgarwch ymgysylltu a meithrin ymddiriedaeth rhwng pob partner ac y dylid canolbwyntio ar wella canlyniadau i bobl.
- 1.43 Mae angen eglurder ynghylch rôl cynghorau gwirfoddol sirol yn amgylchedd y sector cyhoeddus sy'n newid. Mae'r sefyllfa bresennol lle mae rhai cynghorau gwirfoddol sirol yn cefnogi sefydliadau yn y trydydd sector yn ogystal â chystadlu yn eu herbyn yn golygu na all awdurdodau lleol bob amser fod yn glir ynghylch pa mor gynrychioliadol yw cynghorau gwirfoddol sirol o'r trydydd sector. Drwy gyfleu rôl y cyngor gwirfoddol sirol lleol yn fwy pendant, byddai awdurdodau lleol a sefydliadau unigol yn y trydydd sector mewn sefyllfa gliriach i gydweithio i wella canlyniadau i ddinasyddion yng Nghymru. Byddai hefyd yn sicrhau bod prosesau gwneud penderfyniadau lleol yn gwbl dryloyw ac y caiff ymddiriedaeth ei hennyn ymhellach ym mhob rhan o'r trydydd sector.

Rhan 2

Mae anghysondebau o ran trefniadau awdurdodau lleol ar gyfer ariannu'r trydydd sector yn golygu ei bod yn anodd dangos gwerth am arian

Colin yn gwirfoddoli i'r prosiect Cynefin sydd hefyd yn cyfrannu at gofnodi cyfryrau Mapiau Arolwg Ordnans, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Un o'r 15 llun uchaf yng Nghystadleuaeth Ffotograffiaeth Aelodau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 2016.



- 2.1 Ar ôl i awdurdodau lleol gymeradwyo eu strategaeth ar gyfer gwasanaethau'r trydydd sector ac ar ôl i'r rhaglen o waith sydd i'w gaffael gael ei nodi a'i chytuno, mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddatblygu a nodi eu trefniadau gweinyddu i gaffael gwasanaethau'r trydydd sector. Dylent fod mor syml â phosibl gyda systemau cymeradwyo, rheolaethau a threfniadau monitro a gwerthuso sy'n gymesur â gwerth y gwaith a ariennir. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol benderfynu a ddylid defnyddio grant neu gontract, pennu'r cyfnod a gwmpesir gan y dyfarniad ariannol a phenderfynu pa mor aml y gwneir taliadau ac a gaiff y costau llawn eu hadennill. Dylai prosesau ar gyfer hysbysebu a dyfarnu gwasanaethau hefyd fod yn dryloyw gyda gwybodaeth am y ffordd y gwneir penderfyniadau ac yr adolygir perfformiad wedi'i nodi'n glir, ymlaen llaw a chyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud.
- 2.2 Felly, mae'n bwysig bod trefniadau awdurdodau lleol ar gyfer ariannu sefydliadau yn y trydydd sector yn effeithlon ac yn effeithiol, am fod y dewisiadau a wneir gan awdurdodau yn hanfodol i sicrhau gwerth am arian. Os cânt eu cyflawni'n wael, gall prosesau ariannu osod beichiau trwm ar y trydydd sector gyda sefydliadau yn gorfod buddsoddi adnoddau er mwyn cydymffurfio â systemau y mae'r trydydd sector yn aml yn ystyried eu bod yn feichus. Gall trefniadau ariannu gwael hefyd gynyddu'r risg na fydd sefydliadau yn y trydydd sector yn gallu cyflawni'r hyn y maent yn cael eu talu i'w wneud ac, o ganlyniad, arwain at wastraffu arian cyhoeddus neu fethiant gwasanaeth.
- 2.3 Gan fod trefniadau gweinyddu yn gallu bod yn hollbwysig i lwyddiant y trydydd sector o ran gwneud cais am wasanaethau, eu sicrhau a'u darparu, rydym yn nodi ein dadansoddiad o arferion presennol yn fanylach isod. Mae ein dadansoddiad yn ystyried y canlynol:
- ansawdd a hygyrchedd gwybodaeth awdurdodau lleol am y gwasanaethau sydd eu hangen, y prosesau ar gyfer gwneud cais a'r meini prawf a ddefnyddir i ddyfarnu contractau;
 - a oes gan awdurdodau lleol drefniadau da i nodi pryd y dylid cynnal proses gaffael agored neu gaeedig;
 - ar ba sail y mae awdurdod lleol yn penderfynu defnyddio contractau neu gymorth grant cyffredinol ar gyfer gwasanaethau'r trydydd sector a ariennir;
 - am faint o amser y mae contractau awdurdodau lleol â'r trydydd sector yn para; a'r
 - trefniadau ariannu sydd ar waith ac a ydynt yn darparu ar gyfer adennill y costau llawn.

Nid yw prosesau gwneud cais bob amser wedi'u symleiddio er mwyn helpu sefydliadau yn y trydydd sector i gyfranogi'n llawn

- 2.4 O fewn awdurdodau lleol, mae'n debygol y bydd llawer o dimau a gwasanaethau gwahanol sy'n ymwneud ag ariannu'r trydydd sector, dyfarnu grantiau a chytuno ar contractau ar gyfer ystod eang o ddibenion. Er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn gwneud y defnydd gorau o'r trydydd sector ac yn annog cymaint o sefydliadau â phosibl i gyfranogi, mae angen i awdurdodau lleol roi systemau gwneud cais a systemau gwybodaeth clir a phriodol ar waith. Ar sail ein hadolygiad, rydym o'r farn bod yr awdurdodau lleol gorau yn gweithredu un system gwneud cais sy'n cwmpasu pob gwasanaeth ac adran sy'n comisiynu gwasanaethau o fewn yr awdurdod lleol. Mae systemau corfforaethol yn sicrhau bod sefydliadau yn y trydydd sector ac awdurdodau lleol yn gwybod am y trefniadau ac yn eu deall, a phan gânt eu defnyddio'n gyson gallant symleiddio prosesau gweinyddu a'u gwneud yn llai beichus ar gyfer pob parti – er enghraifft, gwaith Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a nodir yn **Ffigur 9**.
- 2.5 Ar sail ein gwaith maes a'n hadolygiadau o ddogfennau, nodwyd gennym fod awdurdodau lleol yn dechrau gwella eu prosesau gwneud cais am arian i'r trydydd sector drwy wneud y canlynol:
- safoni ffurflenni cais o fewn yr awdurdod lleol a defnyddio un broses ar gyfer yr holl arian a ddyfernir i'r trydydd sector;
 - cyflwyno prosesau electronig i ofyn am wybodaeth gan sefydliadau yn y trydydd sector a'i storio er mwyn lleihau nifer y ceisiadau dyblygedig am wybodaeth;
 - canoli prosesau rheoli grantiau yn gorfforaethol er mwyn symleiddio prosesau gweinyddu a gwella prosesau cydgysylltu a goruchwyllo wrth ddyfarnu arian;
 - sicrhau bod prosesau awdurdodau lleol yn fwy tryloyw – er enghraifft, nodi'r meini prawf cymhwyso ar gyfer contractau, y broses ar gyfer cymeradwyo contractau a threfniadau adolygu a rheoli yn glir;
 - adolygu prosesau gwneud cais er mwyn sicrhau bod sefydliadau yn y trydydd sector yn canolbwyntio ar ddangos sut mae eu gwaith yn cyfrannu at gyflawni amcanion corfforaethol yr awdurdod lleol; a
 - phenodi partneriaid strategol o'r trydydd sector sy'n cael cyllid tymor hwy – yn amodol ar gyflawni targedau ar gyfer cyflawni a pherfformiad – er mwyn lleihau'r angen i dendro'n rheolaidd.

Ffigur 9 – Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful – canoli hawliadau grant gan y trydydd sector

Nodwyd gennym fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi ceisio gwella ei broses gwneud cais a mynd i'r afael â'r defnydd tameidiog o grantiau i sefydliadau yn y trydydd sector drwy lunio Protocol Ariannu'r Sector Gwirfoddol. Sefydlwyd y protocol er mwyn cyflawni'r canlynol:

- darparu un pwynt mynediad at gymorth ariannol;
- sefydlu un panel cydasesu;
- llunio proses gyson a thryloyw; ac
- osgoi achosion posibl o ddyblygu a sicrhau y caiff adnoddau eu neilltuo yn ôl angen a nodwyd.

Yn ogystal â'r nodau hyn, nododd yr awdurdod lleol wyth egwyddor a fyddai'n sail i'r gydberthynas rhwng yr awdurdod lleol a'r rhai sy'n gwneud cais am arian, sef:

- cyflawni amcanion polisi strategol
- atebolrwydd
- sefydlogrwydd
- effeithlonrwydd
- tryloywder, cysondeb a thegwch
- diogelwch cyllid
- talu ymlaen llaw

Mae pob un o'r egwyddorion yn helpu i feithrin cydberthynas waith a all helpu i ddatblygu trydydd sector cryf a chynaliadwy.

Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio dau banel i ystyried ceisiadau gan sefydliadau, sef: y Panel Arfarnu Technegol (PAT) a'r Panel Grantiau. Mae'r PAT yn cynnwys aelodau a swyddogion o'r awdurdod lleol a'i ddiben yw ystyried dichonoldeb ac addasrwydd y cais gan sefydliad. Wedyn bydd y PAT yn gwneud argymhelliad i'r Panel Grantiau ynghylch a ddylid cymeradwyo neu wrthod y cais neu ohirio penderfynu arno.

Mae'r Panel Grantiau yn cynnwys aelodau etholedig yr awdurdod lleol a hefyd gynrychiolwyr o sefydliadau eraill megis Blaenau'r Cymoedd, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a Chronfa Eglwysi Cymru. Bydd y panel yn cael y ceisiadau gan y PAT ond fe'i sefydlwyd hefyd er mwyn chwilio am gyfleoedd i wneud y canlynol:


- symleiddio prosesau a gwella tryloywder prosesau a phrosesau gwneud penderfyniadau;
- ad-drefnu y gellid cyfuno cynlluniau; a
- sicrhau y gwneir defnydd gwell a mwy effeithlon o adnoddau.

Mae'r panel hefyd yn cael gwybodaeth am statws prosiectau sydd ar waith.

Mae hyn yn rhoi sicrwydd i'r trydydd sector bod yr awdurdod lleol yn ystyried ceisiadau am arian mewn ffordd deg. Mae hefyd yn dangos bod yr awdurdod lleol am sicrhau bod y swm bach o arian sydd ganddo i'w ddsbarthu yn sicrhau'r manteision mwyaf posibl.

2.6 Mae nifer o'r awdurdodau lleol lle y buom yn gwneud ein gwaith maes hefyd wedi diwygio eu codau ymarfer ariannu ar gyfer y trydydd sector, gan nodi'r hyn y maent yn ei ddisgwyl gan yr awdurdod lleol a'r sefydliadau yn y trydydd sector yn glir. Yn benodol, mae awdurdodau lleol yn canolbwyntio ar bennu safonau cliriach a phwysleisio eu disgwyliadau o ran yr hyn y mae'n ofynnol i sefydliadau yn y trydydd sector ei ddarparu a'i gyflawni. Er bod ffocws ar gyflawni canlyniadau yn dod yn bwysicach mewn penderfyniadau ariannu strategol, costeffeithiolrwydd sefydliadau yn y trydydd sector yw'r ysgogydd allweddol o hyd a defnyddir cymariaethau rhwng prisiau – costau uned fel arfer – yn aml fel y brif sail ar gyfer penderfynu i bwy y dylid dyfarnu grantiau. Manylir ar hyn yn ein harolwg o gynghorau gwirfoddol sirol a nodir yn **Ffigur 10**.


Ffigur 10 – Barn cynghorau gwirfoddol sirol ar y materion allweddol a ystyrir gan awdurdodau lleol wrth ddyfarnu arian i sefydliadau yn y trydydd sector



Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, **Advice County Voluntary Councils Survey**, Mai 2016

- 2.7 Mae'r graff yn rhestru'r meini prawf posibl y gall awdurdodau lleol eu defnyddio i ddyfarnu arian i sefydliadau yn y trydydd sector. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn ysgogwyr allweddol y gall awdurdodau lleol eu defnyddio i gydbwysu cost, risg, effaith, ansawdd a chymorth i sefydliadau. Ar gyfer pob opsiwn, ychydig iawn o gynghorau gwirfoddol sirol sy'n credu bod awdurdodau lleol yn defnyddio ystod ddigon eang o feini prawf i benderfynu ar ddyfarniadau ariannol ac mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod angen i awdurdodau lleol wneud rhagor o waith i ddatblygu eu sail ar gyfer dyfarnu arian. Er bod cost, yn sicr, yn ystyriaeth bwysig, mae angen i awdurdodau lleol hefyd sicrhau bod hyn yn cael ei gydbwysu ag ystyriaethau eraill ac nad yw'n cael y flaenoriaeth arnynt, er mwyn iddynt sicrhau bod eu penderfyniadau ariannu strategol yn cynnig gwerth am arian.
- 2.8 Gofynnodd ein harolwg o ddarparwyr cyngor a gwybodaeth i sefydliadau yn y trydydd sector nodi'r camau a gymerwyd gan awdurdodau lleol i symleiddio prosesau gwneud cais er mwyn cefnogi gwaith cyrff yn y trydydd sector. Mae canfyddiadau'r arolwg a nodir yn Ffigur 11 yn nodi mai profiad y rhan fwyaf o ddarparwyr cyngor yw nad yw awdurdodau lleol wedi symleiddio eu trefniadau ariannu er mwyn lleihau'r baich ar gyrrff yn y trydydd sector pan fyddant yn gwneud cais am gcontractau.


Ffigur 11 – Barn asiantaethau cyngor yn y trydydd sector ynglŷn â'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn ceisio symleiddio trefniadau gwneud cais er mwyn lleihau beichiau ar sefydliadau



Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Advice Providers Survey, Mai 2016

- 2.9 At hynny, dengys canfyddiadau'r arolwg yn **Ffigur 12**, ar y cyfan, nad yw darparwyr cyngor o'r farn bod gan awdurdodau lleol drefniadau talu wedi'u symleiddio sy'n cynorthwyo sefydliadau yn y trydydd sector. Mae ychydig dros hanner y darparwyr cyngor yn cael taliadau rheolaidd ar ôl cyflawni targedau/canlyniadau y cytunwyd arnynt. Fodd bynnag, ymatebodd y rhan fwyaf nad yw awdurdodau lleol yn nodi trefniadau talu yn ddigonol mewn cytundebau ariannu ac ychydig o ddarparwyr cyngor (llai na 25%) sy'n cael taliadau gan awdurdodau lleol yn electronig – y dull rhataf a mwyaf effeithlon o dalu – neu sydd mewn sefyllfa lle y caiff costau sefydlu contractau yr eir iddynt ymlaen llaw eu talu gan awdurdodau lleol.
- 2.10 Daethom i'r casgliad, ar y cyfan, fod y prosesau gwneud cais a'r prosesau gwybodaeth a ddefnyddir gan awdurdodau lleol ar gyfer y trydydd sector yn amrywio'n ormodol ac nad ydynt yn effeithlon nac yn ddarbodus. O ganlyniad, oherwydd y gwendidau hyn, nid yw awdurdodau lleol yn gwneud popeth a allant er mwyn helpu ac annog sefydliadau yn y trydydd sector i wneud cais am arian.

Ffigur 12 – Barn darparwyr cyngor yn trydydd sector ar drefniadau talu awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau



Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Advice Providers Survey, Mai 2016

Nid yw awdurdodau lleol bob amser yn defnyddio'r dull mwyaf priodol o ariannu gwasanaethau

- 2.11 Drwy eu trefniadau ariannu strategol, mae awdurdodau lleol yn nodi'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt ac mae hyn yn fuddsoddiad sylweddol o ran adnoddau cyhoeddus. Mae sicrhau bod awdurdodau lleol yn cael y cyflenwad gorau posibl o wasanaethau am y pris isaf, tra'n sicrhau ar yr un pryd fod darparwyr gwasanaethau yn y trydydd sector yn cael cyfle i gystadlu am waith ar sail deg, yn her. Yn gyffredinol, mae trefniadau awdurdodau lleol ar gyfer ariannu gwasanaethau yn seiliedig ar ddau brif dull o weithredu - sef caffael agored neu gaffael caeedig - ac mae **Ffigur 13** yn crynhoi manteision ac anfanteision y dulliau hyn o weithredu.
- 2.12 Nodwyd gennym fod nifer fach o awdurdodau lleol yn parhau i weithio gyda'r un sefydliadau yn y trydydd sector heb brofi'r farchnad yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cael y budd mwyaf posibl o'u hadnoddau. Er y gall gweithio o fewn partneriaethau sefydledig leihau'r risgiau i awdurdodau lleol neu gyfyngu arnynt, mae'r dull gweithredu yn lleihau'r gronfa o ddarpar gyflenwyr a gall hefyd, drwy amryfusedd, weithio yn erbyn amcanion Llywodraeth Cymru i weld awdurdodau lleol yn datblygu sefydliadau trydydd sector lleol, a gall beri rhwystredigaeth pan ystyrir bod dulliau caeedig o'r fath yn annheg ac yn cyfyngu ar gyfleoedd i awdurdodau lleol sicrhau rhagor o welliannau ac arbedion effeithlonrwydd. Mae angen i awdurdodau lleol sylweddoli nad yw defnyddio dull caeedig yn rhoi mynediad cyfartal i bob sefydliad yn y trydydd sector a'i bod yn bosibl y collir sefydliadau mwy costeffeithlon ac effeithiol sydd mewn gwell sefyllfa i ddarparu gwasanaethau.
- 2.13 I'r gwrthwyneb, mae dulliau ariannu agored yn darparu ar gyfer mwy o gystadleuaeth ac yn galluogi amrywiaeth ehangach o sefydliadau i wneud cais am arian, er y gall hyn gael effaith negyddol ar sefydliadau lleol bach sydd bellach yn gorfod cystadlu ag amrywiaeth ehangach o sefydliadau am gontractau awdurdodau lleol. Ar y sail hon, dylai awdurdodau lleol fod yn defnyddio rheoliadau caffael yr Undeb Ewropeaidd a gyflwynwyd yn ddiweddar – sef **Cyfarwyddeb Contractau Cyhoeddus yr UE 2014**¹⁹ (Cyfarwyddeb 2014) – i gefnogi'r ffordd y maent yn ariannu gwaith.

¹⁹ Yn benodol, gall awdurdodau lleol hysbysebu eu contractau drwy hysbysiadau gwybodaeth ymlaen llaw sy'n llai beichus (yn lle hysbysiadau o gontractau). At hynny, gallant ddod i gytundeb â'r cynigwyr a ddewiswyd o flaen llaw ar y terfynau amser yn eu gweithdrefnau caffael. Gwasanaeth Masnachol y Goron, A Brief Guide to the EU Public Contract Directives 2014, Hydref 2016.

Ffigur 13 – Manteision ac anfanteision caffael agored a chaffael caeedig i awdurdodau lleol a sefydliadau yn y trydydd sector

Caffael agored

Fel arfer mae caffael agored yn broses un cam, lle mae pob sefydliad trydydd sector â diddordeb yn ymateb i hysbysiad yn gwahodd cyflwyniadau i ddarparu gwasanaethau penodol. Mae'r hysbysiad o'r contract yn nodi ble i gael dogfennau a'r dyddiad olaf y caiff cyflwyniadau eu derbyn. Mae'r broses gaffael agored ar gael i bob sefydliad trydydd sector â diddordeb heb fawr ddim cyfyngiadau, os o gwbl.

Manteision

- dim ffafriaeth (proses gwneud cais sy'n agored i bawb);
- gall cyflenwyr newydd ymuno â'r farchnad;
- mwy o gyfleoedd cyflogaeth os bydd cwmni newydd yn cael gwaith;
- mae'n helpu cyflenwyr i ddatblygu a chynyddu eu gwaith;
- mae'r awdurdod lleol yn lledaenu'r risg drwy gynyddu nifer y cyflenwyr a ddefnyddir;
- mae proses gystadleuol yn arwain at gynigion tra chystadleuol; a
- chost is a'r tebygolrwydd y bydd ymatebwyr yn derbyn mwy o risg/cyfrifoldeb.

Anfanteision

- gall cyflenwyr dibrofiad ac anhysbys ymuno â'r farchnad;
- mae cyflenwyr yn buddsoddi amser ac arian ymlaen llaw heb unrhyw sicrwydd y byddant yn gwneud elw;
- mwy o amser gwerthuso er mwyn i'r awdurdod lleol gwblhau gwiriadau cefndir a gwerthuso dogfennau;
- cystadleuaeth afrealistig;
- mwy o siawns o ymglyfreitha (o gymharu â phroses gaffael gaeedig)
- gall gymryd amser hir a bod yn ddrud;
- mae'r broses yn gofyn am ddilyn gweithdrefnau a chydymffurfio â hwy yn llwyr;
- mae'n atal cyflenwyr rhag cymryd rhan yn y broses o ddatblygu manylebau a chytuno arnynt;
- mae'n cyfyngu ar y posibilrwydd o feithrin cydberthynas hirdymor â chyflenwyr;
- gall atal arloesi drwy ganolbwyntio ar wneud elw;
- mae'n cyfyngu ar gyfranogiad cyflenwyr am ei bod yn rhy ffurfiol; ac
- mae cyflenwyr yn torri corneli er mwyn bod yn gystadleuol sy'n cynyddu'r risgiau.

Caffael caeedig

Mae'r broses gaffael gaeedig yn cyfyngu'r cais am gyflwyniadau i nifer ddedol o sefydliadau yn y trydydd sector. Er yr ystyrir ei bod yn broses gystadleuol, dim ond y sefydliadau hynny yn y trydydd sector a roddir ar y rhestr fer neu a wahoddir i wneud cais am y contract yn dilyn proses cyn cynhwysu neu broses ddedol a all gymryd rhan yn y gystadleuaeth. Mae sicrhau bod y rhai a ddewisir i gyfranogi yn gymwys i fodloni'r math penodol o ofyniad neu fod amodau penodol yn cyfiawnhau defnyddio nifer gyfyngedig o sefydliadau yn y trydydd sector er mwyn lleihau'r amser sydd ei angen i gwblhau'r broses ddedol a'i chost yn allweddol i broses gaffael gaeedig effeithiol.

Manteision

- dim ond y cyflenwyr hynny a all ddangos tystlythyrau, gwybodaeth, adnoddau, sefydlogrwydd ariannol a phrofiad a gaiff eu gwahodd gennyh;
- mae'n cyfyngu'r rhestr o gyflenwyr i nifer y gellir ei rheoli;
- gellir gwrthdroi'r broses yn gyflym ac mae'n llai costus nag opsiynau eraill;
- mae'n gwobrwyo'r cyflenwyr sy'n perfformio orau ac yn dileu elfen o risg; a
- pharhad o ran y broses a pherfformiad ar gyfer yr awdurdod lleol a chyflenwyr.

Anfanteision

- mae'r awdurdod lleol yn agored i gyhuddiadau o ffafriaeth;
- llai o gystadleuaeth o ran pris;
- y potensial ar gyfer tendro gan gartél;
- ni all cyflenwyr newydd a allai ddarparu gwasanaeth da am lai o gost gystadlu;
- cyfyngir hyd yr eithaf ar nifer y cyflenwyr ac mae risg y bydd awdurdodau lleol yn wynebu anawsterau gweithredu os bydd un cyflenwr yn gadael y farchnad;
- mae angen i'r broses cyn cymhwysu fod yn agored, yn deg ac yn ystyriol; a
- gall proses gaffael gaeedig gyfyngu ar nifer y sefydliadau yn y trydydd sector a allai wneud cais.

- 2.14 Mae Cyfarwyddeb 2014 yn darparu cyfundrefn gaffael lai manwl newydd. Mae'r rheoliadau hyn yn galluogi awdurdodau lleol i ddarparu adnoddau ar gyfer gweithgarwch y trydydd sector islaw trothwy o €750,000 heb fod angen prosesau caffael ffurfiol. Mae'r gyfarwyddeb yn cyflwyno nifer o reolau a gweithdrefnau wedi'u symleiddio. Maent yn ehangu'r posibilïadau ar gyfer negodi: gellir defnyddio'r weithdrefn gystadleuol ynghyd â negodi pan gyfiawnheir hynny gan yr amgylchiadau penodol mewn perthynas â natur, cymhlethdod neu gyfansoddiad cyfreithiol neu ariannol prosiect penodol, neu gan y ffaith na all math parod o ateb ddiwallu anghenion yr awdurdod sy'n contractio. Mae'r ddogfennaeth sy'n ofynnol gan y gyfarwyddeb hefyd yn cael ei lleihau, sydd i'w briodoli'n bennaf i'r ffaith ei bod yn orfodol derbyn hunanddatganiadau gan gynigwyr (drwy un ddogfen gaffael Ewropeaidd safonedig) sy'n golygu mai dim ond y cynigiwr buddugol sy'n gorfod cyflwyno tystiolaeth ffurfiol (tystysgrifau ac ardystiadau).
- 2.15 Fodd bynnag, nododd nifer o gynghorau gwirfoddol sirol fod awdurdodau lleol yn araf yn mabwysiadu'r system symlach newydd ar gyfer contractau sy'n werth llai na €750,000, ac roeddent yn feirniadol o'r ffaith nad yw awdurdodau lleol yn defnyddio darpariaethau'r gyfarwyddeb i symleiddio a chyflymu eu dulliau ariannu strategol. Er mwyn sicrhau bod manteision y dull ariannu a ddewisir yn drech na'r costau, byddem felly yn disgwyl i awdurdodau lleol ystyried yr angen, lle y bo'n bosibl, i hyrwyddo cystadleuaeth agored ac effeithiol drwy'r broses gaffael; a chydbwyso hyn â gwerth y dull gweithredu a'r risg sy'n gysylltiedig ag ef.
- 2.16 Wrth benderfynu pa ddull gweithredu i'w fabwysiadu, dylai awdurdodau lleol, felly, wneud y canlynol:
- penderfynu ar y mathau o wasanaethau sy'n cael eu hariannu;
 - ystyried y math o wybodaeth sydd ei hangen er mwyn gwneud penderfyniad (er enghraifft, ceisio dyfynbrisiau neu ddefnyddio proses dendro neu broses gynnig);
 - diffinio gwerth y caffaeliad a'r risg sy'n gysylltiedig ag ef;
 - penderfynu a ellir mabwysiadu prosesau llai manwl yn unol â **Chyfarwyddeb Contractau Cyhoeddus yr UE 2014** ar gyfer y gwaith a ariennir;
 - penderfynu i ba raddau y gall sefydliadau yn y trydydd sector fodloni'r gofynion ariannu;
 - ystyried a oes angen atebion arloesol; a
 - nodi'r gost a'r adnoddau sydd eu hangen gan yr awdurdod lleol a'r darpar sefydliadau yn y trydydd sector sydd am ddarparu'r gwasanaeth.

Bu cynnydd sylweddol yn nifer y contractau ar gyfer gwasanaethau ac mae'r gostyngiad yn y cymorth grant cyffredinol yn creu rhai anawsterau ar gyfer sefydliadau yn y trydydd sector

2.17 Mae sefydliadau yn y trydydd sector yn cael 'grantiau' a 'contractau' gan awdurdodau lleol er mwyn eu galluogi i wneud eu gwaith. Mae grantiau yn cyfrannu at y costau sy'n gysylltiedig â datblygu a rhedeg sefydliad ond nid ydynt o reidrwydd yn ariannu gwasanaeth penodol. Mewn cymhariaeth, mae contractau yn arian a roddir gan awdurdodau lleol i sefydliad yn y trydydd sector ar gyfer gwaith penodol lle mae'r lefel a'r math o wasanaeth wedi'u diffinio'n glir. Mae Ffigur 14 yn crynhoi'r gwahaniaethau rhwng y dulliau gweithredu.

Ffigur 14 – Y prif wahaniaethau rhwng grantiau a contractau i wasanaethau'r trydydd sector

Grantiau

Mae grantiau i sefydliadau yn y trydydd sector yn adnoddau a delir er mwyn helpu i redeg y corff trydydd sector ac nis dyrennir ar gyfer contract na gwasanaeth penodol. Cyfeirir atynt yn aml fel grantiau craidd neu gymorth craidd ac mae'r grant yn galluogi sefydliad yn y trydydd sector barhau i weithredu a chefnogi ei weithgarwch craidd. Mae grantiau yn tueddu i fod yn seiliedig ar y gost y mae'r sefydliad trydydd sector yn mynd iddi wrth ddarparu amrywiaeth o wasanaethau, y gall fod yn anodd mesur eu heffaith. Mae'r ariannwr yr un mor agored i risgiau ariannu â'r darparwr a bydd y grant yn unigryw i amgylchiadau'r sefydliad trydydd sector am na fu'n destun profion marchnad ac am ei fod yn aml yn seiliedig ar negodi. Yn hanesyddol, mae grantiau wedi'u rhoi i gyrff cymunedol llai o faint a mwy lleol yr ystyrir eu bod yn fwy atebol i'r cymunedau a wasanaethir ganddynt.

Contractau

Mae contractau i sefydliadau yn y trydydd sector yn adnoddau ar gyfer gwasanaeth penodol fel y'i nodir gan yr awdurdod lleol ac fel arfer fe'u dyfernir yn dilyn rhyw fath o dendr neu arfarniad. Dim ond er mwyn ariannu'r gwasanaeth sydd wedi'i ariannu y defnyddir yr adnoddau hyn ac ni ddylid eu defnyddio i groesgymorthdalau gweithgarwch arall. Sicrheir contractau drwy ryw fath o gystadleuaeth ac maent yn seiliedig ar bris (er ei bod yn bosibl mai dim ond un o benderfynyddion y contract yw'r pris). Mae contractau yn gweithredu yn erbyn allbwn diffiniedig ac yn gweithredu â mwy o sicrwydd i'r ariannwr a'r sefydliad trydydd sector. Mae darparwr y gwasanaeth yn wynebu llawer mwy o risgiau ariannu. Gan fod contractau yn agored i amrywiaeth ehangach o sefydliadau yn y trydydd sector dendro am waith, gall y dull gweithredu a fabwysiedir gan awdurdodau lleol ddenu sefydliadau cenedlaethol a rhyngwladol i dendro ac, o ganlyniad, collir y ffocws lleol neu gymunedol posibl.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

- 2.18 Dengys ein dadansoddiad, a nodir yn **Ffigur 15**, rhwng 2001-02 a 2013-14, fod newid wedi bod o ran y modd y mae awdurdodau lleol yn ariannu gwasanaethau yn y trydydd sector. Er bod cyfanswm yr arian grant wedi cynyddu mewn termau arian parod o £30.8 miliwn yn 2001-02 i £39.5 miliwn yn 2013-14, mewn termau real (gan ystyried chwyddiant) bu gostyngiad o 19.1%. Hefyd, gwelwyd gostyngiad sylweddol yng nghyfran yr adnoddau a dyrennir gan awdurdodau lleol i gyrff yn y trydydd sector fel grantiau. Yn 2001-02 roedd grantiau yn cyfrif am 45.1% o'r holl arian a roddwyd i'r trydydd sector gan awdurdodau lleol. Erbyn 2013-14 roedd arian grant wedi gostwng i 15.8% o'r holl arian a roddwyd i'r trydydd sector gan awdurdodau lleol. Yn ystod yr un cyfnod, cynyddodd contractau i sefydliadau yn y trydydd sector £171.9 miliwn, sy'n gynydd o 302% mewn termau real. Mae cyfran yr arian a ddarperir fel contractau hefyd wedi cynyddu'n sylweddol o 54.9% yn 2001-02 i 84.2% yn 2013-14. Mae'r newid yn y dull ariannu o grantiau i gontractau yn dangos bod awdurdodau lleol yn ailganolbwyntio'r arian y maent yn ei roi i'r trydydd sector gan fuddsoddi mewn gwasanaethau sydd o fudd uniongyrchol i weithgareddau penodol neu sy'n helpu i ddarparu gweithgareddau penodol.
- 2.19 Er ei bod yn debygol y bydd gan gontractau amcanion cyflawni a chanlyniadau cliriach y gellir eu nodi, mae sefydliadau yn y trydydd sector yn rhoi gwerth ar grantiau am eu bod yn rhoi mwy o ryddid i sefydliadau ddatblygu a darparu amrywiaeth ehangach o wasanaethau. Felly, mae'r gostyngiad mewn arian grant yn dangos bod awdurdodau lleol yn llai parod i gyfrannu at dalu costau rhedeg sefydliadau o ddydd i ddydd lle mae'n fwy anodd, ar y cyfan, i nodi sut mae adnoddau yn cyfrannu'n uniongyrchol at sicrhau manteision i bobl a chymunedau lleol neu, yn wir, hyrwyddo gwaith awdurdodau lleol.

Ffigur 15 – Cyllid a ddyfarnwyd i wasanaethau'r trydydd sector gan awdurdodau lleol rhwng 2001-02 a 2013-14

Maes ariannu	2001-02	2003-04	2009-10	2013-14	Newid mewn termau real
Cyfanswm y cyllid ar gyfer grantiau	£30,785,000	£48,579,000	£35,797,000	£39,484,000	-19.1%
Cyfanswm y cyllid ar gyfer contractau	£37,439,000	£78,154,000	£120,578,000	£209,368,000	302%
Cyfanswm	£68,223,000	£125,733,000	£156,375,000	£248,852,000	165.5%

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o gyllid y trydydd sector yn 2001-02; 2003-04; 2009-10; a 2013-14 a luniwyd gan LGDU ar gyfer CGGC (mae'r data wedi'u talgrynnu i'r £1000 agosaf).

- 2.20 Nodwyd gennym y gall prosesau contractio a'r gostyngiad mewn grantiau greu amgylchedd mwy anodd i sefydliadau yn y trydydd sector. Dim ond pedwar o'r 56 o sefydliadau a ymatebodd i'n cais am dystiolaeth a nododd fod y newid yn y dull ariannu o grantiau i gcontractau wedi cael effaith gadarnhaol ar eu sefydliad, tra nododd 19 fod y newid wedi cael effaith negyddol a nododd 18 nad oedd wedi cael effaith gadarnhaol na negyddol arnynt. Nid oedd 14 o'r ymatebwyr yn gwybod ac nid ymatebodd un. Mae effaith gronol gostyngiadau mewn grantiau ac awdurdodau lleol yn ceisio sicrhau bod yr arian y maent yn ei roi i'r trydydd sector yn dod â'r manteision mwyaf posibl yn arwain at sefyllfa lle mae llawer o grwpiau yn y trydydd sector, yn enwedig cyrff lleol bach a chanolig, yn ei chael hi'n anodd parhau i weithredu a chynnal lefelau a safonau gwasanaeth priodol.
- 2.21 Er enghraifft, nododd Cymorth i Ferched Cymru, mewn rhai achosion, fod awdurdodau lleol wedi dyfarnu contractau i ddarparwyr gwasanaethau cyffredinol yn hytrach na darparwyr arbenigol am eu bod wedi cyflwyno prisiau is mewn ymarferion tendro cystadleuol. Fodd bynnag, yn aml nid oedd gan y darparwyr penodedig y wybodaeth arbenigol i ddarparu gwasanaethau mor arbenigol, ac roedd hyn yn cael effaith andwyol ar ddefnyddwyr gwasanaethau. Er ei bod yn ddilys i awdurdodau lleol sicrhau'r pris gorau am wasanaeth, ni ddylai contractau gael eu dyfarnu ar sail pris yn unig. Mae ansawdd, effaith a chwmpas gwasanaeth a nifer y bobl sy'n ei ddefnyddio hefyd yn bwysig, yn enwedig yn achos gwasanaethau arbenigol sydd, yn ôl eu natur, yn aml yn cynnig gwell gwerth am arian er y gallant fod yn ddrutach.
- 2.22 Nododd pedwar o'r awdurdodau lleol a ymatebodd i'n harolwg eu bod wedi diogelu cyllid y trydydd sector rhag toriadau i gyllidebau yn ystod y tair blynedd ariannol ddiwethaf ac nid oedd tri wedi gallu cynnig y diogelwch hwnnw. Fodd bynnag, dim ond un o'r cynghorau gwirfoddol sirol a nododd fod awdurdodau lleol wedi diogelu cyllid y trydydd sector rhag toriadau i gyllidebau. Nododd y mwyafrif helaeth – 17 o'r 19 o ymatebwyr – nad yw awdurdodau lleol wedi ceisio diogelu cyllid y trydydd sector ac nid oedd un ymatebydd yn gwybod. At hynny, dim ond wyth o'r asiantaethau cyngor a gwybodaeth a oedd o'r farn bod eu hawdurdod lleol wedi diogelu gwasanaethau cyngor a gwybodaeth y trydydd sector rhag toriadau i gyllidebau yn ystod y tair blwyddyn ariannol ddiwethaf a nododd 22 nad yw hyn wedi digwydd ac nid ymatebodd tri i'r cwestiwn hwnnw. Dengys ein gwaith dadansoddi data mai dim ond un awdurdod lleol sydd wedi lleihau'r arian y mae'n ei roi i'r trydydd sector a bod pob un arall wedi cynyddu ei wariant mewn termau real. Mae'n bosibl bod y gwahaniaeth barn yn adlewyrchu newid mewn trefniadau ariannu gyda nifer y grantiau yn gostwng a nifer y contractau ar gyfer gwasanaethau yn cynyddu.

- 2.23 Nododd sefydliadau yn y trydydd sector a ymatebodd i'n cais am dystiolaeth fod grantiau yn fwy effeithlon i'r trydydd sector am fod comisiynu yn broses ddrud ac am fod cryn dipyn o wastraff, o ran amser ac adnoddau, yn gysylltiedig â hi Nododd ymatebydd arall mai'r her yw parhau i fod yn wasanaeth sy'n canolbwyntio ar y cwsmer yn hytrach na dod yn fusnes sy'n ceisio gwneud elw, tra nododd ymatebydd arall, 'sadly there is little respect for volunteering and lack of understanding of the costs or benefits of volunteering for individuals' and communities' health, well-being and up skilling as well as the added value in direct service delivery. There is too much expectation of the third sector being able to provide services at no cost or at least self-finance part of the service. Full cost recovery is not accepted. Middle managers often have little business understanding. Too often annual contracts are not paid until end of financial year causing cash flow problems for smaller organisations.'
- 2.24 Mewn ymateb i'r gostyngiad yn nifer y grantiau a roddir, mae rhai grwpiau wedi ceisio cymorth ariannol o ffynonellau eraill drwy roddion cyffredinol neu geisiadau am arian i ymddiriedolaethau a sefydliadau. Fodd bynnag, ar y cyfan ni fu'r cymorth ariannol hwn yn ddigon i dalu costau rhedeg neu mae angen cael cymorth gan gyrrff cyhoeddus ar ffurf arian cyfatebol er mwyn cael arian o'r fath. Mae sefydliadau eraill yn y trydydd sector wedi cymryd camau i droi'n fentrau cymdeithasol²⁰ gyda'r bwriad o ddenu buddsoddiad cymdeithasol²¹, manteisio ar gyfleoedd i fasnachu a mabwysiadu arferion busnes fel ffordd o gynhyrchu incwm i ariannu gweithgareddau prif ffrwd.
- 2.25 Drwy gymryd y camau hyn, mae rhai sefydliadau yn y trydydd sector bellach yn ymgysylltu â'r 'farchnad buddsoddi cymdeithasol' y bwriedir iddi ddisodli arian cyhoeddus ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, drwy ddefnyddio offerynnau ariannol megis talu yn ôl canlyniadau a bondiau effeithiau cymdeithasol²². Mae rhai mentrau cymdeithasol sy'n denu cyllid preifat yn gwneud hynny drwy wneud ymrwymadau dyled gyda buddsoddwyr preifat, tra'n parhau i ddibynnu ar gyllid y sector cyhoeddus i ddarparu'r gwasanaeth a gcontractiwyd ac ad-dalu eu buddsoddwyr. Felly, mae twf maes buddsoddi mewn mentrau cymdeithasol yn cynnig cyfleoedd ond gallai hefyd beri risg i sefydliadau yn y trydydd sector os na chaiff ei reoli'n effeithiol. Nid oes ffordd gywir nac anghywir o ddefnyddio grantiau ac mae angen i awdurdodau lleol sicrhau, wrth benderfynu pa wasanaeth sydd ei eisiau arnynt, eu bod yn defnyddio'r dull ariannu gorau, boed yn grantiau neu'n gcontractau, i gyflawni'r hyn a fwriedir. At hynny, mae'n rhaid cydbwysu'r dull hwn o weithredu â pholisi caffael yn genedlaethol a all hefyd fod yn her gan fod angen i awdurdodau lleol gydbwysu'r ymgais i sicrhau cydgrynoadau ac arbedion maint er mwyn lleihau costau a gwneud arbedion ar y naill law â dulliau cyflawni lleol sy'n hyrwydo amcanion cymunedol ehangach ac yn cefnogi grwpiau cymunedol llai o faint yn well ar y llaw arall.

20 Mae mentrau cymdeithasol yn sefydliadau sy'n defnyddio strategaethau masnachol i wella llesiant dynol ac amgylcheddol cymaint â phosibl ochr yn ochr â gwneud cymaint o elw â phosibl. Gall mentrau cymdeithasol fod yn sefydliadau dielw a gallant fod ar ffurf menter gydweithredol, sefydliad cydfuddiannol, busnes cymdeithasol, corfforaeth fuddiannau, cwmni buddiannau cymunedol neu sefydliadau elusennol. Yr hyn sy'n doddi mentrau cymdeithasol ar wahân yw bod eu cenhadaeth gymdeithasol yr un mor greiddiol i'w llwyddiant ag unrhyw elw posibl.

21 Mae Social Investment Business (SIB) yn elusen a chwmi masnachu a gofrestrwyd yn y DU sy'n cynnig benthyciadau, grantiau a chynhyrchion ariannol eraill i elusennau a mentrau cymdeithasol. Mae SIB yn rheoli un o'r portffolios mwyaf o fuddsoddiadau cymdeithasol yn y DU. Wedi'i sefydlu bu ar flaen y gad ym maes buddsoddi cymunedol yn y DU ac, hyd yma, mae wedi sicrhau mwy na £30 miliwn gan sefydliadau corfforaethol a sector cyhoeddus.

22 Mae bond effaith gymdeithasol yn gcontract â'r sector cyhoeddus lle y gwneir ymrwymiad i dalu am ganlyniadau cymdeithasol gwell sy'n arwain at arbedion i'r sector cyhoeddus.

Gallai'r duedd gynyddol ddiweddar i awdurdodau lleol fynnu bod sefydliadau yn y trydydd sector yn ffurfio consortia i gyflwyno ceisiadau am contractau beri risg i bob parti yn ogystal â chynnig cyfleoedd iddynt

- 2.26 Nodwyd gennym fod tuedd gynyddol i gyrff yn y trydydd sector gael eu hannog gan awdurdodau lleol i gyfranogi mewn ceisiadau am arian fel rhan o gonsortium. Mae awdurdodau lleol bellach yn mynd ati i annog gyrff yn y trydydd sector i ddatblygu consortia i gyflwyno ceisiadau ar sail y gred y bydd hyn yn gwella gwasanaethau i ddinasyddion a chymunedau yn ogystal â sicrhau gwell gwerth am arian i'r awdurdod lleol. Ystyrir bod consortia yn cynnig arbedion maint, prosesau mwy effeithlon a llinellau ymgysylltu cliriach. Fodd bynnag, gall fod i gonsortia anfanteision sylweddol hefyd. Er mwyn bod yn effeithiol, mae angen buddsoddi cryn dipyn o amser ac adnoddau mewn consortia i ddechrau ac, er y gall y dull hwn o weithredu fod yn effeithiol iawn o ran defnyddio amrywiaeth eang o arbenigedd i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau, nodwyd gennym nad yw awdurdodau lleol bob amser yn ystyried yr amser y mae'n ei gymryd a'r adnoddau sydd eu hangen i lunio ceisiadau o'r fath.
- 2.27 Mae awdurdodau lleol yn disgwyl i sefydliadau sy'n cystadlu â'i gilydd fel arfer ymuno lle nad oes unrhyw draddodiad o gydweithio neu lle mae amharodrwydd i gydweithio. Bwriedir i'r cydweithredu hwn sicrhau bod tendrau yn fwy deniadol i awdurdodau lleol ond mae'n creu rhai heriau sylweddol i sefydliadau yn y trydydd sector. Er enghraifft, rheolir sefydliadau yn y trydydd sector gan gyfraith elusennau ac mae ganddynt eu hamcanion eu hunain a all fod wedi'u cyfyngu i set benodol o ddefnyddwyr neu ardal. Felly, mae'n bosibl na fydd consortia yn opsiwn ymarferol.
- 2.28 Un o brif werthoedd y trydydd sector yw ei amrywiaeth. Nid yw annog sefydliadau annibynnol i gydweithio er mwyn darparu gwasanaethau lle nad oes unrhyw gydberthnasau wedi bodoli'n flaenorol (yn enwedig pan fyddant wedi bod yn cystadlu â'i gilydd) yn gwneud y defnydd gorau o'r gwahaniaethau sy'n bodoli. Hefyd, mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod eu trefniadau ariannu strategol yn cynnwys digon o amser paratoi er mwyn sicrhau y gall consortia ddatblygu'n ddigonol er mwyn iddynt allu cyflwyno ceisiadau a thendrau realistig a digon cadarn ar gyfer gwasanaethau. Nid yw hyn yn digwydd bob amser a gwelwyd enghreifftiau lle roedd amserlenni awdurdodau lleol yn parhau i gael eu llywio gan optimistaeth yn hytrach na realaeth.



Christian Merrick yng Nghosmeston: Mae Christian wedi bod yn gwirfoddoli gyda Diwrnodau Gwyrdd Innovate Trust ym Mharc Gwledig Llynnoedd Cosmeston ers dechrau 2016. Un o'r 15 llun uchaf yng Nghystadlaeth Ffotograffiaeth Aelodau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 2016.

Ffynhonnell: WCVA

Nid yw'r defnydd parhaus o ddyfarniadau ariannol blynyddol yn darparu ar gyfer ariannu'r trydydd sector mewn ffordd gynaliadwy

2.29 Mae cyllid blynyddol neu fyrdymor yn creu nifer o broblemau i sefydliadau yn y trydydd sector. Gall arwain at anawsterau wrth ddenu a chadw staff, gyda gormod o amser yn cael ei dreulio ar ddatblygu a chyflwyno ceisiadau am arian yn hytrach na darparu gwasanaethau, ac anawsterau wrth sicrhau'r perfformiad gorau posibl pan fydd cryn dipyn o ansicrwydd. Mae nifer o sefydliadau yn y trydydd sector yn nodi nad yw trefniadau ariannu blynyddol yn darparu sail effeithiol ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau, sydd i'w briodoli'n bennaf i'r ffaith ei bod yn anodd cysoni penderfyniadau ariannu, prosesau recriwtio staff a hyd contractau. Mae arian cynaliadwy yn hanfodol i sefydliadau yn y trydydd sector sy'n recriwtio ac yn cadw staff â chymwysterau a phrofiad addas.

- 2.30 Dim ond tri o'r naw cyngor gwirfoddol sirol lle mae gan yr awdurdod lleol un strategaeth neu fframwaith a nododd fod strategaeth eu hawdurdod lleol yn cyd-fynd â chod ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer ariannu'r trydydd sector a nododd y chwech arall nad yw strategaethau lleol yn cyd-fynd â'r cod. Er bod cod ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer ariannu gwasanaethau yn y trydydd sector yn nodi y dylai awdurdodau lleol roi o leiaf dri mis o rybudd y byddant yn rhoi'r gorau i ariannu gwasanaeth, nodwyd gennym nad oedd pob awdurdod lleol bob amser yn gallu darparu'r wybodaeth hon yn amserol. Gall cadarnhad hwyr o gyllidebau ar lefel genedlaethol gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru effeithio ar hyn.
- 2.31 Mae cyfathrebu gwael yn creu cryn dipyn o ansicrwydd ar gyfer gweithgarwch cynllunio busnes sefydliadau yn y trydydd sector, ac mae'n effeithio ar eu gallu i recriwtio a chadw staff o ansawdd uchel yn ogystal â cheisio darparu atebion arloesol. Mae'r diffyg gwybodaeth amserol am gyllid yn y dyfodol yn golygu bod sefydliadau yn y trydydd sector yn rhoi hysbysiadau diswyddo i staff, mewn rhai achosion dri mis cyn diwedd cylch cyllido, a all fod yn gyllid blynyddol. Gall hyn gyfrannu at golli staff sy'n chwilio am sicrwydd a hefyd gynyddu costau gweinyddu, recriwtio a hyfforddi. Yn bwysicach fyth, mae'r ffaith na roddir digon o rybudd yn cael effaith andwyol ar ddefnyddwyr gwasanaethau mewn achosion lle y gallai gwasanaethau gael eu tynnu'n ôl neu eu newid.
- 2.32 Dim ond tri o'r cynghorau gwirfoddol sirol a nododd fod awdurdodau lleol yn rhoi digon o rybudd i sefydliadau yn y trydydd sector am benderfyniadau ariannu a all helpu i sicrhau gwell dilyniant o ran darparu gwasanaethau. Nododd naw o'r cynghorau gwirfoddol sirol nad oedd eu hawdurdodau lleol yn rhoi digon o rybudd. Gall y cylch ariannu aneffeithlon hwn arwain at brosesau darparu gwasanaethau aneffeithiol ac nid yw awdurdodau lleol bob amser yn cael gwerth llawn o'r contract y maent yn ei ariannu. Er enghraifft, nododd un ymatebydd i'n cais am dystiolaeth, 'over the last five years there has seldom been a level playing field. Projects are confused, both in application and design. They are not efficient or effective with a long set up and long wind down and when a new similar project starts again they do not learn from the mess of last time, time and money are wasted again and beneficiaries miss out.'
- 2.33 Mae dau o'r awdurdodau lleol lle y buom yn gwneud ein gwaith maes wedi ceisio ateb her y cylch ariannu blynyddol drwy ymrwymo i roi cyllid tymor hwy i sefydliadau yn y trydydd sector. Yng Nghastell-nedd Port Talbot mae'r awdurdod lleol wedi cytuno mewn egwyddor i ariannu wyth sefydliad yn y trydydd sector fel partneriaid strategol am y tair blwyddyn ariannol nesaf yn dechrau o 1 Ebrill 2016. Mae'r awdurdod lleol wedi nodi bod y sefydliadau hyn yn hanfodol i gyflawni amcanion corfforaethol yr awdurdod lleol ac mae'n rhoi cyllid tymor hwy iddynt. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod lleol am greu diwylliant o ddibyniaeth ac, felly, mae'n gweithio gyda'r partneriaid strategol hyn er mwyn manteisio ar ffynonellau amgen o gyllid ar ddiwedd y tair blynedd.

2.34 Galwodd nifer o sefydliadau yn y trydydd sector ar i awdurdodau lleol ystyried y posibilrwydd o fod yn fwy hyblyg wrth ddefnyddio grantiau wrth ariannu'r trydydd sector. Y rheswm dros hyn yw bod sefydliadau yn y trydydd sector o'r farn, oherwydd eu dulliau cyflawni arloesol a'r defnydd arloesol y maent yn ei wneud o wirfoddolwyr, y gallant wneud mwy â swm llai nag y gall awdurdodau lleol ei wneud â chyllidebau mwy o faint. Galwyd hefyd ar i awdurdodau lleol ystyried yn ofalus yr hyn y maent yn ei ariannu i wella canlyniadau i'r cyhoedd ac osgoi sefyllfa lle maent ond yn ariannu gweithgarwch y gellir ei fesur yn hawdd. Nododd sefydliadau yn y trydydd sector fod gan wasanaethau a ariennir lai o hyblygrwydd i ymateb i anghenion defnyddwyr gwasanaethau sy'n dod i'r amlwg o gymharu â gwasanaethau sy'n cael arian grant.


Mae adennill costau llawn yn dal i fod yn broblem i lawer o gyff yn y trydydd sector

- 2.35 Yn draddodiadol, bu'n arfer safonol i sefydliadau yn y trydydd sector brisio gweithgareddau yn seiliedig ar gost lawn eu cyflawni a chynnwys mewn costau gyflogau staff sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r prosiect yn ogystal â gorbenion²³. Fodd bynnag, yn aml ni ofynnir am orbenion rheolwyr nac adeiladau ac nid ydynt yn cael eu cynnwys mewn tendrau gan awdurdodau lleol ychwaith. Mae hyn yn deillio'n rhannol o'r ffaith bod rhai sefydliadau yn y trydydd sector yn ei chael hi'n anodd cyfrifo cost wirioneddol gwasanaeth, ond mae hefyd yn adlewyrchu amharodrwydd cynyddol ymhlith awdurdodau lleol i dalu cost lawn²⁴ sefydliad yn y trydydd sector.
- 2.36 Dengys **Ffigur 16**, nad yw 13 o'r 19 o gynghorau gwirfoddol sirol a ymatebodd i'n harolwg yn credu bod gan eu hawdurdod lleol brosesau ar gyfer adennill costau llawn ar waith.
- 2.37 Nododd un cyngor gwirfoddol sirol fod 'full cost recovery is included in the funding code of practice but there is a statement to say that full cost recovery might make the third sector group less competitive, so it is not really actively encouraged'. Mewn rhai achosion, dim ond gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol a gwmpesir gan drefniadau ariannu'r awdurdod lleol ac mae'n rhaid i sefydliadau sybsideiddio cost darparu gwasanaethau drwy ffynonellau eraill. Roedd llawer o sefydliadau yn y trydydd sector o'r farn nad yw awdurdodau lleol yn llwyr ddeall costau llawn darparu gwasanaethau a phwysigrwydd gorbenion i alluogi sefydliadau i gyflawni'r hyn sydd wedi'i nodi, costau sy'n gysylltiedig â swyddfeydd, TGCh, costau rheoli, cyngor cyfreithiol ac yswiriant. Er enghraifft, nododd un darparwr cyngor a gwblhaodd ein harolwg, yn ôl ei brofiad ef, '[local authorities have] little recognition of need for full cost recovery' a nododd un arall, '[there is] no recognition of need for full cost recovery. No respect for third sector.'

²³ Gorbenion yw cost weithredol darparu gwasanaeth gan gynnwys, er enghraifft, gostau rhent, cyfleustodau a threthi, ond heb gynnwys llafur a deunyddiau.

²⁴ Ystyr adennill costau llawn yw bod sefydliad yn y trydydd sector yn cael arian i dalu'r costau uniongyrchol yr eir iddynt wrth ddarparu gwasanaeth a hefyd y gorbenion.

Ffigur 16 – Barn cynghorau gwirfoddol sirol ynghylch a yw awdurdodau lleol yn gweithredu model adennill costau llawn ar gyfer prosiect trydydd sector a ariennir ganddynt



Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, County Voluntary Council Survey - Mai 2016

Rhan 3

Ni all awdurdodau lleol ddangos effaith eu gwaith gyda'r trydydd sector yn gyson

Diwrnod Chwilota ym Merthyr Mawr: Grŵp gwirfoddolwyr gwarchod sy'n cyfarfod yn rheolaidd gyda Diwrnodau Gwyrdd Innovate Trust yn Wild Spirit Bushcraft, lle roeddent yn dysgu am chwilota a chrefftau gwylltir ac yn coginio eu cinio eu hunain dros dân agored mewn yurt. Un o'r 15 llun uchaf yng Nghystadleuaeth Ffotograffiaeth Aelodau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 2016




- 3.1 Er mwyn cael y budd mwyaf o benderfyniadau ariannu, mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt y trefniadau a'r systemau cywir ar waith i reoli, gwerthuso a mesur perfformiad a chraffu arno. Mae gweithgarwch craffu effeithiol ar y trydydd sector yn seiliedig ar nifer o egwyddorion allweddol, sef: darparu hyfforddiant a chymorth i sefydliadau a datblygu systemau effeithlon i gasglu gwybodaeth sy'n gymesur; pennu safonau clir o ran yr hyn y mae'n ofynnol i sefydliadau yn y trydydd sector berfformio yn ei erbyn a sut y dylent wneud hynny; a sicrhau bod y prosesau cywir ar waith i graffu ar berfformiad a'i farnu. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried cadernid y trefniadau sydd wedi'u rhoi ar waith gan awdurdodau lleol i reoli ac adolygu perfformiad y trydydd sector a chraffu arno.

Nid yw trefniadau awdurdodau lleol i fonitro ac adolygu perfformiad sefydliadau yn y trydydd sector bob amser yn gyson nac yn effeithiol

- 3.2 Mae Ffigur 17 yn crynhoi canfyddiadau ein harolwg o ddarparwyr cyngor ac, ar y cyfan, yn rhoi darlun cadarnhaol o'r systemau sydd wedi'u creu gan awdurdodau lleol i reoli a goruchwyllo cyllid y trydydd sector. Nododd ychydig o dan 60% o sefydliadau yn y trydydd sector eu bod yn cael cymorth a hyfforddiant gan awdurdodau lleol ynglŷn â'r ffordd y caiff eu gwasanaethau eu monitro a'u gwerthuso. At hynny, ymatebodd dros 80% o sefydliadau cyngor yn y trydydd sector yn gadarnhaol gan nodi bod awdurdodau lleol yn pennu amcanion clir a phriodol er mwyn barnu perfformiad pan gytunir ar gontractau ac y'u llofnodir. At hynny, roedd 80% o'r sefydliadau a ymatebodd i'r arolwg o'r farn bod y data y mae'n ofynnol iddynt eu casglu a'u cyflwyno i awdurdodau lleol yn gymesur â gwerth eu contract. Gyda'i gilydd, mae sylwadau'r sefydliadau cyngor yn y trydydd sector yn awgrymu bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn pennu safonau clir i ddarparwyr cyngor berfformio yn eu herbyn ac yn gweithredu systemau cytbwys a phriodol i reoli a gwerthuso perfformiad y trydydd sector a chraffu arno.
- 3.3 Fodd bynnag, o'u cymharu â darparwyr cyngor, mae cynghorau gwirfoddol sirol yn llai cadarnhaol ynghylch trefniadau awdurdodau lleol. Mae Ffigur 18 yn crynhoi canfyddiadau ein harolwg o gynghorau gwirfoddol sirol ac yn dangos bod barn partneriaid ar effeithiolrwydd systemau awdurdodau lleol ar gyfer rheoli a goruchwyllo cyllid y trydydd sector yn amrywio'n fawr. Nododd saith cyngor gwirfoddol sirol fod eu hawdurdodau lleol yn darparu cymorth a hyfforddiant i sefydliadau yn y trydydd sector mewn perthynas â systemau ar gyfer monitro a gwerthuso eu gwaith ond nododd wyth nad yw hyn yn digwydd ac nid oedd tri yn gwybod. Nododd 12 o'r awdurdodau lleol gwirfoddol sirol fod awdurdodau lleol yn nodi'r data a'r wybodaeth arall y mae'n ofynnol i sefydliadau yn y trydydd sector eu darparu ar ddechrau trefniadau ariannu. Fodd bynnag, nododd tri nad yw eu hawdurdodau lleol yn gwneud hynny ac nid oedd pedwar yn gwybod. Dim ond saith cyngor gwirfoddol sirol a nododd fod y data y mae'n ofynnol i sefydliadau yn y trydydd sector eu casglu a'u cyflwyno yn gymesur â gwerth y contract neu'r grant. Nid oedd wyth cyngor gwirfoddol sirol yn cytuno ac nid oedd pedwar yn gwybod.


Ffigur 17 – Sylwadau darparwyr cyngor ar ofynion trefniadau rheoli perfformiad awdurdodau lleol



Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Advice Providers Survey, Mai 2016

3.4 Gyda'i gilydd, mae sylwadau cynghorau gwirfoddol sirol yn awgrymu, er bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn nodi'n glir pa ddata y mae'n ofynnol i sefydliadau eu casglu, y gallai awdurdodau lleol wneud mwy i sicrhau bod y data y mae'n ofynnol eu casglu yn gymesur ac yn hydrin i'r trydydd sector. At hynny, mae angen i awdurdodau lleol hefyd wella eu cymorth a'u gweithgarwch ymgysylltu â sefydliadau yn y trydydd sector er mwyn sicrhau bod ganddynt yr adnoddau priodol i chwarae rhan lawn yn y gwaith o fonitro a gwerthuso perfformiad.

Ffigur 18 – Sylwadau cynghorau gwirfoddol sirol ar ofynion trefniadau rheoli perfformiad awdurdodau lleol



Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, County Voluntary Councils Survey, Mai 2016

3.5 Maent yn nodi bod diffyg cymorth a hyfforddiant yn fater hollbwysig i awdurdodau lleol ei ystyried pan fyddant yn edrych ar allu a sgiliau sefydliadau yn y trydydd sector. Nodwyd gennym nad yw nifer o awdurdodau lleol yn hysbysu cyrff yn y trydydd sector am y wybodaeth allweddol sydd ei hangen arnynt i farnu effeithiolrwydd a pherfformiad y gwasanaethau a gomisiynir ganddynt ychwaith. Mewn rhai achosion, mae cyfyngiadau o ran fframweithiau mesur perfformiad a threfniadau adrodd awdurdodau lleol ar gyfer sefydliadau yn y trydydd sector wedi arwain at sefyllfa lle nad yw rhai sefydliadau yn y trydydd sector yn cyflwyno adroddiadau ar eu perfformiad am sawl blwyddyn. Mae hyn yn cyferbynnu â sylwadau sefydliadau eraill a nododd fod trefniadau adrodd a chasglu data yn rhy feichus ac nad oeddent bob amser yn ystyrion nac yn briodol – **Ffigur 19**.

Ffigur 19 – Sylwadau darparwyr cyngor yn y trydydd sector ar brosesau awdurdodau lleol ar gyfer rheoli ac adolygu eu perfformiad




Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Advice Providers Survey, Mai 2016

- 3.6 Ar sail ein hadolygiad o ddogfennau ar gyfer pob un o'r 22 o awdurdodau lleol, aseswyd bod chwech wedi sefydlu'r hyn a ystyriwn yn drefniadau effeithiol ar gyfer monitro, adolygu a gwerthuso perfformiad sefydliadau yn y trydydd sector. O dan yr amgylchiadau hyn, mae awdurdodau lleol wedi nodi'r wybodaeth roedd angen iddynt ei chael gan sefydliadau yn y trydydd sector ac wedi datblygu prosesau clir a syml i gasglu data gan y trydydd sector. Prin oedd y bylchau mewn gwybodaeth a nodwyd gennym ac, ar y cyfan, roedd y data a ddarparwyd yn canolbwyntio'n bennaf ar farnu perfformiad yn erbyn y nod o gyflawni amcanion strategol yr awdurdod lleol. Yn gyffredinol, roedd y data a'r manylion a oedd yn cael eu darparu, ac amllder y cyflwyniadau, yn briodol â maint a hyd y contractau a oedd yn cael eu monitro, yn ein barn ni. Mae rhai gwasanaethau, yn enwedig Cefnogi Pobl a Gofal Cymdeithasol, hefyd wedi datblygu systemau monitro â disgwyliadau cliriach a systemau adolygu o ansawdd gwell, sy'n rhywbeth a ategwyd gan ymatebwyr i'n harolygon. O ran yr 16 o awdurdodau eraill, darparodd 11 dystiolaeth eu bod yn ymdrin â rhai o'r elfennau hyn, ond roedd bylchau yn eu prosesau ac roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd gan y pump a oedd yn weddill o ran eu dulliau gweithredu yn wael neu'n annigonol ac roedd bylchau sylweddol yn eu prosesau.
- 3.7 Nododd rhai sefydliadau yn y trydydd sector, gan nad oedd awdurdodau lleol yn nodi eu gofynion o ran adrodd a gwerthuso, eu bod wedi dewis cyflwyno adroddiadau rheoli mewnol er mwyn rhoi rhyw fath o sicrwydd i'r rhai sy'n eu hariannu ynglŷn â sut mae eu gwasanaethau yn perfformio. Er y bydd adroddiadau rheoli mewnol o ddiddordeb i awdurdodau lleol, ni fydd y wybodaeth yn canolbwyntio'n benodol ar ddangos sut mae'r sefydliad yn y trydydd sector, o reidrwydd, yn cyflawni blaenoriaethau'r awdurdod lleol ar gyfer yr arian. Mae adroddiadau rheoli mewnol hefyd wedi'u datblygu er mwyn bodloni gofynion adrodd a rheoli perfformiad penodol y sefydliad ac arianwyr elusennau, nid awdurdodau lleol, ac felly maent yn annhebygol o roi sicrwydd digonol bod gwasanaethau yn cyflawni amcanion ariannu awdurdodau lleol.
- 3.8 Os yw trefniadau monitro a gwerthuso awdurdodau lleol yn anghyson ac yn aneffeithiol ni fydd y trydydd sector bob amser yn glir ynghylch yr hyn sydd ei angen a'r ffordd orau y gall ddangos effaith gadarnhaol ei waith. Mae trefniadau rheoli perfformiad gwael hefyd yn gwanhau atebolrwydd ac yn cyfyngu ar allu aelodau etholedig i graffu ar weithgarwch.

Nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi pennu mesurau i'w galluogi i farnu effaith eu gwaith gyda'r trydydd sector yn gyson

- 3.9 Mae a wnelo monitro ac adolygu perfformiad â chasglu gwybodaeth ac asesu i ba raddau y mae cyllid y trydydd sector wedi cyflawni ei amcanion. Bydd asesu perfformiad yn effeithiol hefyd yn helpu awdurdodau lleol a sefydliadau yn y trydydd sector i wella'r modd y rheolir cyllid y trydydd sector, ehangu atebolrwydd am berfformiad a gwariant a datblygu polisiau. Mae pennu dangosyddion gwael yn ei gwneud yn anodd i awdurdodau lleol farnu gwerth gwirioneddol y gwasanaethau y maent yn eu hariannu ac effaith gwaith sefydliadau yn y trydydd sector. Mae prosesau cadarn ond syml sy'n sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng casglu popeth a dim byd yn allweddol er mwyn gallu craffu ar berfformiad yn effeithiol.
- 3.10 Drwy ein gwaith maes a'n gwaith i adolygu dogfennau, aseswyd ansawdd a chwmpas mesurau a sefydlwyd gan awdurdodau lleol i farnu effaith gwasanaethau'r trydydd sector. Aseswyd bod 10 awdurdod yn dangos arfer da drwy roi mesurau priodol ar waith er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir gan y trydydd sector ar eu rhan yn gweithio. Cysylltodd yr awdurdodau a oedd yn perfformio orau fesurau perfformiad ar gyfer sefydliadau yn y trydydd sector â blaenoriaethau corfforaethol a chynlluniau strategol yr awdurdod er mwyn iddynt allu barnu'r effaith y mae eu buddsoddiad wedi'i chael. Nodwyd gennym hefyd fod rhai gwendidau yn systemau gwybodaeth rheoli perfformiad pedwar awdurdod arall ac mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn sicrhau bod mesurau priodol ar waith er mwyn iddynt allu barnu perfformiad. Aseswyd bod gan yr wyth awdurdod sy'n weddill fesurau perfformiad gwael neu annigonol, sy'n golygu na allant herio perfformiad na chraffu arno'n effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn awdurdodau lle mae penderfyniadau ynghylch ariannu'r trydydd sector yn dal i gael eu rheoli gan adrannau unigol, sy'n golygu bod ansawdd a chadernid arferion gwaith yn amrywio'n fawr. Yn yr un modd, nodwyd gennym wendidau o ran y ffordd y caiff arian grant ei werthuso, a gwelsom dystiolaeth bod rhai awdurdodau lleol yn dal i roi arian i sefydliadau yn y trydydd sector heb fawr ddim mesurau perfformiad ynghlwm wrth yr arian, os o gwbl.
- 3.11 Mae **Ffigur 20** yn crynhoi canfyddiadau ein harolwg o gynghorau gwirfoddol sirol ynghylch y meini prawf a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i fonitro a gwerthuso eu gwaith gyda sefydliadau yn y trydydd sector. Dengys yr ymatebion fod awdurdodau lleol yn dibynnu'n fwy ar gyflawni targedau prosiectau nag ar ansawdd y gwasanaeth a phrofiad y defnyddiwr ac mae llawer o awdurdodau lleol yn dal i ganolbwyntio ar allbynnau yn bennaf nid canlyniadau.
- 3.12 Lle y cesglir data, roedd rhai cynghorau gwirfoddol sirol o'r farn nad oes gan lawer o'r wybodaeth fawr ddim perthnasedd i'r broses o farnu effeithiolrwydd gwasanaethau. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod y trydydd sector o'r farn bod llawer o sefydliadau yn y trydydd sector yn canolbwyntio ar fonitro canlyniadau ac olrhain y gwahaniaeth a wnaed i ddefnyddwyr gwasanaethau. Yn yr un modd, dim ond pedair o'r 33 o asiantaethau cyngor a gwybodaeth a ymatebodd i'n harolwg a nododd fod awdurdodau lleol yn pennu mesurau canlyniadau priodol ar gyfer y gwasanaethau cyngor a gwybodaeth yn y trydydd sector a ariennir ganddynt er mwyn iddynt allu barnu gwelliant dros amser.

Ffigur 20 – Barn cynghorau gwirfoddol sirol ar y meini prawf a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i farnu perfformiad sefydliadau yn y trydydd sector



Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, County Voluntary Councils Survey, Mai 2016

3.13 Cysylltodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yr arian roedd yn ei roi i sefydliadau yn y trydydd sector â chanlyniadau ac mae wedi llunio cyfres o fesurau er mwyn cyfrifo'r Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI), a ddefnyddir fel canllaw er mwyn helpu gwneuthurwyr penderfyniadau i nodi ble y dylid dyrannu arian er mwyn cael y budd mwyaf posibl o'u buddsoddiad – **Ffigur 21**. Mae awdurdodau lleol eraill, gan gynnwys Sir Benfro, hefyd wedi dechrau defnyddio cymalau budd i'r gymuned o fewn eu prosesau caffael. Mae'r cymalau hyn yn aml yn canolbwyntio ar ddatblygu buddiannau ehangach i gymunedau lleol drwy ddarparu gwasanaethau a chyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant ar gyfer trigolion.

Ffigur 21 – Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad

Mae'r SROI yn galluogi'r awdurdod lleol i leihau'r arian grant y mae'n ei roi i'r trydydd sector mewn ffordd deg ac ar sail y sefydliadau hynny a oedd gwneud y defnydd gorau o'r arian grant a gânt ar gyfer y gymuned a'r awdurdod lleol.

Cyfrifir yr SROI drwy nodi'r gost y pen yn seiliedig ar nifer y bobl sydd wedi cysylltu â'r sefydliad wedi'i rhannu wedyn â nifer yr effeithiau cymdeithasol a ddarperir gan y gwasanaeth; mae hyn yn rhoi gwerth y pen. Wedyn rhennir gwerth y pen â nifer y blaenoriaethau yn y cynllun corfforaethol lle mae'r gwasanaethau yn cyflawni canlyniadau. Mae hyn wedyn yn rhoi ffigur y pen ar gyfer yr SROI i'r awdurdod lleol. Po isaf yw'r gost y mwyaf yw'r gwerth am arian a sicrheir mewn perthynas ag effeithiau cymdeithasol.


Rhannwyd y cyfrifiad â'r cyngor gwasanaethau gwirfoddol lleol a sefydliadau lleol yn y trydydd sector er mwyn sicrhau bod pawb yn deall y cyfrifiad a'r ffordd y câi ei ddefnyddio. Sefydodd yr awdurdod lleol grŵp i werthuso'r sefydliadau a oedd yn defnyddio'r SROI. Roedd aelodau'r grŵp yn cynnwys yr aelod gweithredol a oedd yn gyfrifol am arian grant ac aelodau etholedig eraill o'r awdurdod lleol er mwyn creu panel cynghori ar grantiau. Defnyddiodd yr awdurdod lleol yr SROI i raddio'r sefydliadau a llwyddodd y rhai a gafodd ffigur cost isel i barhau i gael eu hariannu.

Nid yw trefniadau craffu a rheoli risg ar gyfer gwerthuso a goruchwyllo cyllid y trydydd sector bob amser yn addas nac yn effeithiol

- 3.14 Gall pwyllgorau craffu chwarae rôl allweddol o ran goruchwyllo'r modd yr ariennir gwasanaethau'r trydydd sector er mwyn herio tanberfformiad, dwyn sefydliadau i gyfrif a nodi cyfleoedd i wella. Dylai pwyllgorau craffu awdurdodau lleol oruchwyllo gwasanaethau a roddir ar gontract i sefydliadau yn y trydydd sector yr un mor drylwyr ag y byddent yn goruchwyllo'r rhai a ddarperir yn uniongyrchol gan yr awdurdod ei hun. Gwelsom rai enghreifftiau o ddatblygu arfer lle mae trefniadau awdurdodau lleol ar gyfer craffu ar eu prosesau ar gyfer ariannu'r trydydd sector yn gwella. Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae Pwyllgor Polisi ac Adnoddau'r awdurdod lleol wedi chwarae rhan lawn mewn adolygiad o'r modd yr ariennir y trydydd sector. O ganlyniad i'r adolygiad, mae'r aelodau etholedig yn deall manteision a heriau gwaith yr awdurdod lleol gyda'r trydydd sector yn well ac wedi nodi cyfleoedd i wella sgiliau'r aelodau etholedig er mwyn sicrhau bod gweithgarwch craffu yn fwy effeithiol yn y dyfodol. Fodd bynnag, nodwyd gennym, yn gyffredinol, fod craffu ar berfformiad y trydydd sector yn faes gwaith sy'n peri problemau i rai awdurdodau lleol.

3.15 Mae ymatebion i'n harolwg o gynghorau gwirfoddol sirol yn mynegi pryderon ynghylch y gwaith craffu y mae awdurdodau lleol yn ei wneud wrth oruchwylio a herio perfformiad gwasanaethau yn y trydydd sector fel y nodir yn Ffigur 22. Cydnabu ychydig o dan hanner y cynghorau gwirfoddol sirol a ymatebodd fod sefydliadau yn y trydydd sector yn cael eu cynrychioli ar gyrff goruchwylio a chraffu. Fodd bynnag, dim ond chwech o'r 19 o gynghorau gwirfoddol sirol a ymatebodd i'n harolwg a oedd o'r farn bod pwyllgorau craffu yn galluogi aelodau i herio a gwella'r ffordd y mae eu hawdurdod lleol yn gweithio gyda sefydliadau yn y trydydd sector a dim ond un a nododd fod aelodau etholedig yn gwerthuso gwaith y trydydd sector yn rheolaidd.

Ffigur 22 – Sylwadau cynghorau gwirfoddol sirol ar drefniadau craffu awdurdodau lleol



Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, County Voluntary Councils Survey, Mai 2016

- 3.16 Mae canfyddiadau ein cais am dystiolaeth yn adlewyrchu sylwadau cynghorau gwirfoddol sirol ac yn dangos nad yw trefniadau ar gyfer adolygu perfformiad y trydydd sector a chraffu arno yn cael eu defnyddio'n gyson. Dim ond 14 o'r 56 o sefydliadau a ymatebodd a deimlai fod trefniadau monitro awdurdodau lleol ar gyfer prosiectau'r trydydd sector yn effeithiol. Ymhlith y gwendidau cyffredin a nodwyd gan sefydliadau yn y trydydd sector roedd:
- prosesau monitro anghyson fewn adrannau awdurdodau lleol a rhyngddynt;
 - y ffaith nad yw gwybodaeth a ddarparwyd gan sefydliadau yn y trydydd sector yn cael ei defnyddio gan awdurdodau lleol wrth adolygu prosiectau;
 - prosesau yn gosod gormod o faich ar sefydliadau yn y trydydd sector; ac
 - adnoddau cyfyngedig o fewn awdurdodau lleol i gynnal adolygiadau yn amserol.
- 3.17 Nodwyd gennym fod y cyfrifoldeb am graffu ar brosesau ariannu'r trydydd sector yn aml wedi'i ddatganoli i'r pwyllgorau craffu pwnc-benodol unigol. Drwy roi'r cyfrifoldeb am weithgarwch craffu i bwyllgorau unigol, yn aml nid oes gan awdurdodau lleol drosolwg canolog na chorfforaethol o'r holl drefniadau ar gyfer ariannu'r trydydd sector sydd ar waith o fewn yr awdurdod. O ganlyniad, mae'n bosibl na fydd awdurdod yn gallu nodi meysydd lle y gallai fod achosion o ddyblygu ac y bydd yn colli cyfleoedd i sicrhau bod eu prosesau ar gyfer ariannu gwasanaethau yn y trydydd sector yn fwy effeithlon yn y dyfodol. Felly, mae angen i awdurdodau lleol wella'r modd y maent yn casglu, yn rheoli, yn rhannu ac yn dadansoddi data er mwyn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth gywir i wneud penderfyniadau a deall yr effaith y gallai'r penderfyniadau hyn eu cael ar yr awdurdod lleol, sefydliadau yn y trydydd sector a defnyddwyr gwasanaethau yn glir.
- 3.18 Mae gwaith rheoli risg yn rhan bwysig o drefniadau craffu a goruchwyllo awdurdodau lleol ac, os caiff ei wneud yn dda, gall roi sicrwydd i awdurdodau lleol fod y risg y bydd mathau penodol o ddigwyddiadau yn digwydd neu'n cael effaith ar fusnes yr awdurdod lleol wedi cael ei lleihau neu ei dileu. Mae gwaith rheoli risg effeithiol yn broses ar gyfer nodi, asesu a blaenoriaethu gwahanol fathau o risgiau ac, ar ôl i'r risgiau gael eu nodi, lunio cynllunio i leihau neu ddileu effaith digwyddiadau negyddol. Mae angen i awdurdodau lleol ystyried amrywiaeth o risgiau sy'n gysylltiedig â gweithio gyda'r trydydd sector; gallant gynnwys risgiau i enw da sefydliad a risgiau ariannol.
- 3.19 Nododd ein gwaith maes nad yw awdurdodau lleol bob amser yn ystyried risg yn eu gwaith gyda'r trydydd sector. O'r chwe awdurdod lleol yr ymwelwyd â hwy, dim ond un a oedd â phroses glir i asesu'n benodol y risg sy'n gysylltiedig ag ariannu sefydliadau yn y trydydd sector. Dywedodd un awdurdod lleol wrthym fod barn broffesiynol uwch swyddogion yn cael ei defnyddio i farnu risg, ond nad oedd gan y dull hwn o weithredu unrhyw system ffurfiol i asesu a lliniaru risg yn gyson am nad yw gwybodaeth yn cael ei chofnodi na'i rheoli ac am ei fod yn asesiad o risg ar

adeg benodol nad yw'n defnyddio unrhyw feini prawf y cytunwyd arnynt. Lle mae hanes o gaffael gwasanaethau, yn enwedig ym maes gofal cymdeithasol, nodwyd gennym brosesau mwy sefydledig sy'n canolbwyntio'n fwy ar gofnodi risgiau mewn cofrestrau ffurfiol sy'n cael eu hadolygu ac sy'n destun camau lliniaru.

- 3.20 Yn Sir y Fflint, roedd y gwasanaeth archwilio mewnol wedi nodi bod ariannu sefydliadau gofal cymdeithasol yn y trydydd sector yn faes y dylid canolbwyntio arno. Nododd adolygiad y tîm archwilio mewnol, a gyhoeddwyd yn 2015, fod angen gwella'r amgylchedd rheoli'n sylweddol er bod sawl maes yn cael eu rheoli'n dda gan yr awdurdod lleol, gan gynnwys cydberthnasau rhwng yr awdurdod lleol a'r trydydd sector a datblygu manylebau gwasanaethau ar y cyd. Nododd yr adroddiad fod rheolaethau allweddol i'w cael ond nad oeddent yn mynd i'r afael â phob risg a nodwyd a/neu nad oeddent yn cael eu defnyddio'n gyson nac yn effeithiol. Gwnaeth y tîm archwilio nifer o argymhellion ar gyfer gwella roedd yr awdurdod lleol wrthi'n eu gweithredu pan ymwelwyd ag ef.



Cerddwyr gwirfoddol blaen yn arwain y ffordd ar Dro Nos Da Gofal Canser Tenovus yn 2014. Yn ystod y digwyddiad hwn mae cannoed o gerddwyr yn goleuo'r noson i gofio a dathlu bywydau'r rhai sy'n annwyl iddynt ac sydd wedi'u heffeithio gan ganser, a byddai hyn yn amhosibl heb gymorth y gwirfoddolwyr gwych. Un o'r 14 llun uchaf yng Nghystadleuaeth Ffotograffiaeth Aelodau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 2014.

Ffynhonnell: WCVA

Rhan 4

Mae disgwyliadau newidiol o ran yr hyn y mae'n ofynnol i'r trydydd sector ei gyflawni yn cynnig cyfleoedd ac yn cyflwyno risgiau y mae angen eu rheoli'n ofalus er mwyn i'r buddiannau disgwylidig gael eu cyflawni

Gwirfoddolwyr ifanc Ferndale Grassroots yn ymlacio ar ôl gweithio'n galed ger y pwll sydd newydd gael ei greu uwchben Rhondda Fach. Daeth y llun hwn yn ail yng Nghystadleuaeth Ffotograffiaeth Aelodau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 2016



- 4.1 Gan fod disgwyl i gyllid y sector cyhoeddus barhau i ostwng yn y dyfodol agos, mae Llywodraeth Cymru (ac awdurdodau lleol) wedi manteisio ar y cyfle i ailddiffinio gwasanaethau cyhoeddus gan ganolbwyntio ar ddulliau cynaliadwy ac ataliol newydd o ddarparu gwasanaethau. O fewn newidiadau deddfwriaethol diweddar a diwygiadau arfaethedig, mae rôl gynyddol i'r trydydd sector wedi'i nodi. Yn y rhan olaf hon o'r adroddiad, rydym yn ystyried y cyfleoedd a'r risgiau sy'n gysylltiedig ag agenda newydd trydydd sector cryfach a symlach.
- 4.2 Mae'r wasgfa ar wariant y llywodraeth wedi hoelio sylw llunwyr polisi ar rôl cyfranogiad gwirfoddol a'r trydydd sector o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus, sydd wedi arwain at fwy o graffu ar brosesau ariannu a'r angen i ddeall sut y gall cymunedau gyfranogi mewn gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy. Mae'r newid hwn mewn polisi tuag at gydgyhyrchu yn tybio y gall lefelau gwirfoddoli, gweithgarwch y trydydd sector a'i ddsbarthiad ym mhob ardal ateb y galw cynyddol am wasanaethau cyhoeddus yn effeithiol. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydbwysu hyn â dibyniaeth y trydydd sector yng Nghymru ar arian cyhoeddus sydd wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf sy'n golygu bod angen i awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill geisio sicrhau bod pob punt a fuddsoddir yn dod â'r manteision mwyaf posibl.
- 4.3 Er mwyn i'r trydydd sector fod yn gwbl effeithiol mae angen iddo allu cystadlu i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd deg. Felly, mae meithrin gallu o fewn y trydydd sector er mwyn sicrhau y gall cymaint o sefydliadau â phosibl gymryd rhan mewn prosesau ariannu strategol yn un o rolau pwysig awdurdodau lleol. Yn ddiweddar cyflogodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen Swyddog Grantiau a Datblygu Cymunedol a fu'n gweithio gyda sefydliadau yn y trydydd sector er mwyn eu helpu i wella'r ffordd y maent yn gweithio gyda gwasanaethau ariannu'r awdurdod lleol, yn eu rheoli ac yn eu hadolygu. Drwy'r gwaith hwn, mae'r Swyddog Grantiau a Datblygu Cymunedol yn helpu sefydliadau yn y trydydd sector i weithio gyda'r awdurdod lleol, ond mae hefyd yn sicrhau bod arian yr awdurdod lleol yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol.
- 4.4 Cydnabu rhai ymatebwyr i'n cais am dystiolaeth, er nad oes gan lawer o sefydliadau yn y trydydd sector yr adnoddau, y sgiliau, yr amser na'r arbenigedd sydd eu hangen er mwyn gwneud cais am gontractau awdurdodau lleol yn aml, nad yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn mynd ati'n rhagweithiol i geisio hybu ac annog datblygiad a thwf eu trydydd sector lleol. Yn benodol, mae sefydliadau lleol a chymunedol llai o faint yn y trydydd sector yn ei chael hi'n anodd iawn parhau i ddatblygu a bodloni gofynion newydd a mwy beichus awdurdodau lleol.

- 4.5 Nodwyd gennym nad oedd prosesau caffael awdurdodau lleol bob amser yn helpu'r trydydd sector lleol. Oherwydd gwerth ariannol y contractau, bu'n rhaid i lawer ohonynt ddilyn y gweithdrefnau caffael llym. Roedd rhai sefydliadau o'r farn bod hyn wedi'u hatal rhag gwneud cais am gyfleoedd. Roedd rhai awdurdodau lleol, drwy'r cyngor gwirfoddol sirol, wedi darparu cyfarfodydd gwybodaeth lle yr eglurwyd pob cam o'r broses i sefydliadau ac y dangoswyd iddynt sut roedd yn gweithio, ac mewn rhai achosion, roedd awdurdodau lleol yn gallu dangos bod sefydliadau yn y trydydd sector wedi llwyddo mewn proses ceisiadau gystadleuol o ganlyniad i'r hyfforddiant. Fodd bynnag, nid yw cyfnewid gwybodaeth yn datrys y broblem sy'n ymwneud â gallu ac arbenigedd yn y trydydd sector ac mae hyn yn fater y mae angen i awdurdodau lleol ei ystyried yn eu prosesau ariannu strategol.
- 4.6 Neges gref o'n gwaith ymchwil yw, er bod cefnogi'r trydydd sector er mwyn ei alluogi i wneud cais am gontractau yn hanfodol, fod darparu hyfforddiant a chymorth i'r rhai o fewn awdurdodau lleol sy'n ymwneud ag ariannu gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn mabwysiadu ac yn defnyddio arferion priodol a chymesur yr un mor bwysig. Prin iawn yw'r awdurdodau lleol sydd ag aelodau o staff a gyflogir yn benodol i weithio gyda'r trydydd sector a'i ddatblygu a hyd yn oed lle mae swyddogion dynodedig sy'n bennaf cyfrifol am annog a datblygu capasiti'r trydydd sector, bydd y swyddogion hyn yn ei chael hi'n anodd deall amrywiaeth a chymhlethdod eu trydydd sector lleol.
- 4.7 Mae gweithio'n rhagweithiol gyda'r trydydd sector yn golygu mwy na meithrin gallu yn unig – mae hefyd yn rhagofyniad i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cael y budd gorau posibl o'u buddsoddiad drwy ymgysylltu â marchnad y trydydd sector lleol. Felly, mae dealltwriaeth dda o'r farchnad leol yn hanfodol er mwyn i awdurdodau lleol sicrhau'r manteision mwyaf posibl a allai ddeillio o'r trydydd sector. Felly, er mwyn deall y farchnad yn llawn, mae angen i awdurdodau lleol gydnabod ei hamrywiaeth, ei natur gystadleuol gynhenid, faint o bŵer sydd gan yr awdurdod lleol drwy sefydliadau ariannu a'r ffordd y mae penderfyniadau yn dylanwadu ar ddatblygiad marchnad y trydydd sector yn y dyfodol.
- 4.8 Mae rheoli'r farchnad yn rhagweithiol hefyd yn hanfodol i sicrhau bod dyheadau penderfyniadau polisi diweddar a newydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau'r holl fanteision arfaethedig. Mae **Figur 23** yn crynhoi tair cyfarwyddeb polisi gan Lywodraeth Cymru sy'n dangos bod gan y trydydd sector rôl gynyddol i'w chwarae.
- 4.9 Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oes gan awdurdodau lleol a sefydliadau yn y trydydd sector ddealltwriaeth glir bob amser o faint o gystadleuaeth sydd mewn meysydd gwasanaeth gwahanol ac mae'r newid yn y dull ariannu a nodwyd uchod – o grantiau i gontractau ar gyfer gwasanaethau – wedi newid y gydberthynas ariannu rhwng awdurdodau lleol a'r trydydd sector. Wrth wraidd y newid hwn o grantiau i gontractau ar gyfer gwasanaethau mae newid mewn tybiaethau: o un sy'n ystyried bod arian awdurdodau lleol yn ffordd o helpu'r trydydd sector i gyflawni ei gynlluniau a'i flaenoriaethau ei hun, i un sy'n ystyried bod y trydydd sector yn rhan o ddull ehangach o gyflawni cynlluniau a blaenoriaethau

Ffigur 23 – Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod gan y trydydd sector rôl gynyddol i'w chwarae o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus

Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** (Deddf 2014) yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant oedolion a phlant sy'n agored i niwed, a gofawyr y mae angen cymorth arnynt, ac ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Nod Deddf 2014 yw mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â newid demograffig a chodi disgwyliadau'r rhai sy'n cael gofal a chymorth. Cyfeirir at rôl y trydydd sector sawl gwaith yn Neddf 2014 ac mae Adran 16(1) yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i helpu mentrau cymdeithasol, sefydliadau cydweithredol, trefniadau cydweithredol a sefydliadau yn y trydydd sector i ddarparu gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol yn eu hardal. Mae Deddf 2014 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol newid y ffordd y maent yn gweithio gydag unigolion er mwyn eu helpu i gyflawni eu canlyniadau llesiant. Yn gyntaf drwy ofyn 'beth sy'n bwysig iddyn nhw?' ac yn ail drwy wneud yn fawr o'u rhwydweithiau cymorth eu hunain a manteisio ar adnoddau cymunedol a gwirfoddol, sy'n hanfodol i gyflawni nodau Deddf 2014. Mae'r trydydd sector yn allweddol i hyrwyddo'r newid hwn mewn diwylliant.

Yn yr un modd, mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** (Deddf 2015) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus arddel safbwynt hirdymor sy'n seiliedig ar bum thema hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys. Bydd angen i awdurdodau lleol yng Nghymru fod yn ymwybodol o'r gofynion hyn ac, yn benodol, yr amcanion a bennir gan eu byrddau gwasanaethau cyhoeddus lleol. Mae'n rhaid i bob bwrdd gwasanaethau cyhoeddus lunio cynllun llesiant lleol, gan nodi sut y bydd ei ardal yn cyflawni'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a amlinellir yn Neddf 2015, a gwahodd 'sefydliadau gwirfoddol perthnasol' i gymryd rhan ar y bwrdd. Er mai dim ond cyrrff cyhoeddus sydd wedi'u rhwymo gan Ddeddf 2015, mae'n amlwg, er mwyn i awdurdod lleol gyflawni ei nodau llesiant, y bydd angen cymorth sectorau eraill arno, yn enwedig cyrrff yn y trydydd sector.

Nododd y papur gwyn, **Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol**²⁵, fod gan sefydliadau yn y trydydd sector fwy o rôl i'w chwarae o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol. Nododd y papur gwyn gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus ac edrychodd ar rôl ehangach i'r trydydd sector mewn sawl maes, yn enwedig model carlam i awdurdodau lleol ariannu gwasanaethau drwy'r trydydd sector, mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydfuddiannol. Roedd y papur gwyn o blaid ehangu sefydliadau yn y trydydd sector gan eu galluogi i chwarae mwy o ran yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn uniongyrchol. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru wrthi'n adolygu ei hopsiynau i ddatblygu cynigion y papur gwyn ond mae'n dal i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod y trydydd sector yn chwarae rôl gynyddol o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus.

²⁵ Llywodraeth Cymru, Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni – Papur Gwyn, Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol, Chwefror 2015

awdurdodau lleol. Felly, ar lefel strategol, mae'r tybiaethau sy'n llywio penderfyniadau ariannu strategol wedi lleihau cyfraniad y trydydd sector at y gwaith o gynllunio gwasanaethau ac asesu anghenion ac wedi dileu'r cydberthnasau cystadleuol blaenorol (a fyddai'n aml yn galw am gyfrinachedd masnachol), gan roi cydberthnasau cydweithredol yn eu lle ymhlith cyrff yn y trydydd sector a rhwng cyrff yn y trydydd sector, cynghorau gwirfoddol sirol ac awdurdodau lleol.

- 4.10 Yn ddiweddar cynhaliodd CGGC adolygiad strategol er mwyn pennu gweledigaeth newydd a blaenoriaethau ar gyfer ei waith yn y blynyddoedd i ddod. Mae CGGC wedi gweithio gyda chynghorau gwirfoddol sirol i adolygu blaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau cymorth rhanbarthol a chenedlaethol yn y trydydd sector. Mae CGGC wedi ystyried y risgiau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r trydydd sector yn y dyfodol a sut y gall y sector cyfan ymateb i'r rhain. Mae'r materion hyn yn cynnwys ffactorau amgylcheddol gan gynnwys newid yn yr hinsawdd; effeithiau economaidd ar gymdeithas ac unigolion; casglu a defnyddio data i lywio gwasanaethau ac effaith digideiddio cynyddol; newidiadau demograffig; a'r newidiadau i wasanaethau cyhoeddus a ddaeth yn sgil deddfwriaeth newydd.
- 4.11 Ymgynghorodd CGGC ar fframwaith strategol diwygiedig yn ystod hydref 2016 gan nodi ei nodau a'i flaenoriaethau strategol ar gyfer y dyfodol a'i egwyddorion sy'n sail i waith y trydydd sector. Mae CGGC yn cydnabod yr heriau y mae'r sector yn eu hwynebu a'r amrywiaeth o ymatebion y gallai'r sector eu cynnig i'r heriau hyn yn y blynyddoedd i ddod. Mae CGGC yn nodi, wrth i wasanaethau cyhoeddus newid yn y blynyddoedd i ddod, fod cyfleoedd a risgiau i'r sector. Ymhlith y risgiau mae mwy o gystadleuaeth am arian gan gyrff cyhoeddus eraill a hefyd y sector preifat ac ymhlith y cyfleoedd mae mwy o gydweithredu rhwng sefydliadau yn y trydydd sector wrth ddarparu gwasanaethau.
- 4.12 Ni ellir anwybyddu'r ffaith bod y trydydd sector yn wynebu nifer o heriau mawr, yn enwedig mewn perthynas â'i rôl, ei gylch gwaith, ei gyllid a'i statws mewn cymdeithas yng Nghymru. Fel y nodwyd uchod, mae Llywodraeth Cymru am sicrhau bod y trydydd sector yn chwarae rôl gynyddol wrth hwyluso a darparu gwasanaethau cyhoeddus, a hynny fel mater o frys, yn ogystal â pharhau i gyflawni ei rôl yn eirioli dros ddinasyddion Cymru ac yn eu cynrychioli. Mae hefyd yn bwysig cydnabod y cyfraniad y mae'r trydydd sector yn ei wneud at amcanion strategol a statudol awdurdodau lleol a'r manteision economaidd a'r manteision o ran cyflogaeth mewn llawer o gymunedau yng Nghymru. Felly, er mwyn gwireddu'r dyheadau a gyflwynir gan gyfeiriad polisi datblygol Llywodraeth Cymru, bydd angen newid y ffordd y mae awdurdodau a chyrff cyhoeddus eraill yn gweithio gyda'r trydydd sector.
- 4.13 Mae angen datblygu cydberthnasau gwaith agosach rhwng awdurdodau lleol a'r trydydd sector er mwyn sicrhau bod gan y trydydd sector yr adnoddau i chwarae rôl weithredol ac effeithiol mewn prosesau ariannu strategol yn ogystal â'r adnoddau a'r gallu i fodloni gofynion newydd a datblygol deddfwriaeth a blaenoriaethau polisi diweddar. Mae heriau sylweddol sydd â goblygiadau i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a sefydliadau yn y trydydd sector, y mae angen ymdrin â hwy mewn modd penderfynol a thrwy roi arweiniad clir.

Atodiadau

Atodiad 1 - Methodoleg yr astudiaeth

Atodiad 2 - Astudiaethau achos arfer da

Atodiad 3 - Rhestr wirio i sicrhau bod

awdurdodau lleol yn ymgysylltu â'r

trydydd sector ac yn gweithio gydag ef

yn effeithiol

Gwirfoddolwyr Step Up, Step Out yn cymryd camau ymlaen ac allan i gynorthwyo eu cymuned leol wrth greu llwybr ym Mharc Gwledig Loggerheads. Un o'r 15 llun uchaf yng Nghystadleuaeth Ffotograffiaeth Aelodau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 2015. Llun gan Graham Davies, gwirfoddolwr gyda'r Rhaglen Step Up, Step Out.



Atodiad 1 - Methodoleg yr astudiaeth

Adolygiad o lenyddiaeth

Rydym wedi adolygu ystod eang o ddogfennau a chyfryngau, gan gynnwys:

- dogfennau polisi a chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru
- cynlluniau a strategaethau awdurdodau lleol ar gyfer y trydydd sector ym mhob un o'r 22 o awdurdodau lleol
- adroddiadau CGGC ar ariannu'r trydydd sector a luniwyd gan LGDU (Cymru)

Dadansoddi data

Rydym wedi dadansoddi'r data y casglodd CGGC gan awdurdodau lleol am eu trefniadau ar gyfer ariannu gwasanaethau yn y trydydd sector. Gwnaeth yr LGDU y gwaith hwn ar ran CGGC yn 2001-02, 2003-04, 2009-10 a 2013-14. Mae'r ffurflenni a gyflwynwyd yn cynnwys gwybodaeth am 19 o'r 22 o awdurdodau lleol ac nid yw'n cynnwys gwybodaeth am Ynys Môn, Castell-nedd Port Talbot a Chasnewydd na chyflwynodd ffurflenni i'r LGDU. Nid oedd gan ffurflen 2009-10 unrhyw ddata ar gyfer pum awdurdod lleol – sef Ynys Môn, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd a Rhondda Cynon Taf. Er gwaethaf yr hepgoriadau hyn, y wybodaeth a gyhoeddwyd gan yr LGDU yw'r ffynhonnell fwyaf cynhwysfawr, cyson a diweddar o ddata ar lefel y cyllid a roddwyd gan awdurdodau lleol i sefydliadau yn y trydydd sector yng Nghymru o hyd. Nid yw'r data a gafwyd o ffurflenni unigol gan bob awdurdod wedi'u harchwilio er mwyn sicrhau eu bod yn gywir.

Gwaith maes mewn awdurdodau lleol

Ymwelwyd â chwe awdurdod lleol yng Nghymru yn 2016. Roedd yr awdurdodau lleol a ddewiswyd yn cynrychioli cymysgedd o awdurdodau sydd wedi'u dosbarthu'n ddaearyddol ledled Cymru yn ogystal ag adlewyrchu lefelau gwahanol o gyllid i'r trydydd sector fel y'u cofnodwyd yn adroddiadau'r LGDU. Yr awdurdodau lleol hyn oedd:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Sir Penfro
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Yn ystod yr ymweliadau, cyfwelwyd ag amrywiaeth o staff awdurdodau lleol, sefydliadau yn y trydydd sector ac aelodau.

Arolygon

Cynhaliwyd nifer o arolygon ar-lein ac roedd cwmpas yr arolygon ynghyd â'r cyfraddau ymateb fel a ganlyn:

Ymatebwyr i'r arolwg	Diben yr arolwg	Y gyfradd ymateb
Awdurdodau Lleol	<p>Casglu sylwadau ar y meysydd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> y dull strategol o ariannu gwasanaethau'r trydydd sector; sut mae'r dull gweithredu yn ystyried fframweithiau Llywodraeth Cymru; pa mor effeithiol yw prosesau cyfathrebu â'r trydydd sector; materion sy'n ymwneud â llywodraethu gan gynnwys rheoli risg; cymorth i sefydliadau yn y trydydd sector sy'n gwneud cais am arian; prosesau ariannu'r cyngor; a sut y caiff perfformiad sefydliadau yn y trydydd sector ei reoli, ei adolygu a'i werthuso. 	<p>Penaethiaid caffael ar gyfer y 22 o awdurdodau lleol a chafwyd wyth ymateb (36%). Oherwydd y gyfradd ymateb isel nid ydym wedi gwneud defnydd helaeth o'r arolwg yn yr adroddiad.</p>
Cynghorau gwirfoddol sirol lleol	<p>Casglu barn y trydydd sector ar y meysydd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> dulliau strategol awdurdodau lleol o ariannu gwasanaethau'r trydydd sector; sut mae dulliau gweithredu awdurdodau lleol yn ystyried fframweithiau Llywodraeth Cymru; sut mae awdurdodau lleol yn cyfathrebu â'r trydydd sector; materion sy'n ymwneud â llywodraethu gan gynnwys rheoli risg; cymorth cynghorau i sefydliadau yn y trydydd sector sy'n gwneud cais am arian; prosesau ariannu awdurdodau lleol; a sut mae awdurdodau lleol yn rheoli, yn adolygu ac yn gwerthuso perfformiad sefydliadau yn y trydydd sector. 	<p>Y 19 o gynghorau gwirfoddol sirol, a chafwyd 20 o ymatebion, er bod un cyngor gwirfoddol sirol a ymatebodd hefyd yn ardal awdurdod lleol lle y buom yn gwneud gwaith maes ac wedi gofyn am iddo gael ei gyfweld yn hytrach na chwblhau'r arolwg. Mae Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO) yn cwmpasu pedwar awdurdod lleol (sef Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy a Chasnewydd). Holodd yr arolwg am ddull gweithredu'r awdurdodau lleol unigol a chafwyd tri ymateb gan ardal Gwent. Dim ond er mwyn cyflwyno safbwyntiau ar lefel Cymru gyfan rydym wedi defnyddio'r canfyddiadau. Ni fu'n bosibl i Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych ymateb i'r arolwg oherwydd ymddeoliad y Prif Weithredwr a adawodd ym mis Tachwedd a'r ffaith bod y Prif Swyddog Interim yn absennol o'r gwaith oherwydd salwch yn ystod y cyfnod hwnnw. Yr ardaloedd awdurdod lleol lle nad oes gennym unrhyw wybodaeth o'r arolygon yw Sir Ddinbych, Castell-nedd Port Talbot, Sir Fynwy a Chasnewydd.</p>

Tudalen y pecyn 137

Ymatebwyr i'r arolwg	Diben yr arolwg	Y gyfradd ymateb
Asiantaethau gwybodaeth a chyngor	<p>Casglu sylwadau asiantaethau gwybodaeth a chyngor yn y trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau i awdurdodau lleol ar y meysydd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> dulliau strategol awdurdodau lleol o ariannu gwasanaethau'r trydydd sector; sut mae dulliau gweithredu awdurdodau lleol yn ystyried fframweithiau Llywodraeth Cymru; sut mae awdurdodau lleol yn cyfathrebu â'r trydydd sector; materion sy'n ymwneud â llywodraethu gan gynnwys rheoli risg; cymorth awdurdodau lleol i sefydliadau yn y trydydd sector sy'n gwneud cais am arian prosesau ariannu awdurdodau lleol; a sut mae awdurdodau yn rheoli, yn adolygu ac yn gwerthuso perfformiad sefydliadau yn y trydydd sector. 	<p>Canolbwyntiwyd ar wasanaethau gwybodaeth a chyngor am fod awdurdodau lleol yn rhoi cryn dipyn o arian i'r sefydliadau hyn ac am eu bod hefyd yn cwmpasu ystod eang o wasanaethau i'r cyhoedd. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad cenedlaethol o wasanaethau gwybodaeth a chyngor yn 2013 a wnaeth nifer o argymhellion. Ym mis Mawrth 2015 creodd Llywodraeth Cymru Rwydwaith Cyngor Cenedlaethol i roi cyngor i Lywodraeth Cymru ar ofynion polisi o ran gwella mynediad at wasanaethau gwybodaeth a chyngor o safon, mewn perthynas â'r gyfraith ar les cymdeithasol.</p> <p>Arolygwyd asiantaethau cyngor a gwybodaeth ac ymatebodd 33 o sefydliadau i'r arolwg. O'r 33 o sefydliadau hyn, cafwyd 21 gan sefydliad cenedlaethol sydd â chontractau i ddarparu gwasanaethau ag 20 o awdurdodau lleol. Darparodd y sefydliadau hyn ymatebion, i'r graddau roedd hynny'n bosibl, ar gyfer pob un o'r 20 o awdurdodau lleol hyd at gwestiwn 30 ac wedyn cwblhaodd y sefydliad ambarél cenedlaethol gwestiynau 31 i 35. Dim ond er mwyn cyflwyno safbwyntiau ar lefel Cymru gyfan rydym wedi defnyddio'r canfyddiadau.</p>
Cais am dystiolaeth i'r trydydd sector ehangach	<p>Casglu sylwadau'r trydydd sector ar y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> effeithiolrwydd systemau awdurdodau lleol ar gyfer cyhoeddi, dyfarnu, rheoli ac adolygu prosiectau trydydd sector; gwaith partneriaeth presennol rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau yn y trydydd sector; pa mor effeithiol y mae awdurdodau lleol yn ariannu gwasanaethau'r trydydd sector; sut mae trosglwyddo o arian grant i system lle y dyfernir mwy o gyllid i dalu am wasanaethau o dan gontract wedi effeithio ar sefydliadau yn y trydydd sector; ac i ba raddau y mae'r arian y mae awdurdodau lleol yn ei roi i wasanaethau'r trydydd sector yn sicrhau'r manteision a'r canlyniadau arfaethedig. 	<p>Hyrwyddwyd y cais am dystiolaeth i'r trydydd sector drwy CGGC a chynghorau gwirfoddol sirol lleol. Cafwyd 56 o ymatebion i'r cais hwnnw am dystiolaeth. Rydym wedi crynhoi themâu o'r cais am dystiolaeth.</p>

Tudalen y pecyn 138

Atodiad 2 - Astudiaethau achos arfer da

Sut rydym yn diffinio arfer da

Nodir isod y paramedrau a ddefnyddir gennym i farnu a ddylid cynnwys astudiaeth achos fel arfer da:

- rhaglen, gweithgaredd neu strategaeth y dangoswyd ei bod/fod yn effeithiol, wedi'i (h) ategu gan werthusiad cynhwysfawr.
- rhaglen, gweithgaredd neu strategaeth y dangoswyd ei bod/fod yn cyflawni canlyniadau llwyddiannus ac a ategir i ryw raddau gan ffynonellau data goddrychol a gwrthrychol.
- rhaglen, gweithgaredd neu strategaeth sydd wedi gweithio o fewn un sefydliad ac sy'n dangos addewid yn ystod ei chamau/gamau cynnar y bydd yn datblygu'n arfer sy'n cael effaith gynaliadwy hirdymor.
- rhaglen, gweithgaredd neu strategaeth a allai gael ei (d)dyblygu ymhlith sefydliadau eraill.
- rhaglen, gweithgaredd neu strategaeth sy'n sicrhau gwerth am arian. Diffinnir gwerth am arian fel gwneud y defnydd gorau posibl o adnoddau er mwyn sicrhau'r manteision arfaethedig.
- rhaglen, gweithgaredd neu strategaeth sy'n cyflawni arbedion/gostwng gwariant heb fawr ddim effaith ar berfformiad.

Yng nghorff yr adroddiad, nodwyd gennym y meysydd canlynol o arfer da:

- Cyngor Sir y Fflint – arolwg o'r modd yr ariennir y trydydd sector ([tudalen 17](#))
- Cyngor Sir Caerfyrddin – cydgysylltu prosesau ariannu'r trydydd sector ([tudalen 19](#))
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot – gwaith partneriaeth gyda'r trydydd sector ([tudalen 24](#))
- datganiadau gwasanaethau cymdeithasol o sefyllfa'r farchnad ([tudalen 26](#))
- GAVO - meithrin gallu'r trydydd sector i gystadlu mewn ymarferion caffael ([tudalen 28](#))
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful – canoli hawliadau grant gan y trydydd sector ([tudalen 34](#))
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – SROI ([tudalen 58](#))

At hynny, rydym hefyd wedi nodi'r arfer trosglwyddadwy canlynol.

Astudiaeth Achos 1 – Cyngor Sir Penfro – gweithio'n agos gyda'r trydydd sector

Roedd cost swmpgasgliadau mewn sir fawr, denau ei phoblogaeth bellach yn rhy ddrud i'r awdurdod lleol. Aeth y cyngor ati i chwilio am ateb heblaw am derfynu'r gwasanaeth a gweld a ellid ei ddarparu mewn ffordd wahanol. Roedd gan FRAME, sy'n elusen a menter gymdeithasol gofrestredig, ddiddordeb mewn ymgymryd â'r gwaith.

Mae FRAME yn darparu cyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer pobl â phob math o anabledd a phobl yr ystyrir eu bod wedi'u hallgáu'n gymdeithasol, er mwyn eu galluogi i brofi eu gallu i weithio, meithrin sgiliau newydd a newid cyfeiriad yn eu bywydau. Darperir y cyfleoedd hyn drwy weithredu prosiect ailddefnyddio ac ailgylchu cymunedol sy'n targedu'r rhai sy'n profi effeithiau tlodi ac amddifadedd cymdeithasol yn Sir Benfro, gan ddarparu eitemau am gost isel iawn neu'n ddi-dâl i unigolion neu deuluoedd mewn argyfwng, yn ogystal â chynnig dodrefn ac eitemau cartref y gellir eu haildefnyddio i'r cyhoedd.

Mae'r penderfyniad i roi'r gwaith i FRAME wedi dod â manteision eraill i'r awdurdod lleol, sef.

1. nid oes angen iddo dalu am y seilwaith i gasglu'r eitemau;
2. mae'n lleihau ei gostau tirlenwi; a
3. drwy weithio gyda FRAME mae'n annog pobl yr ystyrir eu bod wedi'u hallgáu'n gymdeithasol i ailymuno â chymdeithas a dibynnu llai ar fudd-daliadau lles a gwasanaethau eraill yr awdurdod lleol.

Mae FRAME hefyd yn gweithio gydag Adran Addysg yr awdurdod lleol er mwyn helpu i gynnal a chadw darn bach o goetir a'i ddefnyddio i feithrin dealltwriaeth myfyrwyr ag ymddygiad heriol o'u hamgylchedd. Mae dull strategol yr awdurdod lleol o ariannu gwasanaethau wedi'i alluogi i wneud gorau o'r trydydd sector. Drwy sicrhau y caiff y ddogfennaeth dendro ei datblygu a bod iddi ffocws priodol, mae'r awdurdod lleol yn annog sefydliadau lleol i wneud cais am wasanaethau pwysig i ategu ei ddarpariaeth a datblygu rhagor o adnoddau.

Ers y gwaith maes ym mis Mawrth 2016, mae'r prosiect coetir wedi dod i ben (roedd y coetir wedi'i rentu ar brydles fer) ac mae FRAME yn gobeithio cynnal prosiect tebyg yn y dyfodol.

Atodiad 3 - Rhestr wirio i sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymgysylltu â'r trydydd sector ac yn gweithio gydag ef yn effeithiol

Ardal	Ar waith	Yn cael ei ddatblygu	Ddim ar waith
1. Trefniadau strategol			
Gweledigaeth			
Mae gan yr awdurdoda lleol weledigaeth y cytunwyd arni ynglŷn â sut y bydd yn gweithio gyda'r trydydd sector sy'n cwmpasu pob gwasanaethau a'r holl gyllid a roddir i'r trydydd sector.			
Mae'r weledigaeth wedi'i rhannu â phob aelod perthnasol o staff yn yr awdurdod lleol ac fe'u deillir ganddynt.			
Mae'r weledigaeth wedi'i rhannu â'r aelodau etholedig, mae wedi'i chymeradwyo ganddynt ac fe'u deillir ganddynt.			
Mae'r weledigaeth wedi'i rhannu â'r cyngor gwirfoddol sirol lleol ac fe'i deillir ganddo.			
Mae'r weledigaeth wedi'i dosbarthu i sefydliadau yn y trydydd sector sy'n gweithio gyda'r awdurdod lleol.			
Dull corfforaethol			
Mae gan yr awdurdod lleol ddull corfforaethol o weithio gyda'r trydydd sector sy'n cwmpasu pob adran a gwasanaeth.			
Mae'r dull corfforaethol yn troi'r weledigaeth gorfforaethol yn gamau gweithredu ymarferol.			
Mae'r awdurdod lleol wedi dynodi arweinydd corfforaethol ar gyfer y trydydd sector sy'n gyfrifol am oruchwylio a chydgysylltu'r holl gyllid y mae'r awdurdod lleol yn ei roi i'r trydydd sector.			

Ardal	Ar waith	Yn cael ei ddatblygu	Ddim ar waith
Cytundeb			
Mae gan yr awdurdod lleol gytundeb cyfredol â'r trydydd sector.			
Mae'r cytundeb yn nodi ac yn diffinio'r gydberthynas a'r hyn a ddisgwylir gan yr awdurdod lleol a'r trydydd sector pan fyddant yn cydweithio yn glir.			
Mae dealltwriaeth gyffredin rhwng yr awdurdod lleol a'r trydydd sector o'r hyn y gellir ei gyflawni drwy gydweithio.			
Mae'r cytundeb wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion yr ardal leol ac wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â'r trydydd sector.			
Caiff y cytundeb ei adolygu'n rheolaidd.			
Mae'r cytundeb yn ystyried arian a roddir i'r trydydd sector gan gyrrff iechyd a chomisiynwyr yr heddlu a throseddau.			
Cyngor gwirfoddol sirol			
Mae'r awdurdod lleol a'r cyngor gwirfoddol sirol wedi cytuno ar gylch gwaith a chyfrifoldebau'r olaf yn ogystal â'i gyfyngiadau.			
Cytunwyd ar y ffordd y bydd cyngor gwirfoddol sirol yn cynrychioli'r trydydd sector a'r meysydd y bydd yn cynrychioli'r trydydd sector mewn perthynas â hwy.			

Ardal	Ar waith	Yn cael ei ddatblygu	Ddim ar waith
Trefniadau partneriaeth			
Nodir rôl y trydydd sector a chytunir arni ar bob partneriaeth a phwyllgor addas a gofynnol ar:			
<ul style="list-style-type: none"> lefel gorfforaethol – yng ngwaith y partneriaethau strategol a'r pwyllgorau craffu corfforaethol; 			
<ul style="list-style-type: none"> lefel adrannol – mewn trefniadau partneriaeth penodol er mwyn cefnogi agendâu polisi ehangach o fewn meysydd diffiniedig; a 			
<ul style="list-style-type: none"> lefel gwasanaeth – ar bartneriaethau lleol a mentrau penodol a arweinir gan wasanaethau. 			
Deall ymgysylltu â'r trydydd sector			
Mae gan yr awdurdod lleol gofnod canolog o'r holl arian a ddyfernir i sefydliadau yn y trydydd sector gan yr awdurdod lleol a gaiff ei ddiweddarau'n flynyddol.			
Mae'r awdurdod lleol yn coladu gwybodaeth ariannol ac yn cyflwyno adroddiad o leiaf unwaith y flwyddyn ar yr holl arian y mae wedi'i roi i'r trydydd sector sy'n dangos y canlynol:			
<ul style="list-style-type: none"> pa sefydliadau a ariennir gan yr awdurdod lleol; 			
<ul style="list-style-type: none"> gwerth y contract; 			
<ul style="list-style-type: none"> pa systemau ariannu, naill ai grant neu gontractau, a ddefnyddiwyd; 			
<ul style="list-style-type: none"> hyd y contract; 			
<ul style="list-style-type: none"> pa adran/gwasanaeth sydd wedi contractio'r sefydliad trydydd sector; 			
<ul style="list-style-type: none"> y mesurau llwyddiant a bennwyd ar gyfer y gwaith; a 			
<ul style="list-style-type: none"> beth yw manteision arfaethedig y gwaith. 			

Tudalen y pecyn 143

Ardal	Ar waith	Yn cael ei ddatblygu	Ddim ar waith
2. Prosesau ariannu			
Cynllunio gwasanaethau			
Mae'r awdurdod lleol yn manteisio ar arbenigedd a gwybodaeth y trydydd sector wrth gynllunio gwasanaethau newydd i'w darparu gan y trydydd sector.			
Wrth gynllunio gwasanaethau, mae'r awdurdod lleol yn nodi'n glir:			
<ul style="list-style-type: none"> • y galw y mae'r gwasanaeth yn ei ateb; 			
<ul style="list-style-type: none"> • sut mae wedi penderfynu ar y math o wasanaeth sydd ei angen arno; 			
<ul style="list-style-type: none"> • a oes angen atebion arloesol; a 			
<ul style="list-style-type: none"> • sut y bydd yr awdurdod lleol yn gweithio gyda darparwyr presennol a darpar ddarparwyr i fireinio a datblygu'r gwasanaeth ymhellach. 			
Systemau dyfarnu effeithiol			
Mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu un system ariannu ganolog a chorfforaethol ar gyfer rheoli a dyfarnu holl gyllid y trydydd sector.			
Mae gan yr awdurdod lleol systemau effeithiol i ddyfarnu arian i sefydliadau sy'n nodi'r canlynol:			
<ul style="list-style-type: none"> • amserlen ariannu glir sydd ar gael i bob darpar gynigiwr er mwyn iddo allu paratoi ar gyfer cyfleoedd; 			
<ul style="list-style-type: none"> • y broses a ddefnyddir i wneud penderfyniad (er enghraifft, ceisio dyfynbrisiau neu ddefnyddio proses dendro neu broses gynnig); 			
<ul style="list-style-type: none"> • y gwerth a'r risg sy'n gysylltiedig â'r gwahanol lwybrau ariannu; 			

Ardal	Ar waith	Yn cael ei ddatblygu	Ddim ar waith
<ul style="list-style-type: none"> a ellir mabwysiadu prosesau llai manwl yn unol â Chyfarwyddeb Contractau Cyhoeddus yr UE er mwyn penodi sefydliadau i wneud y gwaith; 			
<ul style="list-style-type: none"> meini prawf clir a chyhoeddedig a ddeëllir gan bob sefydliad sy'n ceisio arian, gan gynnwys cymalau budd i'r gymuned; 			
<ul style="list-style-type: none"> y gost a'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn i'r awdurdod lleol oruchwylio a gweinyddu'r broses; 			
<ul style="list-style-type: none"> am faint o amser y darperir arian; a 			
<ul style="list-style-type: none"> sut yr eir ati i adennill costau llawn. 			
Systemau dyfarnu effeithlon			
Mae gan yr awdurdod lleol systemau corfforaethol effeithlon i ddyfarnu arian sy'n seiliedig ar y canlynol:			
<ul style="list-style-type: none"> prosesau gwneud cais cryno a chllir; 			
<ul style="list-style-type: none"> defnyddio systemau ar-lein ac electronig i ddosbarthu a choladu gwybodaeth a cheisiadau; 			
<ul style="list-style-type: none"> trefniadau gwneud penderfyniadau byr o'r dechrau i'r diwedd; 			
<ul style="list-style-type: none"> y nifer leiaf bosibl o gamau a phrosesau sydd eu hangen i wneud penderfyniad; a 			
<ul style="list-style-type: none"> phenderfyniadau yn cael eu dirprwyo i'r lefel isaf. 			

Ardal	Ar waith	Yn cael ei ddatblygu	Ddim ar waith
Grantiau neu contractio			
Mae'r awdurdod lleol wedi nodi'r amgylchiadau lle y bydd yn defnyddio arian grant a'r amgylchiadau lle y bydd yn contractio gwasanaethau. Mae hyn wedi'i rannu â phob darpar gynigiwr, gan gynnwys y trydydd sector.			
Mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod y broses hon yn gyson ac yn briodol i'r risgiau a'r swm o arian sy'n cael ei roi.			
Mae telerau ac amodau contract yr awdurdod lleol yn gymesur â'r arian sy'n cael ei roi ac yn ymwneud yn benodol â'r gwaith sy'n cael ei ariannu.			
Mae'r awdurdod lleol yn adolygu'r prosesau ariannu hyn er mwyn sicrhau nad ydynt yn atal sefydliadau yn y trydydd sector rhag cael gwaith gan yr awdurdod lleol yn anfwriadol.			
Hyfforddiant			
Mae'r awdurdod lleol yn darparu hyfforddiant i gefnogi'r trydydd sector sy'n cwmpasu'r canlynol:			
<ul style="list-style-type: none"> • sut i wneud cais am arian – yr hyn y dylid ei wneud a pheidio â'i wneud; 			
<ul style="list-style-type: none"> • cydymffurfio â systemau caffael yr awdurdod lleol; 			
<ul style="list-style-type: none"> • prosesau casglu data; 			
<ul style="list-style-type: none"> • trefniadau rheoli perfformiad a chraffu; 			
<ul style="list-style-type: none"> • cylchoedd talu a thargedau perfformiad; a 			
<ul style="list-style-type: none"> • therfynu contractau/gofynion o ran parhau. 			

Tudalen y pecyn 146

Ardal	Ar waith	Yn cael ei ddatblygu	Ddim ar waith
3. Rheoli perfformiad			
Casglu gwybodaeth			
Mae'r awdurdod lleol wedi nodi'r wybodaeth sydd ei hangen er mwyn monitro a gwerthuso perfformiad sefydliadau yn y trydydd sector a ariennir ganddo a nodir y wybodaeth hon yn y cytundeb ar gyfer gwaith a ariennir.			
Mae'r wybodaeth ond yn mesur gweithgarwch perthnasol.			
Mae'r systemau i gasglu gwybodaeth yn syml ac yn effeithlon ac mae sefydliadau yn y trydydd sector ond yn cyflwyno gwybodaeth unwaith ac yn electronig yn unol ag amserlenni y cytunwyd arnynt.			
Adolygu perfformiad			
Mae'r awdurdod lleol yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar gyllid y trydydd sector i bwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth am berfformiad sy'n cwmpasu'r awdurdod lleol cyfan. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys y canlynol:			
<ul style="list-style-type: none"> • safonau clir o ran yr hyn y mae'n ofynnol i sefydliadau yn y trydydd sector berfformio yn ei erbyn a sut y dylent wneud hynny, sy'n ymwneud yn benodol â'r gwasanaeth a ariennir gan yr awdurdod lleol; 			
<ul style="list-style-type: none"> • casgliadau adolygiadau archwilio/ arolygu mewnol; a 			
<ul style="list-style-type: none"> • data perfformiad perthnasol seiliedig ar wasanaethau. 			
Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi'r prosesau cywir ar waith i graffu ar berfformiad a'i farnu. Dylai'r rhain fod yn gymesur â gwerth yr arian ond sicrhau eu bod yn rhoi sicrwydd i'r awdurdod lleol bod ei arian yn cyflawni'r canlyniadau disgwyliedig.			

Ardal	Ar waith	Yn cael ei ddatblygu	Ddim ar waith
Rheoli risg a'r gwasanaeth archwilio mewnol			
Ystyrir y risgiau sy'n gysylltiedig ag ariannu'r trydydd sector ar lefel gorfforaethol a lefel gwasanaeth wrth ddatblygu cynlluniau rheoli risg ar draws yr awdurdod lleol a chytuno arnynt.			
Cynhelir rhaglen dreigl o systemau archwilio mewnol ac adolygiadau o gydymffurfiaeth mewn perthynas â'r modd y mae'r awdurdod lleol yn ariannu gwasanaethau'r trydydd sector, ei systemau a'i arferion.			

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

Tudalen y pecyn 149

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in
Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Owen Evans

Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol / Deputy Permanent Secretary

Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Education and Public Services Group



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

27 February 2017

Huw Vaughan Thomas
Auditor General for Wales
Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff
CF11 9LJ

Dear Huw,

I write in response to the publication of the Local Authority Funding for Third Sector Services report. The role of the third sector in the delivery of public services is an important matter and I'm glad that you were able to investigate the topic.

I note the majority of the recommendations of the report are for local authorities to address in respect of their strategic approach to working with third sector organisations. It is vital, therefore, that they bring a strategic approach to their overall engagement with the third sector and innovation in austere times will be key. From a value for money perspective it is of course equally important that local authority scrutiny committees should maintain as rigorous levels of oversight in relation to services contracted to third sector organisations as they would to those directly provided by the authority itself.

To achieve this mix of strategic direction with due rigour, the Welsh Government supports the co-opting of expert external members to their scrutiny committees and provides guidance along these lines, which we will continue to reinforce. We will raise the report and its findings with the networks of scrutiny officers and champions convened by the Welsh Local Government Association.

The report does also highlight one recommendation for Welsh Government to provide guidance clarifying the Government's expectation of local authorities in relation to their work with third sector. We partially accept this recommendation. Guidelines are currently being prepared on good practice in relation to local Compact agreements between third sector organisations and public services. These Compact agreements set out the principles for



BUDDSODDWYR | **INVESTORS**
MEWN POBL | **IN PEOPLE**

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 029 2082 5381
owen.evans3@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

how third sector and local authorities can work together to achieve improvements for the community. The recommendations of the Local Authority Funding for Third Sector Services report will be considered in relation to the content of those guidelines.

However, I was a little surprised to see in the third recommendation the inclusion of a reference to the Well-being of Future Generations (Wales) Act and the Social Services and Well-being (Wales) Act. Guidance was produced by Welsh Government in support of these Acts and we would welcome discussions on the supporting evidence which would underpin these references. As an example of the documentation produced in support of the Acts, the Social Services and Well-being (Wales) Act sets out the expectations for local authorities (and other partners) and is supported by a range of codes of practice and statutory guidance. This includes our expectations around partnership working and the role of the third sector, for example, as members on the statutory regional partnership boards. Welsh Government has also provided funding through the Intermediate Care Fund which recognises the role of the Third Sector and again specific requirements are set out in the guidance.

This letter is copied to the Chair of the National Assembly for Wales Public Accounts Committee.

Yours sincerely

Owen Evans

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Rheoli Ariannol a Llywodraethu mewn Cyngorau Cymuned 2015-16



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Roedd y tîm wnaeth baratoi'r adroddiad hwn yn cynnwys
Anthony Barrett a Deryck Evans.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chyngori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2016

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Cynnwys

	Adroddiad cryno	6
1	Mae cyngorau cymuned yng Nghymru yn rheoli symiau sylweddol o arian cyhoeddus ac yn dal cronfeydd wrth gefn ac asedau o werth sylweddol ac mae hyn yn debygol o gynyddu yn y dyfodol	11
	Yn 2015-16, gwnaeth cyngorau cymuned dderbyn dros £43 miliwn o incwm a gwario dros £40 miliwn	11
	Mae cyngorau cymuned yng Nghymru yn rheoli cronfeydd wrth gefn gwerth dros £32 miliwn ac asedau hirdymor gwerth dros £188 miliwn	13
	Mae cyfran sylweddol o gyfanswm incwm, gwariant ac asedau'r sector yn nwylo'r cyngorau mwy o faint sy'n ddarostyngedig i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	14
2	Mae gormod o gynghorau cymuned yng Nghymru yn cael barn archwilio amodol y gellir ei hosgoi ac mae hyn yn arbennig o wir am y cynghorau llai o faint	15
	Bydd archwilyr yn rhoi barn archwilio 'amodol' pan fydd cynghorau yn methu â chydymffurfio â'u cyfrifoldebau statudol	15
	Cafodd dros 200 (30%) o gynghorau unigol farn archwilio amodol ar gyfer 2015-16.	15
	Mae nifer anghymesur o gynghorau llai o faint yn cael barn archwilio amodol, sy'n awgrymu bod angen penodol i'r cynghorau hyn adolygu eu trefniadau	16
	Mae'r rhesymau mwyaf cyffredin dros roi barn archwilio amodol yn ymwneud â methiant i gadw at yr amserlen statudol ar gyfer y cyfrifon, rhoi trefniadau ar waith i reoli risg, a phennu cyllideb briodol	17
3	Mae angen i gynghorau cymuned yng Nghymru wella eu hamseroldeb o ran paratoi eu cyfrifon blynyddol ac ansawdd y ffurflenni blynyddol a gyflwynir i'w harchwilio	19
	Methodd dros 50 (80%) o gynghorau â chydymffurfio â'r amserlen statudol ar gyfer paratoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu	19
	Mae gormod o gynghorau yn cyflwyno ffurflenni blynyddol sy'n anghyflawn neu sy'n cynnwys gwallau syml	21
4	Mae angen i'r sector cyfan wella ei drefniadau ar gyfer pennu cyllidebau er mwyn rheoli gwasanaethau a chyfleusterau ychwanegol a drosglwyddir o awdurdodau unedol, ac mae hyn yn arbennig o wir am gynghorau llai o faint	24
	Ar gyfer archwiliad 2015-16, mae'r archwilyr wedi canolbwyntio ar y ffordd y mae cynghorau yn pennu ac yn monitro eu cyllidebau	24
	Methodd dros draean (36%) o gynghorau â phennu cyllideb briodol a oedd yn cynnwys yr holl elfennau yr oedd angen iddynt eu cynnwys yn unol â'r gyfraith	25
	Nid oes gan hanner yr holl gynghorau drefniadau digonol ar waith i fonitro eu cyllideb	27

Tudalen y pecyn 160

5	Bydd llawer o gynghorau cymuned yn ei chael hi'n anodd dangos bod ganddynt system ddigonol ac effeithiol o archwilio mewnol ar waith, a chael gwerth llawn gan y gwasanaeth hwnnw	29
	Ar gyfer archwiliad 2015-16, canolbwyntiodd yr archwilwyr ar gylch gorchwyl archwilwyr mewnol	29
	Nid oedd y mwyafrif o gynghorau wedi rhoi cylch gorchwyl llawn ar waith ar gyfer eu gwaith archwilio mewnol	30
	Nid oes gan bron draen o'r cynghorau cymuned broses o gael adborth manwl gan eu harchwilydd mewnol, sy'n golygu nad ydynt yn cael y gwerth llawn gan y gwasanaeth archwilio mewnol	31
	Mewn rhai achosion, daeth archwilwyr mewnol i gasgliadau gwahanol i gasgliadau'r archwilydd allanol, sy'n awgrymu bod y gwaith a wnaed gan yr archwilydd mewnol yn annigonol	32
6	Nododd yr archwilwyr nifer o faterion sy'n codi dro ar ôl tro y gallai cynghorau ledled Cymru ddysgu oddi wrthynt	33
	Mae llawer o gynghorau yn methu â dilyn y gofynion gweithdrefnol sylfaenol a nodir o dan y gyfraith	33
	Nododd yr archwilwyr faterion sy'n codi dro ar ôl tro o ran methiant posibl cynghorau i gydymffurfio â'r gyfraith a allai gael effaith ariannol ar gynghorau unigol	34
	Mae rhai cynghorau yn dal lefelau sylweddol o gronfeydd ariannol wrth gefn heb ddiben clir ynghylch pam y delir y cronfeydd wrth gefn hynny	36
	Mewn llawer o achosion, mae angen i gynghorau wneud gwelliannau sylweddol i gofnodion yr asedau hirdymor a ddelir ganddynt	37
7	Ers i adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfrifon 2014-15 gael ei gyhoeddi, mae archwilwyr wedi arfer pwerau statudol i wneud argymhellion ffurfiol i nifer fach o gynghorau	38
	Gwnaeth archwilwyr argymhellion ysgrifenedig i wella trefniadau ariannol cynghorau a'u cydymffurfiaeth â gofynion statudol	38
8	Bydd rhaglen archwilio'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer 2016-17 i 2020-21 yn parhau i ganolbwyntio ar feysydd lle mae cyfle i gynghorau cymuned wella eu trefniadau rheoli ariannol a llywodraethu	40
	Ar gyfer archwiliad 2016-17, bydd archwilwyr yn canolbwyntio ar y trefniadau a wnaed gan gynghorau i fabwysiadu Cod Ymddygiad i'r aelodau, a sicrhau eu bod yn ymdrin â materion cyflogres yn gywir	40
	Ar gyfer archwiliad 2017-18, bydd yr archwilwyr yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd gwaith archwilio mewnol a'r ffordd y mae cynghorau yn rheoli eu cronfeydd wrth gefn a'u balansau	41
	Gan edrych ymlaen at 2018-19 a thu hwnt, bydd rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol yn parhau i ystyried materion cyffredin sy'n codi yn ystod yr archwiliad blynyddol a bydd hefyd yn ymgorffori adolygiad o ymateb y sector i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015	42

Tudalen y pecyn 161

Adroddiad cryno

Mae lle o hyd i gynghorau cymuned yng Nghymru ddatblygu a gwella eu trefniadau rheoli ariannol a llywodraethu, yn enwedig mewn perthynas ag ansawdd eu trefniadau adrodd ariannol, rheoli ariannol ac archwilio mewnol

- 1 Mae dros 735 o gynghorau cymuned a thref yng Nghymru. Mewn rhai achosion, mae'r cynghorau hyn yn darparu gwasanaethau ar y cyd drwy gydbwyllgorau a sefydlwyd ar gyfer gwasanaethau penodol, fel arfer gwasanaethau claddu. Mae naw cydbwyllgor o'r fath yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at y cyrff hyn, gyda'i gilydd, fel cynghorau cymuned.
- 2 Hwn yw fy mhumed adroddiad sy'n crynhoi materion a nodwyd gan archwilwyr allanol yn ystod eu harchwiliad statudol o gynghorau cymuned yng Nghymru. Yn fy adroddiadau blaenorol ar reoli ariannol a llywodraethau mewn cynghorau cymuned, nodais y newidiadau i'r trefniadau archwilio allanol o 2015-16 ymlaen. Bwriedir i'r trefniadau archwilio helpu cynghorau cymuned i ddatblygu eu trefniadau rheoli ariannol a llywodraethu dros amser.
- 3 Yn y flwyddyn gyntaf hon o'r dull archwilio diwygiedig, bu cynghorau yn destun archwiliad manylach na chynt. Mae'r canlyniadau a nodwyd yn awgrymu nad yw llawer o'r cynghorau wedi deall gofynion y trefniadau newydd o bosibl. At hynny, canolbwyntiodd yr archwiliad ar feysydd lle roedd rhywfaint o dystiolaeth eisoes o fylchau yn nhrefniadau'r cyngor cymuned.
- 4 Hwn yw'r adroddiad cyntaf sydd i'w gyhoeddi ar ôl y newidiadau hyn i'r trefniadau archwilio ac mae iddo ddau brif ddiben.
- 5 Yn gyntaf, mae'r gwaith a wnaed gan archwilwyr allanol yn nodi nifer o faterion sy'n codi dro ar ôl tro drwy'r sector cynghorau cymuned cyfan. At hynny, gall archwilwyr nodi methiannau difrifol ar ran cynghorau unigol. Mae **Rhan 1** o'r adroddiad hwn yn tynnu sylw cynghorau at y materion hyn fel y gallant ystyried a yw'r materion yn gymwys iddynt ac a oes unrhyw wersi y gallant eu dysgu gan eraill a'u defnyddio i ddatblygu eu trefniadau eu hunain.
- 6 Mae archwilwyr yn eu nodi yn ystod yr archwiliad a datblygiadau ehangach sy'n effeithio ar gynghorau cymuned. Yn fy adroddiad ar ganlyniadau archwiliad 2012-13, ymrwymais i gyhoeddi ymlaen llaw y meysydd penodol y bydd archwilwyr yn canolbwyntio arnynt yn ystod yr archwiliad y flwyddyn ddilynol. Bydd hyn yn galluogi cynghorau i nodi meysydd lle mae angen iddynt ddatblygu eu trefniadau a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Mae **Rhan 2** o'r adroddiad hwn yn amlinellu'r meysydd y bwriadaf ganolbwyntio arnynt dros y pum mlynedd nesaf.

- 7 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canlyniadau'r gwaith archwilio a gwblhawyd hyd at 31 Hydref 2016, fis ar ôl y terfyn amser statudol ar gyfer cyhoeddi cyfrifon archwiliedig. Erbyn 31 Hydref, roedd 655 allan o 740 (88%) o'r archwiliadau wedi'u cwblhau.

Mae trefniadau rheoli ariannol a llywodraethu effeithiol yn bwysig am fod cynghorau cymuned yn rheoli symiau sylweddol o arian cyhoeddus ac yn dod yn gyrrff mwy cymhleth

- 8 Mae trefniadau ariannol effeithiol a safonau uchel o lywodraethu yn bwysig am nifer o resymau.
- 9 Mae ar gynghorau cymuned gyfrifoldeb am symiau sylweddol o arian cyhoeddus. Yn 2015-16, gwnaethom godi dros £31m gan dalwyr y dreth gyngor, gwario dros £40m ac, ar 31 Mawrth 2016, roeddent yn dal dros £32m mewn cronfeydd wrth gefn a balansau.
- 10 Mae cynghorau sir yn ceisio trosglwyddo asedau a gwasanaethau i gynghorau cymuned ar hyn o bryd er mwyn i gynghorau cymuned ddiwallu anghenion eu cymunedau o ran gwasanaethau. Bydd hyn yn ychwanegu rhywfaint o gymhlethdod at weithgareddau'r cyngor cymuned ac mae'n hanfodol bod gan gynghorau cymuned drefniadau rheoli ariannol a llywodraethu effeithiol ar waith er mwyn iddynt allu darparu'r swyddogaethau newydd hyn a'u rheoli'n briodol.

Mae cynghorau cymuned yn ddarostyngedig i ofyniad archwilio statudol sydd wedi'i gynllunio i fod yn gymesur ag anghenion cynghorau cymuned

- 11 Nodir cyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol am archwilio cynghorau cymuned yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf). Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol fodloni ei hun:
- a bod y cyfrifon wedi'u paratoi'n unol â'r rheoliadau;
 - b eu bod yn cydymffurfio â gofynion yr holl ddarpariaethau statudol eraill sy'n gymwys i'r cyfrifon;
 - c bod arferion priodol wedi cael eu dilyn wrth lunio'r cyfrifon; a
 - d bod y corff wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

- 12 Fodd bynnag, mae'r trefniadau archwilio wedi'u cynllunio i fod yn gymesur â maint a chwmpas cynghorau a rhoi lefel resymol o sicrwydd ynglŷn â'r ffordd y maent yn gwarchod arian cyhoeddus. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd disgwyliadau archwilwyr a faint o waith a wneir ganddynt yn seiliedig ar faint a chymhlethdod cynghorau unigol.
- 13 Eleni, newidiodd yr Archwilydd Cyffredinol y ffordd y cynhelir yr archwiliad statudol o gynghorau cymuned. Nododd adroddiadau blaenorol yr Archwilydd Cyffredinol ar drefniadau rheoli ariannol a llywodraethu mewn cynghorau cymuned fod angen mabwysiadu dull gweithredu cyson ym mhob cyngor cymuned, ac mae hyn wedi cael ei gymhwyso ar gyfer 2015-16.
- 14 Un o fanteision allweddol mabwysiadu dull gweithredu cyson ym mhob cyngor yw y bydd canlyniadau'r gwaith archwilio yn rhoi darlun llawn o safonau rheoli ariannol a llywodraethu i'r sector. Mae'r adroddiad hwn yn dwyn ynghyd ganfyddiadau'r archwilwyr ym mhob cyngor cymuned yng Nghymru.

Mae'r archwiliad o gyfrifon 2015-16 cynghorau cymuned yn nodi themâu allweddol sy'n codi dro ar ôl tro ynglŷn â rheoli ac adrodd ariannol y mae angen i'r sector cyfan eu hadolygu a mynd i'r afael â hwy

- 15 Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae nifer y cynghorau sy'n cael barn archwilio amodol yn rhy uchel. Mae cynghorau cymuned yn mynd drwy broses archwilio gymesur sy'n profi a yw'r cynghorau yn cydymffurfio â'u cyfrifoldebau statudol ai peidio. Pan na fydd cyngor yn cydymffurfio, rhoddir barn amodol.
- 16 Yn gyffredinol, mae'r materion sy'n arwain at farn archwilio amodol yn rhai hawdd ymdrin â hwy a dylai cynghorau eisoes fod yn cyrraedd y safonau a aseswyd gan yr archwiliad allanol.
- 17 Mae amseroldeb ac ansawdd gwaith paratoi cyfrifon hefyd yn themâu sy'n codi dro ar ôl tro fel y'i nodwyd yn adroddiadau cynharach yr Archwilydd Cyffredinol ar drefniadau rheoli ariannol a llywodraethu yn y sector. Mae'r archwilwyr yn nodi bod cynghorau yn aml yn cyflwyno cyfrifon i'w harchwilio yn hwyr neu fod y cyfrifon yn anghywir/anghyflawn.
- 18 Canolbwyntiodd yr archwilwyr yn benodol ar y broses o bennu a rheoli'r gyllideb a sut mae cynghorau yn ymgysylltu â'u gwasanaeth archwilio mewnol. Canfu'r archwilwyr fod arferion yn amrywio ledled Cymru, er bod gormod o gynghorau yn methu â chyrraedd y safonau gofynnol. Hefyd, nododd yr archwilwyr nifer o wendidau eraill sy'n codi dro ar ôl tro y gall cynghorau ledled Cymru ddysgu oddi wrthynt. Mewn rhai achosion, tybiwyd bod y gwendidau a nodwyd yn ddigon difrifol i gyfiawnhau i'r Archwilydd Cyffredinol wneud argymhellion ysgrifenedig ffurfiol i gynghorau unigol.

- 19 Mae gwendid cymharol cyngorau llai o faint yn achos pryder penodol. Mae'n ofynnol i bob cyngor, waeth beth fo'i faint, gydymffurfio â'r un cyfreithiau a rheoliadau. Mae'r broses archwilio wedi'i chynllunio i fod yn gymesur â maint cyngorau unigol a chaiff disgwyliadau eu haddasu yn unol â hynny. Fodd bynnag, mae nifer anghymesur o gynghorau bach yn methu â chyrraedd y safonau gofynnol, sy'n golygu nad ydynt yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol.

Bydd rhaglen archwilio'r Archwilydd Cyffredinol yn y dyfodol yn canolbwyntio ar feysydd a nodwyd yn ystod y cylch archwilio lle ceir gwendidau allweddol

- 20 Caiff rhaglen pum mlynedd yr Archwilydd Cyffredinol i archwilio cyngorau cymuned ei llywio gan ganlyniadau archwiliad 2015-16 ac archwiliadau cynharach. Bydd hefyd yn mynd i'r afael â themâu a materion sy'n dod i'r golwg wrth iddynt gael eu nodi.

Adroddiad manwl



1 Mae cyngorau cymuned yng Nghymru yn rheoli symiau sylweddol o arian cyhoeddus ac yn dal cronfeydd wrth gefn ac asedau o werth sylweddol ac mae hyn yn debygol o gynyddu yn y dyfodol

Yn 2015-16, gwnaeth cyngorau cymuned dderbyn dros £43 miliwn o incwm a gwario dros £40 miliwn

Cododd cyngorau cymuned dros £31 miliwn drwy'r dreth gyngor a chynhyrchwyd dros £12 miliwn arall ganddynt o ffynonellau eraill yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2016

- 1.1 Mae cyngorau cymuned yn codi arian naill ai drwy gael praesept, drwy godi am nwyddau a gwasanaethau, drwy hawlio grantiau neu waredu asedau hirdymor.
- 1.2 Gorchymyn terfynol i'r awdurdod unedol dalu swm a enwyd i'r cyngor cymuned yw praesept. Caiff swm y praesept ei rannu rhwng talwyr treth gyngor y gymuned a chaiff ei dalu'n llawn i'r cyngor cymuned. Yn 2015-16, cododd cyngorau cymuned yng Nghymru dros £32m gan dalwyr y dreth gyngor drwy eu praeseptau.
- 1.3 Mae cyngorau hefyd yn codi arian drwy godi tâl ar aelodau unigol o'r cyhoedd a defnyddwyr eraill am nwyddau a gwasanaethau a ddarperir gan y cyngor cymuned. Fel arfer caiff tâl ei godi am y canlynol:
 - a defnyddio neuaddau pentref/canolfannau cymunedol y mae cyngorau cymuned yn berchen arnynt neu'n eu rheoli;
 - b ffioedd claddu os yw'r cyngor cymuned yn awdurdod claddu;
 - c taliadau am logi cyfleusterau chwaraeon; a
 - d thaliadau meysydd parcio.
- 1.4 Gall cyngorau hefyd godi arian i'w fuddsoddi mewn asedau hirdymor drwy wneud cais am grantiau, hawlio benthyciadau neu waredu asedau hirdymor. Fel arfer, caiff y defnydd o'r cronfeydd hyn ei gyfyngu i ddibenion penodol.
- 1.5 Gyda'i gilydd, yn 2015-16, cododd cyngorau cymuned yng Nghymru dros £12m o'r ffynonellau allanol hyn o arian.

Yn 2015-16 gwariwyd dros £40 miliwn, gan gynnwys dros £13 miliwn mewn costau staff

- 1.6 Mae gan gynghorau cymuned nifer o bwerau a swyddogaethau statudol y gallant fynd i wariant arnynt yn gyfreithlon. Roedd y rhain yn cynnwys pwerau sy'n ymwneud â'r canlynol:
- a ymddangosiad pentrefi, gan gynnwys, er enghraifft, adeiladau a safleoedd allweddol, dyluniadau da, ac ymylon ffyrdd;
 - b awyr agored ac ymarfer corff, gan gynnwys, er enghraifft, maes y pentref, diogelu tir comin, cyfleusterau hamdden, tiroedd pleser a theithiau cerdded cyhoeddus, pyllau nofio a chyfleusterau i ymwelwyr â chefn gwlad;
 - c cynulliadau, gan gynnwys pwerau sy'n ymwneud â thwristiaeth, adloniant a'r celfyddydau, neuaddau a chanolfannau a gefeillio;
 - d goleuadau cyhoeddus ac atal troseddau, gan gynnwys, er enghraifft, gwylidwriaeth;
 - e bod yn berchen ar randiroedd a'u darparu;
 - f iechyd, gan gynnwys cyfleusterau cyhoeddus, sbwriel a graffiti a dŵr a draenio pyllau dŵr;
 - g cyfathrebu, gan gynnwys hawliau tramwy, gwaith ar lwybrau troed a llwybrau ceffylau, llochesi a seddi a meysydd parcio cerbydau a rheseli beiciau; a
 - h phwerau sy'n ymwneud â'r ymadawedig, er enghraifft darparu mynwent.
- 1.7 Mae cynghorau cymuned yn cyflogi staff i weinyddu eu gweithgareddau. Mewn llawer o achosion, dim ond un aelod o staff, sef clerig y cyngor, a gyflogir gan y cyngor. Fodd bynnag, gall cynghorau mwy o faint gyflogi sawl aelod o staff sy'n ymgymryd â gweithgareddau megis gweinyddu neu gynnal a chadw tiroedd.
- 1.8 Yn 2015-16, gyda'i gilydd gwariodd cynghorau cymuned dros £13 miliwn ar gostau staff allan o gyfanswm gwariant o dros £40 miliwn.

Mae cynghorau cymuned yng Nghymru yn rheoli cronfeydd wrth gefn gwerth dros £32 miliwn ac asedau hirdymor gwerth dros £188 miliwn

Roedd cronfeydd wrth gefn cynghorau cymuned ar 31 Mawrth 2016 yn werth dros £32 miliwn

- 1.9 Mae cynghorau cymuned yn dal cronfeydd wrth gefn a balansau am amrywiaeth o resymau. Mae'r rhai yn cynnwys ariannu gwariant nas rhagwelwyd a 'chynilo' ar gyfer prosiectau yn y dyfodol. Mewn rhai achosion, mae'n ofynnol iddynt neilltuo arian at ddibenion penodol yn unol â'r gyfraith. Er enghraifft, gall derbyniadau o waredu asedau hirdymor gael eu diffinio fel derbyniadau cyfalaf a dim ond cael eu defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf.
- 1.10 Wrth bennu eu praesept blynyddol, mae'n rhaid i gynghorau cymuned ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn a ddelir ganddynt a ph'un a ydynt yn bwriadu ariannu unrhyw ran o'u gwariant o gronfeydd wrth gefn ai peidio, neu a oes angen iddynt gynyddu'r symiau a neilltuir mewn cronfeydd wrth gefn ai peidio.

Roedd cynghorau cymuned yn rheoli asedau hirdymor gwerth dros £188 miliwn ar 31 Mawrth 2016

- 1.11 Mae cynghorau cymuned yn berchen ar amrywiol gategoriâu o asedau hirdymor, gan gynnwys:
- a tir ac adeiladau – swyddfeydd, neuaddau, maes y pentref, rhandiroedd, mynwentydd a pharciau a chaeau chwaraeon;
 - b cyfarpar a chyfleusterau awyr agored – cyfarpar iardiau chwarae, llochesi a seddi safleoedd bysiau a chyfleusterau cyhoeddus;
 - c gosodiadau a ffitiadau mewnol – cyfarpar TG a dodrefn; a
 - d addurndlysau dinesig.
- 1.12 Nodir gwerth yr asedau hyn yn ffurflenni blynyddol y cynghorau. Wrth i awdurdodau unedol drosglwyddo asedau i gynghorau cymuned, mae gwerth yr asedau a ddelir gan gynghorau cymuned yn debygol o gynyddu'n sylweddol.

Mae cyfran sylweddol o gyfanswm incwm, gwariant ac asedau'r sector yn nwylo'r cynghorau mwy o faint sy'n ddarostyngedig i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

- 1.13 Mae Adran 40 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi rôl cynghorau cymuned mewn perthynas â chynlluniau llesiant. Mae'n nodi bod cynghorau sydd ag incwm neu wariant blynyddol gwerth dros £200,000 ar gyfer tair blynedd neu fwy'n olynol yn ddarostyngedig i ddyletswyddau o dan y Ddeddf.
- 1.14 Yn 2015-16, roedd incwm neu wariant 57 (9%) o gynghorau dros £200,000, er bod y nifer hon yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Yn 2015-16 gwnaeth y cynghorau hyn;
- Godi 55% o gyfanswm incwm y sector;
 - Mynd i 56% o gyfanswm gwariant y sector;
 - Dal 45% o'r holl gronfeydd wrth gefn a 55% o'r holl asedau (yn ôl gwerth) a ddelir gan y sector.
- 1.15 Felly, mae'n bwysig iawn bod y cynghorau hyn yn sicrhau bod eu trefniadau rheoli ariannol a llywodraethau yn addas at y diben.

2 Mae gormod o gynghorau cymuned yng Nghymru yn cael barn archwilio amodol y gellir ei hosgoi ac mae hyn yn arbennig o wir am y cynghorau llai o faint

Bydd archwilwyr yn rhoi barn archwilio 'amodol' pan fydd cynghorau yn methu â chydymffurfio â'u cyfrifoldebau statudol


- 2.1 Nod gwaith yr Archwilydd Cyffredinol yw cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.
- 2.2 Mae archwilwyr yn adolygu'r datganiadau cyfrifyddu, gan gynnwys yn y ffurflen flynyddol a'r haeriadau a wneir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol er mwyn dod i gasgliad ynghylch a oes tystiolaeth ai peidio bod y datganiadau cyfrifyddu wedi cael eu paratoi'n briodol a ph'un a oes gan y cyngor drefniadau digonol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.
- 2.3 Mae archwilwyr yn mesur trefniadau'r cyngor yn erbyn ei gyfrifoldebau statudol ac yn rhoi barn 'amodol' pan fyddant yn nodi diffyg cydymffurfiaeth. Mae hyn yn golygu, ac eithrio'r materion hynny y cyfeirir atynt gan yr archwilydd, nad yw'r archwilydd wedi nodi tystiolaeth sy'n awgrymu nad oes gan y cyngor drefniadau priodol ar waith. Fodd bynnag, dylai cynghorau nodi bod modd osgoi pob barn amodol os oes ganddynt drefniadau priodol ar waith i gydymffurfio â'u cyfrifoldebau statudol.
- 2.4 Bydd archwilwyr hefyd yn cyflwyno adroddiad ar faterion eraill sydd wedi dod i'w sylw yn ystod yr archwiliad. Dylai cynghorau ystyried y materion hyn fel y gallant wella ar eu trefniadau mewnol yng ngoleuni'r sylwadau a wnaed.

Cafodd dros 200 (30%) o gynghorau unigol farn archwilio amodol ar gyfer 2015-16.

- 2.5 Cafodd 30% o gynghorau farn archwilio amodol, cafodd 50% farn ddiamod ond tynnwyd materion eraill at eu sylw, a chafodd yr 20% arall farn ddiamod ac ni nodwyd unrhyw faterion eraill i'w hystyried.

Arddangosyn 1 – Nifer y cynghorau a gafodd farn archwilio amodol yn 2015-16

Rhoddodd yr archwilwyr farn amodol ar ffurflenni blynyddol 203 o gynghorau a chodwyd materion eraill sy'n achos pryder mewn 593 o gynghorau.




Mae nifer anghymesur o gynghorau llai o faint yn cael barn archwilio amodol, sy'n awgrymu bod angen penodol i'r cynghorau hyn adolygu eu trefniadau

- 2.6 Rhoddodd yr archwilwyr farn archwilio amodol dros 200 o weithiau ar gyfer 2015-16 ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mewn llawer o achosion, tynnodd yr archwilwyr sylw'r cynghorau at faterion eraill. Dim ond 20% o gynghorau a gafodd farn ddiamedod heb unrhyw faterion eraill i'w hystyried.
- 2.7 Mae'n ofynnol i gynghorau, waeth beth fo'u maint, gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Er gwaethaf hyn, nid oes angen i'r trefniadau sy'n ofynnol i gynghorau llai o faint fod mor gymhleth â threfniadau cynghorau mwy o faint. Mae archwilwyr yn ystyried hyn pan fyddant yn ymgymryd â gwaith archwilio.
- 2.8 Mae cynghorau sydd ag incwm a gwariant blynyddol islaw £30,000 bob blwyddyn yn cyfrif am 50% o gyfanswm nifer y cynghorau yng Nghymru. Fodd bynnag, maent yn cyfrif am fwy na 70% o'r holl gynghorau sy'n cael barn archwilio amodol. Mae hyn yn golygu bod y cynghorau hyn yn fwy tebygol o fethu â chyflawni eu rhwymedigaethau statudol.

Arddangosyn 2 – Nifer y cynghorau sy'n cael barn archwilio amodol yn ôl maint y cyngor

Mae cynghorau sydd ag incwm a gwariant blynyddol islaw £10,000 a rhwng £10,000 a £30,000 yn cyfrif am 33% a 17% o gynghorau yn y drefn honno. Fodd bynnag, mae 47% a 24% o'r holl gynghorau sy'n cael barn amodol yn dod o fewn y bandiau hyn.



Mae'r rhesymau mwyaf cyffredin dros roi barn archwilio amodol yn ymwneud â methiant i gadw at yr amserlen statudol ar gyfer y cyfrifon, rhoi trefniadau ar waith i reoli risg, a phennu cyllideb briodol

- 2.9 Rhoddodd yr archwilywyr farn amodol am nifer o resymau yn 2015-16. Y rhesymau mwyaf cyffredin oedd rhai a oedd yn ymwneud â haeriadau a wnaed gan y cynghorau eu bod wedi cydymffurfio a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â'r canlynol:
- cymradwyo'r datganiadau cyfrifyddu yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014;
 - pennu cyllideb yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992;
 - rhoi trefniadau ar waith i reoli risg fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014; a
 - chadw cofnodion cyfrifyddu priodol a pharatoi'r datganiadau cyfrifyddu yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

Methodd dros 8% o gynghorau â pharatoi neu gymeradwyo eu datganiadau cyfrifyddu blynyddol yn unol â'r amserlen a nodir yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014

- 2.10 Mae Rheoliad 15 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn nodi'r amserlen i gynghorau cymuned baratoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu. Nododd yr archwilwyr nad oedd nifer sylweddol o gynghorau wedi cadw at yr amserlen hon ar gyfer cyfrifon 2015-16. Ceir rhagor o fanylion yn Rhan 3 o'r adroddiad hwn.

Methodd niferoedd sylweddol o gynghorau â phennu cyllideb briodol yn unol â gofynion Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992

- 2.11 Fel rhan o adolygiad thematig, nododd yr archwilwyr nad yw llawer o gynghorau yn pennu cyllideb neu nad yw'r gyllideb a bennwyd yn cydymffurfio â gofynion penodol Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Ceir rhagor o fanylion a dadansoddiad yn Rhan 4 o'r adroddiad hwn

Methodd dros 45 (7%) o gynghorau â gwneud trefniadau priodol ar gyfer rheoli risg

- 2.12 Mae Rheoliad 5 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn nodi cyfrifoldeb y cyngor am sicrhau bod system rheolaeth fewnol gadarn ar waith sy'n helpu'r corff hwnnw i arfer ei swyddogaethau'n effeithiol, ac sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.
- 2.13 Mae hwn yn fater sy'n codi dro ar ôl tro yn y sector a chafodd ei nodi ym mhob un o adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol ar drefniadau rheoli ariannol cynghorau cymuned.

Ni allai archwilwyr roi barn (neu gwrthodwyd rhoi barn) ynghylch a oedd y cyfrifon wedi cael eu paratoi'n briodol mewn 10 o gynghorau

- 2.14 Mae Rheoliad 14 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned baratoi cyfrifon yn unol ag arferion priodol. Fodd bynnag, ni allai archwilwyr 10 o gynghorau gael digon o dystiolaeth archwilio i ddod i'r casgliad bod y cyfrifon wedi cael eu paratoi'n briodol.
- 2.15 Roedd enghreifftiau o'r anawsterau a wynebodd archwilwyr ac a barodd iddynt ddod i'r casgliad hwn yn cynnwys:
- a gwybodaeth annigonol i ategu gwerth asedau sefydlog;
 - b ni allai'r cyngor esbonio sut y cafodd cofnodion unigol yn y cyfrifon, e.e. cyfanswm taliadau, eu cyfrifo gan arwain at anghysondebau nas datryswyd;
 - c ni allai cynghorau gyflwyno ymarfer cysoni â'r banc sydd wedi'i gwblhau'n briodol;
- 2.16 Er mai dim ond nifer fach o gynghorau y mae'r mater hwn yn effeithio arnynt bob blwyddyn, mae'n bwysig bod pob cyngor yn sicrhau eu bod yn deall eu cyfrifon ac yn sicrhau bod y cyfrifon hynny'n cyflwyno'r incwm a'r gwariant/derbyniadau a thaliadau a'r balansau a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn yn deg.

3 Mae angen i gynghorau cymuned yng Nghymru wella eu hamseroldeb o ran paratoi eu cyfrifon blynyddol ac ansawdd y ffurflenni blynyddol a gyflwynir i'w harchwilio

Methodd dros 50 (8%) o gynghorau â chydymffurfio â'r amserlen statudol ar gyfer paratoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn nodi amserlen ar gyfer paratoi a chymeradwyo datganiadau cyfrifyddu cynghorau cymuned


- 3.1 Mae Rheoliad 15 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn nodi'r amserlen ar gyfer paratoi a chymeradwyo'r cyfrifon blynyddol:
- a Mae'n rhaid i swyddog ariannol cyfrifol y cyngor baratoi ac ardystio bod y cyfrifon yn cyflwyno derbyniadau a thaliadau'r cyngor yn briodol, neu'n rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol ac incwm a gwariant y cyngor. Mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn ardystio i hynny drwy lofnodi a dyddio'r datganiadau cyfrifyddu. Darperir ar gyfer llofnodi a dyddio yn y ffurflen flynyddol.
 - b Mae'n rhaid i gyfarfod yr aelodau yn ei gyfanrwydd ystyried y datganiadau cyfrifyddu ac, ar ôl eu hystyried, gymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu i'w cyflwyno i'r archwilydd drwy benderfyniad gan y corff; ac ar ôl eu cymeradwyo, sicrhau bod y datganiadau cyfrifyddu'n cael eu llofnodi a'u dyddio gan y person sy'n cadeirio'r cyfarfod lle y rhoddyd y gymeradwyaeth honno;
 - c Mae'n rhaid i'r camau gweithredu hyn gael eu cwblhau erbyn 30 Mehefin ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

Methodd dros 50 o gynghorau â chadw at yr amserlen a nodir yn y Rheoliadau, a chynghorau bach oedd y rhan fwyaf o'r rhain

- 3.2 Nododd yr archwilwyr 53 o gynghorau lle roedd naill ai'r swyddog ariannol cyfrifol neu'r Cyngor wedi methu â chyflawni eu rhwymedigaeth o dan y Rheoliadau. Mae gan 39 o'r cynghorau hyn incwm a gwariant blynyddol o lai na £60,000.

Arddangosyn 3 – Niferoedd y cyngorau a fethodd â chadw at yr amserlen statudol ar gyfer paratoi cyfrifon

Methodd 39 o gynghorau y mae eu hincwm a'u gwariant blynyddol o dan £10,000, 10 o gynghorau y mae eu hincwm a'u gwariant blynyddol rhwng £10,000 a £30,000, a 10 o gynghorau y mae eu hincwm a'u gwariant blynyddol rhwng £30,000 a £60,000 â chadw at yr amserlen statudol ar gyfer y cyfrifon




Mae gormod o gynghorau yn cyflwyno ffurflenni blynyddol sy'n anghyflawn neu sy'n cynnwys gwallau syml

Nododd yr archwilwyr wallau yn natganiadau cyfrifyddu 149 (23%) o gynghorau

- 3.3 Mae'r datganiadau cyfrifyddu y mae'n rhaid i gynghorau cymuned yng Nghymru eu cyflwyno yn syml, o ran strwythur a gofynion cyfrifyddu.
- a Gwallau rhifyddol. Mewn llawer o achosion, nid oedd y datganiadau cyfrifyddu yn adio i fyny. Mae hyn yn aml o ganlyniad i dalgrynnu'r datganiadau cyfrifyddu i'r bunt agosaf. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod cynghorau'n sicrhau y caiff y datganiadau cyfrifyddu eu cyflwyno'n gywir.
 - b Triniaeth anghywir o drafodion nas cyflwynwyd. Ar ddiwedd y flwyddyn, yn aml bydd gwahaniaethau o ran amseriad rhwng cofnodi trafodion yn llyfr arian parod y cyngor a'r trafodwn yn cael ei glirio drwy gyfrif banc y cyngor. Fel rhan o'u gwaith o baratoi cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn, bydd cynghorau'n cysoni'r llyfr arian parod â chyfriflen y banc. O dan arfer cyfrifyddu priodol, ni fydd addasu ar gyfer cysoni eitemau ar ddiwedd y flwyddyn. Yn hytrach, cânt eu gwrthdroi os oes angen yn y flwyddyn ddilynol. Fodd bynnag, mae gormod o gynghorau naill ai'n diwygio cyfrifon y flwyddyn flaenorol neu gyfrifon y flwyddyn gyfredol i ddileu effaith y trafodion nas cliriwyd. Effaith hyn yw bod y datganiadau cyfrifyddu yn cael eu cam-ddatgan.
 - c Peidio â chynnwys cyfrifon banc na thrafodion. Mewn rhai achosion, mae cadw cofnodion gwael gan gynghorau yn golygu na chaiff balansau a ddelir mewn rhai cyfrifon banc a thrafodion sy'n gysylltiedig â'r cyfrifon hynny eu cynnwys yn y datganiadau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn. Mae hyn yn arwain at danddatgan balansau'r cyngor a cham-ddatgan ei incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn. Mae'r diffyg rheolaeth fewnol hefyd yn peryglu'r cronfeydd a ddelir gan y cyngor.

Arddangosyn 4 – Nifer y cynghorau y mae eu datganiadau cyfrifyddu yn cynnwys gwallau yn ôl maint y cyngor

Roedd datganiadau cyfrifyddu 149 (23%) o gynghorau yn cynnwys gwallau y gellir eu hosgoi oherwydd camddealltwriaeth o arferion cyfrifyddu neu fethiant i roi sylw priodol. Ymddengys bod hyn yn broblem benodol i gynghorau llai o faint y mae eu hincwm a'u gwariant blynyddol yn llai na £60,000



Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ffurflenni blynyddol 2015-16.

Cyflwynodd 174 (27%) o gynghorau ffurflenni blynyddol i'w harchwilio nad oeddent wedi cael eu cwblhau'n llawn


3.4 Mae'r ffurflen flynyddol a baratoir gan gynghorau cymuned wedi'i chynllunio i fod yn hawdd ei chwblhau. Rhoddir canllawiau i gynghorau ar gwblhau'r ffurflen ar y ffurflen ei hun a hefyd yn y Canllaw i Ymarferwyr. Serch hynny, bob blwyddyn, mae'r archwilwyr yn nodi nad yw llawer o gynghorau yn cwblhau'r ffurflen flynyddol yn llawn. Mae problemau cyffredin a nodwyd yn 2015-16 yn cynnwys:

- a Methiant i gwblhau'r datganiadau cyfrifyddu blynyddol yn llawn. Nodir y Datganiad Cyfrifyddu Blynyddol mewn dwy ran. Yn y rhan gyntaf, mae'r cyngor yn gwneud nifer o haeriadau ynglŷn â'i drefniadau cyffredinol. Yn yr ail ran, mae'r cyngor yn nodi ei drefniadau mewn perthynas ag adolygiad yr Archwilydd Cyffredinol o drefniadau llywodraethu yn ôl thema. Mae'n rhaid i'r adran hon gael ei chwblhau gan bob cyngor ac mae'n gysylltiedig â'r newidiadau yn y trefniadau archwilio ar gyfer 2015-16. Cafodd pob cyngor ei hysbysu'n flaenorol am y newidiadau i'r trefniadau archwilio a rhoddwyd rhybudd ymlaen llaw o'r themâu i'w hystyried ar gyfer 2015-16. Felly, mae'n siomedig nodi na chwblhawyd yr adran hon o'r ffurflen flynyddol gan rai cynghorau. Mae'n bwysig bod pob cyngor yn darllen ac yn deall y gofynion a nodir gan ei archwilydd ac yn sicrhau ei fod yn cwblhau'r ffurflen flynyddol yn llawn.
- b Methiant i gynnwys manylion sy'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth neu'r Canllaw i Ymarferwyr. Mewn llawer o achosion, ni chwblhawyd y manylion gofynnol gan gynghorau. Mae'r rhain yn cynnwys methiant i roi'r cyfeiriadau at y cofnodion fel tystiolaeth bod y cyngor wedi cymeradwyo'r ffurflen flynyddol a methiant i gynnwys llofnodion yn unol â gofynion y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru).

3.5 Ymddengys bod hyn yn broblem benodol i gynghorau llai o faint.

Arddangosyn 5 – Nifer y cynghorau y mae eu ffurflenni blynyddol yn anghyflawn yn ôl maint y cyngor

Methodd dros 170 (27%) o gynghorau â chwblhau'r ffurflen flynyddol yn llawn. Ymddengys bod hyn yn broblem benodol i gynghorau llai o faint y mae eu hincwm a'u gwariant blynyddol yn llai na £60,000



4 Mae angen i'r sector cyfan wella ei drefniadau ar gyfer pennu cyllidebau er mwyn rheoli gwasanaethau a chyfleusterau ychwanegol a drosglwyddir o awdurdodau unedol, ac mae hyn yn arbennig o wir am gynghorau llai o faint

Ar gyfer archwiliad 2015-16, mae'r archwilwyr wedi canolbwyntio ar y ffordd y mae cynghorau yn pennu ac yn monitro eu cyllidebau

Mae'n ofynnol i bob cyngor cymuned bennu a monitro ei gyllideb flynyddol


- 4.1 Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ac arferion priodol yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau gyfrifo'r gyllideb flynyddol a'i chymeradwyo. Mae Adran 41 o'r Ddeddf hon yn caniatáu i gynghorau gyhoeddi praesept, y penderfynir ar y sail ar ei gyfer yn unol ag Adran 50, drwy gyfrifo'r gofyniad cyllidebol.
- 4.2 Er gwaethaf y gofyniad statudol hwn, mae'r gyllideb yn bwysig am
 - a ei bod yn arwain at bennu'r praesept ar gyfer y flwyddyn;
 - b mae'n rhoi awdurdod i'r cyngor wario'r arian yn unol â'r cynlluniau gwariant cymeradwy a'r rheoliadau ariannol; ac
 - c mae'n rhoi sylfaen ar gyfer monitro cynnydd yn ystod y flwyddyn drwy gymharu ffigurau gwirioneddol â gwariant arfaethedig.
- 4.3 Yn y dyfodol, bydd hefyd yn hollbwysig wrth i gynghorau ymgymryd â gwasanaethau eraill a dod yn gyfrifol am asedau eraill wrth i awdurdodau unedol geisio'n gynyddol drosglwyddo cyfrifoldebau am rai gwasanaethau i gyrff eraill megis cynghorau cymuned.
- 4.4 Mae'r gyllideb yn elfen hollbwysig o drefniadau rheoli ariannol effeithiol ac atebolrwydd ac yn y pen draw, mae'n lleihau faint o amser y mae cynghorau yn ei dreulio yn rheoli eu hadnoddau ariannol. Yn niffyg trefniadau digonol ar gyfer pennu a monitro cyllidebau, ni all cynghorau reoli arian cyhoeddus yn effeithiol na dangos eu bod yn cydymffurfio â gofynion statudol.
- 4.5 Nodwyd pennu cyllideb fel maes penodol i ganolbwyntio arno ar gyfer archwiliadau 2015-16. Nododd yr adolygiad hwn nifer o faterion fel y'u nodir isod.

Methodd dros draean (36%) o gynghorau â phennu cyllideb briodol a oedd yn cynnwys yr holl elfennau yr oedd angen iddynt eu cynnwys yn unol â'r gyfraith

4.6 Fel y dengys Arddangosyn 6, methodd dros draean (36%) o gynghorau â phennu cyllideb briodol. Nid oedd y cynghorau hyn wedi ystyried pob elfen o'r broses pennu cyllideb, gan gynnwys gwariant arfaethedig, incwm a ragwelir, cronfeydd hapddigwyddiadau a chronfeydd wrth gefn, nac wedi cymeradwyo'r gyllideb derfynol.

Arddangosyn 6 – Trefniadau ar gyfer pennu cyllideb

Methodd 36% o gynghorau â phennu cyllideb yn unol â gofynion y Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol




4.7 Mae dadansoddiad manylach yn ôl maint y cyngor fel y dengys **Arddangosyn 7** yn awgrymu bod hyn yn broblem ym mhob band. Er bod y broses o bennu cyllideb yn bwysig i gynghorau o bob maint, mae'n arbennig o bwysig i'r 38 o gynghorau hynny y mae eu gwariant blynyddol dros £60,000. Y cynghorau hyn fel arfer fydd yn ceisio ymgymryd â swyddogaethau ychwanegol oddi wrth awdurdodau unedol yn y dyfodol. Mae'r cynghorau hyn yn cynnwys 10 cyngor y mae eu hincwm a'u gwariant blynyddol dros £200,000 sy'n ddarostyngedig i ddyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

- 4.8 Y meysydd mwyaf cyffredin o ddiffyg cydymffurfiaeth oedd methiant i ystyried y canlynol:
- Ffynonellau o incwm heblaw'r praesept. Cafodd cynghorau cymuned dros £12 miliwn o incwm arall yn ystod 2015-16, sef bron 30% o gyfanswm incwm y sector ar gyfer y flwyddyn.
 - Cronfeydd wrth gefn a balansau. Ar 1 Ebrill 2016, roedd y sector cyfan yn dal dros £30 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn a balansau, sef 96% o'r cyfanswm a godwyd drwy dalwyr y dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Arddangosyn 7 – Trefniadau annigonol ar gyfer pennu cyllideb yn ôl maint

Nododd yr archwilwyr fod trefniadau annigonol ar gyfer pennu cyllideb yn broblem ni waeth beth fo maint y cyngor




- 4.9 Mewn rhai achosion, nododd yr archwilwyr nad oedd y praesept a geisiwyd oddi wrth yr awdurdod unedol yn cytuno â'r gofyniad cyllidebol a bennwyd gan y cyngor pan bennwyd ei gyllideb ac y cytunwyd ar swm y praesept. Ni roddodd y cynghorau dystiolaeth i esbonio pam bod gwahaniaeth rhwng y praesept a ymgorfforwyd yn y gyllideb a'r praesept a geisiwyd oddi wrth yr awdurdod bilio.

Nid oes gan hanner yr holl gynghorau drefniadau digonol ar waith i fonitro eu cyllideb

- 4.10 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn cynnwys gofyniad penodol ar gynghorau i roi trefniadau rheoli ariannol digonol ac effeithiol ar waith. Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys trefniadau ar gyfer monitro incwm a gwariant yn erbyn y gyllideb.
- 4.11 Roedd gan dros hanner yr holl gynghorau (52%), gan gynnwys yr holl gynghorau nad oedent wedi pennu cyllideb briodol, drefniadau annigonol ar waith i fonitro eu cyllideb. Pan fo trefniadau digonol ar waith i fonitro'r gyllideb nid yw chwarter (25%) o'r holl gynghorau yn monitro cynnydd yn erbyn y gyllideb yn ddigonol.
- 4.12 Ar ôl i'r gyllideb gael ei chymeradwyo, dylai fod yn adnodd gweithredol i reoli cyllid y cyngor. Dylid cymharu'r gyllideb â'r alldro gwirioneddol yn rheolaidd, gan ystyried, os oes angen, a ddylid diwygio cynlluniau gwariant, cymryd camau i gynyddu incwm, neu a ddylid defnyddio cronfeydd wrth gefn. Noda **Arddangosyn 8** isod fod y cynghorau mwy o faint sydd â threfniadau ar waith i bennu eu cyllideb yn well o ran monitro'r cyllidebau hynny na chynghorau llai o faint.

Arddangosyn 8 – trefniadau annigonol ar gyfer pennu cyllideb yn ôl maint y cyngor

Nid oedd gan dros 20% o'r holl gynghorau y mae eu hincwm a'u gwariant blynyddol o dan £200,000 drefniadau effeithiol ar waith i fonitro eu cyllideb



- 4.13 Roedd gan dros hanner yr holl gynghorau (52%), gan gynnwys yr holl gynghorau nad oedent wedi pennu cyllideb briodol, drefniadau annigonol ar waith i fonitro eu cyllideb. Pan fo trefniadau digonol ar waith i fonitro'r gyllideb nid yw chwarter (25%) o'r cynghorau hynny'n monitro cynnydd yn erbyn y gyllideb yn ddigonol.

5 Bydd llawer o gynghorau cymuned yn ei chael hi'n anodd dangos bod ganddynt system ddigonol ac effeithiol o archwilio mewnol ar waith, a chael gwerth llawn gan y gwasanaeth hwnnw

Ar gyfer archwiliad 2015-16, canolbwyntiodd yr archwilwyr ar gylch gorchwyl archwilwyr mewnol

Mae'n ofynnol i bob cyngor cymuned roi gwasanaeth archwilio mewnol digonol ac effeithiol ar waith


- 5.1 Mae'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Rheoliad 6) yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor cymuned yng Nghymru roi system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol ar waith. Mae gwaith archwilio mewnol yn rhan bwysig o'r trefniadau rheolaeth fewnol y mae'n ofynnol i bob cyngor eu rhoi ar waith a'u hadolygu'n flynyddol.
- 5.2 Cynghorau unigol sy'n gyfrifol am benderfynu a yw trefniadau archwilio mewnol yn ddigonol ac yn effeithiol ai peidio. Er mwyn gwneud yr asesiad hwn, mae'n rhaid i gynghorau ystyried yr anghenion archwilio, gan ystyried maint a chymhlethdod y cyngor unigol, a hefyd sut mae'r archwilydd mewnol yn cyflawni'r swyddogaeth archwilio, h.y. ansawdd y gwaith archwilio a wneir.
- 5.3 Ystyriodd archwiliad allanol 2015-16 p'un a oedd cynghorau wedi cytuno ar gylch gorchwyl â'u harchwilydd mewnol ai peidio. Dylai cylch gorchwyl o'r fath gael ei amlinellu mewn llythyr penodi i'r archwilydd mewnol. Dylai nodi disgwyliadau'r naill barti a'r llall o ran materion megis:
 - a priod rolau a chyfrifoldebau;
 - b cynllunio, cwmpas ac amseriad y gwaith archwilio;
 - c gofynion adrodd;
 - d sicrwydd ynglŷn ag annibyniaeth a chymhwysedd; a
 - e mynediad at wybodaeth a phersonél perthnasol.
- 5.4 Yn niffyg cylch gorchwyl cynhwysfawr a chyflawn, ni all cynghorau asesu'n glir a yw'r archwilydd mewnol wedi bodloni eu disgwyliadau ac wedi cydymffurfio â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru).

Nid oedd y mwyafrif o gynghorau wedi rhoi cylch gorchwyl llawn ar waith ar gyfer eu gwaith archwilio mewnol

5.5 Dengys Arddangosyn 9 nad oedd gan bron ddau o bob tri chyngor (64%) gylch gorchwyl archwilio mewnol neu fod y cylch gorchwyl yn annigonol.

Arddangosyn 9 – Cylch gorchwyl archwilio mewnol annigonol


Nid oedd gan 64% o gynghorau gylch gorchwyl digonol ar gyfer eu harchwilydd mewnol



5.6 Fel y dengys **Arddangosyn 10**, mae'r broblem hon yn gyffredin ni waeth beth fo maint y cyngor, ond mae'n llai o broblem mewn cynghorau mwy o faint.

Arddangosyn 10 – Cyngorau heb gylch gorchwyl neu sydd â chylch gorchwyl annigonol fel canran y cyngorau mewn band maint

Mae canran y cyngorau heb gylch gorchwyl llawn neu unrhyw gylch gorchwyl yn amrywio o 17% i 63% o gyngorau yn ôl band




Nid oes gan bron draen o'r cyngorau cymuned broses o gael adborth manwl gan eu harchwilydd mewnol, sy'n golygu nad ydynt yn cael y gwerth llawn gan y gwasanaeth archwilio mewnol

- 5.7 Nododd ein gwaith archwilio ddiffygion hefyd yn y trefniadau adrodd ar gyfer archwilio mewnol mewn tua dau o bob pum cyngor. Mae hyn yn golygu nad oedd pob prawf yn yr adroddiad archwilio mewnol blynyddol a gynhwysir ar gefn y ffurflen flynyddol wedi cael ei gwblhau neu lle nad oedd amlinelliad o'r gwaith archwilio mewnol a wnaed nac adroddiad manwl ar wahân wedi'u darparu.
- 5.8 Pan na fydd cyngorau yn cael ac yn ystyried adroddiadau digonol, nid yw cyngorau yn cael gwerth llawn gan y gwasanaeth archwilio mewnol.
- 5.9 At hynny, roedd gan tua un cyngor o bob tri (32%) gylch gorchwyl a threfniadau adrodd annigonol ar gyfer gwaith archwilio mewnol. Mae'n debyg y bydd y ddau fater hyn yn gysylltiedig â'i gilydd: gall diffygion yn y trefniadau adrodd yn aml ddeillio o ddiffygion yn y cylch gorchwyl rhwng y ddau barti. Unwaith eto, fel y dengys Arddangosyn 11, mae hyn yn fwy cyffredin yn y cyngorau llai o faint lle gall trefniadau archwilio mewnol fod yn fwy anffurfiol.

Arddangosyn 11 – Cyngorau sydd â chylch gorchwyl a threfniadau adrodd annigonol ar gyfer gwaith archwilio mewnol yn ôl maint y cyngor

Nid oes gan rhwng 10% a 40% o gyngorau gylch gorchwyl digonol â'u harchwilydd mewnol, na threfniadau adrodd effeithiol ganddo/ganddi. Mae hyn yn arbennig o wir am gyngorau y mae eu hincwm a'u gwariant blynyddol o dan £30,000



- 5.10 Byddai cylch gorchwyl digonol ar gyfer gwaith archwilio mewnol yn helpu cyngorau ac archwilydd mewnol i ddeall eu priod gyfrifoldebau ac o ganlyniad i hynny fynd i'r afael â diffygion, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â threfniadau adrodd, sy'n codi. Bydd y cyngorau hynny y mae eu cylch gorchwyl a'u trefniadau adrodd yn annigonol yn ei chael hi'n anodd rhoi tystiolaeth eu bod wedi cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol yn unol â'r gofynion statudol.

Mewn rhai achosion, daeth archwilydd mewnol i gasgliadau gwahanol i gasgliadau'r archwilydd allanol, sy'n awgrymu bod y gwaith a wnaed gan yr archwilydd mewnol yn annigonol

- 5.11 Yn adran 4 o'r adroddiad hwn, nodais nad oedd nifer sylweddol o gyngorau cymuned yn pennu cyllideb briodol a/neu nad oedd ganddynt drefniadau effeithiol i fonitro eu cyllideb ar waith. Nodais hefyd fod y praesept a geisiwyd oddi wrth yr awdurdod bilio treth gyngor yn wahanol i'r swm a gymeradwywyd gan y cyngor.
- 5.12 Yn y mwyafrif o'r achosion hyn, mae'r archwilydd mewnol mewn adroddiad i'r cyngor yn haeru bod y cais blynyddol am braesept wedi deillio o broses gyllidebu ddigonol, bod cynnydd yn erbyn y gyllideb wedi ei fonitro, a bod y cronfeydd wrth gefn yn briodol.
- 5.13 Mae'n achos cryn bryder nad yw canlyniadau cofnodedig y gwaith archwilio mewnol yn cael eu hategu gan ganfyddiadau'r archwilydd allanol.

6 Nododd yr archwilwyr nifer o faterion sy'n codi dro ar ôl tro y gallai cyngorau ledled Cymru ddysgu oddi wrthynt

Mae llawer o gynghorau yn methu â dilyn y gofynion gweithdrefnol sylfaenol a nodir o dan y gyfraith

Mae llawer o gynghorau yn methu â dilyn y gofynion gweithdrefnol cywir wrth gymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol

- 6.1 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn nodi'r broses y mae'n rhaid i gynghorau cymuned ei dilyn wrth gymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol. Nodir y broses hon isod.
- 6.2 Nododd yr archwilwyr nad oedd dros 30 (5%) o gynghorau yn dilyn y trefniadau hyn yn briodol.

Arddangosyn 12 – Y broses gymeradwyo statudol ar gyfer cyfrifon cynghorau cymuned

Mae'n rhaid i'r swyddog ariannol cyfrifol ardystio'r datganiadau cyfrifyddu cyn bod y Cyngor yn cymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu, a'r datganiad llywodraethu blynyddol

Mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn ardystio'r datganiadau cyfrifyddu erbyn 30 Mehefin cyn i'r Cyngor eu cymeradwyo



Ar ôl i'r swyddog ariannol cyfrifol ardystio'r ffurflen flynyddol mae'r Cyngor yn ei chymeradwyo, gan gynnwys y datganiadau cyfrifyddu, erbyn 30 Mehefin

- 6.3 Nododd yr archwilwyr yr achosion canlynol:
 - a Dim ond y datganiadau cyfrifyddu a ardystiwyd gan y swyddog ariannol cyfrifol ar ôl i'r Cyngor gymeradwyo'r ffurflen flynyddol.
 - b Roedd naill ai'r swyddog ariannol cyfrifol neu'r Cyngor neu'r ddau wedi methu â chyflawni eu cyfrifoldebau erbyn 30 Mehefin. Mewn rhai achosion, digwyddodd hyn oherwydd cylchoedd cyfarfod cynghorau unigol a gallai'r cyngor fod wedi mynd i'r afael â hyn drwy newid, am fis yn unig, ei amserlen gyfarfod arferol.

Nododd yr archwilwyr nad yw nifer o gynghorau yn paratoi cofnodion yn unol â gofynion Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

- 6.4 Mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor gadw cofnodion o drafodion y cyngor a'i bwyllgorau. Mae'r cofnodion a ddelir gan y cyngor yn gofnod cyfreithlon o'i drafodaethau a'i benderfyniadau. Os cedwir cofnodion ar ffurf dalennau rhydd yn hytrach nag mewn llyfr cofnodion, mae'n rhaid i bob tudalen gael ei rhifo'n olynol a'i llofnodi gan y person sy'n llofnodi'r cofnodion ar adeg eu llofnodi.
- 6.5 Nododd yr archwilwyr nad yw cofnodion ar ffurf dalennau rhydd a ddarperir gan gynghorau fel tystiolaeth archwilio wedi'u llofnodi fel tystiolaeth eu bod yn ddilys. Pan na chedwir cofnodion yn gywir, ceir risg y gallai'r cofnodion gael eu disodli gan nodiadau anghywir neu gamarweiniol. At hynny, ceir risg hefyd na all cynghorau roi tystiolaeth briodol o'r penderfyniadau a wneir gan y cyngor a'r ffordd y gwnaed y penderfyniadau hynny.

Nododd yr archwilwyr faterion sy'n codi dro ar ôl tro o ran methiant posibl cynghorau i gydymffurfio â'r gyfraith a allai gael effaith ariannol ar gynghorau unigol

Nododd yr archwilwyr fod gan sawl cyngor gronfeydd arian rhodd ar gyfer swyddogion y cynghorau.

- 6.6 Yn y gorffennol mae cynghorau cymuned wedi rhoi taliadau rhodd i glercod ar adeg ymddeol. Fodd bynnag, roedd y taliadau hyn yn rhodd gan y cyflogwr a dim ond ar adeg ymadawiad cyflogai y gellid eu rhoi. Nodwyd y sail statudol dros daliadau o'r fath yn Rheoliadau Llywodraeth Leol (Taliadau yn ôl Disgresiwn) 1996.
- 6.7 Cafodd y Rheoliadau Taliadau yn ôl Disgresiwn eu diwygio ar wahanol adegau nes eu diddymu yn y pen draw ym mis Ionawr 2012. Felly, ar hyn o bryd, nid oes sail statudol dros wneud taliad rhodd.
- 6.8 Er gwaethaf hyn, mae'r archwilwyr wedi nodi bod gan nifer o gynghorau gronfeydd arian rhodd a'u bod yn dal cronfeydd o'r fath mewn cyfrifon banc ar wahân o bosibl.
- 6.9 Cynghorir cynghorau y dylent gael cyngor cyfreithiol priodol cyn gwneud unrhyw daliadau rhodd er mwyn lleihau'r risg o wneud taliad anghyfreithlon.

Cynghorau cymuned sy'n gwneud defnydd amhriodol o'r 'adnodd rhydd' sydd ar gael o dan adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

- 6.10 Corfforaethau statudol yw cynghorau cymuned a dim ond y cyfryw bwerau a roddir iddynt drwy statud sydd ganddynt. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt allu nodi pŵer statudol penodol ar gyfer pob un o'u gweithredoedd. Er gwaethaf hyn, yn amodol ar rai materion ffurfiol, mae adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn rhoi pŵer cyffredinol i gynghorau cymuned wario hyd at derfyn penodol ym mhob blwyddyn ariannol at unrhyw ddiben sydd, ym marn y cyngor, er budd yr ardal neu ei thrigolion, neu a fydd o fudd uniongyrchol i'r ardal neu ei thrigolion. Fodd bynnag, pan fo gan y cyngor bŵer statudol penodol, dylai'r pŵer penodol gael ei chymhwyso yn hytrach nag adran 137.
- 6.11 Nododd yr archwilwyr fod cynghorau yn gwneud taliadau'n rheolaidd sy'n dibynnu ar adran 137 er bod pŵer penodol mwy priodol ar gael.

Nododd yr archwilwyr yr ymddengys bod nifer o gynghorau cymuned yn hawlio TAW yn amhriodol ar ran cyrff eraill

- 6.12 Yn ei adroddiad er budd y cyhoedd ar gyfer Cyngor Cymuned Mawr dyddiedig Rhagfyr 2011, tynnodd yr archwilydd penodedig sylw at drefniadau amhriodol gan y cyngor i adhawlio TAW ar ran cyrff nad oeddent yn gymwys i wneud hawliadau o'r fath.
- 6.13 Yn ystod archwiliad 2015-16, nododd yr archwilwyr nifer o drefniadau lle mae cynghorau yn ceisio adennill TAW ar ran eraill. Yn ein barn ni, mae trefniadau o'r fath yn debygol o fod yn anghyfreithlon. Felly dylai cynghorau geisio cyngor gan Gyllid a Thollau EM er mwyn sicrhau bod y trefniadau a roddant ar waith yn cydymffurfio â deddfwriaeth treth. Byddai methiant i wneud hynny yn arwain at risg o gosbau ariannol sylweddol i'r cyngor.

Mae rhai cyngorau yn dal lefelau sylweddol o gronfeydd ariannol wrth gefn heb ddiben clir ynghylch pam y delir y cronfeydd wrth gefn hynny

Er bod cronfeydd wrth gefn a ddelir gan gyngorau cymuned yn amrywio, gyda'i gilydd, ar 31 Mawrth 2016 roedd cyngorau cymuned yng Nghymru yn dal balansau a oedd yn fwy na phraesept blynyddol 2015-16 a godwyd drwy dalwyr y dreth gyngor

- 6.14 Ar 31 Mawrth 2015, roedd cyngorau cymuned yng Nghymru yn dal cronfeydd wrth gefn gwerth dros £30.1 miliwn i gyd.
- 6.15 Gyda'i gilydd, cododd cyngorau cymuned £31.4 miliwn drwy dalwyr y dreth gyngor yn 2015-16 a chynyddodd y symiau a ddelir mewn cronfeydd wrth gefn i fwy na £32.4 miliwn ar 31 Mawrth 2016. Mae'r balans ar ddiwedd y flwyddyn yn fwy na'r swm a godwyd drwy dalwyr y dreth gyngor yn ystod y flwyddyn.

Nododd yr archwilwyr fod cyngorau yn aml yn methu ag ystyried eu cronfeydd wrth gefn wrth bennu eu cyllideb flynyddol a'u praesept

- 6.16 Nid oes gan gyngorau cymuned unrhyw bŵer cyffredinol i ddal symiau mawr fel cronfeydd ariannol wrth gefn. Mewn rhai achosion, mae'n rhaid i gyngorau neilltuo arian penodol fel cronfeydd wrth gefn. Mae'r rhain yn cynnwys derbyniadau cyfalaf nad ydynt ar gael i dalu am gostau'r cyngor o ddydd i ddydd.
- 6.17 Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn ei gwneud yn ofynnol yn benodol i gyngorau cymuned ystyried cronfeydd wrth gefn wrth bennu eu praesept. Ystyriodd yr archwilwyr y cyllidebau a bennwyd gan y cyngorau a nodwyd mai un o'r methiannau mwyaf cyffredin oedd nad oedd cyngorau unigol yn ystyried y symiau yr oeddent yn eu dal mewn cronfeydd wrth gefn.
- 6.18 Mewn cyngorau unigol, mae'r cronfeydd wrth gefn yn amrywio o 3% o'r praesept ar gyfer 2015-16 i 3,300% o'r praesept. Mewn llawer o achosion, ni allai cyngorau esbonio pam bod y cronfeydd wrth gefn yn cael eu dal.

Mewn llawer o achosion, mae angen i gynghorau wneud gwelliannau sylweddol i gofnodion yr asedau hirdymor a ddelir ganddynt.

Mae cynghorau cymuned yng Nghymru yn dal asedau gwerth dros £188 miliwn

6.19 Mae cynghorau cymuned yn dal amrywiaeth eang o asedau hirdymor, gan gynnwys tir ac adeiladau, cyfarpar iardiau chwarae, cyfleusterau cyhoeddus, dodrefn a ffitiadau ac addurndlysau dinesig. Nodir yn y datganiadau cyfrifyddu blynyddol bod yr asedau hyn yn werth dros £188 miliwn ledled Cymru.

Nododd yr archwilwyr ei bod yn gyffredin nad oes gan gynghorau unrhyw gofnodion o'r asedau a ddelir ganddynt neu mai dim ond cofnodion cyfyngedig sydd ganddynt

6.20 Dylai fod gan bob cyngor, ni waeth beth fo'i faint na faint o asedau hirdymor a ddelir ganddo, gofnod llawn o'r asedau hyn. Dylai cofnodion o'r fath fod yn ddigon i nodi cost neu werth asedau unigol a manylion ynghylch ble y cedwir y gweithredoedd teitl ac ati.

6.21 Canfu'r archwilwyr yn aml nad oes gan gynghorau unrhyw gofnodion o'r asedau hirdymor a ddelir ganddynt neu mai dim ond cofnodion cyfyngedig oedd ganddynt. Wrth iddynt ymgymryd ag asedau a gwasanaethau oddi wrth awdurdodau unedol, bydd yn dod yn bwysicach fyth i gynghorau cymuned gadw cofnodion priodol o'u hasedau.

7 Ers i adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfrifon 2014-15 gael ei gyhoeddi, mae archwilwyr wedi arfer pwerau statudol i wneud argymhellion ffurfiol i nifer fach o gynghorau

- 7.1 Fel rhan o'r archwiliad, mae dyletswydd ar yr Archwilydd Cyffredinol o dan y Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) i ystyried a ddylai, er budd y cyhoedd, baratoi adroddiad ar unrhyw fater sy'n dod i'w sylw yn ystod yr archwiliad, er mwyn iddo gael ei ystyried gan y corff, neu ei ddwyn i sylw'r cyhoedd. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol bŵer statudol hefyd i roi argymhellion ysgrifenedig i gynghorau a'i gwneud yn ofynnol i'r cynghorau ystyried yr argymhellion hynny yn unol â darpariaethau penodol yn y Ddeddf. Pan fydd yr Archwilydd Cyffredinol yn arfer y pwerau hyn, mae'n rhaid i gynghorau ystyried yr argymhellion mewn cyfarfod cyhoeddus a chyhoeddi eu hymateb i'r adroddiad neu'r argymhellion.
- 7.2 Pan fydd archwilwyr yn arfer y pwerau hyn, fel arfer mae gwersi y gellir eu cymhwyso at gynghorau eraill ledled Cymru. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn argymhell y dylai pob cyngor ystyried y materion canlynol a ph'un a oes unrhyw rai o'r materion a godwyd o bosibl yn gymwys iddynt.

Gwnaeth archwilwyr argymhellion ysgrifenedig i wella trefniadau ariannol cynghorau a'u cydymffurfiaeth â gofynion statudol

Cyngor Tref Caerdybi

- 7.3 Ym mis Ebrill 2016, cyflwynodd yr archwilydd adroddiad i Gyngor Tref Caerdybi, yn nodi diffygion yn ei drefniadau dirprwyo, y ffordd roedd yn pennu ei gyllideb, a'i rheolau ariannol mewnol. Canfu'r archwilydd y canlynol:
- Roedd y Cyngor wedi dirprwyo'n amhriodol y cyfrifoldeb am ystyried materion cynllunio i gynghorwyr unigol. Mae trefniadau o'r fath yn mynd yn groes i'r gyfraith sy'n gwahardd y cyngor rhag dirprwyo ei swyddogaethau i aelodau unigol.
 - Mae'r cyngor yn rhedeg sinema, ond nid oedd wedi cynnwys yr incwm na'r gwariant a gynhyrchir gan y sinema yn ei gyllideb.
 - At hynny, nid oedd y trefniadau cyfrifyddu ar gyfer y sinema yn ategu prosesau rheoli ariannol a gwneud penderfyniadau effeithiol.
 - Nid oedd rheolau sefydlog y cyngor sy'n llywodraethu'r ffordd y mae'n gweithredu wedi cael eu diweddarau ers cryn amser ac nid oeddent yn adlewyrchu'r ffordd roedd y cyngor yn gweithredu mwyach.

Cyngor Tref Machynlleth

- 7.4 Ym mis Ebrill 2016, cyflwynodd yr archwilydd adroddiad i Gyngor Tref Machynlleth, yn nodi diffygion yn ei drefniadau rheoli ariannol a llywodraethu a oedd yn rhychwantu'r chwe blwyddyn ariannol hyd at a chan gynnwys 2014-15. Canfu'r archwilydd fod y Cyngor wedi gwneud y canlynol yn ystod y cyfnod hwn:
- a Methodd y Cyngor â chadw cofnodion ariannol digonol a chyflawn;
 - b Methodd y Cyngor â pharatoi ei gyfrifon blynyddol yn amserol;
 - c Methodd y Cyngor â pharatoi ei gyfrifon ar y sail gywir, yn rhannol oherwydd y diffyg cofnodion, ac yn rhannol oherwydd triniaeth anghywir o incwm a gwariant sylweddol a oedd yn ymwneud â chyfleuster 'Y Plas' o eiddo'r Cyngor.
 - d Comisiynodd y Cyngor ymgynghorydd allanol i helpu'r cyngor i fynd i'r afael â'i broblemau gyda'r cyfrifon ac ymgymryd â gwaith archwilio mewnol. Fodd bynnag, ymhlith y diffygion a nodwyd yn y gwaith a wnaed mae'r canlynol:
 - nid oedd y cyfrifon a baratowyd gan yr ymgynghorydd yn cytuno â'r cofnodion sylfaenol;
 - ni wnaeth yr ymarfer cysoni â'r banc a baratowyd gysoni'r llyfr arian parod a'r cyfrifon banc; ac
 - ni pharatowyd y cyfrifon ar y sail gyfrifyddu gywir.
- 7.5 O ganlyniad i fethiant y Cyngor i gadw cofnodion priodol, collodd y Cyngor dros £5,000 mewn TAW nad oes modd ei hadennill mwyach.

Cyngor Tref Nant-y-glo a'r Blaenau

- 7.6 Ym mis Rhagfyr 2016, cyflwynodd yr archwilydd adroddiad i Gyngor Tref Nant-y-glo a'r Blaenau, yn amlinellu diffygion a nodwyd fel rhan o'r archwiliad o gyfrifon 2014-15. Canfu'r archwilydd y canlynol:
- a nid oedd y cyngor wedi cadw cofnodion o gontractau cyflogaeth ar gyfer ei gyflogeion; ac
 - b er i archwilydd mewnol y cyngor nodi bod contractau cyflogaeth wedi cael eu harchwilio yn ystod y flwyddyn, ni allai roi tystiolaeth bod y gwaith archwilio mewnol hwn wedi'i gwblhau mewn gwirionedd.

8 Bydd rhaglen archwilio'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer 2016-17 i 2020-21 yn parhau i ganolbwyntio ar feysydd lle mae cyfle i gynghorau cymuned wella eu trefniadau rheoli ariannol a llywodraethu

Ar gyfer archwiliad 2016-17, bydd archwilwyr yn canolbwyntio ar y trefniadau a wnaed gan gynghorau i fabwysiadu Cod Ymddygiad i'r aelodau, a sicrhau eu bod yn ymdrin â materion cyflogres yn gywir

Mae'n rhaid i bob cyngor cymuned fabwysiadu Cod Ymddygiad i'r Aelodau ac mae'n rhaid i bob aelod unigol gytuno i gadw at y Cod

- 8.1 Mae ymddygiad aelodau corff yn rhan hanfodol o fframwaith llywodraethu'r corff hwnnw. O dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 crëwyd fframwaith moesegol newydd ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. Creodd bŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod ymddygiad enghreifftiol i'w gymhwyso at aelodau ac aelodau cyfetholedig pob awdurdod perthnasol yng Nghymru.
- 8.2 Mae'n ofynnol i gynghorau cymuned fabwysiadu'r Cod enghreifftiol yn ei gyfanrwydd, ond gall ychwanegu at y Cod, cyhyd â bod unrhyw ychwanegiadau yn gyson â'r Cod Enghreifftiol. Yna bydd y Cod a fabwysiedir yn lleol yn rhan annatod o fframwaith llywodraethu'r cyngor unigol.
- 8.3 Ar gyfer archwiliad 2016-17, bydd yr archwilwyr yn ystyried sut mae'r Cod wedi cael ei fabwysiadu a byddant yn ceisio tystiolaeth o'r canlynol:
 - a mae'r cyngor wedi mabwysiadu Cod Ymddygiad;
 - b mae aelodau unigol wedi cytuno (ar adeg derbyn eu swydd) i gadw at y Cod; ac
 - c mae'r cyngor yn cynnal cofrestr o fuddiannau aelodau.

Mae cynghorau cymuned yn cyflogi staff ac mae'n rhaid iddynt gofrestru â Chyllid a Thollau EM fel cyflogwr oni bai eu bod wedi'u heithrio rhag gwneud hynny

- 8.4 Fel arfer mae angen i sefydliadau gofrestru fel cyflogwr â Chyllid a Thollau EM (CThEM) pan fyddant yn dechrau cyflogi staff. Mae gan gynghorau cymuned un swyddog cyflogedig fel arfer, sef y Clerc. Mae'r rhan fwyaf o'r Clercod hyn yn gweithio rhan amser, gyda'u horiau yn amrywio o un neu ddau ddiwrnod yr wythnos, i ychydig o oriau y chwarter mewn cysylltiad â chyfarfodydd y Cyngor.

- 8.5 Fodd bynnag, deiliad swydd yw'r Clerc ac, mae taliadau a dderbynnir, p'un a ydynt yn cael eu disgrifio fel honorariwm, cyflog, tâl tuag at dreuliau neu gyfuniad o'r rhain, yn drethadwy fel incwm cyflogaeth ac mae rhwymedigaeth ar gyfer Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYGau) Dosbarth 1
- 8.6 Fel cyflogwyr, mae'n rhaid i gynghorau cymuned weithredu TWE fel rhan o'u cyflogres fel arfer. TWE yw'r system a ddefnyddir gan CThEM i gasglu treth incwm ac yswiriant gwladol oherwydd cyflogaeth. Fodd bynnag, ceir eithriadau i'r gofyniad hwn. Er enghraifft, nid oes angen i gyflogwyr gofrestru ar gyfer TWE os nad oes unrhyw gyflogaeth yn cael tâl o £112 neu fwy yr wythnos, neu'n cael treuliau neu fuddiannau, neu'n dal unrhyw swydd arall neu'n cael pensiwn. Fodd bynnag, mae'n rhaid i bob cyflogwr gadw cofnodion cyflogres.
- 8.7 Ar gyfer archwiliad 2016-17, bydd yr archwilwyr yn ceisio tystiolaeth o'r canlynol:
- Mae'r cyngor wedi cofrestru â CThEM ac yn gweithredu TWE yn unol â'r gofynion. Gall y dystiolaeth hon fod ar ffurf ffurflenni i CThEM neu gadarnhad gan ddarparwyr cyflogres allanol.
 - Os nad yw cynghorau wedi'u cofrestru, cadarnhad o'r rhesymau pam nad yw'r cyngor wedi cofrestru.
 - Mae'r cyngor yn cadw cofnodion cyflogres priodol.

Ar gyfer archwiliad 2017-18, bydd yr archwilwyr yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd gwaith archwilio mewnol a'r ffordd y mae cynghorau yn rheoli eu cronfeydd wrth gefn a'u balansau

Mae swyddogaeth archwilio mewnol effeithiol yn rhan hanfodol o system rheolaeth fewnol unrhyw gyngor, a bydd archwiliad 2017-18 yn canolbwyntio ar ddigonolrwydd y gwaith a wneir

- 8.8 Mae gwaith archwilio mewnol yn rhan bwysig o'r trefniadau rheolaeth fewnol y mae'n ofynnol i bob cyngor eu rhoi ar waith a'u hadolygu'n flynyddol.
- 8.9 Ystyriodd archwiliad allanol 2015-16 p'un a oedd cynghorau wedi cytuno ar gylch gorchwyl â'u harchwilydd mewnol ai peidio. Mae adran 5 o'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau'r Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas â gwaith archwilio mewnol ac yn nodi pryderon ynglŷn â'r ffordd y gall cynghorau asesu digonolrwydd ac effeithiolrwydd eu swyddogaeth archwilio mewnol. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn tynnu sylw at anghysondebau rhwng canfyddiadau archwilwyr mewnol a chanfyddiadau'r archwilydd allanol.
- 8.10 Felly, ar gyfer archwiliad 2017-18, bydd yr archwilwyr yn ystyried y gwaith a wneir gan archwilwyr mewnol er mwyn asesu a yw'n bodloni disgwyliadau'r sector ai peidio.

Mae cynghorau cymuned yng Nghymru yn dal cronfeydd wrth gefn a balansau gwerth dros £32 miliwn, a bydd archwiliad 2017-18 yn ystyried sut mae cynghorau yn bwriadu defnyddio'r cronfeydd wrth gefn hyn er budd y cyhoedd

- 8.11 Mae cynghorau cymuned yn dal cronfeydd wrth gefn a balansau gwerth dros £32m. Mewn rhai achosion, bydd y cronfeydd wrth gefn hyn yn cynnwys derbyniadau cyfalaf ac iddynt ddefnyddiau cyfyngedig. Fodd bynnag, nododd gwaith archwilio yn 2015-16 nad yw llawer o gynghorau yn ystyried eu cronfeydd wrth gefn wrth bennu eu praesept blynyddol.
- 8.12 Felly, bydd archwiliad 2017-18 yn ystyried sut mae cynghorau cymuned yn bwriadu gwario eu cronfeydd wrth gefn a'u balansau a sut maent yn rheoli'r adnoddau hyn yn effeithiol.

Gan edrych ymlaen at 2018-19 a thu hwnt, bydd rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol yn parhau i ystyried materion cyffredin sy'n codi yn ystod yr archwiliad blynyddol a bydd hefyd yn ymgorffori adolygiad o ymateb y sector i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Bob blwyddyn, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn nodi nifer o faterion cyffredin neu faterion sy'n codi dro ar ôl tro fel rhan o'r gwaith archwilio blynyddol, a chaiff y rhain eu hystyried fel rhan o'r rhaglen archwilio yn y dyfodol

- 8.13 Fel y nodir uchod, mae'r archwilwyr yn parhau i nodi materion sy'n codi dro ar ôl tro fel rhan o'u gwaith archwilio arferol. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ymgorffori adolygiadau llywodraethu thematig o'r materion hyn fel rhan o'i raglen archwilio flynyddol.
- 8.14 Bydd y materion a nodir i'w hadolygu yn rhai a nodir yn gyffredin, neu'n rhai ac iddynt effaith bosibl sylweddol ar gynghorau cymuned a'u defnydd effeithiol o arian cyhoeddus.

O ran cynghorau cymuned, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 mewn modd cymesur drwy integreiddio ei waith â'r broses archwilio statudol

- 8.15 O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 mae dyletswydd ar gynghorau cymuned yng Nghymru y mae eu hincwm neu eu gwariant gros dros £200,000 y flwyddyn i gymryd pob cam rhesymol tuag at gyflawni'r amcanion a geir yn y cynllun llesiant sy'n weithredol yn ei ardal. Bob blwyddyn ariannol, mae'n rhaid i gynghorau perthnasol gyhoeddi adroddiad ar y cynnydd y mae wedi'i wneud i gyflawni'r amcanion lleol.

8.16 Mae cyfrifoldebau ar yr Archwilydd Cyffredinol hefyd o dan y Ddeddf i gynnal archwiliad o bob corff cyhoeddus o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn gweithredu mewn modd sy'n gymesur â maint y sector, ac nid yw'r manylion yn derfynol eto. Fodd bynnag, cynigiwn y dylid cynnal archwiliad cychwynnol yn ystod 2020-21.

Nodir adolygiadau llywodraethu thematig yr Archwilydd Cyffredinol yn y dyfodol mewn cynllun pedair blynedd, er y gall hyn newid wrth i faterion ddod i'r golwg dros amser

8.17 Amcan y trefniadau archwilio newydd a gyflwynwyd ar gyfer 2015-16 yw ystyried ac asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu cynghorau cymuned dros gyfnod o flynyddoedd. Bydd yr adolygiadau yn canolbwyntio ar themâu sydd wedi codi dro ar ôl tro fel rhan o'r cylch archwilio blynyddol a byddant yn helpu cynghorau i wella eu trefniadau lle y bo angen dros amser. Noda **Arddangosyn 13** fy amserlen arfaethedig bresennol ar gyfer themâu llywodraethu yn y dyfodol, er y gall y rhain newid dros amser.

Arddangosyn 13 – Themâu llywodraethu yn y dyfodol

Bydd themâu llywodraethu'r Archwilydd Cyffredinol yn y dyfodol ar gyfer cynghorau cymuned yn dilyn cynllun pedair blynedd yn fras, er y gall hyn newid wrth i faterion ddod i'r golwg

2017-18	2018-19	2019-20	2020-21
Effeithiolrwydd gwaith Archwilio Mewnol Defnyddio cronfeydd wrth gefn	Cydymffurfiaeth â Rheolau Sefydlog Dirprwyo i bwyllgorau	Defnyddio a137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Trefniadau ar gyfer gwneud taliadau	Cyflogi staff Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls
in Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

24 Heol y Gadeiriau / Cathedral Road
Caerdydd / Cardiff CF11 9LJ
Ffôn / Tel: 029 20 320500
E-bost / Email: info@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr Nick Ramsey AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

Dyddiad: 14 Chwefror 2017
Ein cyf: HVT/2687/fgb
Tudalen: 1 o 2

Annwyl Nick

**PAPUR TRAFOD: YR HERIAU O RAN LLYWODRAETHU SY’N CAEL EU CREU GAN WASANAETHAU A
ARIENNIR YN GYHOEDDUS OND A DDARPERIR YN ANUNIONGYRCHOL YNG NGHYMURU**

Rwyf yn falch o amgáu copi ymlaen llaw i chi o’r papur trafod ar bwnc ‘llywodraethu o hyd braich’, fydd yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yr wythnos hon.

Nid adroddiad archwilio arferol yw’r papur (ac felly nid yw’n cael ei osod yn ffurfiol gerbron y Cynulliad o dan bwerau fy astudiaethau). Yn lle hynny, ac er ei fod yn tynnu ar fy ngwaith archwilio blaenorol, mae’n nodi natur yr heriau sy’n wynebu’r rheiny sy’n gyfrifol am gynllunio a gweithredu trefniadau llywodraethu cadarn ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus sy’n cael eu darparu o hyd braich yng Nghymru. Bwriedir i’r papur fod yn niwtral, yn hytrach na beirniadol, a’r bwriad yw iddo hyrwyddo dadl adeiladol ynglŷn â’r ffordd ymlaen mewn perthynas â’r materion llywodraethu sy’n effeithio ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Ei bwrbas cyffredinol felly yw cefnogi gwelliant ar draws yr hyn sy’n dirwedd cyflawni gwasanaethau cyhoeddus cynyddol gymhleth.

Yn rhannol fel ymateb i argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus blaenorol yn rhai o’i adroddiadau yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, mae Llywodraeth Cymru’n gweithio i wella cysondeb o ran ei threfniadau goruchwylio mewn perthynas â chyrrff hyd braich. Mae fy staff yn cysylltu â hwy er mwyn gweithredu ar y materion a godwyd yn y papur, ac fe gadeiriodd Syr Derek Jones a minnau sesiwn weithdy ddefnyddiol iawn ar y cyd gyda’i dîm uwch ef fis Tachwedd diwethaf i archwilio’r pwnc hwn yn fanylach.

Yn ogystal â chefnogi gwaith eich Pwyllgor, rwy’n bwriadu i’r negeseuon allweddol yn y papur gael eu lledaenu’n ehangach yn ystod 2017 drwy gyfrwng rhaglen barhaus Swyddfa Archwilio Cymru o ddiwyddiadau’r ‘Gyfnewidfa Arferion Da’. Mae’r amserlen sydd gennyf mewn golwg ar gyfer cyflwyno’r papur fel a ganlyn:

- **Canol mis Chwefror:** Cyhoeddi'r papur. Gan nad yw hwn yn adroddiad archwilio arferol, nid yw'n fwriad gennyf gyhoeddi hysbysiad ffurfiol ar gyfer y wasg. Yn lle hynny, byddwn yn dosbarthu'r papur drwy'r e-bost i randdeiliaid allweddol ochr yn ochr â gwahoddiadau i gofrestru ar gyfer 'gweminar'. Wedyn caiff y papur (yn Gymraeg ac yn Saesneg) ei lwytho i fyny ar ein gwefan.
- **12 Ebrill (dyddiad amodol):** Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal 'gweminar' (dull gweithredu yr ydym yn ei ddefnyddio'n llwyddiannus iawn yn ein gwaith ar y Gyfnewidfa Arferion Da), fydd yn golygu hwyluso panel o dri neu bedwar arbenigwr yn trafod y pwnc hwn yn fyw, a hefyd yn ateb cwestiynau ar-lein oddi wrth gyfranogwyr sydd wedi cofrestru ymlaen llaw. Os bernir ei bod yn llwyddiant, mae'n bosibl y gallai gweminarau pellach o'r fath ddilyn dros y misoedd canlynol.
- **Hydref 2017:** Swyddfa Archwilio Cymru i gynnal digwyddiadau seminar / gweithdy yng Ngogledd a De Cymru, o dan faner ein 'Cyfnewidfa Arferion Da', i annog trafodaeth ehangach a hwyluso dysgu ar y cyd. Gallai'r rhain yn hawdd gynnwys astudiaethau achos o drefniadau llywodraethu hyd braich llwyddiannus.

Yn allweddol i'r dull cyffredinol hwn mae ein bwriad a'n gallu i fod yn hyblyg, er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol yn ymddiddori ac yn cyfranogi mewn dadl, mewnbyn a gweithredu.

Edrychaf ymlaen at drafod cynnwys y papur gyda chi maes o law, yn ogystal â gweithio gyda chi i ddefnyddio ei gynnwys i lywio gwaith y Pwyllgor yn y dyfodol.

Yn gywir



HUW VAUGHAN THOMAS
ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Amg: Papur trafod: Yr heriau o ran llywodraethu sy'n cael eu creu gan wasanaethau a ariennir yn gyhoeddus ond a ddarperir yn anuniongyrchol yng Nghymru



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Papur Trafod: Yr Heriau Llywodraethu sy'n cael eu Peri gan Wasanaethau a Ddarperir yn Anuniongyrchol, ac a Ariennir gan y Cyhoedd yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 587A2016



Statws y ddogfen

Rwyf wedi paratoi'r adroddiad hwn o dan adran 9 Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Os bydd angen arnoch y cyhoeddiad hwn mewn ffurf a/neu iaith arall, neu os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynghylch ei gynnwys, mae croeso i chi gysylltu â ninnau gan ddefnyddio'r manylion ar y dudalen gefn.

Rydyn ni'n trin y Gymraeg a'r Saesneg yn hafal. This report is also available in English.

Roedd tîm astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys Alastair McQuaid a Mike Usher.

Rhagair gan yr Archwilydd Cyffredinol

Mae llywodraethu yn ganolog i wasanaethau cyhoeddus. Mae'n sail i sut y caiff adnoddau eu rheoli, sut y caiff penderfyniadau eu gwneud, sut y darperir gwasanaethau a'r effaith y maent yn ei chael, nawr ac yn y dyfodol. Mae hefyd yn ysbrydoli sut y caiff sefydliadau eu harwain a sut y maent yn rhyngweithio â'r cyhoedd. Mae angen i lywodraethu fod yn gadarn ond mae'n rhaid iddo fod yn gymesur hefyd. Mae sefydliadau sy'n cael eu llywodraethu'n dda yn ddynamig ac yn cymryd risgiau sydd wedi'u rheoli'n dda; nid ydynt yn ddisymud a biwrocraidd.

Dylai gwasanaethau a ariennir gan y cyhoedd gael eu darparu gan y sefydliadau sydd yn y sefyllfa orau i wneud hynny. Mae cyrff cyhoeddus diben arbennig a chontractwyr allanol yn cyflawni swyddogaeth bwysig yn y ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus Cymru ac yn cynnig llawer o fanteision. Rwy'n annog cymryd risgiau sydd wedi'u rheoli'n dda ac yn cydnabod arfer da pan fyddaf yn ei weld; ond, yn gwbl gywir, mae'r cyhoedd yn disgwyl safonau uchel o ran llywodraethu pryd bynnag y bydd arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio. Ers cael fy mhenodi'n Archwilydd Cyffredinol yn 2010, rwyf wedi cyhoeddi cyfres o adroddiadau archwilio sydd wedi canolbwyntio ar fethiannau llywodraethu. Mae'r papur hwn yn cynnwys enghreifftiau o'r adroddiadau hyn ac mae'r canlynol ymhlith y themâu sy'n ymddangos dro ar ôl tro:

- a) trosolwg a monitro aneffeithiol
- b) diffyg tryloywder
- c) ymddygiad amhriodol
- ch) gwrthdaro buddiannau a reolir yn wael

Yn aml, mae'r methiannau llywodraethu hyn wedi digwydd mewn cyrff sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yn 'anuniongyrchol,' ar hyd braich o'u rhiant-gyrff neu gyrff cleient. Roedd llawer wedi'u cysylltu â phrosesau caffael neu waredu gwallus neu'n brosiectau a ariannwyd trwy grant a fethodd. Mae'r effeithiau wedi cynnwys gwasanaethau o ansawdd gwael, colli cyllid cyhoeddus, niwed i enw da ac erydu ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y rhai a oedd yn gyfrifol. Mae achosion craidd llawer o'r problemau archwilio a adroddwyd gennyf wedi cynnwys:

- a) ystyriaeth annigonol o drefniadau ar gyfer trosolwg a'r cydbwysedd priodol rhwng ymreolaeth ac ymyrraeth;
- b) diffyg eglurder o ran sut y dylai trefniadau llywodraethu weithio'n ymarferol, gan gyfrannu at lai o dryloywder ac atebolrwydd cyhoeddus wedi'i wanhau; ac
- c) absenoldeb dealltwriaeth gyson a chyd-ddealltwriaeth o safonau moeseg ac ymddygiad i'w harsylwi gan bawb sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau cyhoeddus, ac ymrwymiad i'r safonau hynny.

Mae trefniadau llywodraethu aneglur mewn gwasanaethau cyhoeddus yn creu risg. Mae'r amrywiaeth lwyr o drefniadau llywodraethu sy'n bodoli o fewn a rhwng cyrff sy'n gweithredu ar hyd braich yn cynyddu'r risgiau cynhenid sy'n gysylltiedig â hwy. Os na chaiff gwahaniaethau rhwng tybiaethau a dealltwriaeth eu cydnabod, yna nid yw risgiau cysylltiedig yn cael eu hasesu'n briodol yn aml, ac felly ni ellir eu rheoli'n dda.

Mae'n rhaid i ystyriaeth ystyrllon o lywodraethu gwasanaethau a ddarperir yn anuniongyrchol, ac a ariennir gan y cyhoedd yng Nghymru gymryd i ystyriaeth y cyd-destun newidiol y maent yn gweithredu ynddo a'r cysyniadau ehangach sy'n sail iddynt. Mae'n ymddangos i mi nad oes unrhyw atebion rhwydd; ceir perygl y gallai ymdrechion i orfodi trefn fod yn anhyblyg ac y gallent gyfyngu arloesedd.

Gall toreth o reolau fod yn elyn i lywodraethu da; y mwyaf syml ac eglur yw'r disgwyliadau, y mwyaf tebygol yw hi y bydd y rhai sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cymell i'w bodloni. Mae'n rhaid i atebion fod yn realistig ac mae'n rhaid eu bod wedi'u trwytho yn y gwerthoedd a'r safonau sy'n dal i fod wrth graidd gwasanaethau cyhoeddus, a adlewyrchir yn egwyddorion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Fodd bynnag, ceir cyfleoedd i ddysgu, nid yn unig o fethiannau blaenorol, ond hefyd o arferion da presennol a syniadau arloesol, o ran derbyn a llywio cymhlethdod.

Mae'r papur hwn yn amlygu pwyntiau dysgu o'm gwaith archwilio blaenorol. Mae ei gynnwys yn berthnasol i lunwyr polisi, swyddogion, ymarferwyr ac academyddion, yn ogystal â'r rhai sy'n goruchwyllo, yn darparu ac yn derbyn gwasanaethau a ddarperir yn anuniongyrchol sy'n cael eu hariannu gan arian cyhoeddus. Rwy'n gobeithio, trwy ysgogi trafodaeth, y bydd y papur hwn yn helpu i rannu arfer da, creu syniadau newydd, cefnogi newid buddiol ac felly cyfrannu at lywodraethu da mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Huw Vaughan Thomas

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Hydref 2016

Cynnwys

Crynodeb gweithredol	6
Rhan 1	
Creu cyd-ddealltwriaeth o'r materion	10
Archwilio termau allweddol (1): 'sector cyhoeddus Cymru' a 'gwasanaethau cyhoeddus Cymru'	10
Archwilio termau allweddol (2): 'llywodraethu gwasanaethau cyhoeddus'	16
Archwilio termau allweddol (3): 'moeseg gwasanaethau cyhoeddus'	18
Archwilio termau allweddol (4): 'gweision cyhoeddus'	19
Rhan 2	
Beth yw'r tueddiadau allweddol sy'n effeithio ar lywodraethiad gwasanaethau a ddarperir yn anuniongyrchol, ac a ariennir gan y cyhoedd yng Nghymru?	21
Rhan 3	
Sut allai gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ddylanwadu ar lywodraethiad moesegol gwasanaethau a ariennir gan y cyhoedd yng Nghymru?	25
Rhan 4	
Sut ellir sicrhau mwy o eglurder o ran agweddau ac ymddygiadau unigolion ac endidau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus Cymru?	31
Dulliau seiliedig ar egwyddorion o gryfhau llywodraethu	31
Dulliau seiliedig ar reolau o gryfhau llywodraethu	34
Annog yr ymddygiadau cywir	39
Atodiadau	
Atodiad 1 – Egwyddorion Nolan	40
Atodiad 2 – Gwerthoedd ac Ymddygiadau Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru	41
Atodiad 3 – Darllen pellach dethol	45

Crynodeb gweithredol

- 1 Fwyfwy, darperir gwasanaethau cyhoeddus trwy is-gyrff, partneriaid neu gcontractwyr, yn hytrach nag yn uniongyrchol gan gyrff llywodraeth ganolog neu leol neu gan y GIG. Mae'r papur hwn yn defnyddio'r term 'a ddarperir yn anuniongyrchol' ar gyfer gwasanaethau o'r fath, a'i nod yw annog trafodaeth ar oblygiadau llywodraethu tueddiadau sy'n dod i'r amlwg mewn gwasanaethau a ddarperir yn anuniongyrchol, ac a ariennir gan y cyhoedd yng Nghymru.
- 2 Gall gwasanaethau o'r fath gael eu darparu gan amrywiaeth eang o endidau sector cyhoeddus, sector preifat a thrydydd sector o dan wahanol drefniadau cyfreithiol, gweinyddol, cydweithredol a chytundebol. Daw'r amrywiaeth hon o'r ffyrdd y mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru wedi datblygu dros amser a hefyd gan fod y pwysau ar gyfer newid yn gymhleth ac yn cynyddu. Er y gallai amrywiaeth adlewyrchu hyblygrwydd a phragmatiaeth a bod iddi lawer o fanteision, ceir perygl hefyd y gall gyfrannu at ddryswch a mwy o risg.
- 3 Yng Nghymru, fel mewn rhannau eraill o'r DU a ledled y byd, mae'r ffiniau traddodiadol rhwng y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector dielw (y trydydd sector) hefyd yn dod yn fwy aneglur. Er bod y trydydd sector wedi chwarae rhan sylweddol erioed yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus Cymru, mae twf cyfranogiad y trydydd sector a'r sector preifat yn arbennig, yn cyflymu:
 - a) yn ogystal â'r swyddogaeth sylweddol a gyflawnir gan y sector preifat fel cyflenwr nwyddau a gwasanaethau i gyrff cyhoeddus, mae endidau preifat yn cymryd rhan gynyddol yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau yn uniongyrchol i'r cyhoedd, gan greu elw i'w cyfranddalwyr;
 - b) mae unigolion preifat yn cyfnerthu arbenigedd a chapasiti cyrff cyhoeddus trwy gymryd rhan ar fyrdau fel swyddogion anweithredol, â chyfrifoldeb am stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus ac am gomisiynu a darparu gwasanaethau cyhoeddus;
 - c) defnyddir partneriaethau rhwng sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat i gynorthwyo'r ddarpariaeth o amrywiaeth eang o bolisiau a swyddogaethau cyhoeddus trwy ysgogi arbenigedd ac adnoddau sector preifat;
 - ch) mae cyrff cyhoeddus yn cymryd rhan mewn partneriaethau gyda sefydliadau trydydd sector, ac yn contractio gwasanaethau allan iddynt, i ategu capasiti craidd, i lenwi bylchau mewn gwasanaethau ac i gysylltu'n well â chymunedau;
 - d) mae rhai cyrff a ariennir gan y cyhoedd yn y trydydd sector yn ceisio lleihau eu dibyniaeth ar gyllid grant a rhoddion trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau masnachol, gan gynnwys darparu gwasanaethau y telir amdanynt i fusnesau ac i'r cyhoedd; ac
 - dd) mae llawer o gyrff cyhoeddus yn chwilio am gyfleoedd i gynhyrchu incwm trwy sefydlu is-gyrff fel cwmnïau hyd braich i gymryd rhan mewn gweithgareddau masnachu.

- 4 Wrth i'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector gael eu plethu'n gynyddol yn y ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus, mae'n dod yn fwy o her sicrhau defnydd cyson o dermau fel: 'sector cyhoeddus Cymru'; 'gwasanaethau cyhoeddus Cymru'; 'gweision cyhoeddus'; ac 'arian cyhoeddus'. Mae maint, cyfeiriad a chyflymder y newidiadau hyn yn dod â thensiynau a gwrthddywediadau cynhenid gyda nhw hefyd, ynghyd â'r potensial am flaenoriaethau sy'n gwrthdaro ac anghydbwysedd rhwng risg a gwobrau. Serch hynny, heb ystyried statws cyfreithiol endid neu unigolyn sy'n gysylltiedig ag ymdrin ag 'adnoddau cyhoeddus' i ddarparu 'gwasanaethau cyhoeddus'; mae'n hanfodol bod eu hymddygiad yn bodloni'r safonau uchel a ddisgwyllir gan y cyhoedd.
- 5 Yn ogystal ag unigolion neu endidau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau cyhoeddus, mae gan y cyhoedd ddisgwyliadau hefyd o'r rhai sy'n derbyn arian cyhoeddus at ddibenion eraill. Telir cyllid cyhoeddus sylweddol i gaffael nwyddau neu wasanaethau o'r sector preifat a'r trydydd sector, neu fe'u rhoddir fel grantiau neu fenthyciadau i gynorthwyo mentrau preifat sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau masnachol sy'n cefnogi amcanion polisi cyhoeddus fel creu swyddi. Er bod y ddatl ynghylch moeseg ac ymddygiad o ran cyllid cyhoeddus y tu hwnt i'w defnydd at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn bwysig, mae y tu allan i gwmpas y papur hwn.
- 6 Nid yw'r papur hwn yn ceisio asesu effeithiolrwydd Llywodraethu Llywodraeth Cymru, cyrff hyd braich unigol na gwasanaethau a roddir ar gontract allanol yng Nghymru. Nid yw chwaith yn gwerthuso rhinweddau neu risgiau cymharol gwahanol fodolau o ddarpariaeth gwasanaethau anuniongyrchol nac yn cynnig llawlyfr ar gyfer sefydlu cyrff hyd braich newydd, creu partneriaethau neu gaffael gwasanaethau. Yn hytrach, mae'n archwilio tueddiadau sy'n dod i'r amlwg ac yn gofyn cwestiynau. Ei amcan yw cymell trafodaeth ymhlith arweinwyr a rhanddeiliaid gwasanaethau cyhoeddus ynghylch sut i nodi a dysgu o arfer da presennol, cydnabod problemau posibl a chryfhau fframweithiau llywodraethu er mwyn sicrhau bod y broses o gyflawni busnes cyhoeddus yng Nghymru gan bob unigolyn ac endid:
- a) yn dangos safonau moesegol digon uchel;
 - b) yn bodloni disgwyliadau'r cyhoedd;
 - c) yn sail i'r ddarpariaeth effeithlon, economaidd ac effeithiol o wasanaethau; ac
 - ch) yn diogelu adnoddau cyhoeddus a llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

- 7 Mae trafodaeth ynghylch llywodraethu da o ran gwasanaethau a ddarperir yn anuniongyrchol, ac a ariennir gan y cyhoedd yng Nghymru yn angenrheidiol ac yn amserol oherwydd:
- a) bod modelau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau yn cael eu datblygu. Yn aml, mae'r rhain yn cynnwys cyrff sydd ar hyd braich o lywodraeth a threfniadau ar gyfer caffael, partneriaeth a chyd-gynhyrchu, a allai gyfyngu ar graffu ac atebolrwydd cyhoeddus.
 - b) yn sgil cyfranogiad sector preifat cynyddol yn y ddarpariaeth o wasanaethau, gallai buddiannau personol a'r cymhelliad elw wrthdaro a gwerthoedd anhunanoldeb, pwyslais ar y defnyddiwr a chyfrifoldeb cyhoeddus ehangach y sector cyhoeddus.
 - c) mae'r diffiniadau gweinyddol a deddfwriaethol o 'wasanaethau cyhoeddus', 'gweision cyhoeddus' ac 'arian cyhoeddus' yn anghyson, sy'n creu anawsterau posibl wrth gymhwyso rheolau ac egwyddorion llywodraethu.
 - ch) mae darpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LICD) yn effeithio'n uniongyrchol ar 44 o gyrff cyhoeddus Cymru, ond â goblygiadau ehangach i bob corff cyhoeddus sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.
- 8 Gan gydnabod amrywiaeth a dynamiaeth darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus Cymru, mae'n hanfodol bod disgwyliadau llywodraethu'n cael eu deall yn eglur ac yn gyson gan bob comisiynydd a darparwr gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, ni ddylai trefniadau cydymffurfio fod mor feichus fel eu bod yn ymyrryd yn ddiangen, yn atal arloesedd, yn peryglu effeithlonrwydd neu'n tansellio cynaliadwyedd. Yn hytrach, dylent helpu i adeiladu cysylltiadau effeithiol, meithrin ymddiriedaeth, darparu eglurder, cefnogi atebolrwydd, cymell gwelliant a lliniaru risg.
- 9 Mae llywodraethu'n bodoli i fod yn sail i'r ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus rhagorol a chyflawni busnes cyhoeddus yn briodol; nid yw'n ddiben ynddo'i hun, ac ni ddylid ei ystyried yn ddylanwad neu'n rhwystr i ddarparu effeithiol. I'r gwrthwyneb, sefydliadau sydd wedi'u llywodraethu'n dda yw'r rhai sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus rhagorol fel rheol. Bydd sefydliadau sy'n methu â sefydlu sylfeini priodol llywodraethu da yn aml, yn hwyr neu'n hwyrach, yn cael eu hunain mewn trafferthion gweithredol.

Arddangosyn 1: galwad i weithredu

Mae'r papur hwn yn cynnig:

Y dylai dull effeithiol o lywodraethu gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir yn anuniongyrchol, ac a ariennir gan y cyhoedd yng Nghymru:

- fod yn sail i'r disgwyliadau o safonau moeseg ac ymddygiad yr holl unigolion neu endidau sy'n defnyddio arian cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau;
- galluogi unigolion ac endidau i gael eu dwyn i gyfrif am eu hymddygiad, yn ogystal ag am y ddarpariaeth o wasanaethau;
- cymryd amrywiaeth a chymhlethdod systemau darparu gwasanaethau cyhoeddus i ystyriaeth;
- cydbwysu ymreolaeth ac ymyrraeth amserol a phriodol;
- rhannu beth sy'n cael ei ddysgu o arfer da; a
- chefnogi gweithrediad y Ddeddf LICD.

Rydym yn croesawu trafodaeth ynghylch:

- sut y gall arfer da a gwahanol ddulliau llywodraethu presennol hysbysu orau dull cydlynol a thryloyw o lywodraethu gwasanaethau a ddarperir yn anuniongyrchol, ac a ariennir gan y cyhoedd yng Nghymru;
- sut y gellir cymell llywodraethu da mewn gwasanaethau a ddarperir yn anuniongyrchol, ac a ariennir gan y cyhoedd, heb atal arloesedd;
- sut y gellir cydbwysu risg a gwobrau yn briodol, ac i ba raddau ddylai cyflogau uwch ac elw preifat gael eu cymedroli pan fo arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio; a
- sut y gall gweithrediad y Ddeddf LICD ddylanwadu orau ar lywodraethiad moesegol gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol, ac a ariennir gan y cyhoedd yng Nghymru.

Rhan 1

1. Creu cyd-ddealltwriaeth o'r materion

- 1.1. O'i wneud yn dda, dylai llywodraethu gwasanethau cyhoeddus alluogi sefydliad i gyflawni ei amcanion yn effeithiol a chyd-fynd â gwerthoedd gwasanaethau cyhoeddus ar yr un pryd. Fodd bynnag, mae rhai anawsterau'n codi yn ymarferol oherwydd absenoldeb cyfres o dermau a chysyniadau allweddol sydd wedi'u diffinio'n eglur, a ddeallir yn gyffredin ac a ddefnyddir yn gyson.

Archwilio termau allweddol (1): 'sector cyhoeddus Cymru' a 'gwasanaethau cyhoeddus Cymru'

- 1.2. Mae gwasanaethau cyhoeddus yn hynod amrywiol, gan gynnwys swyddogaethau sy'n amrywio o drafnidiaeth, iechyd ac addysg i ddatblygu economaidd, diwylliant a'r amgylchedd. Darperir rhai o'r gwasanaethau hyn gan gyrff preifat, er efallai y byddant yn defnyddio arian cyhoeddus. Nid yw pob gwasanaeth cyhoeddus yn ymdrin â'r cyhoedd yn uniongyrchol, mae rhai'n darparu gwasanaethau canoli rhwng gyrff cyhoeddus.
- 1.3. Mae sector cyhoeddus Cymru, yng nghyffredin â'r DU yn ei chyfanrwydd, wedi esblygu dros flynyddoedd lawer, yn hytrach na chael ei gynllunio o egwyddorion cyntaf¹. Nid yw pob corff sy'n darparu'r hyn a ddeallir yn gyffredin fel gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru wedi ei ddatganoli i Gymru; nid yw rhai darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn rhan o'r sector cyhoeddus; nid yw holl gyflogeion awdurdodau neu gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn 'weision cyhoeddus neu sifil'; a gall sefydliadau preifat ddefnyddio 'arian cyhoeddus' i gymryd rhan mewn gweithgareddau masnachol. Yn ogystal â hyn, hyd yn oed o fewn yr hyn y deallir yn gyffredinol yw'r sector cyhoeddus, mae gwahanol drefniadau llywodraethu yn berthnasol i lywodraeth ganolog, llywodraeth leol a chyrrff iechyd².

¹ Mae adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, **Departments' oversight of arm's length bodies: a comparative study**, Gorffennaf 2016, yn archwilio gwahaniaethau rhwng systemau darparu gwasanaethau hyd braich ar draws pedair adran llywodraeth ganolog.

² Ym mis Ebrill 2015, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru **Llywodraethu yn y GIG yng Nghymru – Memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus** a edrychodd yn fanwl ar lywodraethu yn y GIG yng Nghymru.

- 1.4. Yn 2014, nododd Comisiwn Williams³ bod **sector cyhoeddus** Cymru yn cynnwys:
'...(y) corff o staff a gyflogir yn uniongyrchol gan gyrff a ariennir yn gyhoeddus.'

A **gwasanaethau cyhoeddus** Cymru fel:

'...gwasanaethau a ddarperir er budd y cyhoedd; gall hyn gynnwys gwasanaethau a ddarperir drwy'r trydydd sector, drwy fenter gymdeithasol neu drwy wasanaethau a osodir ar gontract.'

Nododd Comisiwn Williams hefyd:

'Fodd bynnag, nid oes diffiniad clir a chytûn o union ystyr sector cyhoeddus Cymru, na'r sefydliadau sy'n rhan ohono....bod y sector wedi esblygu a bod diffyg cydlyniant o ran ei strwythur...yn gymhleth iawn, a gall ymddangos nad oes digon o resymeg gyffredinol yn perthyn iddo is. Yn ein barn ni, mae sawl agwedd ar hyn yn achosi problemau difrifol i'r broses o lywodraethu'r sector cyhoeddus.'

- 1.5. Mewn ymateb i adroddiad Comisiwn Williams, mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau rhestru'r holl gyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru ac mae hefyd yn bwriadu datblygu system ddsbarthu sy'n categoreiddio gyrff yn ôl eu statws cyfreithiol a'u trefniadau ar gyfer atebolrwydd⁴.

³Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, **Adroddiad Llawn**, Ionawr 2014

⁴ Yn dilyn adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus (Comisiwn Williams), mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu cofrestr o gyrff cyhoeddus yng Nghymru a ariennir o'r gyllideb a ddyrennir gan Lywodraeth y DU i Gymru (Grant Bloc Cymru) sydd wedi nodi 90 o gyrff ar y brif gofrestr yn ogystal â 736 o gynghorau tref a chymuned eraill. Mae Academi Wales yn rhoi amcangyfrif o tua 3,000 o sefydliadau yng Nghymru sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus a/neu'n rheoli symiau sylweddol o arian cyhoeddus [Academi Wales, **Y Canllaw Llywodraethu Da: Gwneud yn dda, gwneud yn well**, Drafft, Ionawr 2016].

- 1.6. Mae'r rhestr o gyrrff datganoledig yng Nghymru a baratowyd mewn ymateb i Gomisiwn Williams yn manteisio ar wahanol ffynonellau o wybodaeth, fel cyrff sy'n derbyn llythyr cylch gwaith gan Lywodraeth Cymru, cyrff sy'n destun archwiliad gan yr Archwilydd Cyffredinol neu ymchwiliad gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus, cyrff y mae eu haelodau wedi eu gwahardd rhag bod yn aelodau cynlluniad, a chyrrff y mae'n ofynnol iddynt gyflwyno cyfrifon gerbron y cynulliad. Fodd bynnag, nid yw'r ffynonellau hyn yn gyson â'i gilydd. Hefyd, mae diffiniadau cyfreithiol yn anghyson; diffinnir y term 'awdurdod cyhoeddus' yn wahanol yn Neddf Hawliau Dynol 1998⁵, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000⁶, gan gyfraith yr UE, gan gyfraith achosion a chan y Ddeddf LICD⁷. Yn ogystal, nid yw'r termau a ddefnyddir yn aml i ddisgrifio'r gwahanol fathau o gorff cyhoeddus⁸ yn cynnig diffiniadau eglur, annibynnol ar ei gilydd.
- 1.7. Mae'r Undeb Ewropeaidd (UE) yn ei gwneud yn ofynnol i aelod-wladwriaethau gynhyrchu cyfrifon sector cyhoeddus cywir yn unol â dosbarthiad UE o endidau i'r sectorau cyhoeddus neu breifat. Swyddfa Ystadegau Gwladol y DU sy'n cymhwysu dosbarthiad yr UE⁹, yn seiliedig ar lefel rheolaeth y llywodraeth dros gyllid, penodiadau, a gweithrediadau, ac mae'n rhannu sector cyhoeddus y DU yn dri maes:
- Ilywodraeth ganolog, sy'n cynnwys yng Nghymru y Cynulliad Cenedlaethol, adrannau gweinidogol, adrannau anweinidogol ac asiantaethau gweithredol, yn ogystal â chyrrff a noddir gan Lywodraeth Cymru ar hyd braich o adrannau.
 - Ilywodraeth leol, sy'n cynnwys yng Nghymru y 22 awdurdod unedol, eu his-gyrrff, awdurdodau tân ac achub, comisiynwyr heddlu a throseddu, awdurdodau parciau cenedlaethol, cynghorau cymuned.

⁵ Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn ei gwneud yn anghyfreithlon i unrhyw 'awdurdod cyhoeddus' weithredu mewn ffordd nad yw'n cyd-fynd â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae 'awdurdod cyhoeddus' yn cynnwys llys neu dribiwnlys ac unrhyw unigolyn y mae rhai o'i swyddogaethau o natur gyhoeddus.

⁶ Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn creu hawl mynediad cyhoeddus at wybodaeth a gedwir gan 'awdurdodau cyhoeddus'. Rhestrir awdurdodau cyhoeddus y mae'r ddeddf yn berthnasol iddynt mewn atodlen sy'n cael ei diweddarau'n rheolaidd. Mae darpariaethau'r ddeddf yn berthnasol i gwmnïau sydd ym mherchnogaeth llywodraeth y cyhoedd.

⁷ Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhestru 44 o gyrrff y mae darpariaethau'r ddeddf yn berthnasol iddynt. Fodd bynnag, mae cylch gwaith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymestyn i amrywiaeth ehangach o gyrrff cyhoeddus Cymru.

⁸ Mae'r termau 'adran anweinidogol' a 'corff cyhoeddus anadrannol' yn gwbl weinyddol.

⁹ Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dosbarthu sefydliadau at ddibenion cyfrifon cenedlaethol yn unol â chategoriâu a nodwyd yn System Cyfrifon Ewropeaidd 2010.

- c) corfforaethau cyhoeddus, a reolir gan Lywodraeth Cymru yng Nghymru, ond sydd ag annibyniaeth ariannol, masnachol a gweithredu sylweddol ac yn derbyn mwy na hanner eu hincwm o werthu nwyddau neu wasanaethau. Nid yw cyfrifon corfforaethau cyhoeddus yn cael eu cydgrynhoi o fewn ffiniau cyfrifyddu adrannau Llywodraeth Cymru.
- 1.8. Mae rhai o'r endidau sector cyhoeddus sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau yn anuniongyrchol wedi'u cynnwys mewn mwy nag un o dri dosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac mae'r tueddiad i sefydlu cyrff newydd ar sail achosion unigol unigoleddig yn aml wedi creu cysylltiadau gwan ac anghyson rhwng swyddogaeth a ffurf. Er enghraifft, cydnabyddir cymdeithasau tai fel cyrff cyhoeddus at rai dibenion ond maent yn cael eu trin fel cyrff trydydd sector at ddibenion ariannu a chyfrifyddu¹⁰; nid yw prifysgolion yn cael eu cydnabod fel cyrff cyhoeddus o dan gyfraith y DU, er eu bod o dan gyfraith yr UE¹¹. Mae'r sefyllfa'n ddryslyd i'r cyhoedd, efallai nad ydynt yn sylweddoli hyd yn oed nad yw rhai gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru (fel darlledu cyfrwng Cymraeg, plismona a'r system cyfiawnder troseddol) wedi eu datganoli i Gymru.
- 1.9. Yn bwysig, nid oes unrhyw ddull strategol a gytunwyd o ddatblygu strwythurau a systemau llywodraethu ar gyfer modelau gwasanaeth cyhoeddus newydd sy'n cysylltu swyddogaeth â ffurf yn gyson, ac yn galluogi pob endid ac unigolyn perthnasol i gael ei ddwyn i gyfrif yn ddemocrataidd ac yn gyhoeddus am:
- a) ba mor dda y defnyddir adnoddau cyhoeddus
 - b) pa mor dda y darperir gwasanaethau
 - c) pa ganlyniadau a gyflawnir
 - ch) eu hymddygiad

¹⁰ Cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Medi 2016 y bydd Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, sy'n cael eu galw'n gymdeithasau tai yn gyffredin, yn cael eu hailddosbarthu fel cyrff sector cyhoeddus. Bydd y penderfyniad hwn, yn seiliedig ar faint o reolaeth sydd gan Lywodraeth Cymru dros Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, yn arwain at ychwanegu mwy na £2 biliwn o ddyled cymdeithasau tai at gyfrifon Llywodraeth Cymru a gallai gyfyngu ar allu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gael mynediad at gyllid preifat.

¹¹ Mae cyrff addysg bellach ac uwch yn derbyn cyllid cyhoeddus ond nid ydynt yn cael eu dosbarthu fel cyrff cyhoeddus gan y gyfraith yng Nghymru a Lloegr. Yn yr Alban, caiff colegau addysg bellach eu dosbarthu yn rhan o'r sector cyhoeddus erbyn hyn ac, felly, mae ganddynt lai o hyblygrwydd ac ymreolaeth na'u cymheiriaid yng Nghymru a Lloegr. Nododd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol ddiffyg tryloywder yn ddiweddar o ran y sectorau addysg bellach ac uwch. (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, **Cyflogau Uwch-reolwyr**, Tachwedd 2014)

1.10. Bydd y ffurf benodol a fabwysiadir pan gaiff corff newydd ei sefydlu yn pennu nodweddion sy'n dylanwadu graddau'r ymreolaeth wirioneddol a thybiedig, natur a graddau atebolrwydd, graddau ac effeithiolrwydd craffu cyhoeddus, a dyletswyddau cyfreithiol hefyd. Wrth sefydlu corff newydd, mae'n bwysig adolygu'r ffurf a'r swyddogaeth arfaethedig gyda'i gilydd a'u hystyried o ran y nodweddion sy'n dilyn, gan gynnwys:

- a) pa un a yw trafodion a balansau'r corff yn cael eu cydgrynhoi mewn cyfrifon llywodraeth, yn destun ystyriaeth o berthnasedd, neu'n cael eu cyfrifyddu ar wahân. Mae'n rhwymedigaeth ar bob cwmni yn y DU, gan gynnwys y rhai a sefydlir gan gyrff cyhoeddus, i feilio cyfrifon blynyddol a gwybodaeth arall gyda Thŷ'r Cwmnïau, sy'n hygyrch i'r cyhoedd. Nid yw is-gyrff a sefydlir fel partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig yn ddarostyngedig i'r holl ofynion hyn.
- b) tryloywder a her; i ba raddau y mae'r corff yn ddarostyngedig i archwiliadau cyhoeddus gan yr Archwilydd Cyffredinol, y mae ganddo ei bwyllgor archwilio ei hun, y mae'n destun goruchwyliaeth reoliadol a hefyd i ddarpariaethau statudol sy'n caniatáu tryloywder cyhoeddus (er enghraifft, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000). Pan gaiff corff ei sefydlu fel elusen, bydd yn destun craffu gan y Comisiwn Elusennol er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu yn unol â'i amcanion elusennol ac yn unol â Deddf Elusennau 2011.
- c) statws cyflogeion; pa un a yw cyflogeion y corff yn weision sifil, yn ddarostyngedig i ofynion cod y Gwasanaeth Sifil; neu gyflogeion sector cyhoeddus eraill sy'n ddarostyngedig i ofynion corff proffesiynol; a pha un a ydynt yn weision cyhoeddus at ddibenion y gyfraith trosedd.
- ch) cyllid, yn unigol neu'n gyfunol, trwy gyllideb Llywodraeth Cymru, trwy gais am adnoddau, trwy grantiau neu gymorth grant, neu drwy incwm o ffioedd.
- d) hyblygrwydd a statws ariannol o ran gofyniad i fantoli'r cyfrifon, triniaeth gwargedau ariannol, y gallu i fenthyg, rhwymedigaeth treth a rhwymedigaeth ardrethi annomestig cenedlaethol.
- dd) pa un a yw cyfarwyddebau UE yn gymwys, fel yng nghyswllt caffael nwyddau a gwasanaethau, sy'n gwneud tendro agored yn ofynnol¹².

¹² Pan fydd cyrff cyhoeddus yn caffael nwyddau neu wasanaethau, disgwylir iddynt ddilyn cyfraith yr UE. Er mwyn dangos y sicrheir gwerth da am arian o arian cyhoeddus, mae cyfraith yr UE yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus hysbysebu contractau uwchben terfyn penodol yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd. Er nad yw cyrff sector preifat masnachol yn ddarostyngedig i gyfraith caffael yr UE, disgwylir iddynt ddefnyddio arferion teg ac agored, gan gynnwys tendro cystadleuol, wrth osod contractau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus a chyllid cyhoeddus.

1.11. Ceir cryn ansicrwydd ar hyn o bryd ynghylch sut y bydd y dull llywodraethu mewn cyrff cyhoeddus sy'n ofynnol o dan y Ddeddf LICD yn cael ei gyflawni o ran gwasanaethau a ddarperir yn anuniongyrchol, ac a ariennir gan y cyhoedd. Rydym yn archwilio'r mater hwn yn fwy manwl yn **Rhan 3**.

'Roedd nifer o resymau cyfreithiol ac ymarferol dros drefniadau llywodraethu'r Gronfa:

- EU o dan reolau ariannu'r UE ar gyfer rhaglen JESSICA roedd yn rhaid i'r Gronfa fod hyd braich oddi wrth Lywodraeth Cymru (ac felly ni allai gael ei Swyddog Cyfrifyddu ei hun);
- roedd angen i benderfyniadau buddsoddi'r Gronfa fod yn rhai masnachol; a
- byddai annibyniaeth amlwg ei phrosesau rheoli ar ddylanwad gwleidyddol yn hanfodol, yn enwedig wrth geisio partneriaid buddsoddi posibl yn y sector preifat yn ystod ail gam arfaethedig bodolaeth y Gronfa.'

Ffynhonnell: **Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio**, Gorffennaf 2015

1.12. Er bod y sefyllfa hon yn caniatáu hyblygrwydd a phragmatiaeth, a hynny'n briodol, gall weithiau danseilio cymhwysiad cyson egwyddorion a chydymffurfiad â safonau, rheolau a chanllawiau. Mae'n arwain at lefelau sylweddol a chynyddol o risgiau gwerth am arian ac enw da i Lywodraeth Cymru, yn gysylltiedig â gwasanaethau a ddarperir i gyrff cyhoeddus, ac ar eu rhan, yng nghyswllt:

- a) modelau gwasanaeth: gall rhai modelau darparu fel consortia (a'r sail gyfreithiol ar eu cyfer) amharu ar dryloywder a gwanhau atebolrwydd.
- b) safonau moesegol: mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y safonau moesegol uchaf ganddi ei hun, ei his-gyrff ac, yn wir, pawb sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru; fodd bynnag, pan fo endidau ac unigolion preifat dan sylw, gall buddiannau personol a'r cymhelliad elw wrthdaro ag anhunanoldeb, pwyslais ar y defnyddiwr a chyfrifoldeb cyhoeddus ehangach.
- c) trosolwg: mae absenoldeb canllawiau eglur a chyson yn creu dryswch ym meddyliau swyddogion cyhoeddus o ran cwmpas a natur eu cyfrifoldebau am oruchwylio gweithgareddau darparwyr hyd braich gwasanaethau cyhoeddus.

'Mae hanes y ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi rheoli ei chydberthynas ag AWEMA yn codi cwestiwn mwy cyffredinol ynghylch sut y gall Llywodraeth Cymru arfer diwydrwydd dyladwy orau er mwyn bodloni ei hun fod pob un o'r sefydliadau a ariennir ganddi yn gweithredu yn unol ag egwyddorion llywodraethu da, tra'n peidio ag amharu ar y ffordd y caiff y sefydliadau hynny eu rhedeg. Nid oes a wnelo hyn â dangos gweithgarwch monitro rheolaidd yn unig. Mae hefyd yn ymwneud â sicrhau bod gweithgarwch monitro yn cael ei dargedu'n briodol, ei fod yn gymesur a'i fod yn arwain at weithredu cadarn mewn ymateb i unrhyw faterion sy'n achos pryder.'

Ffynhonnell: **Cydberthynas Llywodraeth Cymru a Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan** (AWEMA), Hydref 2012

'...Gwnaeth y lefel hon o gyfranogiad gan y sylwedydd ym materion busnes y Gronfa o bosibl beryglu statws hyd braich y Gronfa a gallai hefyd fod wedi creu'r argraff bod Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r telerau gwerthu yn dawel ymhlith aelodau Bwrdd y Gronfa a'u cynghorwyr.'

'Nododd adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru wendidau yn y trefniadau llywodraethu a sefydlwyd ar gyfer y Gronfa sydd hefyd yn berthnasol i asiantaethau hyd braich eraill.'

Ffynhonnell: **Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio**, Gorffennaf 2015

Archwilio termau allweddol (2): 'llywodraethu gwasanaethau cyhoeddus'

- 1.13. Mae llywodraethu yn ymwneud â sut y caiff awdurdod ei arfer wrth geisio cyflawni amcanion y corff, a hefyd sut y mae'r rhai sy'n arfer awdurdod yn cael eu dwyn i gyfrif am sut y maent wedi ei arfer gan y rhai sydd wedi eu hymddiried gydag asedau ac adnoddau. Mae amrywiaeth o reoliadau mewn meysydd fel cyflogaeth, iechyd a diogelwch a chyfrifoldeb amgylcheddol a chymdeithasol yn effeithio ar gyrff sector cyhoeddus a phreifat ac felly mae angen i systemau llywodraethu yn y ddau sector sicrhau cydymffurfiaid.
- 1.14. Fodd bynnag, mae llywodraethu, y trefniadau sy'n gysylltiedig ag ef a pha mor effeithiol y gellir arddangos llywodraethu yn faterion cyffredinol ehangach a mwy cymhleth i gyrff gwasanaeth cyhoeddus nag y maent mewn sefydliadau preifat. Mae hyn oherwydd bod gyrff cyhoeddus fel rheol yn ddarostyngedig i ffurfiau ehangach o atebolrwydd i amrywiaeth o randdeiliaid (gan gynnwys seneddau, llywodraethau a threthdalwyr), na'r hyn sy'n ddyledus i'w cyfranddalwyr a'r gymuned ehangach gan gyfarwyddwyr cwmnïau preifat o dan Gyfraith Cwmnïau.

1.15. Mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn diffinio llywodraethu fel:

'Governance comprises the arrangements put in place to ensure that the intended outcomes for stakeholders are defined and achieved.'¹³

Dywed y Sefydliad:

'To deliver good governance in the public sector, both governing bodies and individuals working for public sector entities must try to achieve their entity's objectives while acting in the public interest at all times.

'Acting in the public interest implies primary consideration of the benefits for society, which should result in positive outcomes for service users and other stakeholders.'

Mae'r Sefydliad yn disgrifio **llywodraethu gwasanaethau cyhoeddus** fel:

'How public bodies ensure that they are doing the right things, in the right way, for the right people, in a timely, inclusive, open, honest and accountable manner. It comprises the systems and processes, cultures and values, by which public bodies are directed and controlled and through which they account to, engage with and, where appropriate, lead their communities.'

1.16. Diffiniodd y Comisiwn Annibynnol er Llywodraethu Da mewn Gwasanaethau Cyhoeddus¹⁴ llywodraethu gwasanaethau cyhoeddus fel:

'...arweinyddiaeth, cyfeiriad a rheolaeth mewn sefydliadau... camau, dulliau neu ffeithiau llywodraethol; llywodraethu... arfer awdurdod drwy draddodiadau ffurfiol ac anffurfiol a sefydliadau er budd pawb.'

1.17. O safbwynt archwilio cyhoeddus, dyma dair colofn gwasanaethu cyhoeddus:

- a) **rheoleidd-dra:** gweithredu'n rhesymol¹⁵, yn deg ac yn gyfreithlon yn unol â rheolau, pwerau ac awdurdod dirprwyedig;
- b) **priodoldeb:** cydymffurfio â safonau ymddygiad neu foesau cyhoeddus, gan gynnwys gweithredu gydag uniondeb, arfer crebwyll priodol a bodloni disgwyliadau tryloywder; a
- c) **gwerth am arian:** sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y defnydd o adnoddau cyhoeddus.

¹³ Y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth/IFAC, **International Framework: Good Governance in the Public Sector**, 2014

¹⁴ Dyfynnwyd yn **Adroddiad Llawn** y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus (Comisiwn Williams), Ionawr 2014.

¹⁵ Sefydlwyd 'prawf rhesymoldeb Wednesday' mewn cyfraith achosion gan y Llys Apêl ym 1948. Mae penderfyniad yn afresymol (neu'n afresymegol) os yw mor afresymol na allai unrhyw unigolyn rhesymol yn gweithredu'n rhesymol fod wedi ei wneud. Mae llywodraethu cyhoeddus da yn gofyn am fwy na'r safon ofynnol o resymoldeb a sefydlir gan prawf Wednesday.

Archwilio termau allweddol (3): 'moeseg gwasanaethau cyhoeddus'

- 1.18. Mae moeseg yn ymwneud ag egwyddorion moesol a rheolau ymddygiad sy'n priodoli gwerthoedd moesol i weithredoedd dynol o fewn grŵp cymdeithasol neu ddiwylliant, o ran cywirdeb neu anghywirdeb gweithredoedd a rhadlondeb neu anfadrwydd cymhellion a chanlyniadau. O ran llywodraethu cyhoeddus, mae ymddygiad a phenderfyniadau moesegol yn ehangach eu cwmpas na chywirdeb gweithdrefnol yn unig. Mae'r syniad y dylid seilio gweithredoedd a phenderfyniadau ar yr hyn sydd orau o ran budd y cyhoedd, yn hytrach na buddiannau personol swyddog, yn hanfodol i'r cysyniad o **foeseg gwasanaethau cyhoeddus**.¹⁶
- 1.19. Disgwylir i gyrff cyhoeddus gydymffurfio ag ethos sy'n seiliedig ar werthoedd a safonau sector cyhoeddus, yn enwedig o ran bod yn agored ac uniondeb wrth wneud penderfyniadau ac o ran ymddygiad a stiwardiaeth arian. Er nad yw'r gwerthoedd a'r safonau hyn yn unigryw i'r sector cyhoeddus, mae gan randdeiliaid gwasanaethau cyhoeddus ddisgwyliadau uwch o'r rhai y maent yn eu hystyried sy'n weision sifil, yn darparu gwasanaethau cyhoeddus neu'n gwario arian cyhoeddus.

'Roedd y methiannau hyn wedi treiddio i holl weithrediadau'r bartneriaeth sy'n awgrymu nad oedd y rhai â chyfrifoldeb am lywodraethu yn ystyried safonau cydnabyddedig bywyd cyhoeddus na'r angen i ddarparu gwerth am arian wrth ddefnyddio arian cyhoeddus.'

Ffynhonnell: **Cymunedau yn Gyntaf Plas Madoc**, Mawrth 2010

- 1.20. Yn ogystal â gwasanaethu buddiannau amrywiaeth ehangach o randdeiliaid na chyrrff preifat, mae'n ofynnol i gyrff gwasanaethau cyhoeddus ddarparu amrywiaeth eang o nodau a chanlyniadau cymdeithasol, y mae llawer ohonynt yn ansoddol ac na ellir eu mesur yn uniongyrchol. Mewn cyferbyniad, caiff sefydliadau preifat eu hysgogi gan rymoedd y farchnad ac mae ganddynt gymhelliad elw mwy eglur, wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â buddiannau masnachol eu harianwyr a'u buddsoddwyr. Er bod cyrrff preifat a chyhoeddus yn ystyried buddiannau cwsmeriaid a staff yn ogystal ag enw da'r sefydliad, mae cyrrff preifat yn eu hystyried yn bennaf yng nghyswllt eu cyfraniad at fantais gystadleuol, cynhyrchu elw a gwerth i gyfranddalwyr, yn hytrach na budd y cyhoedd.

¹⁶ Institute of Local Government, **Understanding Public Ethics Law – Principles and California Law**, 2013

Archwilio termau allweddol (4): 'gweision cyhoeddus'

- 1.21. Gall statws cyflogaeth effeithio pa un a yw staff wedi'u rhwymo i god y Gwasanaeth Sifil¹⁷ neu'n ddarostyngedig i god ymddygiad proffesiynol, yn ogystal â thelerau ac amodau eu cyflogwr. Mae statws cyflogaeth a chyfreithiol unigolion sy'n ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus yn effeithio ar ddisgwyliadau o'u hymddygiad yn ogystal â'r canlyniadau posibl iddynt hwy os na fydd eu hymddygiad yn cyd-fynd â'r rhwymedigaethau a gyflwynir arnynt. Gall statws staff yn y sector cyhoeddus sy'n cyflawni swyddogaethau tebyg amrywio gan eu bod yn cael eu cyflogi gan wahanol fathau o gorff cyhoeddus. Er enghraifft:
- mae staff gweinyddol a gyflogir yng Nghyfarwyddiaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru yn weision sifil, ond nid yw staff gweinyddol a gyflogir gan fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd lleol.
 - mae byrddau iechyd lleol yn cyflogi amrywiaeth o weithwyr iechyd proffesiynol. Fodd bynnag, mae deintyddion, optegwyr, fferyllwyr a meddygon teulu yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn unol â chytundebau contract gyda'r byrddau iechyd lleol, ond nid ydynt yn cael eu cyflogi ganddynt (er eu bod yn ddarostyngedig i reoliadau proffesiynol allanol).
 - pan fo awdurdod lleol yn rhoi gwasanaeth ar gontract allanol, bydd ei gyflogeion yn cael eu trosglwyddo i ddarparwr preifat. Er y gallent barhau i gyflawni'r un swyddogaeth ac agweddau ar eu cyflogaeth flaenorol, gellir diogelu telerau ac amodau; ni fyddant yn ddarostyngedig i bolisiau a gweithdrefnau'r awdurdod lleol mwyach.
- 1.22. Mae troseddau o dan Ddeddf Llwgwrwobrwyo 2010 yn berthnasol i unrhyw un, tra bod y drosedd cyfraith gyffredin o gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus yn berthnasol i ddeiliaid swydd gyhoeddus yn unig. Nid oes diffiniad syml o bwy sydd neu nad yw'n 'swyddog cyhoeddus'; caiff pob achos ei asesu ar sail unigol, gan gymryd natur y swydd, y dyletswyddau a gyflawnir a lefel yr ymddiriedaeth gyhoeddus dan sylw i ystyriaeth. Gall swyddogaethau cyhoeddus gael eu cyflawni gan gyflogeion preifat ac felly gall cyflogai preifat fod yn swyddog cyhoeddus at ddibenion y drosedd. Mae'r llysoedd yn cydnabod y potensial ar gyfer annhegwch pe bai cyflogai cyhoeddus yn destun cosb gyfreithiol ond na fyddai unigolyn preifat sy'n cyflawni'r un swyddogaeth. Nid yw ffactorau fel sut y penodwyd yr unigolyn a pha un a yw'n derbyn tâl neu'n ddi-dâl o reidrwydd yn penderfynu pa un a ddylid ei ystyried yn swyddog cyhoeddus. Nid oes gan weithwyr statudol a'r goron nac ymddiriedolwyr gontractau cyflogaeth, ond ystyrir eu bod yn swyddogion cyhoeddus. Un ffactor a allai nodi bod unigolyn yn 'swyddog cyhoeddus' yw pa un a oes ganddo gyfrifoldeb am 'gyllid cyhoeddus'. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddiffiniad eglur o'r hyn sy'n cyfansoddi 'cyllid cyhoeddus'.

¹⁷ Mae staff y Cynulliad Cenedlaethol (Comisiwn y Cynulliad) wedi eu rhwymo gan y Cod Ymddygiad Staff; mae staff Llywodraeth Cymru wedi eu rhwymo gan god y Gwasanaeth Sifil.

1.23. Nid yw unigolion a benodir i fod yn aelodau bwrdd anweithredol o gyrff cyhoeddus yn gyflogeion y corff fel rheol¹⁸. Gallai achosion o wrthdaro buddiannau godi i unigolion a benodir fel aelodau bwrdd cyrff cyhoeddus a sefydlwyd fel cwmnïau neu bartneriaethau atebolrwydd cyfyngedig. Mae hyn gan fod gan gyfarwyddwyr pob cwmni brif ddyletswydd o ran cyfraith cwmnïau i weithredu er budd pennaf y cwmni, ac mae'n rhaid iddynt roi buddiannau'r cwmni o flaen rhai'r corff noddi. Bydd buddiannau'r ddau barti yn alinio yn y mwyafrif o achosion, ond gall sefyllfaoedd godi pan na fyddant. Gallai'r mater hwn beri problemau arbennig pan fo gweision sifil yn aelodau bwrdd hefyd, gan y gallai eu dyletswydd i'r cwmni wrthdaro a'u cyfrifoldeb i weinidog o dan god y Gwasanaeth Sifil.

'Nid oedd cyfrifoldebau cyfreithiol aelodau Bwrdd y Gronfa yn ddigon cyson â disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran eu cyd-atebolrwydd i Weinidogion Cymru.'

Ffynhonnell: **Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio**, Gorffennaf 2015

- 1.24. Mae sefyllfa 'chwythwyr chwiban' (pobl sy'n codi materion o bryder i'r cyhoedd yn ymwneud â gwneud drygau, risg neu gamymddygiad y maent yn ymwybodol ohono drwy eu gwaith) a faint o ddiogelwch cyfreithiol a roddir iddynt o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998, yr un fath, pa un a ydynt yn gyflogai ai peidio, a pha un a yw eu cyflogwr yn y sector cyhoeddus neu breifat. Mae'n arfer da i gyrff sector cyhoeddus fod â pholisïau chwythu'r chwiban. Pan fo cyrff cyhoeddus yn comisiynu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, mae hefyd yn arfer da ymestyn eu polisi i gynnwys eu darparwyr gwasanaeth contract yn y sector preifat a'r trydydd sector.
- 1.25. Fodd bynnag, mae sgandalau sydd wedi cael llawr o gyhoeddusrwydd a amlygwyd gan chwythwyr chwiban, fel cam-drin preswylwyr agored i niwed yn Winterbourne View¹⁹ a methiannau yn Mid Staffordshire NHS Foundation Trust²⁰, yn amlygu materion yn ymwneud â'r driniaeth o'r rhai sy'n chwythu'r chwiban. Heb ddiwylliant sefydliadol priodol, efallai y bydd pobl yn ofn codi pryderon ac efallai y bydd cyflogwyr yn methu ag ymateb. Gallai tueddiadau diweddar o ran arfer cyflogaeth tuag at gontractau dim oriau a chontractau tymor sefydlog olygu y gallai staff o'r fath fod yn llai tebygol o godi materion o bryder am arferion gweithio neu ymddygiad amhriodol gan staff uwch gan eu bod yn ofni cael eu herlid.

¹⁸ Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru fwrdd statudol sy'n cynnwys dau aelod etholedig sy'n gyflogeion.

¹⁹ Yr Adran Iechyd, **Transforming care: A national response to Winterbourne View Hospital**, Rhagfyr 2012

²⁰ **Report of the Mid Staffordshire NHS Foundation Trust Public Inquiry** [Adroddiad Francis], Chwefror 2013

Rhan 2

2. Beth yw'r tueddiadau allweddol sy'n effeithio ar lywodraethiad gwasanaethau a ddarperir yn anuniongyrchol, ac a ariennir gan y cyhoedd yng Nghymru?

- 2.1. Mae'r cynnydd i wasanaethau a ddarperir yn anuniongyrchol, ac a ariennir gan y cyhoedd yng Nghymru ei hun yn ymateb i newidiadau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a thechnolegol ehangach:
- mae'r hinsawdd barhaus o ostyngiadau i wariant cyhoeddus yn ychwanegu momentwm at y tueddiad a sefydlwyd eisoes o archwilio modelau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus fel ffordd o ysgogi gwelliannau i wasanaethau a lleihau costau;
 - mae'r pwysau deuol o fwy o alw a llai o adnoddau yn annog llunwyr polisi i archwilio ffyrdd arloesol o harneisio arbenigedd a chapasiti sector preifat a thrydydd sector i ymateb i'r heriau hyn; ac
 - mae technoleg gwybodaeth a chyfathrebu newydd yn cynnig cyfleoedd i newid yn radical sut y ceir mynediad at wasanaethau i'r cyhoedd neu i lywodraeth a sut y mae darparwyr yn llunio eu sefydliadau i'w darparu, yn ogystal â chodi materion moesegol ynghylch llywodraethu gwybodaeth.
- 2.2. Mae'r newidiadau hyn yn rhyngweithio i greu amgylchedd dynamig ac ansicr,²¹ sy'n ysgogi arloesedd a phenderfyniadau ar draws gwasanaethau cyhoeddus cymru i:
- sefydlu endidau newydd
 - caffael gwasanaethau ar sail contract
 - cymryd rhan mewn partneriaethau
- 2.3. Yng Nghymru ers 1999, bu llai o bwyslais ar gystadleuaeth, trefniadau comisiynu 'prynwr/darparwr' a phreifateiddio na'r hyn a welwyd yn Lloegr. Yn hytrach, mae pwyslais Llywodraeth Cymru ar weithio partneriaeth a chyd-gynhyrchu wedi arwain at ystod gynyddol amrywiol o endidau ac unigolion sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, fel is-gyrff, asiantau, contractwyr neu bartneriaid. Mae'r amrywiaeth o sefydliadau o'r fath yn cynnwys:
- asiantaethau hyd braich, gan gynnwys cwmnïau sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru fel Cyllid Cymru CCC a'i is-gyrff;
 - asiantau fel rheolwyr cronfeydd a buddsoddiad sector preifat;
 - sefydliadau trydydd sector sy'n derbyn cyllid grant;
 - sefydliadau dielw, fel ymddiriedolaethau gwasanaethau hamdden; a
 - darparwyr preifat, fel cartrefi gofal.

²¹ Nododd yr Archwilydd Cyffredinol yr heriau ariannol allweddol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn ei adroddiad **Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2015**, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2015.

- 2.4. Mae'r sefyllfa o ran gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn parhau i newid ac, ar yr un pryd, mae disgwyliadau'r cyhoedd yn cynyddu o ran ansawdd gwasanaethau yn ogystal â'r safonau ymddygiad a ddangosir gan bob sefydliad neu unigolyn sy'n gysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus ac arian cyhoeddus. Fodd bynnag, mae Cymru yn wlad fach ac, yn amgylchedd cymhleth y ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus, mae'n anochel y bydd gwrthdaro buddiannau gwirioneddol neu bosibl yn codi. Mae llawer o unigolion o'r sector preifat yn rhan o fyrddau sy'n comisiynu a goruchwylio gwasanaethau a ariennir gan y cyhoedd; ac oherwydd eu harbenigedd, gall staff symud o feddu ar gyfrifoldeb polisi neu gaffael o fewn llywodraeth i gyflogaeth gyda chyflenwyr cwmnïau preifat.
- 2.5. Mae newidiadau i bolisi a chynllun system ddarparu yn cynyddu'r perygl y bydd achosion o wrthdaro buddiannau'n codi, er enghraifft lle gweithredir swyddogaethau comisiynydd a darparwr o'r un sefydliad. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi pwysleisio swyddogaeth awdurdodau lleol o ran hybu entrepreneuriaeth gymdeithasol, cyd-gynhyrchu a mentrau cymunedol, fel y dangosir yn ei Fil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft 2015. Gall mentrau o'r fath arwain i awdurdodau lleol ymuno ag amrywiaeth o drefniadau ar y cyd yn cynnwys unigolion ac endidau o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Fodd bynnag, dylid rheoli achosion o wrthdaro, pa un a ydynt yn wirioneddol neu'n dybiedig, yn effeithiol bob amser trwy fesurau sy'n eu lliniaru neu'n cael gwared arnynt.

'Nid oedd gan Lywodraeth Cymru reolaethau cydbwysol effeithiol ar waith i liniaru gwrthdaro buddiannau, ac roedd y trefniadau llywodraethu eraill mewn perthynas â'r penderfyniad i brynu yn wan.'

Ffynhonnell: **Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen westy River Lodge, Llangollen**, Mehefin 2012

'Roedd gan bartïon a oedd yn ymwneud â gweithredu trafodyn y gwerthiant gydberthnasau â'r prynwr a'r gwerthwr a arweiniodd at wrthdaro buddiannau posibl.'

Ffynhonnell: **Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio**, Gorffennaf 2015

'Datganwyd gwrthdaro buddiannau yn briodol ond dylai hyn fod wedi cael ei drin yn gadarnach gan Lywodraeth Cymru.'

Ffynhonnell: **Sefydlu ac arolygu Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru**, Chwefror 2016

2.6. Mae cymryd risgiau wedi'u rheoli'n dda yn elfen bwysig mewn systemau darparu gwasanaethau cyhoeddus. Yn gyffredinol, ceir angen dybryd am sicrwydd bod dulliau masnachol o gymryd risgiau yn cael eu rheoli'n dda o ran defnyddio adnoddau cyhoeddus a darparu gwasanaethau cyhoeddus, beth bynnag fo ffurf gyfreithiol yr endidau dan sylw neu statws eu swyddogion. Mae gwleidyddion, y cyfryngau a'r cyhoedd oll yn disgwyl, a hynny'n briodol, y bydd endidau ac unigolion preifat sy'n ymwneud ag ariannu, caffael, rheoli, darparu a chraffu ar wasanaethau a ariennir gan y cyhoedd yn gwneud buddiannau defnyddwyr gwasanaeth a gwerth am arian o ran cyllid cyhoeddus yn flaenllaw. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae ein gwaith archwilio wedi dynodi bod datblygu trefniadau llywodraethu cadarn wedi methu â chadw i fyny ag arloesedd mewn modelau darparu ac arferion gwaith.

'Mae'n achos pryder i ni nodi bod yr enghreifftiau amlwg o reoli grantiau'n wael yn rhannu gwendidau cyffredin sy'n codi dro ar ôl tro. Ymhlith y gwendidau allweddol a nodwyd gennym mae methiant i ystyried yn ddigonol hyfywedd, adnoddau a gallu'r rhai sy'n cael y grant. Mewn sawl achos, bu diffyg eglurder o ran y meini prawf a'r amcanion. Rydym hefyd wedi nodi nifer o achosion o fethiant i asesu a lliniaru risgiau'n ddigonol. Mae gwendidau yn y prosesau monitro parhaus hefyd yn chwarae rhan amlwg yn y rhestr o faterion sy'n codi dro ar ôl tro. Yn bwysig ddigon, mae cyllidwyr wedi methu â gweithredu ar y gwersi a ddysgwyd wrth gynllunio cynlluniau newydd.'

Ffynhonnell: **Rheoli Grantiau yng Nghymru**, Tachwedd 2011

'Dilynodd Llywodraeth Cymru ei gweithdrefnau ar gyfer cymeradwyo a monitro arian grant y Prosiect. Fodd bynnag, roedd y gweithdrefnau ar y pryd yn llai trylwyr na'r rhai sydd ar waith yn awr ac nid oeddent yn addas i brosiect mor fawr ac mor gymhleth â hwn ac a oedd â chymaint o risg yn gysylltiedig ag ef. Er bod y prosiect wedi cyflawni ei brif amcanion, cododd problemau pan ddechreuodd y fferm bysgod weithredu a achosodd lygredd a niwsans.'

Ffynhonnell: **Arian cyhoeddus ar gyfer Fferm Bysgod Penmon**, Rhagfyr 2013

'Roedd y prosiect yn debygol o fethu o'r cychwyn oherwydd rhagdybiaethau incwm diffygiol a diffyg eglurder ynglŷn â'r hyn roedd y Ganolfan i fod i'w gynnig, ac ni wnaeth y cyllidwyr herio'r naill na'r llall yn ddigonol... Roedd y penderfyniadau i ddarparu arian grant yn seiliedig ar ragdybiaethau hynod ddiffygiol, yn enwedig o safbwynt lefelau incwm rhagamcanol... Ni wnaeth y cyllidwyr nodi neu fynd i'r afael â'r holl risgiau allweddol, ac roedd gormod o bwyslais ar fanteision posibl y prosiect. Roedd cydweithio rhwng cyllidwyr yn annigonol i gefnogi proses effeithiol o wneud penderfyniadau.'

Ffynhonnell: **Arian cyhoeddus ar gyfer Canolfan Cywain, Y Bala**, Ebrill 2014

- 2.7. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio dysgu gwersi o fethiannau llywodraethu unigol, fel y rhai a amlygir yn y papur hwn, er mwyn sicrhau nad ydynt yn digwydd eto. Fodd bynnag, mae'r anawsterau cysyniadol ac ymarferol sy'n gysylltiedig ag annog llywodraethu da mewn gwasanaethau a ddarperir yn anuniongyrchol, ac a ariennir gan y cyhoedd yn dynodi ei bod yn bryd cael trafodaeth ehangach.

Rhan 3

3. Sut allai gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ddylanwadu ar lywodraethiad moesegol gwasanaethau a ariennir gan y cyhoedd yng Nghymru?

- 3.1. Mae deddfwriaeth ddiweddar wedi cyflwyno gofynion cynyddol o ran ymddygiad cyrff cyhoeddus, gweision cyhoeddus a gwasanaethau cyhoeddus Cymru. Mae Deddf LICD yn darparu fframwaith llywodraethu ar gyfer gwneud penderfyniadau sydd â'r nod o gryfhau llywodraethu mewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru, y mae'n rhaid iddo wella:

'Llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy'. Mae gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy 'yn golygu bod yn rhaid i'r corff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'.
- 3.2. Mae'r Ddeddf LICD yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff cyhoeddus a enwir ynddi i wneud gwaith datblygu cynaliadwy. Dyma'r nodweddion diffiniol sy'n gwahaniaethu datblygu cynaliadwy o fusnes fel rheol:
 - a) dealltwriaeth o oblygiadau hirdymor penderfyniadau;
 - b) cydnabyddiaeth o gyfyngiadau amgylcheddol; a
 - c) dull integredig o sicrhau llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.
- 3.3. Mae'r Ddeddf hefyd yn cyflwyno dyletswydd llesiant ar y cyrff cyhoeddus hynny i bennu a chyhoeddi amcanion llesiant o ran eu swyddogaethau, wedi'u cynllunio i sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at y saith nod llesiant cenedlaethol. Mae'n ofynnol iddynt gymryd pob cam rhesymol i fodloni'r amcanion hynny, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Diffinnir yr egwyddor datblygu cynaliadwy trwy bum ffordd o weithio. Integreiddio; cydweithredu; meddwl hirdymor; cyfranogiad; ac atal yw'r rhain.
- 3.4. Bydd y pwyslais o ran gwneud penderfyniadau ar feddwl yn hirdymor ac ystyried atal, gan gydbwysu pwysau ar adnoddau, yn gofyn am newid sylfaenol i swyddogaethau, sgiliau ac ymddygiad llawer o weithwyr proffesiynol. Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus hefyd gynnwys defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd ehangach yn y broses o ddilyn dull integredig a chydweithredol. Mae'r holl heriau hyn yn cyflwyno penblethau llywodraethu moesegol, yn enwedig i'r rhai sy'n gyfrifol am gomisiynu darparwyr sector preifat i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Arddangosyn 2: amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer llesiant cenedlaethau'r dyfodol



- 3.5. Mae'r Ddeddf LICD yn rhestru 44 o gyrff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau datganoledig yng Nghymru y mae'n berthnasol iddynt, ond nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr; er enghraifft, nid yw Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Estyn nac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn 'gyrff cyhoeddus yng Nghymru' at ddibenion y Ddeddf LICD. Nid yw pedwar heddlu Cymru wedi eu cynnwys chwaith, gan nad yw plismona yn swyddogaeth ddatganoledig²².
- 3.6. Nid yw'r dyletswyddau ar gyrff a enwir yn y ddeddf yn ymestyn yn bendant i is-gyrff nac i gontractwyr. Fodd bynnag, bydd angen i gyrff a enwir yn y Ddeddf LICD ddangos eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau statudol eu hunain trwy weithredu mewn ffyrdd sy'n cyd-fynd â'u hamcanion llesiant. Wrth ddarparu cyllid, dyfarnu grantiau neu gaffael gwasanaethau, gall corff a enwir yn y Ddeddf LICD bennu cylchoedd gwaith, fframio amodau grantiau neu gytuno telerau contract sy'n cyd-fynd â'i amcanion llesiant ac felly cael yr effaith o ymestyn cwmpas y Ddeddf LICD y tu hwnt i'r gyrff cyhoeddus a ddiffinnir yn y Ddeddf LICD. Fodd bynnag, nid yw'n eglur sut y bydd gweithredu'r Ddeddf LICD yn dylanwadu ar lywodraethiad moesegol:
- a) gyrff cyhoeddus yng Nghymru nad ydynt wedi'u henwi yn y ddeddf;
 - b) is-gyrff gyrff cyhoeddus Cymru; a
 - c) darparwyr sector preifat neu drydydd sector o wasanaethau a ariennir gan y cyhoedd.
- 3.7. Mae tensiwn cynhenid yn bodoli rhwng gofyniad y Ddeddf LICD i'r gyrff a enwir ynddi fabwysiadu safbwynt mwy hirdymor a chylchoedd cyllido, cyllidebu a chyfrifyddu blynyddol sy'n weithredol ar draws gyrff cyhoeddus Cymru. Mae gweithredu gofynion y Ddeddf LICD yn debygol o gynyddu'r pwyslais llywodraethu mewnol ac allanol ar gynlluniau strategol a chynlluniau ariannol tymor canolig, a chraffu ar y cynlluniau hyn, fel sy'n digwydd eisoes yn GIG Cymru. Er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau o dan y Ddeddf LICD, mae llawer o gyrff cyhoeddus Cymru yn annog Llywodraeth Cymru i roi mwy o sicrwydd iddynt o ran cyllid yn y dyfodol, yn ogystal â hyblygrwydd ariannol tebyg i'r hyn a welir yng nghyrrff y GIG²³. Neu mwy o eglurder ynghylch blaenoriaethau arianwyr a'r ystod y gallai eu penderfyniadau ariannu fod yn rhan ohono o leiaf.

²² Mae'n ofynnol i fyrdau gwasanaeth a sefydlwyd o dan y Ddeddf LICD wahodd y prif gwnstabl a'r comisiynydd heddlu a throseddu i gymryd rhan yn y bartneriaeth ar gyfer yr ardal awdurdod lleol a wasanaethir gan y bwrdd.

²³ Ceir gwahaniaethau rhwng dyletswyddau ariannol saith bwrdd iechyd lleol Cymru a thair ymddiriedolaeth GIG Cymru. Mae'n rhaid i fyrdau iechyd lleol beidio â mynd y tu hwnt i'w terfynau gwario dros gyfnod parhaus o dair blynedd. Mae methiant yn arwain at fam archwiliad allanol cymwysedig. Mae'n ddyletswydd ar ymddiriedolaethau i fantoli'r cyfrifon tros gyfnod tair blynedd parhaus, ond nid yw methiant i wneud hynny yn arwain at gymhwysiad archwilio. Mae'r dyletswyddau ariannol ar gyfer gyrff GIG yn wahanol i rai'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus Cymru, y mae'n ofynnol iddynt fantoli'r cyfrifon bob blwyddyn.

'Dyweddod CNC wrthym ei fod yn teimlo bod dyraniadau cyllideb flynyddol Llywodraeth Cymru yn cyfyngu arno ond ei fod yn rheoli'r effaith drwy ei waith cynllunio ariannol a modelu. Fodd bynnag, mae perygl y bydd toriadau i'r gyllideb yn golygu y bydd angen blaenoriaethu pellach yn ei waith ac y bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd, yn enwedig o gofio'r ansicrwydd ynghylch unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer cyfrifoldebau statudol newydd. Mae CNC o'r farn y bydd angen gwneud newidiadau sylfaenol i bwrpas a strwythur CNC yn sgil lefel ddisgwyliedig y toriadau yn y gyllideb.'

Ffynhonnell: **Datblygiad Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)**, Chwefror 2016

- 3.8. Mae disgwyliadau cynyddol dinasyddion o wasanaethau cyhoeddus Cymru, a adlewyrchir yn saith nod llesiant y Ddeddf LICD, yn gofyn am newidiadau sylfaenol i brosesau, systemau rheoli perfformiad a diwylliant holl gyrff cyhoeddus Cymru. Ni fydd y pwyslais presennol ar wybodaeth hanesyddol yn seiliedig ar ddangosyddion perfformiad, gweinyddiaeth cyllideb a gofynion adrodd ariannol allanol sy'n cael eu hysgogi'n ganolog yn ddigonol mwyach. Yn hytrach, mae angen eglur am welliannau ansoddol i berfformiad wrth edrych i'r dyfodol a gwybodaeth ariannol sy'n cefnogi achosion busnes, gwerthuso opsiynau, cynllunio strategol a gwneud penderfyniadau. Yn ei hanfod, bydd modelu effeithiau newidiadau i weithgareddau, costau, incymau a gofynion, ynghyd â monitro canlyniadau cadarn, yn allweddol i gyflawni amcanion llesiant pob corff.
- 3.9. I sefydliadau sector preifat sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch masnachol, mater mewnol yw ansawdd gwybodaeth reoli yn gyffredinol, er bod dadansoddwyr busnes a buddsoddwyr preifat yn cymryd diddordeb brwd. Fodd bynnag, pan fydd sefydliadau sector preifat a thrydydd sector yn gysylltiedig â darparu gwasanaethau cyhoeddus, yna dylid rhoi manylion mynediad noddwr, sicrwydd ansawdd a thryloywder cyhoeddus²⁴ gwybodaeth reoli mewn:
- a) contractau caffael
 - b) cytundebau partneriaeth
 - c) amodau grant
- 3.10. Mae cyflawni'r newidiadau hyn yn debygol o ofyn i gyrff cyhoeddus gaffael neu ddatblygu'r sgiliau, y dechnoleg a'r capasiti angenrheidiol i gasglu, dadansoddi a defnyddio'r wybodaeth. Mae twf technoleg data digidol yn cynnig llawer o gyfleoedd, ond hefyd yn codi materion llywodraethu gwybodaeth mewn meysydd fel moeseg casglu, rhannu, cadw, defnyddio, tryloywder, mynediad a diogelwch data.

²⁴ Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn annog i arferion cyfrifyddu llyfr agored gael eu mabwysiadu, a fydd yn cynnig tryloywder o ran taliadau, perfformiad ac elw yng nghyswllt gwasanaethau a roddir ar gontract allanol, fel amod sylfaenol o gyflawni busnes gyda'r sector cyhoeddus. [Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, **Open-book accounting and supply-chain assurance**, Mehefin 2015].

'Fel corff archwilio, rydym yn awyddus iawn i annog datblygu'r proffesiwn cyllid yng Nghymru. Mae rhai o'n hadroddiadau diweddar wedi cyfeirio at ddiffyg capasiti a gallu ariannol mewn llawer o'r cyrff a archwilir gennym. Yn draddodiadol, mae'r swyddogaeth gyllid wedi ymwneud â phennu a rheoli cyllidebau a chydymffurfio â hwy. Mewn rhai achosion, ystyrir bod y swyddogaeth gyllid yn rhwystr i arloesi a newid lle mae'n osgoi risg. Yn y dyfodol, bydd gan weithwyr cyllid proffesiynol fwy o rôl i'w chwarae fel partner strategol i wasanaethau, gan ddarparu gwybodaeth, er enghraifft, i ategu cynlluniau busnes ar gyfer ffyrdd newydd o weithio. Bydd angen i weithwyr cyllid proffesiynol a gweithwyr proffesiynol eraill ystyried costau a manteision hirdymor newidiadau yn gyffredinol.'

Ffynhonnell: **Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2015**, Rhagfyr 2015

- 3.11. Ceir heriau llywodraethu hefyd o ran goruchwyliaeth a chraffu ar noddwyr, swyddogion gweithredol a swyddogion anweithredol, yn ogystal â rheoleiddio ac archwilio. Crëwyd swyddfa'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (corfforaeth undyn ar hyd braich o lywodraeth) gan y Ddeddf LICD. Swyddogaeth y comisiynydd yw cefnogi'r 44 corff cyhoeddus a enwir yn y ddeddf, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i weithio tuag at gyflawni nodau llesiant Llywodraeth Cymru a monitro ac adrodd ar eu cynnydd. Bydd y Ddeddf LICD hefyd yn sefydlu byrddau gwasanaethau cyhoeddus newydd²⁵ i gynnal asesiad sylfaenol o lesiant lleol, i wneud cynlluniau llesiant ardal ac i adrodd ar gynnydd. Hefyd, gwnaeth Deddf LICD hi'n ddyletswydd ar yr Archwilydd Cyffredinol i ddarparu adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystod pob cylch etholiad y cynulliad, ar y graddau y mae'r cyrff a enwir yn y Ddeddf LICD wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu a bodloni amcanion llesiant.
- 3.12. Er mwyn lliniaru'r risg o gynyddu cyfanswm y gwaith o reoleiddio ac asesu cyrff cyhoeddus, yn ogystal â'r risg o gasgliadau ac argymhellion sy'n gwrthddweud neu'n mynd yn groes i'w gilydd, mae'r Archwilydd Cyffredinol a'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cytuno i gydweithredu o ran eu cyfrifoldebau priodol o dan y Ddeddf LICD. Mae'r cydweithrediad hwn yn cynnig cyfle i ddatblygu asesiad mwy syml, di-dor a chydlynol o gyrrff cyhoeddus gan sicrhau hefyd bod pawb sy'n ymwneud â'r swyddogaethau hyn yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth ddeongliadol angenrheidiol i werthuso gwybodaeth a roddir iddynt yn feirniadol ac i ddyfarnu faint y dylid dibynnu arni.

²⁵ Mae byrddau gwasanaeth cyhoeddus a sefydlwyd o dan y Ddeddf LICD ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru yn bartneriaethau statudol, ond nid ydynt yn endidau ynddynt eu hunain.

3.13. Mae'n amlwg y bydd gweithredu'r Ddeddf LICD yn effeithio ar lywodraethiad y cyrff a enwir ynddi a bod ganddi oblygiadau o ran archwilio a rheoleiddio. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae'r goblygiadau'n llai eglur i gyrff cyhoeddus nad ydynt wedi eu henwi ynddi, gan gynnwys is-gyrff, a hefyd i gyrff sector preifat a thrydydd sector sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Rhan 4

4. Sut ellir sicrhau mwy o eglurder o ran agweddau ac ymddygiadau unigolion ac endidau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus Cymru?

- 4.1. Gellir categoraiddio'r ddau ddull traddodiadol o gryfhau llywodraethiad fel bod yn seiliedig ar egwyddorion yn bennaf neu'n seiliedig ar reolau yn bennaf. Nid yw'r gwahanol dulliau hyn yn annibynnol ar ei gilydd a gallant weithio ar y cyd; gellir defnyddio 'rheolau' i nodi pryd a sut y dylid cymhwysu 'egwyddorion'. Fodd bynnag, nid yw'r naill dull na'r llall ar ei ben ei hun yn briodol ym mhob sefyllfa, oherwydd:
- mae egwyddorion yn nodi disgwyliadau eang gan ddarparu hyblygrwydd yn ymarferol. Fodd bynnag, efallai y bydd yn aneglur a ddylent fod yn berthnasol, sut y dylid eu cymhwysu a sut y dylid datrys unrhyw densiynau rhwng gwahanol egwyddorion.
 - mae rheolau yn benodol ac yn rhagnodol. Gallai fod yn haws gorfodi rheolau a ysgrifennir i mewn i reoliadau a chytundebau nag egwyddorion ond, er bod rheolau'n gadael llai o le ar gyfer dehongli, maent yn arwain yn gyson at rai sefyllfaoedd nad ydynt wedi cael sylw pendant.

Dulliau seiliedig ar egwyddorion o gryfhau llywodraethu

- 4.2. Ar draws sector cyhoeddus y DU, crynhoir y dull seiliedig ar egwyddorion o lywodraethu yn Egwyddorion Nolan,²⁶ sef:
- anhunanoldeb
 - uniondeb
 - gwrthrychedd
 - atebolrwydd
 - bod yn agored
 - gonestrwydd
 - arweinyddiaeth

²⁶ Cyflwynwyd Egwyddorion Nolan yn 2013 gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, wedi'i gadeirio gan yr Arglwydd Nolan, yn ei **Bedwerydd Adroddiad ar Ddeg**. Fe'u rhestrir yn llawn yn Atodiad 1.

4.3. Yng Nghymru, mae Academi Wales wedi pwysleisio pwysigrwydd ethos gwasanaeth cyhoeddus:

'...whilst diversity and new ways of working are embraced and encouraged, common values and standards are understood and applied across the public service in Wales.'

Er bod Academi Wales yn cydnabod:

'There is no hard and fast definition of the Welsh public service...'

Mae'r academi yn cymeradwyo:

'...the Welsh Public Service Values, the Nolan Principles, and Citizen-Centred Governance Principles for Wales.'²⁷

Ac mae'n cynnig bod y rhain yn:

'...apply to any organisation that delivers public services to the people of Wales and/or utilises Welsh public funding directly or indirectly.'²⁸

4.4. Yn bwysig, mae Pwyllgor Senedd San Steffan ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus wedi datgan y dylai fod defnydd ehangach o Egwyddorion Nolan o ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus (a ddefnyddiwyd ar gyfer pob gwas cyhoeddus a benodwyd neu a etholwyd hyd yma) ac mae wedi gwahodd trafodaeth ar sut y dylid ymestyn yr egwyddorion i bawb sy'n gysylltiedig â gwasanaethau a ariennir gan y cyhoedd²⁹. Mae cadeirydd y pwyllgor hwnnw, yr Arglwydd Bew, hefyd wedi dweud:

'...any organisation providing any public service should ensure that such [ethical] standards form part of its culture and behaviour and are demonstrated in practice from start to finish... It is the responsibility of the Welsh Government to ensure that this is achieved, regardless of who is providing the service.'

²⁷ Amlinellir yr egwyddorion hyn yn Atodiad 2.

²⁸ Academi Wales, **Y Canllaw Llywodraethu Da: Gwneud yn dda, gwneud yn well**, Drafft, Ionawr 2016

²⁹ Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol o fis Chwefror 2016 ar Gronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru yn dyfynnu adroddiadau mis Ionawr 2013 a mis Mehefin 2014 y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, sydd wedi nodi bod angen rhoi ystyriaeth ofalus bellach i'r maes hwn.

- 4.5. **Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru** yw prif ganllaw Llywodraeth Cymru³⁰ ar ymdrin â chyllid cyhoeddus yn briodol. Ei nod yw cynnig canllaw cyfeirio i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru a chan y cyrff y mae'n eu noddi ar sut i ymdrin â chyllid cyhoeddus gydag uniondeb ac er budd y cyhoedd. Mae Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru yn pwysleisio cymhwysiad yr Egwyddorion Llywodraethu sy'n canolbwyntio ar y Dinesydd i sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac Egwyddorion Nolan i unigolion sy'n gweithio i'r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.
- 4.6. Mae'r Egwyddorion Llywodraethu sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd wedi eu halinio â gofynion y Ddeddf LICD. Mae'r Ddeddf LICD yn mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar yr egwyddor cynaliadwyedd³¹ yn hytrach na dull rhagnodol, sy'n cynnig cyfleoedd i gyrff cyhoeddus yng Nghymru (fel y diffinnir yn y ddeddf) sicrhau bod eu hymateb yn gymesur, fel y gallant fodloni gofynion y Ddeddf LICD mewn ffyrdd sydd wedi eu teilwra i raddfa gweithgareddau a gwariant y sefydliadau.
- 4.7. Yn ogystal ag Egwyddorion Nolan ac Egwyddorion sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd Cymru, mae egwyddorion eraill yn berthnasol i gyrff cyhoeddus Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys Egwyddorion a Gwerthoedd Craidd y GIG yng Nghymru ac Egwyddorion Caffael³² hefyd. Mae **Datganiad Polisi Caffael Cymru** yn nodi deg egwyddor ar gyfer caffael i holl sefydliadau 'sector cyhoeddus' Cymru. Mae'r polisi hwn yn mabwysiadu diffiniad y Tasglu Caffael Cynaliadwy (yn **Procuring the Future**, 2006) o gaffael:
- 'the process whereby organisations meet their needs for goods, services, works and utilities in a way that achieves value for money on a whole life basis in terms of generating benefits not only to the organisation, but also to society and the economy, whilst minimising damage to the environment.'
- 4.8. Nid yw'r gwahanol setiau o egwyddorion wedi'u halinio'n llawn ond nid ydynt yn anghydnaws chwaith. Fe'i gadewir i'r cyrff eu hunain ddod â'r gwahanol egwyddorion ynghyd o ffynonellau amrywiol. Er enghraifft, mae **Datganiad Polisi Caffael Cymru** (sy'n cynnwys yr egwyddorion caffael) yn datgan y bydd sector cyhoeddus Cymru yn hybu telerau taliadau teg; ymrwymiad sy'n cyd-fynd â tharged taliadau'r sector cyhoeddus a chyda Deddf LICD. Fodd bynnag, nid yw'r targed polisi taliadau'r sector cyhoeddus ei hun³³, yn eglur yn y datganiad polisi.

³⁰ Diweddarwyd ac ailgyhoeddwyd ym mis Chwefror 2016.

³¹ Gweler hefyd Atodiad 2.

³² Wedi ei gynnwys yn **Natganiad Polisi Caffael Cymru**, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2012, diweddarwyd ac ailgyhoeddwyd yn 2015. Gweler Atodiad 2.

³³ Y telerau safonol ar gyfer contractau llywodraeth y DU yw taliad o fewn 30 diwrnod. Pryd bynnag y bo'n bosibl, bydd cyrff llywodraeth ganolog yn talu o fewn 10 diwrnod.

- 4.9. Mae'r defnydd cyson o egwyddorion yn peri problemau, gan nad oes unrhyw gonsensws o ran i ba raddau y gellir neu y dylid cymhwyso'r gwahanol egwyddorion yn ymarferol:
- a) ceir lluo o wahanol setiau o egwyddorion, ac mae llawer ohonynt yn ceisio bod yn gymwys yn gyffredinol i'r sector cyhoeddus, gwasanaethau cyhoeddus a/neu arian cyhoeddus (gweler [Atodiadau 1 a 2](#));
 - b) nid yw termau fel 'cyllid cyhoeddus Cymru' a 'gwasanaethau cyhoeddus' wedi eu diffinio'n gyson nac yn eglur (gweler [Rhan 1](#)); ac
 - c) mae statws gwahanol setiau o egwyddorion yn amrywio ac nid yw'n eglur pa egwyddorion sydd â statws cyfreithiol trwy gyfraith statud³⁴ neu gyfraith achosion³⁵, ac sy'n gynghorol yn unig.
- 4.10. Efallai y bydd gwrthdaro rhwng gwahanol egwyddorion a setiau o egwyddorion. Er enghraifft, efallai y bydd amgylchiadau'n codi lle ceir tensiwn rhwng gwerth am arian i'r sefydliad a manteision cymdeithasol ehangach o gael gafael ar bethau o fewn yr economi leol. Mewn achosion o'r fath, bydd angen i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau allu dangos eu bod wedi cymryd camau rhesymol i gymhwyso egwyddorion ac wedi cymryd yr holl faterion perthnasol i ystyriaeth wrth wneud eu penderfyniad, neu efallai y byddant yn agored i'r risg o adolygiad barnwrol llwyddiannus fel arall.

Dulliau seiliedig ar reolau o gryfhau llywodraethu

- 4.11. Gall rheolau fod yn ddeddfwriaethol, yn weinyddol, yn gytundebol neu'n gyfuniad o'r rhain. Gallant ymwneud â sut y caiff corff ei sefydlu, sut y mae'n gweithredu a sut y mae unigolion yn ddo yn cael eu dwyn i gyfrif am ei berfformiad ac am eu gweithredoedd. Mae Deddf Cwmnïau 2006 yn ei gwneud yn ddyletswydd statudol ar y cyfarwyddwyr i gynnal enw da am safonau uchel o ymddygiad busnes, i osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau, i ddatgan buddiant mewn trafodion neu drefniadau ac i beidio â derbyn buddion gan drydydd partïon am fod yn gyfarwyddwr, neu am wneud, neu beidio â gwneud, unrhyw beth fel cyfarwyddwr. Ni ddylai'r bwrdd, ei gyfarwyddwyr, ei gyflogeion a'r rhai a ariennir gan y cwmni weithredu na gwneud penderfyniadau er mwyn sicrhau manteision ariannol neu fanteision materol eraill i'w hunain, eu teuluoedd neu eu ffrindiau. Mae'n rhaid iddynt ddatgan unrhyw fuddiannau a chysylltiadau. Er bod y cyfrifoldebau hyn yn berthnasol i gwmnïau mewn llywodraeth ac yn cyd-fynd ag Egwyddorion Nolan, mae prif gyfrifoldeb cyfarwyddwr i'r endid, nid i'r cyhoedd yn ehangach (gweler hefyd [paragraff 1.23](#)).

³⁴ Er enghraifft, Deddf LICD.

³⁵ Er enghraifft, yr egwyddor o resymoldeb a sefydlwyd mewn cyfraith achosion gan 'brawf rhesymoldeb Wednesday' (gweler hefyd [paragraff 1.17](#)).

- 4.12. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y DU yn tacluso cyrff hyd braich, yn eu dosbarthu ac yn llunio rheolau ar gyfer sefydlu rhai newydd. Yn yr Alban, mae Llywodraeth yr Alban yn cynnal un gofrestr o bob corff cyhoeddus datganoledig, gan gynnwys manylion eu trefniadau ariannu, staffio a chyflogau prif weithredwyr. Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru yn catalogio cyrff cyhoeddus, yn llunio canllawiau llywodraethu a safonau moesegol ar gyfer is-gwmnïau ac yn cyhoeddi Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru ynghyd ag egwyddorion ar gyfer y sector cyhoeddus.
- 4.13. Caiff achosion busnes y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio sefydlu unrhyw gyrff cyhoeddus newydd yng Nghymru yn unol â hwy eu hadolygu gan Uned Llywodraethu Corfforaethol Llywodraeth Cymru sy'n darparu cyngor ariannol a chyfreithiol. Mae adolygiad yr Uned Llywodraethu Corfforaethol yn cynnwys gwirio'r rhesymeg dros sefydlu corff newydd. Fodd bynnag, nid oes unrhyw fframwaith eglur ar hyn o bryd y mae'n rhaid sefydlu cyrff cyhoeddus newydd yng Nghymru (gan lywodraeth ganolog neu leol) yn unol ag ef. Byddai sefydlu cyrff newydd yn unol â fframwaith o ganllawiau y gellir gwyro oddi wrthynt dim ond trwy eithriad a chyda chyfiawnhad eglur, yn caniatáu hyblygrwydd tra'n cynyddu eglurder, cysondeb a rhagweladwyedd.

'Wrth sefydlu trefniadau llywodraethu'r Gronfa, methodd Llywodraeth Cymru â nodi'n benodol y dull o oruchwylio'r Gronfa fel corff hyd braich.'

Ffynhonnell: **Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio**, Gorffennaf 2015

'Wrth sefydlu trefniadau llywodraethu'r Gronfa, methodd Llywodraeth Cymru â nodi'n benodol y dull o oruchwylio'r Gronfa fel corff hyd braich.'

Ffynhonnell: **Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio**, Gorffennaf 2015

'Mae Cymunedau yn Gyntaf Plas Madoc yn gwmni cyfyngedig drwy warant ac yn elusen gofrestredig... Canfu ymchwiliad y timau archwilio ddiffyg prosesau llywodraethu a rheoli ariannol sylfaenol yn PMCF.'

Ffynhonnell: **Cymunedau yn Gyntaf Plas Madoc**, Mawrth 2010

4.14. Yn ei gyhoeddiad o 2013, **Standards Matter**, dywedodd y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus:

'Public servants designing and commissioning services should, in a consistent and proportionate way, address ethical issues throughout the procurement process. Contractors and others should acknowledge the particular responsibilities they bear when delivering public services, paid for by public money, to individuals who may not have the choice of going elsewhere. Unless the principles are clearly translated into contracts and clear guidance, it is unlikely that private contractors in particular will believe that they are unambiguously applicable to them (given the likelihood of conflicts between the motives of private profit and public service), or spend time deducing from the principles how they are supposed to behave. There is therefore a responsibility on public office-holders to specify particular and proportionate ethical requirements in the contracts they let on behalf of the public sector unless the public sector does specify ethical requirements in its contracts it is unlikely that the market will operate to drive up ethical as well as quality standards and value for money.'

4.15. Yn y pen draw, yr unig ffordd o sicrhau bod sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus ar gontract allanol yn gweithredu yn unol â'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan gyrff cyhoeddus yw trwy gyflwyno gofynion cytundebol ychwanegol mewn prosesau caffael a chomisiynu. Gall gyrff cyhoeddus hefyd ysgrifennu'r gofyniad i gyrff sector preifat ddilyn arferion sector cyhoeddus o ran amodau grant a chytundebau benthyciadau.

4.16. Mae amodau grant arferol Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn ofynnol i ymgeiswyr gydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rheoliadau, a hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl drwyddedau a chysyniadau angenrheidiol fod ar waith. Fodd bynnag, nid yw amodau grant Llywodraeth Cymru yn cynnwys fel mater o drefn unrhyw ofyniad cyffredinol i'r sawl sy'n derbyn y grant gydymffurfio ag unrhyw safonau ymddygiad ym maes busnes. Pe bai Llywodraeth Cymru yn gallu datblygu amod gorfodadwy a oedd yn cynnwys gofynion o'r fath, byddai ei gynnwys yn helpu i ddiogelu cyllid cyhoeddus a ddefnyddir ar gyfer prosiectau a ariennir trwy grant. Byddai hefyd yn lliniaru risgiau posibl i enw da Llywodraeth Cymru, trwy gysylltiad â derbynwyr nad oeddent yn bodloni gofynion amod o'r fath³⁶.

³⁶ Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Arian cyhoeddus ar gyfer Fferm Bysgod Penmon, Rhagfyr 2013**

'Nododd Llywodraeth Cymru risgiau posibl pan gymeradwyodd arian grant ar gyfer y Prosiect, ond ni roddodd amodau grant ar waith a fyddai wedi helpu i liniaru'r risgiau.'

Ffynhonnell: **Arian cyhoeddus ar gyfer Fferm Bysgod Penmon**, Rhagfyr 2013

'Roedd pob un o'r cyllidwyr wedi cydnabod, i raddau gwahanol, y rhagdybiaethau digefnogaeth ac afrealistig a oedd yn sylfaen i achos busnes y Ganolfan. Fodd bynnag, aethant ati i gymeradwyo arian grant heb roi mesurau effeithiol ar waith yn llawn i liniaru a rheoli'r risgiau i'r prosiect a nodwyd ganddynt... Nid oedd amodau grant, sef y prif ddull o reoli'r risgiau a nodwyd, yn gynhwysfawr neu'n realistig bob amser.'

Ffynhonnell: **Arian Cyhoeddus ar gyfer Canolfan Cywain, Y Bala**, Ebrill 2014

4.17. Nid oes unrhyw rwystr penodol i gynnwys gofynion cytundebol ar gyfer safonau ymddygiad. Mae'r anhawster gwirioneddol yn sut i fynegi gwerthoedd sector cyhoeddus fel gofynion cytundebol mewn ffordd sy'n ddiamwys, yn fesuradwy, y mae modd ei monitro ac sy'n orfodadwy. Mae hwn yn faes lle mae angen datblygiad sylweddol. Amlinellodd Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus Senedd San Steffan nifer o ddulliau caffael/cytundebol y dylai prynwyr/comisiynwyr eu hystyried o ran:

- a) cynllunio contractau/tendro
- b) gofynion cytundebol³⁷

³⁷ Mae'r rhain yn cynnwys Safon Merlin a gynlluniwyd i gydnabod a hybu rhagoriaeth gynaliadwy mewn cadwyni cyflenwi a chynnig canllawiau i'r rhai sy'n ceisio ei sicrhau. Mae'n seiliedig ar bedwar egwyddor sylfaenol ac integredig: cynllun cadwyn gyflenwi, ymrwymiad, ymddygiad ac adolygiad. Bwriadwyd i'r egwyddorion hyn archwilio meysydd allweddol o'r berthynas rhwng prif gontractwr a'i bartneriaid cadwyn gyflenwi. Datblygwyd Safon Merlin gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn wreiddiol. Mae gan nifer fawr o gyflenwyr achrediad Merlin eisoes ac mae'n ofynnol i bob prif gontractwr achrededig sicrhau bod pob is-gontractwr yn cydymffurfio â chod ymddygiad yr Adran Gwaith a Phensiynau. [Y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, **Ethical Standards for Providers of Public Services** – canllaw, Rhagfyr 2015]

- 4.18. Mae telerau ac amodau enghreifftiol o ran trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd a gwrth-lwgrwobrwyo a thwyll a llygredigaeth wedi eu datblygu eisoes ac maent wedi eu cynnwys yn nhelerau Contract Enghreifftiol Gwasanaeth Cyfreithiol Llywodraeth y DU. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi argymhell y dylid ysgrifennu gofyniad 'cyfrifyddu llyfr agored' i mewn i bob contract³⁸ er mwyn sicrhau tryloywder o ran gwasanaethau sy'n cael eu contractio allan. Dylai cwmnïau, mentrau cymdeithasol ac elusennau sy'n dymuno gwneud cais am gontractau gwasanaeth cyhoeddus sydd y tu hwnt i faint contract, trothwy gwerth a sensitifrwydd gwleidyddol a gytunwyd yn genedlaethol dderbyn yr amod neu beidio â gwneud y cais. Fodd bynnag, mae'n bwysig na ddylai tryloywder fod yn faich neu'n rhwystr i sefydliadau bach nac arwain at gostau anghymesur.
- 4.19. Ceir nifer o ddulliau anghytundebol hefyd y gall y sector cyhoeddus eu defnyddio i annog darparwyr gwasanaethau cyhoeddus i gydymffurfio â safonau uchel o ymddygiad. Mae'r rhain yn cynnwys:
- a) codau moesegol i ddarparwyr
 - b) safonau ar gyfer cadwyni cyflenwi ac asesiadau ohonynt
 - c) trefniadau 'siopwr cudd'
 - ch) dadansoddiad o gwynion defnyddwyr
 - d) perthynas effeithiol rhwng comisiynwyr a darparwyr
 - dd) proses o adnewyddu corfforaethol a datblygu 'dinesydd corfforaethol da'
 - e) cyhoeddiad agored o argaeledd contractau
- 4.20. Pa un a yw disgwyliadau llywodraethu sy'n adlewyrchu ethos y sector cyhoeddus yn cael eu mynegi fel egwyddorion neu fel rheolau, mae angen dulliau i'w hymsefydlu ym mhob comisiynydd a darparwr gwasanaethau cyhoeddus; i ddarparu safonau cydymffurfiaid a mesurau monitro. Ni ddylai'r rhain fod mor feichus eu bod yn ymyrryd yn ddiangen, yn cyfyngu arloesedd, yn lleihau effeithlonrwydd neu'n tanseilio cynaliadwyedd. Fodd bynnag, mae'n rhaid iddynt fod yn fframwaith sy'n cynnig eglurder gan groesawu amrywiaeth ac sy'n cefnogi atebolrwydd, yn cymhell gwelliant ac yn lliniaru risg gynhenid.

³⁸ Mae 'cyfrifyddu llyfr agored' yn cynnig yr un tryloywder i'r cyhoedd yng nghyswllt taliadau, perfformiad ac elw i wasanaethau a roddir ar gontract allanol ag y byddai'n wir pe bai'r gwasanaethau'n cael eu darparu'n 'fewnol' gan y sector cyhoeddus. [Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, **Open-book accounting and supply-chain assurance**, Mehefin 2015]

Annog yr ymddygiadau cywir

4.21. Bydd unrhyw system lywodraethu, pa un a yw'n seiliedig ar egwyddorion neu reolau, yn methu â bod yn effeithiol os bydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu yn anghyfarwydd â'r hyn a ddisgwylir ganddynt neu'n methu â rhoi sylw digonol i'r maes. Mae hyfforddiant, ymwybyddiaeth a chanllawiau eglur sydd ar gael yn rhwydd yn allweddol i gefnogi pawb sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus i wneud hynny mewn ffordd sy'n eu galluogi i gyflawni eu hamcanion a chydymffurfio â'r gwerthoedd a ddisgwylir ganddynt.

Atodiad 1

Egwyddorion Nolan

Yn ei **Bedwerydd Adroddiad ar Ddeg**, pwysleisiodd y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (2013) bod safonau ymddygiad yn bwysig ac yn arbennig o bwysig pan fo arian cyhoeddus yn cael ei wario ar wasanaethau cyhoeddus neu swyddogaethau cyhoeddus. Mae'r egwyddorion yn gyffredinol:

- **anhunanoldeb:** dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu er lles y cyhoedd yn unig.
- **uniondeb:** mae'n rhaid i ddeiliaid swyddi cyhoeddus osgoi rhoi eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth i bobl neu sefydliadau a allai geisio dylanwadu arnynt yn amhriodol yn eu gwaith. Ni ddylent weithredu na gwneud penderfyniadau er mwyn sicrhau manteision ariannol neu faterol eraill i'w hunain, eu teuluoedd na'u ffrindiau. Mae'n rhaid iddynt ddatgan a datrys unrhyw fuddiannau a chysylltiadau.
- **gwrthrychedd:** mae'n rhaid i ddeiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau yn ddiduedd, yn deg ac yn ôl teilyngdod, gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau a heb wahaniaethu neu ragfarnu.
- **atebolrwydd:** mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd a rhaid iddynt wneud eu hunain yn destun pa bynnag archwiliad sy'n addas i'w swydd.
- **bod yn agored:** dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau mewn ffordd agored a thryloyw. Ni ddylid cadw gwybodaeth yn ôl oddi wrth y cyhoedd oni bai fod rhesymau eglur a chyfreithlon am wneud hynny.
- **gonestrwydd:** dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod yn onest.
- **arweinyddiaeth:** dylai deiliaid swyddi cyhoeddus arddangos yr egwyddorion hyn yn eu hymddygiad eu hunain. Dylent hybu'r egwyddorion yn ymarferol a'u cefnogi'n gadarn a bod yn barod i herio ymddygiad gwael pan fydd yn digwydd.

Atodiad 2

Gwerthoedd ac ymddygiadau gwasanaeth cyhoeddus Cymru

Gwerthoedd ac ymddygiadau gwasanaeth cyhoeddus i Gymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno agenda uchelgeisiol i uno ymdrechion gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru gyda set gyffredin o werthoedd, gan ddod â chyfrifoldebau Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynghyd:

- ymddwyn gydag uniondeb, dangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith;
- sicrhau agwedd o fod yn agored ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid;
- diffinio canlyniadau o ran manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy;
- penderfynu ar yr ymyriadau sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y canlyniadau a fwriedir yn cael eu cyflawni cymaint â phosibl;
- datblygu capasiti'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion sy'n rhan ohono;
- rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheoli ariannol cyhoeddus cryf; a
- gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn darparu atebolrwydd effeithiol.

Egwyddorion caffael i Gymru

Mae **Datganiad Polisi Caffael Cymru**, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2015, yn nodi deg egwyddor ar gyfer caffael i holl sefydliadau 'sector cyhoeddus' Cymru:

- **strategol:** dylai gwaith caffael gael ei gydnabod a'i reoli fel swyddogaeth gorfforaethol strategol sy'n trefnu a deall gwariant; gan ddylanwadu ar y gwaith cynnar o gynllunio a threfnu gwasanaethau a chyfrannu at y broses benderfynu er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion cyffredinol.
- **adnoddau proffesiynol:** dylai gwariant caffael fod yn ddarostyngedig i lefel briodol o gyfraniad a dylanwad proffesiynol, gan fabwysiadu'r meincnod cychwynnol o un gweithiwr caffael proffesiynol o leiaf i bob £10 miliwn o wariant ar draws y sector cyhoeddus ehangach.
- **effaith economaidd, gymdeithasol ac amgylcheddol:** dylid ystyried Gwerth am Arian fel y cyfuniad gorau posibl o gostau oes gyfan o ran sicrhau arbedion a chanlyniadau o safon uchel ar gyfer y sefydliad, a hefyd dylai fod o fudd i gymdeithas a'r economi a'r amgylchedd yn awr ac yn y dyfodol.

- **manteision cymunedol:** rhaid i gyflawni budd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol trwy gymhwyso polisi Manteision Cymunedol yn effeithiol fod yn rhan annatod o waith caffael.
- **cystadleuaeth agored, hygyrch:** dylai cyrff cyhoeddus fabwysiadu dulliau caffael cymesur sy'n seiliedig ar risg i sicrhau bod cyfleoedd contract ar gael i bawb ac nad yw cyflenwyr lleol a llai o faint yn cael eu hatal rhag ennill contractau fel unigolion, fel rhan o gonsortia neu drwy swyddogaethau yn y gadwyn gyflenwi.
- **prosesau safonol syml:** dylai prosesau caffael fod yn agored a thryloyw ac yn seiliedig ar ddulliau safonol a dylent ddefnyddio systemau cyffredin sy'n lleihau cymhlethdod, cost, amserlenni a gofynion cyflenwyr mewn ffordd briodol.
- **cydweithredu:** dylid mynd i'r afael â meysydd o wariant cyffredin ar y cyd gan ddefnyddio dulliau a manylion safonol a reolir gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS) i leihau dyblygu, i gael yr ymateb gorau gan y farchnad, i wreiddio egwyddorion y Datganiad Polisi hwn er budd Cymru; ac i rannu adnoddau ac arbenigedd.
- **ymgysylltu â chyflenwyr ac arloesi:** dylid gwella deialog â chyflenwyr i helpu i gael y gorau o'r farchnad, i hysbysu ac addysgu cyflenwyr ac i sicrhau'r gwerth am arian gorau.
- **datblygu a gweithredu polisi:** defnyddio polisi sy'n cefnogi cyflawni'r saith nod llesiant ar gyfer Cymru fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015).
- **mesur ac effaith:** yn unol ag arferion rheoli da, dylid monitro perfformiad a chanlyniadau gwaith caffael i gefnogi gwelliannau parhaus a dylai enghreifftiau o arferion da a drwg gael eu rhannu'n agored.

Egwyddorion Llywodraethu sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd i Gymru

- rhoi'r dinesydd yn gyntaf: gwneud y dinesydd yn ganolog i bopeth a chanolbwyntio ar eu hanghenion a'u profiadau; sicrhau mai diben y sefydliad yw darparu gwasanaeth o ansawdd uchel.
- gwybod pwy sy'n gwneud beth a pham: gwneud yn siŵr bod pawb sy'n rhan o'r gadwyn gyflenwi yn deall swyddogaethau a chyfrifoldebau ei gilydd a sut y gallant ddarparu'r canlyniadau gorau posibl gyda'i gilydd.
- ymgysylltu ag eraill: gweithio mewn partneriaethau adeiladol i ddarparu'r canlyniad gorau i'r dinesydd.
- byw gwerthoedd sector cyhoeddus: bod yn sefydliad a ysgogir gan werth, wedi ei wreiddio yn Egwyddorion Nolan a gwerthoedd gwasanaeth Cyhoeddus Cymru. Safonau uchel o fywyd ac ymddygiad cyhoeddus, gan gynnwys bod yn agored, safonau gwasanaeth cwsmeriaid, amrywiaeth ac arweinyddiaeth wedi'i ymgysylltu.

- meithrin ddarpariaeth arloesol: bod yn greadigol ac yn arloesol yn y ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus – gweithio ar sail tystiolaeth a chymryd risgiau wedi'u rheoli i sicrhau canlyniadau gwell.
- bod yn sefydliad dysgu: dysgu bob amser a gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau bob amser.
- sicrhau gwerth am arian: gofalu am adnoddau trethdalwyr yn briodol, a'u defnyddio'n ofalus i ddarparu gwasanaethau effeithlon o ansawdd uchel.

Y GIG yng Nghymru – egwyddorion a gwerthoedd craidd

Mae **e-Lawlyfr Llywodraethu'r** GIG yn nodi nifer o werthoedd craidd ar gyfer y GIG yng Nghymru, sef:

- rhoi ansawdd a diogelwch uwchlaw popeth arall
- integreiddio gwelliant i weithio bob dydd
- canolbwyntio ar atal, gwella iechyd ac anghydraddoldeb
- gweithio mewn partneriaeth
- buddsoddi mewn staff

Bwriedir i'r gwerthoedd craidd hyn gefnogi llywodraethu da a sicrhau safonau uchel o ofal. Ochr yn ochr â'r rhain, datblygwyd codau ymddygiad penodol i aelodau bwrdd a rheolwyr GIG sy'n ymgorffori Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan). Hefyd, ceir polisiâu ar feysydd penodol, gan gynnwys chwythu'r chwiban a threfniadau cyfaddawdu a ddisgrifir yn Bod yn Agored a Chynnal Busnes.

Y GIG yng Nghymru – safonau ar gyfer gwasanaethau

Mae **Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well - Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru** yn cynnwys 26 o safonau sy'n cyflwyno'r gofynion o bob gwasanaeth ym mhob lleoliad yn y GIG yng Nghymru. Cyflwynwyd y safonau hyn yn 2010, gan ddisodli'r rhai blaenorol a lansiwyd yn 2005.

Mae'r fframwaith safonau wedi'i seilio ar ganllawiau ategol ar gyfer safonau unigol a chanllawiau ymarferol sy'n cynnig cyngor ar sut i'w gweithredu. Mae modiwl Llywodraethu ac Atebolrwydd yn cynnig fframwaith i fyrddau GIG fonitro perfformiad yn erbyn y safonau. Mae hyn ar ffurf hunanasesiad yn erbyn disgrifiadau matrics aeddfedrwydd yn bennaf.

Ar adeg paratoi'r ddogfen frifio hon, roedd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru.

Mae'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru ar gael ochr yn ochr â nifer o ddulliau eraill sy'n nodi'r hyn sy'n ofynnol wrth ddarparu gwasanaethau i gleifion. Mae'r rhain yn cynnwys cyfres o gynlluniau cyflawni ar gyfer cyflyrau penodol fel clefyd y galon, strôc, diabetes, iechyd anadlol ac iechyd llygaid ymhlith eraill. Yn nodweddiadol, mae'r cynlluniau hyn yn nodi'r camau allweddol y mae angen eu cymryd i wella canlyniadau

gofal iechyd i gleifion. Mae llawer o'r cynlluniau cyflawni hyn wedi disodli fframweithiau gwasanaeth cenedlaethol a ddatblygwyd yn flaenorol ar gyfer y cyflyrau hyn.

Llywodraethu yn y GIG yng Nghymru

Mae dulliau allweddol eraill ar gyfer cyflwyno gofynion gofal cleifion yn cynnwys:

- yr amrywiaeth o safonau a rheoliadau proffesiynol sy'n berthnasol i broffesiynau a gwasanaethau iechyd penodol.
- y canllaw **Hanfodion Gofal** a luniwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2003 ac sy'n cynnwys set o ddangosyddion sy'n trafod agweddau sylfaenol ar ansawdd sy'n bwysig i unrhyw un sy'n derbyn gofal iechyd neu gymdeithasol.
- safonau, canllawiau a chyingor y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal ar amrywiaeth eang o feysydd gwasanaeth iechyd a gofal yng Nghymru.
- fframwaith gwirfoddol yw'r Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau ar gyfer meddygon teulu sydd â'r nod o wobrwyo meddygon teulu am gyflawni arfer da. Rhoddir pwyntiau i feddygfeydd am gynnig tystiolaeth o arfer da gan gynnwys pedwar maes o ymarfer cyffredinol: clinigol, sefydliadol, profiad y claf a gwasanaethau ychwanegol.

Nodiadau:

- GIG Cymru, [e-Lawlyfr Llywodraethu: Codau Ymddygiad](#)
- GIG Cymru, [e-Lawlyfr Llywodraethu: Bod yn Agored a Chynnal Busnes](#)
- Llywodraeth Cymru, [Gwneud y Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru](#), 1 Ebrill 2010

Atodiad 3

Darllen pellach dethol

Adroddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru:

- **Cymunedau yn Gyntaf Plas Madoc**, Mawrth 2010
- **Rheoli Grantiau yng Nghymru**, Tachwedd 2011
- **Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen westy River Lodge, Llangollen**, Mehefin 2012
- **Cydberthynas Llywodraeth Cymru a Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan**, Hydref 2012
- **Arian cyhoeddus ar gyfer Fferm Bysgod Penmon**, Rhagfyr 2013
- **Arian Cyhoeddus ar gyfer Canolfan Cywain, Y Bala**, Ebrill 2014
- **Llywodraethu yn y GIG yng Nghymru**, Memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Ebrill 2015
- **Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio**, Gorffennaf 2015
- **Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2015**, Rhagfyr 2015
- **Sefydlu ac arolygu Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru**, Chwefror 2016
- **Datblygiad Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)**, Chwefror 2016

Adroddiadau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol:

- **Open-book Accounting and Supply-chain Assurance**, Mehefin 2015
- **Department's oversight of arm's length bodies: a comparative study**, Gorffennaf 2016

Adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol:

- Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Cyflogau Uwch-reolwyr**, Tachwedd 2014

Cyhoeddiadau a luniwyd neu a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru:

- Llywodraeth Cymru, **Datganiad Polisi Caffael Cymru**, 2015
- Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus [Comisiwn Williams], **Adroddiad Llawn**, Ionawr 2014
- Llywodraeth Cymru, **Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol: Canllawiau Statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**
- Llywodraeth Cymru, **Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru**, diweddarwyd ac ailgyhoeddwyd ym mis Chwefror 2016

Deunydd perthnasol arall:

- Yr Adran Iechyd, **Transforming care: A national response to Winterbourne View Hospital**, Rhagfyr 2012
- **Report of the Mid Staffordshire NHS Foundation Trust Public Inquiry** [Adroddiad Francis], Chwefror 2013
- Y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth/IFAC, **International Framework: Good Governance in the Public Sector**, 2014
- Y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, **Ethical Standards for Providers of Public Services – guidance**, Rhagfyr 2015
- Academi Wales, **Y Canllaw Llywodraethu Da: Gwneud yn dda, gwneud yn well**, Drafft, Ionawr 2016

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru